

DYSGU GYDOL OES  
LIFELONG LEARNING

# CWRS WL PAN

CWRS Y GOGLEDD

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



**PRIFYSGOL CYMRU BANGOR**

**CWRS WLPAN  
Y GOGLEDD**

**Elwyn Hughes**

# CYNNWYS - CONTENTS

## CYFLWYNIAD

Diolchiadau  
Nodiadau i'r tiwtor  
Nodiadau i'r dysgwr  
Cymorth cynta  
Sbec sydyn

## UNEDAU RHAGARWEINIOL

- A** Cyfarch, cyflwyno  
Rheolau ynganu
- B** Cynnig ac archebu diod  
Ynganu *u* ac *y*
- C** Blas ar y presennol a'r gorffennol  
Ynganu grwpiau o lafariaid
- CH** Blas ar y tywydd a'r amser  
Brawddegau defnyddiol i'r dysgwr

## UNEDAU

### *Braslun o'r cynnwys*

### *Enghraifft/Example*

- 1** Amser presennol  
Person 1af/2ail
- 2** Amser presennol  
Person 1af/2ail
- 3** Amser presennol  
Person 1af/2ail
- 4** Amser gorffennol  
Person 1af/2ail
- 5** Meddiant  
Person 1af/2ail
- 6** Amser presennol  
3ydd person (cadarnhaol)
- 7** Amser presennol  
3ydd person (cwestiwn)
- 8** Meddiannol  
2ail berson
- 9** Amser presennol  
3ydd person (negyddol)

*dw i / dach chi*

*dw i / dach chi*

*wyt ti / dan ni*

*mi wnes i*

*mae gen i*

*mae o/hi*

*ydy o/hi*

*eich / dy*

*dydy*

## INTRODUCTION

Acknowledgements 4  
Tutor's notes 5  
Learner's notes 6  
Survival kit 9  
Quick reference 10

## PRELIMINARY UNITS

Greeting, introductions  
Rules of pronunciation 11

Offering and ordering drinks  
Pronunciation of *u* and *y* 15

Present and past tense taster  
Pronunciation of vowels 19

Weather and time taster  
Useful phrases for learners 25

## UNITS

### *Broad content*

Present tense 29  
1st/2nd person (I live)

Present tense 35  
1st/2nd person (I like)

Present tense 41  
1st/2nd person (are you?)

Past tense 47  
1st/2nd person (I played)

Possession 53  
1st/2nd person (I have got)

Present tense 59  
3rd person (positive: it is)

Present tense 65  
3rd person (question: is it?)

Possessive 71  
2nd person (your)

Present tense 77  
3rd person (negative: it isn't)

10	Meddiant/salwch 3ydd person	<i>gynno fo/gynni hi</i>	Possession/illness 3rd person (He has got)	83
11	<b>Adolygu ac ymestyn</b> Manylion personol, hoffter, anghenion		<b>Revision and extension</b> Personal details, likes, needs	89
12	Amser amherffaith 3ydd person	<i>roedd o/hi</i>	Imperfect tense 3rd person (It was)	97
13	Amser amherffaith Person 1af/2ail	<i>rôn i</i>	Imperfect tense 1st/2nd person (I was)	103
14	Amser amherffaith Lluosog / Teimladau	<i>roedden ni/nhw</i>	Imperfect tense Plural / Emotions (I liked)	109
15	Amser gorffennol 3ydd person	<i>mi wnaeth o/hi</i>	Past tense 3rd person (She worked)	115
16	<b>Adolygu ac ymestyn</b> Digwyddiadau yn y gorffennol Amser gorffennol <i>mynd</i>		<b>Revision and extension</b> Events in the past Past tense of <i>mynd</i> (I went)	121
17	Amhenodol	<i>mae 'na</i>	Indefinite (there is)	125
18	Gorfodaeth	<i>rhaid</i>	Compulsion (must / have to)	133
19	Cwestiynau / Cymalau	<i>sy</i>	Questions / Clauses (who is / who are)	139
20	Gorchmynion / Gofyn ffafr (20A: chi 20B: ti)	<i>codwch / coda wnewch chi</i>	Commands / Asking favours (Don't / Will you?)	145
21	Amser perffaith	<i>wedi</i>	Perfect tense (I have finished)	155
22	Meddiannol Person 1af	<i>fy nghar i</i>	Possessive 1st person (my)	161
23	Meddiannol 3ydd person (+ni)	<i>ei / ei / eu / ein</i>	Possessive (+ our) 3rd person (his / her / their)	167
24	Amser dyfodol Person 1af/2ail	<i>mi fydda i</i>	Future tense 1st/2nd person (I will be)	173
25	Amser dyfodol 3ydd person	<i>mi fydd o/hi</i>	Future tense 3rd person (it will be)	179
26	<b>Adolygu ac ymestyn</b> Dyfodol, Gorchmynion, Darllen		<b>Revision and extension</b> Future, Commands, Reading	185
27	<b>Adolygu ac ymestyn</b> Amser, Arian, Sieciau/Ffurflenni		<b>Revision and extension</b> Time, Money, Cheques/Forms	189
28	Cymalau	<i>bod</i>	Clauses (I think that it is)	197

29	Ansoddeiriau	<i>pa mor</i>	Adjectives (How big)	203
30	Cymharu ansoddeiriau	<i>oerach</i>	Comparison of adjectives (colder)	211
31	Cymharu ansoddeiriau	<i>oera</i>	Comparison of adjectives (coldest)	217
32	Amser amodol	<i>mi faswn i</i>	Conditional tense (I would)	223
33	Amser amodol	<i>taswn i</i>	Conditional tense (if I could)	229
34	<b>Adolygu ac ymestyn</b> Atebion		<b>Revision and extension</b> Answers: Yes / No	235
35	Amser gorffennol <i>cael</i>	<i>mi ges i</i>	Past tense of <i>cael</i> (I had)	241
36	Goddefol	<i>mi ges i fy ngeni</i>	Passive (I was born)	247
37	Gorffennol cryno Person 1af/2ail	<i>mi gysges i</i>	Concise past tense 1st/2nd person (I slept)	253
38	Gorffennol cryno 3ydd person	<i>mi gysgodd o/hi</i>	Concise past tense 3rd person (he slept)	259
39	Arddodiaid: <i>at / wrth</i>	<i>ata i / wrtha i</i>	Prepositions: <i>at / wrth</i> (She wrote to me)	265
40	Arddodiaid: <i>am / ar</i>	<i>arna i / amdana i</i>	Prepositions: <i>am / ar</i> (She's waiting for me)	271
41	Dyletswydd	<i>mi ddylwn i</i>	Duty (I ought to)	279
42	<i>Cyn / ar ôl</i>	<i>cyn i mi fynd</i>	Before and after (Before I go)	285
43	Amser dyfodol <i>neud</i>	<i>mi wna i</i>	Future tense of <i>neud</i> (I will)	291
44	Meddiannol efo berfau	<i>dw i'n dy garu di</i>	Possessive with infinitives (I love you)	297

## ATODIADAU

1	Gramadeg
2	Sgript yr Opera Sebon
3	Geirfa Cymraeg - Saesneg
4	Geirfa Saesneg - Cymraeg

## APPENDICES

Grammar	303
Soap Opera Script	319
Welsh - English Vocabulary	365
English - Welsh Vocabulary	379

## DIOLCH ARBENNIG:

- ▶ i Mona Jones am y gwaith teipio
- ▶ i Gareth Roberts am y lluniau gwreiddiol
- ▶ i WISS am eu gwaith ar y clawr a'r eirfa
- ▶ i Sara Davies am ddarllen y proflenni
- ▶ i Wasg Dwyfor am drefnu'r gwaith argraffu
- ▶ i Bev Jones, Stiwdio Pandy, Pentraeth, am y gwaith recordio
- ▶ i Glenys Garland am ei help efo'r tapiau
- ▶ i gast yr Opera Sebon:

Siôn:	Dafydd Roberts
Annie:	Shan Wright
Llinos:	Karen Owen
Beryl:	Heledd Lewis Owen
Nia:	Sara Jones
Barmêd – Mrs. Jones – Gwen:	Meri Rhiannon Ellis
Dafydd – Gruff – Plismon:	Gwynfor Roberts
Gareth – Mr. Springbottom – Dr. Snip	Gareth Jones
- ▶ i Steve Eaves am gerddoriaeth yr Opera Sebon, o'r gân *Moderato fel Sinatro* ar y caset *Sbectol Dywyll* gan Steve Eaves a'i Driawd, Stiwdio Les
- ▶ i bawb dw i wedi dwyn lluniau a syniadau oddi wrthyn nhw
- ▶ i ddosbarth Wlpan Porthaethwy 1997-98 a'm cyd-diwtor ar y cwrs hwnnw, Sioned Huws, am frwydro trwy'r fersiwn gynta o'r unedau newydd, ac i'r tiwtoriaid a'r dosbarthiadau sy wedi treialu'r fersiynau dilynol
- ▶ i'r holl diwtoriaid a dysgwyr ar gyrsiau Wlpan Gogledd Cymru am eu cefnogaeth a'u hymroddiad

**Elwyn Hughes**  
**Haf 1999**

## **Nodiadau i'r tiwtor**

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys:           4 uned ragarweiniol  
  39 o unedau cwrs  
  5 o unedau adolygu ac ymestyn

### **UNEDAU RHAGARWEINIOL**

Pwrpas yr unedau rhagarweiniol ydy rhoi ychydig o frawddegau sylfaenol i'r dysgwyr, fel eu bod yn medru defnyddio'r Gymraeg ar lefel syml o'r cychwyn cyntaf. Dim ond cyffwrdd â'r prif batrymau byddwn ni yma; byddant yn cael eu dysgu'n llawn yng nghorff y cwrs. Mae eisiau rhoi sylw manwl i'r ynganu yn ystod yr unedau hyn.

### **UNEDAU CWRS**

Rhennir pob uned yn bump adran:

#### **Adran A**

Y patrymau a'r eirfa newydd i'w dysgu. Ymarfer y patrymau ydy'r nod, gan weithio llawer mewn parau wrth eu dysgu, yn hytrach na'u dadansoddi'n ramadegol. Wedi dweud hynny, mae'r is-adran Patrymau yn crynhoi'r rheolau i'r rhai sy'n dymuno cael arweiniad o'r fath.

#### **Adran B**

Lluniau ac ymarferion i'w trafod gan ddefnyddio'r patrymau sy newydd eu dysgu. Yn aml, mae mwy nag un set o luniau, fel eich bod yn medru troi at y lluniau ar ôl cwblhau rhan o Adran A. Dylech fynd trwy'r lluniau efo'r dosbarth gynta, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall beth i'w wneud, cyn eu rhoi i weithio mewn parau.

#### **Adran C**

Deialog sy'n rhoi'r patrymau newydd mewn cyd-destun. Gan fod y deialog ar dâp, manteisiwech ar y cyfle i ddod â lleisiau newydd i'r dosbarth. Rhowch sawl cyfle i'r dysgwyr wrando, gan ofyn iddynt wrando am elfennau penodol. Yna ymarfer y ddeialog mewn parau.

#### **Adran CH**

Mae'r opera sebon sy'n rhedeg trwy'r cwrs yn rhoi cyfle ychwanegol i'r dysgwyr feithrin eu sgiliau gwrando a deall ac hefyd, gobeithio, yn cynnig tipyn o adloniant ysgafn. Dilyn rhediad y stori ydy'r nod, yn hytrach na cheisio deall pob gair. Mae'r cwestiynau wedi'u gosod mewn 'haenau', gan annog y dysgwyr i chwilio am wybodaeth benodol bob tro ac i ddeall ychydig bach mwy ar bob gwrandawriad yn hytrach na cheisio deall y cyfan yn syth.

#### **Adran D**

Gwaith cartref i roi cyfle i'r dysgwyr roi ar bapur yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu ar lafar yn y dosbarth. Cofiwch roi sylw i'r gwaith hwn yn y dosbarth nesa er mwyn dangos mor bwysig ydyw.

### **UNEDAU ADOLYGU AC YMESTYN**

Pwrpas yr unedau hyn ydy adolygu prif batrymau'r grŵp blaenorol o unedau ac ymestyn geirfa i'w defnyddio o fewn y patrymau hynny. Mae'r tasgau sy wedi'u hymgorffori o fewn yr unedau hyn yn galluogi'r dysgwyr i ennill credydau Rhwydwaith y Coleg Agored.

## Notes for Students

This course is aimed at getting you to **speak** Welsh, through constant practice of the basic patterns of conversational North-Walian Welsh. The course aims to be structured and thorough, but don't expect to remember everything. The patterns recur constantly, both in this book and in all our follow-up courses. Humour also figures strongly, to help you to enjoy the learning experience.

The course includes:           4 preliminary units  
                                      39 course units  
                                      5 revision and extension units

### PRELIMINARY UNITS

These units will give you some very basic everyday phrases so that you can start using your Welsh immediately. The language patterns themselves are merely brushed over and will be developed in full in the course units. There is also a lot of important work on pronunciation in these units.

### COURSE UNITS

Each unit is divided into five sections:

#### **Adran A**

The new patterns and vocabulary to be learnt. New patterns will be absorbed through repetition and pair-work rather than through grammatical analysis. However, there is a sub-section in each Adran A outlining the grammatical rules for those who find such information helpful.

#### **Adran B**

Pictures and exercises for work in pairs to practise the new patterns.

#### **Adran C**

A short dialogue putting the new pattern into context. Useful as listening comprehension and for practice in pairs.

#### **Adran CH**

A soap opera runs through the whole course, to give further scope for developing listening skills and, hopefully, to provide some light entertainment. You should listen several times, and work at getting the gist rather than trying to understand every word. The questions are graded in such a way that you can glean a little more information each time you listen.

#### **Adran D**

The homework is there to repeat and consolidate the material learnt during the class. The classes will have been devoted to oral work, so writing the same phrases down will help to reinforce the learning process.

### REVISION AND EXTENSION UNITS

These units will revise the main patterns of the previous block of units as well as introducing more vocabulary that can be used with those patterns. The tasks and activities that form part of these units will enable you to gain Open College Network credits as a record of your progress.



# HITCH-HIKER'S GUIDE TO LEARNING *CYMRAEG*

trwy garedigrwydd Emyr Davies, Coleg y Drindod, Caerfyrddin  
*courtesy of Emyr Davies, Trinity College, Carmarthen*

1. Don't panic
2. It is definitely not like learning languages at school. Expect to participate, play games and make a fool of yourself.
3. Grammar. The course is structured but not presented in a grammatical way. Assume that the tutor knows nothing about grammar: he/she won't expect you to. Anyway, you've come to learn to speak Welsh, not to talk about it.
4. How to annoy your tutor and your fellow-learners: ask questions about grammar.
5. As the course progresses, the tutor will be using less and less English. Refer back to Point 1.
6. Remembering, or rather, **not** remembering. Forgetting is normal. They say that you have to hear something at least 70 times before you start to remember it. Learning a language is a constant process of hearing, forgetting, being reminded, remembering and forgetting again. Don't worry: things will stick eventually.
7. Frustrations. Experienced learners talk about 'bridges' and 'plateaux'. This has nothing to do with geography, but that learners go through alternating periods of sinking/going backwards and of feeling on top of things. It's normal.
8. Don't expect too much too soon. Having mustered enough courage to talk to a native, don't feel discouraged if they answer in an incomprehensible torrent (refer to Point 1) or if they answer you in English to relieve your stress. Keep trying.
9. Say everything that you can say in Welsh in Welsh. It is important to think in terms of what you **can** say rather than what you **would like** to say. If this means adapting your lifestyle so that you only do the things that you can talk about, so be it.
10. Make the most of every opportunity to practise. Pair work is there to help you learn the patterns, not to give you time to exchange the latest gossip in English.
11. Dialect. The course teaches local words and phrases. Rumours that Hwntws/South Walians/Tibetans and the people of Caernarfon speak a completely different language are untrue. Be prepared for slight variations though.
12. Treigladau. Otherwise known as 'mutilations'. Learners find these strange at first but they will gradually come naturally, just because they sound right rather than because you've learnt all the rules. Welsh could change a tomato into 'domato' 'nhomato' and 'thomato' long before anyone heard of genetically modified food.

13. English words in Welsh. Welsh speakers borrow many words from English. You can do the same when you get stuck: throw in an English word, then carry on with your Welsh sentence. Learners tend to be a bit disparaging of borrowings, but just you try to speak English without using any words stolen from French or Latin.
14. Comprehension (listening or reading). You won't be in a position to understand everything in an authentic chunk of language for a long while. Get used to picking out words here and there, recognising the odd borrowed word (refer to Point 13) and guessing, to get the gist of what's being said. Ignore the unintelligible bits.
15. Absenteeism. The whole aim of doing an intensive course is to get through the material quickly. If you miss classes, you will feel left behind. Use the tapes and Patrymau to keep in touch. Missing a series of classes does not mean that you have to drop out however: patterns recur throughout the course.
16. Look after your fellow victims: if someone's absent, ask your tutor for work-sheets and/or give them a ring - it could avoid dropping out. Frustrations shared are often lessened.
17. Find someone to practise with. Spouses, children and neighbours do have their uses: the family pet often makes a sympathetic listener. Talking out loud to yourself can also be very useful.
18. Essentially, the tutor can't *teach* you anything. This does not necessarily mean that he/she can't do his/her job, but that progress is directly linked to the commitment and application of the individual learner and how much he or she uses Welsh outside the classroom walls.

**CYMORTH CYNTAF**  
*Survival Kit*

Mac'n ddrwg gen i	:	I'm sorry
Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr	:	I'm sorry I'm late
Esgusodwch fi	:	Excuse me
Ga' i fynd yn gynnar heddiw	:	May I go early today?
Dw i ddim yn medru dwad dydd Mercher	:	I can't come on Wednesday
Mae gen i broblem	:	I've got a problem
Dw i ddim yn dallt hwn	:	I don't understand this
Dôn i ddim yn dallt hwn	:	I didn't understand this
Dw i ddim yn cofio	:	I don't remember
Dw i wedi anghofio	:	I have forgotten
Be' ydy _____ yn Saesneg?	:	What is _____ in English?
Sut dach chi'n deud _____ yn Gymraeg?	:	How do you say _____ in Welsh?
Wnewch chi siarad yn arafach, plis?	:	Will you speak more slowly, please?
Wnewch chi ddeud hynna eto, plis?	:	Will you say that again please?
Sut dach chi'n sillafu hynna?	:	How do you spell that?
Be' ydy'r gwahaniaeth rhwng _____ a _____?	:	What is the difference between _____ and _____?
Ydy hi'n amser coffi eto?	:	Is it coffee-time yet?
Wela i chi dydd Llun	:	I'll see you on Monday
Be'?	:	What?
Help!	:	Help!

**SBEC SYDYN** *Quick reference*

**TABL TREIGLADAU** *Table of mutations*

	<b>Treigladd Meddal</b> Soft Mutation	<b>Treigladd Trwynol</b> Nasal Mutation	<b>Treigladd Llaes</b> Aspirate Mutation
<b>t</b>	<b>d</b>	<b>nh</b>	<b>th</b>
<b>c</b>	<b>g</b>	<b>ngh</b>	<b>ch</b>
<b>p</b>	<b>b</b>	<b>mh</b>	<b>ph</b>
<b>d</b>	<b>dd</b>	<b>n</b>	
<b>g</b>	<b>-</b>	<b>ng</b>	
<b>b</b>	<b>f</b>	<b>m</b>	
<b>m</b>	<b>f</b>		
<b>ll</b>	<b>l</b>		
<b>rh</b>	<b>r</b>		

**DYDDIAU'R WYTHNOS**

*Days of the week*

**Dydd Sul**

**Dydd Llun**

**Dydd Mawrth**

**Dydd Mercher**

**Dydd Iau**

**Dydd Gwener**

**Dydd Sadwrn**

**MISOEDD**

*Months*

**Ionawr**

**Chwefror**

**Mawrth**

**Ebrill**

**Mai**

**Mehefin**

**Gorffennaf**

**Awst**

**Medi**

**Hydref**

**Tachwedd**

**Rhagfyr**

# UNED RAGARWEINIOL A

## PRELIMINARY UNIT A

### Deialog

- A. S' mae?  
 B. Helo, s'mae? Sut dach chi heddiw/heno?
- A. Iawn diolch. Sut dach chi?  
 B. Iawn.
- A. Chris dw i.  
 B. Ceri dw i.
- A. Dw i'n byw yn Llandudno.  
 B. Dw i'n byw yn Llanrwst.
- A. Dw i'n dysgu Cymraeg.  
 B. Dw i'n dysgu Cymraeg hefyd.
- A. Parot dw i.  
 B. Parot dw i hefyd.
- A. Ta ra rwan.  
 B. Hwyl



### Geirfa - Vocabulary

byw	-	to live	<u>hwyl</u>	-	bye
<u>Cymraeg</u>	-	Welsh (language)	iawn	-	fine, O.K.
diolch	-	thanks	rwan	-	now
dysgu	-	to learn (+ to teach)	S'mae?	-	Hi!
heddiw	-	today	sut	-	how
hefyd	-	also	yn	-	in
heno	-	tonight			

N.B. Feminine words are underlined

### Patrymau - Patterns

Dw i'n byw	-	<i>I live, I am living</i>
Dw i'n dysgu	-	<i>I learn, I am learning</i>
..... dw i	-	<i>I am .....</i>
Pat dw i	-	<i>I am Pat</i>
Ficer dw i	-	<i>I am a vicar</i>

## Ynganu - *Pronunciation*

a	-	tad, mam	ll	-	lle
b	-	mab	m	-	mis
c	-	ci	n	-	nos
ch	-	chi	o	-	do, bol
d	-	da	p	-	pen
dd	-	dda	ph	-	phen
e	-	de, del	r	-	car
f	-	fi	rh	-	rhos
ff	-	ffi	s	-	sâl, siop
g	-	gan	t	-	te
ng	-	ing	th	-	beth
h	-	hi	u	-	du, pump
i	-	ci, cinio	w	-	sŵn, pwddin
(j	-	jam)	y	-	dyn, llyn
l	-	dal			dynion, Cymru
					hynny, ysbyty
			(ond:		fy, dy, y, yr, yn)

Rhaid ymarfer y llafariaid :  
*Practise your vowels:*

da	-	<i>good</i>
de	-	<i>south</i>
do	-	<i>yes</i>
du	-	<i>black</i>
dy	-	<i>your</i>

### D.S. (N.B.)

"ch", "ff", etc. count as single letters.

In a Welsh dictionary "chwarae" will come later than "cysgu".

In a Welsh crossword "rhwng" will fit into three squares.

**Taflen waith - Work sheet**

1. **Ffindiwch y brawddegau yma yn y ddeialog.**  
*Find these sentences in the dialogue.*

I live in Llandudno.

---

How are you today?

---

I am Ceri

---

Fine, thanks

---

I am learning Welsh

---

I am a parrot

---

2. **Cyfieithwch - Translate**

I am Jo

---

I am an actor

---

I live in Amlwch

---

I am learning Esperanto

---

How are you tonight?

---

3. **Dudwch dair brawddeg amdanoch chi eich hun.**  
*Say three sentences about yourself.*

---

---

---





# UNED RAGARWEINIOL B

## PRELIMINARY UNIT B

### Deialog

#### 1. yn y caffï

A. S'mae? Sut dach chi heddiw?

B. Iawn diolch

A. Be' dach chi isio i yfed?

B. Ga' i banad o de, plîs?

A. Dach chi isio cacen?

B. Mmm, oes plîs

A. (wrth y gweinydd) Ga' i un te, un coffi a deg éclair, os gwelwch chi'n dda?  
(to the waiter)

#### 2. yn y dafarn

A. S'mae? Sut dach chi heno?

B. Iawn diolch.

A. Be' dach chi isio i yfed?

B. Ga' i beint o lager, plîs?

A. Dach chi isio leim?

B. Dim diolch

A. (wrth y barman) Ga' i beint o lager a hanner o lemonêd, os gwelwch chi'n dda?

#### 3. yn y tŷ

A. Dach chi isio panad?

B. Oes plîs.

A. Te 'ta coffi?

B. Panad o goffi, plîs. Diolch yn fawr.

A. Dach chi isio llefrith a siwgr?

B. Tipyn bach o lefrith a chwech siwgr.

A. Dyma chi. Dach chi isio bisgeden?

B. Dim diolch. Dw i'n slimio.



## Geirfa

a/ac	-	and
bach	-	small, little
be' (< beth)	-	what
<u>bisgeden</u>	-	biscuit
<u>cacen</u>	-	cake
dim diolch	-	no thanks
diolch yn fawr	-	thank you very much
dyma chi	-	here you are
hanner	-	half
isio (< eisiau)	-	to want
llefrith	-	milk
os gwelwch chi'n dda)	-	please
plîs )		
<u>panad</u>	-	cuppa
siwgr	-	sugar
<u>tafarn</u> (> y dafarn)	-	pub
'ta	-	or
te	-	tea
tipyn bach	-	a little bit
y	-	the
yfed	-	to drink

N.B.

Feminine nouns are underlined

1	un	6	chwech
2	dau	7	saith
3	tri	8	wyth
4	pedwar	9	naw
5	pump	10	deg

## Patrymau

Dach chi isio.....? Oes - *Do you want .....? Yes*

Ga' i .....? - *May I have ..... ?*

Panad > Ga' i hanad

Peint > Ga' i heint

Te > Panad o de

Coffi > Panad o goffi

Llefrith > Tipyn bach o llefrith

Un éclair

Chwech éclair

Un lager

Pedwar lager

*(Singular after a number)*

## Ynganu

1. Ymarfer "u" (ac "y" efo'r un sain )  
*Practise "u" ( and "y" with the same sound)*

### Hir / Long

du            dyn  
drud        cryf  
pur         Llŷn  
un          tŷ

### Byr / Short

llyn        pump        gwely  
hyn        hapus       plentyn  
byr        munud      menyn  
gwyn      plannu      melys

2. Ymarfer "y" (fel "under")

dynion	dysgu	fy
Cymru	cysgod	dy
tybed	syndod	yn
trydan	symud	y
prysur	cymylog	yr

3. Ymarfer y ddwy sain  
*Practice both sounds*

ynys	hynny
mynydd	yfory
dyffryn	sydyn
tyddyn	ysbyty

## Taflen waith

### 1. Ffindiwch y brawddegau yma yn y ddeialog.

*Find these sentences in the dialogue.*

What do you want to drink? \_\_\_\_\_

May I have one tea? \_\_\_\_\_

Do you want a cuppa? \_\_\_\_\_

How are you tonight? \_\_\_\_\_

Can I have a half of lemonade, please? \_\_\_\_\_

Do you want milk and sugar? \_\_\_\_\_

### 2. Cyfieithwch - Translate

Can I have a half of lager, please? \_\_\_\_\_

Can I have six éclairs? \_\_\_\_\_

Do you want sugar? \_\_\_\_\_

No milk, a little bit of sugar \_\_\_\_\_

### 3. Be' mae B yn ddeud?

*What does B say?*

A. S'mae? Sut dach chi heddiw?

B. \_\_\_\_\_

A. Dach chi isio panad?

B. \_\_\_\_\_

A. Te 'ta coffi?

B. \_\_\_\_\_

A. Dach chi isio llefrith a siwgr?

B. \_\_\_\_\_

A. Dach chi isio cacen?

B. \_\_\_\_\_

## UNED RAGARWEINIOL C

### PRELIMINARY UNIT C

Dydd Sul	mynd i'r capel		Nos Sul	ffonio ffrind yn Amlwch
Dydd Llun	siopa yn Kwiks		Nos Lun	mynd i'r dafarn
Dydd Mawrth	chwarae tenis		Nos Fawrth	ffonio ffrind yn Wrecsam
Dydd Mercher	mynd i'r parc		Nos Fercher	chwarae dominos
Dydd Iau	siopa yn Harrod's		Nos Iau	mynd i'r sinema
Dydd Gwener	chwarae croquet		Nos Wener	ffonio ffrind yn Awstralia
Dydd Sadwrn	siopa yn B & Q		Nos Sadwrn	mynd i'r clwb

#### Edrych ymlaen - Looking forward

- A. Dw i'n siopa dydd Llun.
- B. Dw i'n siopa dydd Sadwrn
- A. Dw i'n chwarae tenis dydd Mawrth
- B. Dw i'n chwarae dominos nos Fercher
- A. Dw i'n mynd i'r capel dydd Sul
- B. Dw i'n mynd i'r capel dydd Sul hefyd
- A. Dw i'n mynd i'r clwb nos Sadwrn
- B. Dw i'n mynd i'r clwb nos Sadwrn hefyd
- A. Yr Octagon?
- B. Na, y clwb Darby a Joan

## Edrych yn ôl - Looking back


- A. *Mi* wnes i siopa yn Kwiks dydd Llun.  
B. O? *Mi* wnes i siopa yn Harrod's dydd Iau.
- A. *Mi* wnes i ffonio ffrind yn Amlwch nos Sul  
B. O? *Mi* wnes i ffonio ffrind yn Awstralia nos Wener
- A. *Mi* wnes i chwarae dominos nos Fercher  
B. O? *Mi* wnes i chwarae croquet dydd Gwener
- A. *Mi* wnes i fynd i'r dafarn nos Lun  
B. O? *Mi* wnes i fynd i'r clwb golff nos Sadwrn
- A. Jo dw i.  
B. O? Josephine Blenkinsop-Smythe dw i



\* *Mi* is often omitted in speech

## Edrych yn ôl ac ymlaen

- A. *Mi* wnes i fynd i'r parc ddoe  
B. *Mi* wnes i fynd i'r dosbarth Cymraeg ddoe.
- A. Dw i'n ffonio ffrind heno  
B. Dw i'n mynd i'r dosbarth Cymraeg heno
- A. Dw i'n chwarae dominos yfory  
B. Dw i'n mynd i'r dosbarth Cymraeg yfory.
- A. Swot!



Be' ydy .....?                      *What is* .....

Be' ydy "to play" yn Gymraeg?

Be' ydy "yfory" yn Saesneg?

Be' ydy "ddoe" yn Saesneg?

Be' ydy "car" yn Gymraeg?

Be' ydy "coffee-time" yn Gymraeg?

Chwarae

Tomorrow

Yesterday

Car

Amser coffi

## Geirfa

chwarae	-	to play
dosbarth	-	class
dydd	-	day
ddoe	-	yesterday
ffrind	-	friend
ffonio	-	to phone
i'r	-	to the
mynd	-	to go
<u>nos</u>	-	night
Saesneg	-	English
siopa	-	to shop
y / yr	-	the
yfory	-	tomorrow
yn Gymraeg	-	in Welsh

N.B.

Feminine words are underlined

## Patrymau

Dw i'n mynd	-	I'm going, I go
Dw i'n siopa	-	I'm shopping, I shop

Mi wnes i ffonio	-	I phoned	( <i>Mi</i> is often omitted in speech)
Mi wnes i chwarae	-	I played	

Mynd > mi wnes i fynd

the	=	<i>y + consonant</i>	y car
		<i>yr + vowel</i>	yr Octagon
		<i>'r after vowel</i>	i'r clwb

## Ynganu

Llafariaid efo'i gilydd - Vowels together

cae	gair	dau	awr
paent	tai	paun	cawl
	(basai)	(pethau)	

beic	neu	tew	uwd
peint	neuadd	Dewi	byw

## Taflen waith

1. **Ffindiwch y brawddegau yma:**  
*Find these sentences:*

I'm going to the club on Saturday night \_\_\_\_\_

I went to the park yesterday \_\_\_\_\_

I'm playing dominos tomorrow \_\_\_\_\_

I phoned a friend in Australia on  
Friday night. \_\_\_\_\_

I'm going to the Welsh class tonight \_\_\_\_\_

2. **Cyfieithwch - Translate**

I'm playing badminton on Friday \_\_\_\_\_

I phoned Radio Cymru yesterday \_\_\_\_\_

I'm shopping in Llandudno on Monday \_\_\_\_\_

I went to the theatre on Thursday night \_\_\_\_\_

I'm going to the yoga class on Thursday \_\_\_\_\_



3. **Dudwch be' wnaethoch chi \*** *Say what you did \**

- a) nos Sadwrn *a) last Saturday night*
- b) dydd Sul *b) last Sunday*

**Dudwch be' dach chi'n neud\*** *Say what you're doing\**

- c) nos Wener *c) next Friday night*
- ch) dydd Sadwrn *ch) next Saturday*

a) \_\_\_\_\_

b) \_\_\_\_\_

c) \_\_\_\_\_

ch) \_\_\_\_\_

*\* mewn Cymraeg cyfarwydd, dim ots am y gwir!  
use only Welsh you know, forget about the truth!*

4. **Gofynnwch y cwestiwn iawn** *Ask the appropriate question*

- e.e. Be' ydy "mynd" yn Saesneg? *to go*
- Be' ydy "now" yn Gymraeg? *rwan*
- \_\_\_\_\_ *a class*
- \_\_\_\_\_ *also*
- \_\_\_\_\_ *how*
- \_\_\_\_\_ *to learn*
- \_\_\_\_\_ *heddiw*
- \_\_\_\_\_ *llefrith*
- \_\_\_\_\_ *dydd Gwener*
- \_\_\_\_\_ *hanner*



**UNED RAGARWEINIOL CH**  
**PRELIMINARY UNIT CH**

A. Bore da / P'nawn da. Sut dach chi heddiw?

B. Iawn diolch. Sut dach chi?

A. Iawn diolch. Mae'n braf.

B. Ydy, tydy. Mae'n fendigedig.

\* \* \* \* \*

A. Noswaith dda. Sut dach chi heno?

B. Ofnadwy.



A. Mae'n oer.

B. Ydy. Mae'n ofnadwy.

A. Sut mae'r teulu?

B. Ofnadwy.




A. Sut mae'r gwaith?

B. Ofnadwy.

A. Sut mae'r dosbarth Cymraeg yn mynd?

B. Bendigedig.



## S4C

12.00	Newyddion Hanner Dydd
1.00	Sali Mali
2.00	Home and Away
3.00	Oprah Winfrey
4.00	Columbo
5.00	Countdown
6.00	Heno
7.00	Pobl y Cwm
8.00	Siôn a Siân
9.00	Newyddion Naw
10.00	Sgorio
11.00	Brookside
12.00	Ffilm

Pryd mae Sali Mali?

Un o'r gloch

Pryd mae Newyddion Naw?

Naw o'r gloch

Pryd mae Brookside?

Un ar ddeg o'r gloch

Pryd mae'r ffilm?

Deuddeg o'r gloch / Hanner nos

\*\*\*\*\*

A. Pryd mae'r bws yn mynd o fama?

B. Mae'n ddrwg gen i.

A. Pryd mae'r bws yn mynd o fama?

B. Esgusodwch fi, dw i ddim yn dallt.

A. Pryd mae'r bws yn mynd o fama?

B. Dw i'n dysgu Cymraeg. Eto, yn araf, os gwelwch chi'n dda.

A. (yn araf) Pryd mae'r bws yn mynd o fama?

B. 'Be' ydy "o fama" yn Saesneg?

A. "From here"

B. A! Dw i'n dallt rwan! Dau o'r.....Wps!

(Mae'r bws yn pasio)



## Geirfa

araf	-	slow
bendigedig	-	wonderful
bore da	-	good morning
braf	-	fine
dallt	-	to understand
deuddeg	-	twelve
esgusodwch fi	-	excuse me
eto	-	again
gwaith	-	work
mae'n ddrwg gen i	-	I'm sorry
newyddion	-	news
noswaith dda	-	good evening
oer	-	cold
ofnadwy	-	awful
o'r gloch	-	o'clock
p'nawn da (< prynhawn da)	-	good afternoon
pryd	-	when
teulu	-	family
tydy?	-	isn't it?
un ar ddeg	-	eleven

## Patrymau

Mae'n braf	-	It's fine
Mae'n oer	-	It's cold
Mae'n fendigedig	-	It's wonderful
Mae'n ofnadwy	-	It's awful

**Ydy** (pronounced 'yndy')

Yes, it is

Sut mae'r teulu?	-	How is the family?
Pryd mae'r bws?	-	When is the bus?

Dw i'n dallt	-	I understand
Dw i ddim yn dallt	-	I don't understand

## Ynganu

Dudwch y geiriau **Cymraeg** yma:  
*Say these **Welsh** words:*

barn	campus	dull	march	tail
blew	call	faint	murmur	torch
blinder	cell	haul	offer	toes
bore	dawn	her	person	toll
brain	draw	hurt	pump	union

# Taflen waith

1. **Ffindiwch y brawddegau yma:**  
*Find these sentences:*

When is Brookside? \_\_\_\_\_

How's the family? \_\_\_\_\_

It's wonderful \_\_\_\_\_

When is the bus? \_\_\_\_\_

How is the Welsh class going? \_\_\_\_\_

Excuse me, I don't understand \_\_\_\_\_

2. **Cyfieithwch - Translate**

How is the work going? \_\_\_\_\_

When is the class? \_\_\_\_\_

It's cold, isn't it? \_\_\_\_\_

I don't understand Pobl y Cwm \_\_\_\_\_

3. **Ail-ysgrifennwch y ddeialog yma, gan newid yr elfennau sy wedi'u tanlinellu.**  
*Rewrite this dialogue, changing the underlined elements.*

A. Bore da. Sut dach chi heddiw? A. \_\_\_\_\_

B. Iawn diolch. Mae'n braf. B. \_\_\_\_\_

A. Ydy, tydy? Mae'n fendigedig. A. \_\_\_\_\_

B. Sut mae'r gwaith yn mynd? B. \_\_\_\_\_

A. Iawn. A. \_\_\_\_\_

B. Sut mae'r dosbarth yoga? B. \_\_\_\_\_

A. Ofnadwy. A. \_\_\_\_\_

B. Pryd mae'r dosbarth? B. \_\_\_\_\_

A. Chwech o'r gloch. A. \_\_\_\_\_

# UNED 1

(Un)

## ADRAN A      *Section A*

Sut dach chi heddiw?

Da iawn, diolch  
Go lew  
Wedi blino  
Ofnadwy

Pwy dach chi?  
Ceri dach chi?

Ceri dw i  
Ia

Lle dach chi'n byw?

Dw i'n byw yn Abergele

O le dach chi'n dwad?

Dw i'n dwad o Aberdeen

Be' dach chi'n neud?

Postmon dw i  
Dw i'n gweithio yn y tŷ  
Dw i'n ddi-waith  
Dw i wedi ymddeol

### Geirfa

### *Vocabulary*

da iawn	-	very good, very well	lle	-	where
di-waith	-	unemployed	neud (< gwneud)	-	to do, to make
dwad (<dod)	-	to come	o (+T.M.)	-	from
efo	-	with	pwyl	-	who
ers	-	since	tŷ	-	house
ers talwm	-	a long time ago, this long time	wedi blino	-	tired
go lew	-	so - so	wedi ymddeol	-	retired
gweithio	-	to work	wrth gwrs	-	of course
Lerpwl	-	Liverpool			
Llundain	-	London			
Manceinion	-	Manchester			

T.M. = Treigladd Meddal (Soft Mutation)

## Patrymau      *Patterns*

Pwy dach chi?	-	Who are you?	
Ceri dach chi?	-	Are you Ceri?	(Yes = Ia)
Be' dach chi'n neud?	-	What do you do? (or "What are you doing?")	
Lle dach chi'n byw?	-	Where do you live?	
O le dach chi'n dwad?	-	Where do you come from? (lit. From where do you come?)	
Ceri dw i	-	I am Ceri	
Postmon dw i	-	I am a postman	
Dw i'n byw yn .....	-	I live in .....	
Dw i'n gweithio yn .....	-	I work in .....	
Dw i'n dwad o .....	-	I come from .....	

'n < yn, used to "glue" the sentence together; it has no meaning

Describing words mutate after 'n, doing words don't:

Dw i'n **ddi**-waith      Dw i'n **dwad**

'n is not required with **wedi**:

Dw i wedi blino

## Treigladau      -      *Mutations*

In theory, there should be a nasal mutation after **yn** ("in") and a soft mutation after **o** ("from")

Torremolinos	yn <b>N</b> horremolinos	o <b>D</b> orremolinos
Dinbych	yn <b>N</b> inbych	o <b>D</b> dinbych
Porthmadog	ym <b>M</b> horthmadog	o <b>B</b> orthmadog
Bangor	ym <b>M</b> angor	o <b>F</b> angor
Caernarfon	yng <b>N</b> ghaernarfon	o <b>G</b> aernarfon
Gwynedd	yng <b>N</b> gwynedd	o <b>_</b> Wynedd
Manceinion		o <b>F</b> anceinion
Llundain		o <b>L</b> undain
Rhosneigr		o <b>R</b> osneigr

In practice, Welsh speakers often do not mutate place-names, so don't worry!



ADRAN B



Dewiswch un elfen o bob cylch ac atebwch gwestiynau eich partner:  
Choose one element from each circle and answer your partner's questions:

- Pwy dach chi?
- Lle dach chi'n byw?
- O le dach chi'n dwad?
- Be' dach chi'n 'neud?

**ADRAN C: Deialog**

*Aduniad yr ysgol / School reunion: Dosbarth 1909*

- A. Helo. Ceri Williams, ia?  
B. Ia.
- A. Sut dach chi?  
B. Iawn diolch. Esgusodwch fi, ond pwy dach chi?
- A. Eryl Davies dw i.  
B. Wrth gwrs! Sut dach chi ers talwm?
- A. *Champion* diolch. Sut dach chi?  
B. Da iawn diolch. Be' dach chi'n 'neud rwan?
- A. Dw i wedi ymddeol ers 1959. A chi?  
B. Dw i'n gweithio yn Heathrow. Peilot dw i



## ADRAN CH: Opera Sebon

- Gwrandewch ar Bennod 1 yr Opera Sebon sawl gwaith  
*Listen to Episode 1 of the Soap Opera several times*

**Y tro cynta:** Pa enwau dach chi'n eu clywed?  
*The first time:* *Which names do you hear?*

Gwenda	Nerys	Llinos	Rhiannon
Gareth	Siôn	Dafydd	Llywelyn

**Yr ail dro:** Pa rifau dach chi'n eu clywed?  
*The second time:* *Which numbers do you hear?*

**Y trydydd tro:** Pa ymadroddion amser dach chi'n eu clywed?  
*The third time:* *Which expressions of time do you hear?*  
(e.g. \_\_\_\_ o'r gloch, p'nawn yfory, etc.)

**Y pedwerydd tro:** Gwrandewch am y geiriau a'r ymadroddion yma:  
*The fourth time:* *Listen out for these words and phrases:*

ga' i'ch helpu chi?	can I help you?
newydd	new
dechrau	to start
croeso	welcome
wela i chi	I'll see you
pawb	everybody

**Y pumed tro:** Atebwch yn Gymraeg:  
*The fifth time:* *Answer in Welsh:*

Where is the soap opera set? \_\_\_\_\_

What is Siôn's new job? \_\_\_\_\_

When does he start? \_\_\_\_\_

Where is everyone going tonight? \_\_\_\_\_

What's happening to Dafydd? \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Ffindiwch y brawddegau yma:**  
*Find these sentences:*

I work in the house

\_\_\_\_\_

Where do you come from?

\_\_\_\_\_

I'm unemployed

\_\_\_\_\_

Who are you?

\_\_\_\_\_

I'm a postman

\_\_\_\_\_

What do you do?

\_\_\_\_\_

2. **Cyfieithwch - Translate**

I come from America

\_\_\_\_\_

I work in the bank

\_\_\_\_\_

I'm a doctor

\_\_\_\_\_

What are you doing tonight?

\_\_\_\_\_

Where do you work?

\_\_\_\_\_

What am I doing?

\_\_\_\_\_

3. **Atebwch - Answer**

Pwy dach chi?

\_\_\_\_\_

Lle dach chi'n byw?

\_\_\_\_\_

O le dach chi'n dwad?

\_\_\_\_\_

Be' dach chi'n neud?

\_\_\_\_\_

Sut dach chi heddiw?

\_\_\_\_\_

## UNED 2

(Dau)

### ADRAN A

Lle dach chi'n byw?	Dw i'n byw	yn Llandudno mewn fflat
Lle dach chi'n gweithio?	Dw i'n gweithio	yn Wrecsam mewn swyddfa i Sealink i'r Cyngor
	Dw i ddim yn gweithio	
Efo pwy dach chi'n byw?	Dw i'n byw	efo'r teulu
Efo pwy dach chi'n gweithio?	Dw i'n gweithio	ar ben fy hun
Efo pwy dach chi'n chwarae golff?	Dw i'n chwarae	efo ffrindiau
Efo pwy dach chi'n siarad Cymraeg?	Dw i'n siarad	efo'r ci efo'r cariad
Lle dach chi'n mynd ar wyliau?	Dw i'n mynd	i Istanbul ar y trên
Sut dach chi'n mynd?		yfory
Pryd dach chi'n mynd?		efo ffrindiau
Efo pwy dach chi'n mynd?		
	Dw i ddim yn mynd ar wyliau	
Dw i'n licio Porthmadog yn fawr smwddio cyri 'r gwaith	Dw i ddim yn licio	Scunthorpe o gwbl siopa macaroni 'r dosbarth

### Geirfa

ar (+T.M.)	-	on	mawr	-	big
ar ben fy hun (dudwch <i>ar ben yn hun</i> )	-	by myself, on my own	yn fawr	-	very much
cariad	-	boyfriend/girlfriend/love	mewn	-	in a
ci	-	dog	o gwbl	-	at all
cyngor	-	council	siarad (efo)	-	to speak, to talk (to)
ffrindiau	-	friends	smwddio	-	to iron
gwyliau	-	holiday	<u>swyddfa</u>	-	office
licio / hoffi	-	to like	ysbyty	-	hospital
			<u>ysgol</u>	-	school

T.M. = Treigladd Meddal (Soft Mutation)

N.B. Feminine words are underlined

## Patrymau

1.      Lle dach chi'n byw?                    -      Where do you live?  
          Efo pwy dach chi'n byw?           -      Who do you live with?
- Lle dach chi'n mynd?                   -      Where are you going?  
          Sut dach chi'n mynd?                   -      How are you going?  
          Pryd dach chi'n mynd?                   -      When are you going?  
          Efo pwy dach chi'n mynd?           -      Who are you going with?
2.      Dw i'n licio                                    -      I like  
          Dw i ddim yn licio                    -      I don't like  
          Dw i'n mynd                                -      I'm going  
          Dw i ddim yn mynd                    -      I'm not going

D.S. (N.B.)      "**Dw i ddim**" is often pronounced "**Dwim**", e.e. (e.g.)

          Dw i ddim yn licio                    >      Dwim yn licio  
          Dw i ddim yn chwarae               >      Dwim yn chwarae

3.      **yn** Llandudno                            in + placename            =      yn  
          **yn** y tŷ                                    in + the                      =      yn  
          **mewn** swyddfa                        in + a                         =      mewn

## ADRAN B

### 1. Atebwch gwestiynau eich partner:

*Answer your partner's questions:*

Lle dach chi'n mynd ar wyliau?

Sut dach chi'n mynd?

Pryd dach chi'n mynd?

Efo pwy dach chi'n mynd?

LLE?	SUT?	PRYD?	EFO PWY?
Blackpool	yn y car	dydd Sadwrn	efo'r teulu
Ffrainc	ar y trê'n	yfory	efo'r ci
Aberystwyth	ar y beic	dydd Sul	ar ben fy hun
Pwllheli	ar y bws	dydd Gwener	efo ffrindiau
Lerpwl	ar y fferi	dydd Mawrth	efo Gerry
America	ar Concorde	nos Iau	efo'r bos

### 2. Dudwch wrth eich partner be' dach chi'n licio'n fawr a be' dach chi ddim yn licio o gwbl:

*Tell your partner what you like very much and what you don't like at all:*

Llandudno	cyri	coffi	Cliff Richard
Bangor	pasta	lemonêd	Cilla Black
Y Rhyl	jeli	wisgi	Tom Jones
Manceinion	bananas	martini	Shirley Bassey
Porthmadog	siocled	llefrith	Coronation St.
Llundain	sprows	coca-cola	Match of the Day
Lerpwl	twrci	lager	Y Financial Times
Caer (Chester)	porc	tomato	Y Sunday Sport

**ADRAN C: Deialog**

A. Lle dach chi'n byw?

B. Dw i'n byw yn Llandudno

A. Efo pwy dach chi'n byw?

B. Efo'r teulu.

A. Lle dach chi'n gweithio?

B. Dw i'n gweithio mewn busnes teulu yn Llandudno

A. Efo pwy dach chi'n gweithio?

B. Efo'r teulu.

A. Lle dach chi'n mynd ar wyliau?

B. Dw i'n mynd i'r Rhyl

A. Efo pwy dach chi'n mynd?

B. Efo'r teulu

---



## ADRAN CH: Opera Sebon

1.	A ta B?	A	B
	Pa noson ydy hi? <i>Which evening is it?</i>	Nos Wener	Nos Sadwrn
	Be' mae Siôn yn yfed? <i>What does Siôn drink?</i>	Peint	Hanner peint
	Yn lle pwy mae Siôn? <i>Who is Siôn replacing?</i>	Dafydd	Gareth
	Be' sy wedi digwydd iddo fo? <i>What has happened to him?</i>	Wedi ymddeol	Wedi symud ( <i>moved</i> )
	Pam mae o'n gadael? <i>Why is he leaving?</i>	Problemau ar y ward	Problemau teulu
	Be' mae'r barmêd yn feddwl o Llinos? <i>What is the barmaid's opinion of Llinos?</i>	Hogan neis	Hogan ofnadwy
	Be' mae Llinos isio i yfed? <i>What does Llinos want to drink?</i>	Fodca	Wisgi

### 2. Gwrandewch am: *Listen out for:*

cwrw	-	<i>beer</i>
chwerw	-	<i>bitter</i>
bechod	-	<i>pity, shame</i>
hogan	-	<i>girl</i>
cymryd	-	<i>to take</i>

### 3. Atebwch: *Answer:*

- Why is Siôn worried by
- a) Dafydd's retirement
  - b) Llinos' drink order

**ADRAN D:      Taflen waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma:  
Find these sentences:**

I work for the council \_\_\_\_\_

I talk to the dog \_\_\_\_\_

Who do you work with? \_\_\_\_\_

Where are you going on holiday? \_\_\_\_\_

I don't like the class \_\_\_\_\_

I like ironing very much \_\_\_\_\_

**2.      Cyfieithwch - Translate**

I'm going on the bus \_\_\_\_\_

I work in a hospital \_\_\_\_\_

Where do you shop? \_\_\_\_\_

Who do you play with? \_\_\_\_\_

I don't like milk \_\_\_\_\_

I like living by myself \_\_\_\_\_

**3.      Atebwch - Answer**

Lle dach chi'n byw? \_\_\_\_\_

Efo pwy dach chi'n byw? \_\_\_\_\_

Lle dach chi'n gweithio? \_\_\_\_\_

Lle dach chi'n siopa? \_\_\_\_\_

*Say what you like very much* \_\_\_\_\_

*Say what you don't like at all* \_\_\_\_\_

## UNED 3

(Tri)

### ADRAN A

Sut dach chi?	>	Sut <b>wyt ti</b> ?	Iawn diolch.
Lle dach chi'n byw?	>	Lle <b>wyt ti</b> 'n byw?	Ym Mangor
O le dach chi'n dwad?	>	O le <b>wyt ti</b> 'n dwad?	O Lerpwl
Be' dach chi'n neud heno?	>	Be' <b>wyt ti</b> 'n neud heno?	Aros adra
Dach chi isio panad?	>	<b>Wyt ti</b> isio panad? (> Tisio)	Oes, plis
Be' dach chi isio i yfed?	>	Be' <b>wyt ti</b> isio i yfed? (>tisio)	Peint o lager, plis

---

O le wyt ti'n dwad yn wreiddiol?	A. B.	Dw i'n dwad o San Fransisco Dw i'n dwad o Hong Kong
Lle dach chi'n byw rwan?	A. a B.	Dan ni'n byw yn Llanerchymedd
Lle wyt ti'n gweithio?	A. B.	Dw i'n gweithio mewn casino Dw i'n gweithio mewn banc
Be' dach chi'n neud?	A. a B.	Dan ni'n rhedeg busnes preifat
Be' wyt ti'n licio neud?	A. B.	Dw i'n licio nofio efo dolffins Dw i'n licio dringo yn yr Himalayas
Be' dach chi'n neud heno?	A. a B.	Dan ni'n aros adra i smwddio

---

Wyt ti'n Dach chi'n	iawn?	Ydw, diolch	(Ydan)
Wyt ti'n Dach chi'n	mynd allan heno?	Ydw / Nac ydw / Ella	(Ydan/Nac ydan)
Wyt ti'n Dach chi'n	chwarae golff? edrych ar "Pobl y Cwm"? mynd i'r sinema? smocio?	Ydw / Nac ydw / Weithiau	(Ydan/Nac ydan)
Wyt ti'n Dach chi'n	medru mynd heno? dwad yfory? nofio? siarad Cymraeg?	Ydw / Nac ydw	(Ydan/Nac ydan)
Wyt ti Dach chi	isio lifft? aros? mynd adra? diod?	Oes plis / Dim diolch	
		Dw i Dw i ddim	isio mynd aros bwyd diod

## Geirfa

adra	-	at home	<u>gardd</u>	-	garden
allan	-	out	yr <u>ardd</u>	-	the garden
aros	-	to stay; to wait	llun (-iau)	-	picture (-s)
bechod	-	pity	medru	-	to be able to, can
bwyd	-	food	neis	-	nice
(isio bwyd	-	hungry)	nofio	-	to swim
canu	-	to sing	rhedeg	-	to run
<u>diod</u>	-	a drink	teledu	-	television
dringo	-	to climb	weithiau	-	sometimes
edrych ar	-	to look at	yma	-	here
ella	-	perhaps	yn wreiddiol	-	originally

## Patrymau

Dw i = I am, I do  
Dan ni = We are, we do

Wyt ti = Are you, do you (singular familiar)  
Dach chi = Are you, do you, (singular courteous, all plurals)

Wyt ti?/ Dach chi? > **Ydw** (pronounced "yndw") = yes, I am; yes I do  
**Nac ydw** = no, I am not; no, I don't

## Pwyntiau ychwanegol - Additional points.

1. Dach chi? (plural) > **Ydan** (pronounced "yndan") = yes, we are  
**Nac ydan** = no, we aren't
2. **Isio** is an exception in two ways:
  - a) no "yn" before isio - dw i isio  
dach chi isio?
  - b) the "yes/no" to "isio" questions is "Oes / Nac oes"
3. "Dw i ddim isio" is often pronounced "Dwim isio".
4. **Medru** = to be able to  
dw i'n medru nofio = I can swim  
dach chi'n medru mynd = can you go?  
dw i ddim yn medru edrych = I can't look

---

## ADRAN B

1. Sticiwch bin yn y map  
ac atebwch gwestiwn eich partner:  
*Stick a pin in the map  
and answer your partner's question:*

**O le dach chi'n dwad?**

Ar ôl tipyn, atebwch ar ran  
eich teulu, h.y. "dan ni'n dwad ....."  
*After a while, answer on behalf  
of your family, i.e. "we come from ....."*



2. Dewiswch un o'r enwau. Chi ydy'r person yna. Atebwch gwestiynau eich partner:  
Choose one of the names. You are that person. Answer your partner's questions:

Be' dach chi'n neud heddiw / heno / yfory?

Ar ôl tipyn, mi fydd eich partner yn eich galw chi'n "ti", e.e. "Be' wyt ti'n neud?"  
After a while, your partner will start calling you "ti".

	HEDDIW	HENO	YFORY
HUW			
GWEN			
MAIR			
ELWYN			
EMYR			

3. Cynigiwch bethau i'ch partner, gan ddefnyddio "chi" i ddechrau yna "ti", e.e.:  
Make your partner some offers, using "chi" to begin with, then "ti", e.g.

Dach chi isio gêm o golff?  
'Tisio panad?



**ADRAN C:        Deialog**

- A.     Helo, sut wyt ti? Wyt ti isio panad?
- B.     Dim diolch. Dw i ddim yn aros. Dw i'n mynd allan mewn munud.
- A.     Lle wyt ti'n mynd?
- B.     I'r theatr yn Llandudno.
- A.     Efo pwy?
- B.     Efo Ceri. Dan ni'n mynd i'r opera.
- A.     Neis iawn.
- B.     Wyt ti isio dwad?
- A.     Fi? I'r opera? Dim diolch. Dw i'n mynd i'r clwb efo Jo heno. Dan ni'n canu *karaoke*.
- B.     Bechod!

---

**ADRAN CH:     Opera Sebon**

1.     **Faint o weithiau dach chi'n clywed y canlynol:**  
*How many times do you hear the following:*

dw i'n dechrau gweithio	-	<i>I start working .....</i>
lwcus iawn	-	<i>very lucky .....</i>
wela i chi	-	<i>I'll see you .....</i>

2.     **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

trio	-	<i>to try</i>	mewn munud	-	<i>in a minute</i>
wrth y bar	-	<i>by the bar</i>	adra	-	<i>home</i>
diod arall	-	<i>another drink</i>	wedyn	-	<i>afterwards</i>
tŷ bach	-	<i>toilet</i>			

3.     **Annie dach chi. Atebwch y cwestiynau yma:**  
*You are Annie. Answer these questions:*

Dach chi'n gweithio ar ward pump? \_\_\_\_\_

Dach chi'n licio gweithio ar ward pump? \_\_\_\_\_

Dach chi isio diod arall? \_\_\_\_\_

Pryd dach chi'n dechrau gweithio bore yfory? \_\_\_\_\_

**ADRAN D:      Taflen waith**

1.    **Newidiwch y brawddegau yma o "i" i "ni"**  
*Change these sentences from "I" to "we"*

Dw i'n byw ym Mangor \_\_\_\_\_

Dw i'n gweithio mewn banc \_\_\_\_\_

Dw i'n aros adra \_\_\_\_\_

Dw i'n rhedeg busnes \_\_\_\_\_

2.    **Newidiwch y cwestiynau yma o "chi" i "ti"**

Dach chi'n mynd allan heno? \_\_\_\_\_

Be' dach chi'n neud yfory? \_\_\_\_\_

Dach chi isio gêm o golff? \_\_\_\_\_

O le dach chi'n dwad? \_\_\_\_\_

3.    **Atebwch y cwestiynau yma:**  
*Answer these questions:*

Be' dach chi'n licio neud? \_\_\_\_\_

Be' dach chi'n neud heno? \_\_\_\_\_

Be' dach chi isio? \_\_\_\_\_

Be' dach chi ddim isio? \_\_\_\_\_

4.    **Atebwch y cwestiynau yma:**

Wyt ti'n smocio? \_\_\_\_\_

Wyt ti isio panad? \_\_\_\_\_

Wyt ti'n licio chwarae golff? \_\_\_\_\_

Wyt ti'n mynd allan nos Sadwrn? \_\_\_\_\_



## UNED 4 (Pedwar)

### ADRAN A

<i>Mi wnes i</i>	edrych ar y teledu aros adra nofio smwddio siopa chwarae dominos ffonio'r teulu siarad Cymraeg	neithiwr ddoe bore ddoe p'nawn ddoe nos Sul wythnos diwetha
------------------	---	--

<b>peintio</b> <b>tal</b> <b>cerdded</b>	<i>Mi wnes i</i>	<b>beintio</b> <b>dal</b> <b>gerdded</b>	( p > b ) ( t > d ) ( c > g )
--	------------------	--	-------------------------------------

<b>bwyta</b> <b>dwad</b> <b>gweithio</b>		<b>fwyta</b> brecwast <b>ddwad</b> i'r dosbarth _weithio yn yr ardd	( b > f ) ( d > dd ) ( g > - )
--	--	---	--------------------------------------

<b>mynd</b> <b>llenwi</b> <b>rhedeg</b>		<b>fynd</b> am dro <b>lenwi</b> 'r tanc <b>redeg</b>	( m > f ) ( ll > l ) ( rh > r )
---	--	--	---------------------------------------

Be' wnest ti Be' wnaethoch chi	dydd Sadwrn?	<i>Mi wnes i</i>	nofio yn y bore redeg yn y p'nawn gysgu yn y nos
-----------------------------------	--------------	------------------	--

Efo pwy wnest ti fynd ar wyliau? Lle wnaethoch chi fynd? Lle wnaethoch chi aros? Sut wnaethoch chi fynd? Be' wnaethoch chi?	<i>Mi wnes i</i> fynd efo ffrind. <i>Mi wnaethon</i> ni fynd i Lanberis. <i>Mi wnaethon</i> ni aros mewn pabell. <i>Mi wnaethon</i> ni fynd yn y car. <i>Mi wnaethon</i> ni ddringo.
---	--

Wnest ti Wnaethoch chi	dalur bil? ffonio'r banc? llenwi'r tanc? smwddio?	Naddo, wnes i ddim cofio
---------------------------	--	--------------------------

Wnest ti Wnaethoch chi	fynd i'r swyddfa? fynd i'r dafarn? fynd i'r caffi? fynd i'r gwely?	Do, ond wnes i ddim gweithio yfed bwyta cysgu
---------------------------	---	--

## Geirfa

brecwast	-	breakfast	llenwi	-	to fill
bwyta	-	to eat	mynd am dro	-	to go for a walk
(dudwch "buta")			ond	-	but
cael	-	to have, to get	neithiwr	-	last night
cerdded	-	to walk	pa	-	which
cofio	-	to remember	<u>pabell</u>	-	tent
cysgu	-	to sleep	peintio	-	to paint
darllen	-	to read	talw	-	to pay
diwetha	-	last	wedyn	-	afterwards
<u>hwyl</u>	-	fun	<u>wythnos</u>	-	week
llawer	-	a lot			

N.B. Feminine nouns are underlined

## Patrymau

<i>Amser gorffennol</i>	-	<i>Past tense</i>	< <i>gwneud (neud)</i>	-	<i>to do</i>
Mi wnes i	-	I did	(Mi at start of positive statement)		
Mi wnaethon ni	-	We did			
Wnes i ddim	-	I didn't	(No <b>mi</b> in negative)		
Wnaethon ni ddim	-	We didn't			
Mi wnes i fwyta	-	I ate			
Wnes i ddim bwyta	-	I didn't eat			
Wnest ti?	-	Did you?	(No <b>mi</b> in question)		
Wnaethoch chi?	-				
<b>Do / Naddo</b>	-	<b>Yes / No</b>			
Lle wnest ti aros?	-	Where did you stay?			
Sut wnaethoch chi fynd?	-	How did you go?			
Be' wnest ti?	-	What did you do?	("to do" is part of <b>wnest ti/</b>		
Be' wnaethoch chi?	-	<b>wnaethoch chi</b> )			

N.B. In speech: a) **mi** is often omitted, even in positive statements  
 b) **wnaethon/wnaethoch** are often pronounced **nathon/nathoch**

*Treigladd Meddal* - *Soft Mutation*

<b>t</b>	>	<b>d</b>	<b>d</b>	>	<b>dd</b>	<b>m</b>	>	<b>f</b>
<b>c</b>	>	<b>g</b>	<b>g</b>	>	-	<b>ll</b>	>	<b>l</b>
<b>p</b>	>	<b>b</b>	<b>b</b>	>	<b>f</b>	<b>rh</b>	>	<b>r</b>

First word after person mutates:

Mi wnes i **g**ysgu  
 Wnes i **dd**im cysgu  
 Be' wnaethoch chi **f**wyta  
 Mi wnaethoch chi **dd**ringo  
 Wnest ti **d**alu

# ADRAN B

1. Gweithiuch trwy'r lluniau efo'ch partner  
*Work through the pictures with your partner*

Be' wnaethoch chi neithiwr / ddoe / dydd Sul?

Ar ôl tipyn, atebwch efo "mi wnaethon ni" yn lle "mi wnes i"  
*After a while, answer using "we" instead of "I"*

2. Dyfalwch ar ba lun mae eich partner yn edrych:  
*Guess which picture your partner is looking at:*

Wnaethoch chi smwddio ddoe?

Do / Naddo

Ar ôl tipyn, newidiwch y cwestiwn i "wnest ti"  
*After a while, change the question from "chi" to "ti"*



**ADRAN C: Deialog**

A. Be' wnest ti neithiwr?

B. Dim llawer.

A. Wnest ti fynd allan?

B. Do.

A. Efo pwy?

B. Chris

A. Be' wnaethoch chi?

B. Dim llawer.

A. Wnaethoch chi fynd i'r pictiwrs?

B. Do

A. Be' wnaethoch chi weld?

B. Ffilm

A. Pa ffilm?

B. Dw i ddim yn cofio

A. Be' wnaethoch chi wedyn?

B. Dim llawer.

A. Wnaethoch chi gael hwyl?

B. Naddo, dim llawer.

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. **Mae llawer o eiriau benthyg yn y bennod yma. Rhestrwch nhw.**  
*There are many borrowed words in this episode. List them:*

e.e. parti  
neis  
sticio

2. **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

dw i'n dallt	-	<i>I understand</i>
mwynhau	-	<i>to enjoy</i>
cysgu	-	<i>to sleep</i>
peth	-	<i>thing</i>
saith deg oed	-	<i>seventy years old</i>
annifyr	-	<i>unpleasant, miserable</i>
wythnos	-	<i>week</i>

3. **Pa rifau dach chi'n eu clywed?**  
*Which numbers do you hear?*

4. a) **Yn ôl Siôn, be' mae person yn ei wneud ar ôl ymddeol fel arfer?**  
*According to Siôn, what are the usual activities of a retired person?*

---

---

- b) **Be' ydy llysenw Annie Williams?**  
*What is Annie Williams' nickname?*

---

- c) **Pam wnaeth Dafydd gael y sac?**  
*Why was Dafydd sacked?*

---

- ch) **Am faint o amser wnaeth Dafydd weithio ar ward pump?**  
*For how long did Dafydd work on ward five?*

---

**ADRAN D:        Taflen waith**

1.     **Ffindiwch y brawddegau yma:**

I phoned the family last night

\_\_\_\_\_

I ate breakfast

\_\_\_\_\_

What did you do on Saturday? (ti)

\_\_\_\_\_

We stayed in a tent

\_\_\_\_\_

Did you pay the bill? (chi)

\_\_\_\_\_

I didn't sleep

\_\_\_\_\_

Where did you go? (ti)

\_\_\_\_\_

What did you do? (chi)

\_\_\_\_\_

2.     **Cyfieithwch:**

I didn't speak Welsh yesterday

\_\_\_\_\_

I worked in the house

\_\_\_\_\_

We went to the cinema

\_\_\_\_\_

Did you sleep last night?

\_\_\_\_\_

I didn't go on holiday

\_\_\_\_\_

What did you eat?

\_\_\_\_\_

We had fun

\_\_\_\_\_

I didn't drink a lot

\_\_\_\_\_

3.     **Atebwch:**

Be' wnaethoch chi ddoe?

\_\_\_\_\_

Wnaethoch chi fynd allan neithiwr?

\_\_\_\_\_

Lle wnaethoch chi fynd ar wyliau?

\_\_\_\_\_

Wnaethoch chi gael hwyl?

\_\_\_\_\_

4.     **Ysgrifennwch rai brawddegau am be' wnaethoch chi dros y penwythnos**  
*Write a few sentences about what you did last weekend*

## UNED 5 (Pump)

### ADRAN A

Mae gen i ffrind yn America.  
Mae gen i deulu yn Siberia

Mae gen i	gi gath fyji	<b>Mae gen i sw!</b>
-----------	--------------------	----------------------

Mae gen i Mae gynnon ni	un hogyn un hogan ddau hogyn ddwy hogan bump o blant	<b>Mae gen i sw!</b>
----------------------------	--	----------------------

Sgen ti Sgynnoch chi	anifeiliaid? blant? amser? bres?	Oes Oes Nac oes Nac oes
-------------------------	---	----------------------------------

Faint o	anifeiliaid blant amser bres	Sgen ti? sgynnoch chi?
		Deg Deg Dim Dim

	Sgen i ddim ffrindiau
	Sgen i ddim gwaith
	Sgen i ddim car
	Sgen i ddim pres
<i>ond</i>	Sgen i ddim problem!

### Geirfa

amser	-	time	faint (o)	-	how much, how many
anifeiliaid	-	animals	<u>hogan</u>	-	girl
brawd	-	brother	hogyn	-	boy
<u>cath</u>	-	cat	plant	-	children
<u>Cymru</u>	-	Wales	pres	-	money
<u>chwaer</u>	-	sister			

## Patrymau

### Meddiant - Possession

Mae gen i	-	<i>I have got</i>
Mae gynnon ni	-	<i>We have got</i>
Oes gen ti?	-	<i>Have you got?</i>
Oes gynnoch chi?		
Does gen i ddim	-	<i>I haven't got</i>
Does gynnon ni ddim	-	<i>We haven't got</i>
Faint o _____ sy gen ti?	-	<i>How much / How many _____ have you got?</i>
		<i>sy gynnoch chi?</i>

"Oes", "Sy" and "Does" are all contracted to "s" in speech  
You will hear "**Gen i**" said in several ways, e.g. "gin i", "gynna i"

### Treigladd Meddal - Soft Mutation

1. First word after person (subject) mutates.

Mae gen <b>i</b> <i>b</i> res	Mae gynnon <b>ni</b> <i>b</i> res
Sgen <b>ti</b> <i>b</i> res	Sgen <b>i</b> <i>ddim</i> pres
Sgynnoch <b>chi</b> <i>b</i> res	Sgynnon <b>ni</b> <i>ddim</i> pres

2. Mutation after "o" (= of/from)

faint o **b**res  
dw i'n dwad o **L**undain

### Rhifau - Numbers

1. Three numbers have feminine forms:

dau	>	dwy
tri	>	tair
pedwar	>	pedair

Everything in Welsh is either masculine or feminine, and there is no easy way of knowing which gender any noun happens to be.

2. Numbers are followed either directly by a singular noun, or by "o" + plural noun (with soft mutation)

three problems = tair problem **or** tair o broblemau

In general, the number + singular is much the more common, but "... o blant" is more usual than "... plentyn".

3. "Dau/Dwy" are followed by a soft mutation:

Dau **g**ar                      Dwy **g**ath

Numbers higher than two do not usually cause any mutations, so make sure that you have at least three of everything!



## ADRAN B

1. Gweithiwch trwy'r lluniau efo'ch partner  
Work through the pictures with your partner.


Mae gen i \_\_\_\_\_

Ar ôl tipyn, newidiwch i "mae gynnon ni" \_\_\_\_\_  
After a while, change from "I" to "We".

2. Dyfalwch ar ba lun mae eich partner yn edrych..  
Guess which picture your partner is looking at.

Sgynnoch chi \_\_\_\_\_? Oes / Nac oes

Ar ôl tipyn, newidiwch o "chi" i "fi".



**ADRAN C: Deialog**

A. O le dach chi'n dwad yn wreiddiol?

B. Dw i'n dwad o Lundain.

A. Lle dach chi'n byw rwan?

B. Dw i'n byw yn Aberdaron.

A. Sgynnoch chi deulu yng Nghymru?

B. Oes, mae gen i frawd yn Aberystwyth a chwaer yn Llanelli.

A. Sgynnoch chi blant?

B. Oes, deg. Pedair hogan a chwech hogyn.

A. Sgynnoch chi gar?

B. Oes, mae gen i Robin Reliant.

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. **Pa rai sy'n berthnasol i:**  
*Which of the following are appropriate for :*
- a) **Beryl**  
b) **Siôn**  
c) **y ddau / both**

smocio

ddim yn smocio

gweithio ar ward pump

yfed Blue Moon

yfed lemonêd

gweithio am saith o'r gloch bore yfory

gyrru (*driving*)

byw mewn fflat

2. **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

tân	-	fire, a light (for cigarette)
del	-	love
arferion drwg	-	bad habits
o gwbl	-	at all

3. **Faint o'r gloch mae Siôn yn gadael y clwb?**  
*At what time does Siôn leave the club?*
-

**ADRAN D:      Taflen Waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma:**

I've got a cat

\_\_\_\_\_

We've got a problem

\_\_\_\_\_

Have you got any money?

\_\_\_\_\_

How much time have you got?

\_\_\_\_\_

I haven't got any work

\_\_\_\_\_

**2.      Cyfieithwch**

I've got five friends

\_\_\_\_\_

Have you got a car?

\_\_\_\_\_

I haven't got a television

\_\_\_\_\_

How much sugar have you got?

\_\_\_\_\_

We've got family in Llanelli

\_\_\_\_\_

**3.      Atebwch ( mewn brawddegau llawn)  
Answer ( in full sentences)**

Sgynnoch chi deulu?

\_\_\_\_\_

Sgynnoch chi anifeiliaid?

\_\_\_\_\_

Sgynnoch chi gar?

\_\_\_\_\_

Sgynnoch chi broblem?

\_\_\_\_\_

## UNED 6 (Chwech)

### ADRAN A

Dach chi'n licio Rolf Harris?

Ydw, mae o'n grêt.  
Mae o'n iawn.  
Nac ydw, mae o'n ofnadwy.

Dach chi'n licio Julie Andrews?

Ydw, mae hi'n grêt.  
Mae hi'n iawn.  
Nac ydw, mae hi'n ofnadwy.

Dach chi'n licio Manchester United?

Ydw, maen nhw'n grêt.  
Maen nhw'n iawn.  
Nac ydw, maen nhw'n ofnadwy.

### Y Tywydd

Mae *hi*'n braf heddiw

Mae *hi*'n wlyb

Mae *hi*'n oer

Ydy wir, mae *hi*'n fendigedig.

Ydy wir, mae *hi*'n ofnadwy

(*'Hi' is often omitted*)

Lle mae'r car?

gath?

plant?

(Mae o) Yn y garej.

(Mae hi) Yn yr ardd.

(Maen nhw) Yn y gwely.

Pryd mae'r dosbarth yn dechrau?

mae coffi?

mae'r dosbarth yn gorffen?

Hanner awr wedi naw.

Un ar ddeg.

Hanner awr wedi deuddeg.

Sut mae'r teulu?

ond ...

Mae'r gŵr yn sâl

Mae'r plant yn sâl

Mae'r parot yn sâl

Dw i'n iawn.

Pam mae'r

bws yn hwyr?

staff yn gweithio'n hwyr?

tiwtor yn gweithio'n hwyr?

Mae'r traffig yn ofnadwy

Mae'r swyddfa'n brysur

*Stress!*

## Geirfa

agor	-	to open	gwraig	-	wife
dechrau	-	to start	gwyntog	-	windy
felly	-	so, therefore	hanner awr wedi	-	half past
gorffen	-	to finish	hwyr	-	late
gwely	-	bed	prysur	-	busy
gwlyb	-	wet	sâl	-	ill
gŵr	-	husband	tywydd	-	weather
			wir	-	indeed

## Patrymau

a)	Mae o	-	He is / It is	Mae John / Mae'r ci	-	John is / The dog is
	Mae hi	-	She is / It is	Mae Ann / Mae'r gath	-	Ann is / The cat is
	Maen nhw	-	They are	Mae'r staff / Mae'r plant	-	The staff are / The children are

"It" = "o" when referring to a masculine noun, "hi" when referring to a feminine noun and to the time and the weather. But don't worry: "it" is often dropped anyway:

Mae o'n dda / Mae hi'n dda > Mae'n dda

Use "**maen**" only with the word "**nhw**". Otherwise use "**mae**", even if the noun is plural

b)	Mae o'n sâl	)	Use " <b>yn</b> " (shortened to " <b>n</b> " after a vowel) to add on verb or adjective
	Mae John yn sâl	)	
	Mae'r ci'n sâl	)	
	Mae'r cwrs yn dechrau	)	

c)	Sut mae	-	How is	)	" <b>Mae</b> " is used in questions starting with these words
	Pam mae	-	Why is	)	
	Lle mae	-	Where is	)	
	Pryd mae	-	When is	)	

## Treigladau - Mutations

- Describing words (adjectives) take a soft mutation (Treigladd Meddal) after "yn"  
Doing words (verbs) don't.


Bendigedig	>	Mae hi'n <u>f</u> endigedig	Dechrau	>	Mae o'n <u>d</u> echrau
Prysur	>	Mae'r swyddfa'n <u>b</u> rysur	Gweithio	>	Mae'r staff yn <u>g</u> weithio
(Exception		Braf > Mae hi'n braf)			

- Feminine words take a soft mutation after "y"  
Masculine words don't

cath	>	y gath	ci	>	y ci
gwraig	>	y wraig	dosbarth	>	y dosbarth
tafarn	>	y dafarn			

# ADRAN B

## 1. Siaradwch am y tywydd:



## 2. Llenwch y grid efo amserau (ar yr awr neu'r hanner awr) ac atebwch gwestiynau'ch partner:

*Fill the grid with times (on the hour and half-hour only) and answer your partner's questions:*

Pryd mae .....

y bws yn dwad	
y swyddfa'n agor	
coffi	
cinio	
y post yn mynd	
y staff yn mynd adra	
te	
y newyddion ar y teledu	

## 3. Rhowch le i bob un o'r rhain ac atebwch gwestiynau'ch partner:

*Allocate a place to each of the following and answer your partner's questions: (N.B. Answers are supposed to be absurd!)*

Lle mae .....

- |                  |                  |
|------------------|------------------|
| A. y ci          | 1. yn yr ardd    |
| B. y gŵr         | 2. yn y tŷ bach  |
| C. y staff       | 3. yn y parc     |
| CH. y bos        | 4. yn y dafarn   |
| D. Julie Andrews | 5. yn y gwely    |
| DD. y plant      | 6. ar y soffa    |
| E. y parot       | 7. ar y bws      |
| F. Rolf Harris   | 8. yn y swyddfa  |
| FF. y tiwtor     | 9. yn y bath     |
| G. y postmon     | 10. yn Nhimbyctŵ |

**ADRAN C: Deialog**

- A. Pryd mae'r disgo?  
B. Heno.
- A. Grêt. Lle mae o?  
B. Yn y clwb rygbi.
- A. Bendigedig. Pryd mae o'n dechrau?  
B. Hanner awr wedi wyth.
- A. Da iawn. Pryd mae o'n gorffen?  
B. Dau o'r gloch yn y bore.
- A. Bendigedig. Wyt ti'n mynd?  
B. Nac ydw. Dw i wedi blino a mae "The Sound of Music" ar y teledu.
- A. Be? Mae "The Sound of Music" ar y teledu heno! O wel, dw i ddim yn mynd i'r disgo felly. Dw i'n aros adra.

---

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. **Gwrandewch am:**

*Listen for:*

be' gy mi di?	-	what will you have?
arferion	-	habits
i ffwrdd	-	away
trwy'r amser	-	all the time
draenog marw	-	dead hedgehog

2. **Rhestrwch y geiriau benthyg, e.e. sofa, lori**

*List the borrowed words*

---

3. a) Be' mae Beryl isio i yfed? \_\_\_\_\_

b) Pam mae Siôn yn licio'r fflat? \_\_\_\_\_

c) Pwy ydy Gareth? \_\_\_\_\_

ch) Be' mae Gareth yn neud? \_\_\_\_\_

d) Pa record "ramantus" mae Siôn yn dewis (*choose*)? \_\_\_\_\_



**ADRAN D:      Taflen waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma:**

How is the family? \_\_\_\_\_

The children are ill \_\_\_\_\_

When does the class finish? \_\_\_\_\_

Why are the staff working late? \_\_\_\_\_

Where is the cat? \_\_\_\_\_

They're in bed \_\_\_\_\_

It's wet \_\_\_\_\_

The traffic's awful \_\_\_\_\_

**2.      Cyfieithwch**

It's windy tonight \_\_\_\_\_

When is breakfast? \_\_\_\_\_

The husband is busy \_\_\_\_\_

When do the staff finish? \_\_\_\_\_

The dog's O.K. but the cat is ill \_\_\_\_\_

Where is the parrot? \_\_\_\_\_

3. **Atebwch**

Dach chi'n licio Elvis?

\_\_\_\_\_

Dach chi'n licio Cymru (hi)?

\_\_\_\_\_

Dach chi'n licio siopau Marks  
& Spencer (nhw)?

\_\_\_\_\_

Sut mae'r teulu?

\_\_\_\_\_

Sut mae'r tywydd heddiw?

\_\_\_\_\_

Pryd mae'r dosbarth yn gorffen?

\_\_\_\_\_

4. **Gofynnwch gwestiwn addas. (Ask a suitable question)**

\_\_\_\_\_

Mae hi'n fendigedig

\_\_\_\_\_

Maen nhw'n ofnadwy

\_\_\_\_\_

Mae o'n sâl

\_\_\_\_\_

Deg o'r gloch

\_\_\_\_\_

Yn y gwely

# UNED 7

## (Saith)

### ADRAN A

Pwy ydy hi?	Ffrind
Pwy ydy o?	Y postmon
Pwy ydyn nhw?	Y bobl drws nesa / Y cymdogion
Pwy ydy'r bos?	Fi!
Be' ydy <i>ticket</i> yn Gymraeg?	Tocyn
Be' ydy "ceiniog" yn Saesneg?	<i>Penny</i>
Be' ydy <i>I don't know</i> yn Gymraeg?	Dw i ddim yn gwybod
Be' ydy enw'r tŷ?	"Cartref" (ydy o)
Be' ydy oed y plant?	Pedair a dwy (ydyn nhw)
Be' ydy gwaith y gŵr / y wraig / y cariad?	Seicolegydd (ydy hi / ydy o)
Be' ydy mêt y car?	Lada (ydy o)
Faint ydy o?	Punt
Faint ydyn nhw?	Dwy bunt yr un
Faint ydy'r tocyn?	Tair punt
Faint ydy'r bil?	Pum punt saith deg chwech ceiniog
Faint o'r gloch ydy hi?	Chwarter wedi dau
	Chwarter i dri
	Tua deg
	Amser mynd adra

### Geirfa

beth bynnag	-	anyway	<u>oed</u>	-	age
<u>ceiniog</u>	-	penny	<u>pobl</u>	-	people
cymdogion	-	neighbours	<u>punt</u>	-	pound
cynta	-	first	rhif	-	number
drws	-	door	tocyn	-	ticket
enw	-	name	tua	-	about
gwybod	-	to know	y _____ yma	-	this
nesa	-	next	yr un	-	each

N.B. Feminine words are underlined

dwyt bunt (£2)	dwyt geiniog (2p)	dwyt oed (2 years old)
tair punt	tair ceiniog	tair oed
pedair punt	pedair ceiniog	pedair oed
pum punt	pum ceiniog	pum oed
un deg un 11	dau ddeg pedwar 24	tri deg saith 37
un deg dau 12	dau ddeg pump 25	pedwar deg wyth 48
un deg tri 13	dau ddeg chwech 26	pum deg naw 59

# Patrymau

- |    |                      |   |                        |
|----|----------------------|---|------------------------|
| 1. | Be' ydy o?           | - | What is it?            |
|    | Pwy ydy o?           | - | Who is he / it?        |
|    | Faint ydy o?         | - | How much is it?        |
|    | Pwy ydy hi?          | - | Who is she?            |
|    | Pwy ydyn nhw?        | - | Who are they?          |
|    | Siân ydy hi          | - | She is Siân            |
|    | Siôn ydy o           | - | He is Siôn             |
|    | Siôn a Siân ydyn nhw | - | They are Siôn and Siân |

## 2. Deud yr amser - Telling the time

Faint o'r gloch ydy hi? - What time is it?  
 (Time, like the weather, is abstract and therefore referred to as "hi")

i un		<i>o'r gloch</i>	wedi un
i ddau			wedi dau
i dri			wedi tri
i bedwar			wedi pedwar
i bump			wedi pump
i chwech	<i>Chwarter i</i>		<i>Chwarter wedi</i> wedi chwech
i saith			wedi saith
i wyth			wedi wyth
i naw			wedi naw
i ddeg			wedi deg
i unarddeg		<i>Hanner awr wedi</i>	wedi unarddeg
i ddeuddeg			wedi deuddeg

## 3. Rhifo - Counting

There are two ways of counting in Welsh, The modern format is outlined in the **Geirfa** above and is very straightforward. The traditional pattern is much more complex, but is still very much in use: those forms will be introduced gradually.

Traditional forms are required to tell the time, e.g.:

Un ar ddeg	(as opposed to the modern "un deg un")	-	eleven
Deuddeg	(as opposed to the modern "un deg dau")	-	twelve

## 4. Pobl y Cwm!

Yn Saesneg:	<b>the</b>	<b>people</b>	<b>of</b>	<b>the</b>	<b>valley</b>
Yn Gymraeg:	-	pobl	-	y	cwm

Cf.	the make of the car	-	mêc y car
	the name of the house	-	enw'r tŷ

## ADRAN B

1. Dyma lun o'ch albwm. Atebwch gwestiynau eich partner:  
*This is a picture from your album. Answer your partner's questions:*


Pwy ydy hi?  
Pwy ydy o?  
Pwy ydyn nhw?



2. Rhewch enw/oed/mêc/brîd addas i bob un ac atebwch gwestiynau eich partner, e.e.

Be' ydy oed y car?  
Be' ydy brîd y ci?

*Give each one a name, make, breed and age as appropriate and answer your partner's questions*



3. Rhewch bris ar y pethau yma (*Price these items*) ac yna atebwch gwestiynau eich partner:

Faint ydy o? / Faint ydyn nhw?



**ADRAN C:      Deialog**

A.    Be' ydy'r broblem?

B.    Dw i'n trio ffindio rhif ffôn.

A.    Rhif ffôn pwy?

B.    Rhif ffôn ffrind yn Wrecsam.

A.    Be' ydy enw'r ffrind yma?

B.    Jones

A.    Be' ydy'r enw cynta?

B.    Dw i ddim yn cofio.

A.    Be' ydy enw'r stryd?

B.    Dw i ddim yn cofio.

A.    Be' ydy rhif y tŷ?

B.    Dw i ddim yn cofio.

A.    Pam wyt ti isio siarad efo'r ffrind yma beth bynnag?

B.    Dw i ddim yn cofio.

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. Pwy ydy'r tri person sy'n siarad?

2. **Be' ydy'r canlynol yn Gymraeg?**  
*What are the following in Welsh?*

- suddenly \_\_\_\_\_
- about eleven \_\_\_\_\_
- lorry driver \_\_\_\_\_
- France \_\_\_\_\_
- Eiffel Tower \_\_\_\_\_
- a spare place \_\_\_\_\_

3. **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

- drws y llofft - the bedroom door
- sŵn - noise
- ers pryd - since when
- Iwerddon - Ireland
- lle i un bach - room for a small one

4. Noson siomedig i Siôn yn y diwedd. Pam?  
*Why does it turn out to be a disappointing evening for Siôn?*

**ADRAN D:            Taflen waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma:**

- How much are they? \_\_\_\_\_
- What time is it? \_\_\_\_\_
- Who is the boss? \_\_\_\_\_
- How old are the children? \_\_\_\_\_
- What's the name of the house? \_\_\_\_\_
- She's a psychologist. \_\_\_\_\_
- It's a Lada. \_\_\_\_\_
- I don't know \_\_\_\_\_

**2.      Faint ydyn nhw?**

- £3.00 \_\_\_\_\_
- £5.96 \_\_\_\_\_
- £1.17 \_\_\_\_\_
- 65c. \_\_\_\_\_
- £2.50 each \_\_\_\_\_

**3.      Faint o'r gloch ydy hi?**

- 3.15 \_\_\_\_\_
- 4.30 \_\_\_\_\_
- 4.45 \_\_\_\_\_
- 1.45 \_\_\_\_\_
- 11.00 approx. \_\_\_\_\_

**4.      Be' ydy'r cwestiwn?**

- \_\_\_\_\_ Chris Jones
- \_\_\_\_\_ "Shangrila"
- \_\_\_\_\_ Dwy bunt yr un
- \_\_\_\_\_ Smot
- \_\_\_\_\_ Skoda
- \_\_\_\_\_ Hanner awr wedi saith
- \_\_\_\_\_ Chwech a naw
- \_\_\_\_\_ Ficer



## UNED 8

(*Wyth*)

### ADRAN A

Be' ydy eich enw chi?  
Be' ydy eich cyfeiriad chi?  
Be' ydy eich rhif ffôn chi?  
Pwy ydy eich doctor chi?

Be' ydy enw eich brawd / chwaer chi?  
oed eich mam / tad chi?  
gwaith eich cymdognion chi?

Be' ydy dy enw di?  
Be' ydy dy oed di?  
Pwy ydy dy ffrindiau di?

Be' ydy enw dy dad di?  
dy fam di?  
dy frawd di?  
dy dŷ di?

Be' ydy môt dy gar di? Mercedes  
oed Dwy oed  
lliw Gwyn

Lle mae eich teulu chi 'n byw? Yn Llandudno

Be' mae eich brawd chi 'n neud? Nyrs ydy o  
dy frawd di

### Geirfa

cyfeiriad	-	address	coch	-	red
lliw	-	colour	du	-	black
<u>mam</u>	-	mother	glas	-	blue
siwr	-	sure	gwyn	-	white
syniad	-	idea	gwyrdd	-	green
tad	-	father	llwyd	-	grey
tei	-	tie	melyn	-	yellow

bobl bach! - goodness me!

# Patrymau

## 1. YOUR:

### EICH \_\_\_\_\_ CHI

+ Dim treigladd  
+ *No mutation*

eich car chi  
eich tŷ chi

*etc.*

### DY \_\_\_\_\_ DI (*familiar*)

+ Treigladd Meddal  
+ *Soft Mutation*

car > dy gar di  
tŷ > dy dŷ di  
plant > dy blant di  
gwaith > dy waith di  
doctor > dy ddoctor di  
brawd > dy frawd di  
mam > dy fam di  
llun > dy lun di  
rhif > dy rif di

N.B. a) The vowel sound in "dy" sounds like the vowel in "dull".  
The vowel sound in "eich" is also pronounced the same in everyday speech ("ych")

a) "Eich" or "dy" is the actual word for "your". The "chi" or "di" is added at the end only for reinforcement, and can be omitted

## 2. MAE / YDY (= *is/does*)

Lle	+	mae	_____?	Be'	+	ydy	_____?
Sut	+	mae	_____?	Pwy	+	ydy	_____?
Pryd	+	mae	_____?	Faint	+	ydy	_____?
Pam	+	mae	_____?				
Be'	+	mae	_____ yn neud?				

## ADRAN B

Chi ydy'r dyn neu'r ddynes yn y canol. Dyma eich coden deulu. Rhwch enwau, swyddi ac oed i chi ac i aelodau'ch teulu (manylion dychmygol) ac yna atebwch gwestiynau eich partner:

Be' ydy eich enw chi?


Be' ydy oed eich chwaer chi?

Be' ydy gwaith eich tad chi?

ac ati

Ar ôl tipyn, newidiwch y cwestiynau o "chi" i "ti".

*You are the man or woman in the middle. This is your family tree. Give yourself and the members of your family names, jobs and ages (imaginary details) and then answer your partner's questions. After a while, change the questions from "chi" to "ti".*



Rhowch liw i bob un o'r pethau yma ac yna atebwch gwestiynau eich partner:

*Give each item a colour and then answer your partner's questions:*

e.e. Be' ydy lliw eich car chi / dy gar di?



**ADRAN C: Deialog**

A. Lle mae eich tei chi?

B. Pa dei?

A. Eich tei du chi

B. Dw i ddim yn cofio

A. Ydy o yn eich tŷ chi?

B. Ella, ond ella ddim

A. 'Ta *gan* eich tad chi?

B. Dw i ddim yn siwr.

A. Bobl bach! Ydy eich tei du chi yn eich tŷ chi 'ta *gan* eich tad chi?

B. Sgen i ddim syniad.

***Rwan, newidiwch (change) y ddeialog o "chi" i "ti".***

N.B. 'Gan' is another form of 'gen/gynnoch' coming up in Uned 10! (= *has your father got it?*)

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. Pa rifau dach chi'n eu clywed?  
*Which numbers do you hear?*

2. **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr	-	<i>I'm sorry I'm late</i>
tudalen	-	<i>page</i>
ar ôl	-	<i>after</i>
felly	-	<i>therefore</i>
i ffwrdd â chi	-	<i>off you go</i>

3. a) Faint o waith sgan Siôn? \_\_\_\_\_  
*How much work has Siôn got?*

b) Be' ydy'r gwaith cynta? \_\_\_\_\_  
*What is the first job?*

4. a) Pa mor hwyr ydy Siôn? \_\_\_\_\_  
*How late is Siôn?*

b) Be' sy'n digwydd amser  
coffi felly? \_\_\_\_\_  
*What happens at coffee time  
therefore?*

5. Sylwch ar y defnydd o "ti" a "chi" yma  
*Comment on the use of "ti" and "chi" here*

---

**ADRAN D:      Taflen waith**

1.    **Ffindiwch y brawddegau yma:**

- What's your address? (chi) \_\_\_\_\_
- Who are your friends? (ti) \_\_\_\_\_
- What's your sister's work? (chi) \_\_\_\_\_
- What's the colour of your car? (ti) \_\_\_\_\_
- What's the name of your house? (ti) \_\_\_\_\_
- How old are your children? (chi) \_\_\_\_\_
- Where do your family live? (chi) \_\_\_\_\_
- What does your brother do? (ti) \_\_\_\_\_

2.    **Be' ydy'r cwestiwn?**

a)    **CHI**

- \_\_\_\_\_ Jemima
- \_\_\_\_\_ Du
- \_\_\_\_\_ 716906
- \_\_\_\_\_ Tair oed
- \_\_\_\_\_ Tiddles

b)    **TI**

- \_\_\_\_\_ Coch
- \_\_\_\_\_ Naw deg pump
- \_\_\_\_\_ Plismon
- \_\_\_\_\_ Timbyctŵ
- \_\_\_\_\_ Poli

## UNED 9

(*Naw*)

### ADRAN A

Ydy hi'n oer allan? Ydy, mae *hi*'n ofnadwy  
boeth yma?  
brysur yn y gwaith?

Ydy Ms. Jones i mewn? Nac ydy, mae hi allan  
Mr. Jones yna? mae o mewn cyfarfod  
'r pennaeth yn y swyddfa? mae o/hi ar wyliau

### Be' am gael bwyd yn y Llew Du?

Ydy'r bwyd yn dda? Ydy, mae *o*'n dda iawn.  
Ydy'r gwin yn dda? Ydy, mae *o*'n dda iawn  
Ydy'r staff yn glên? Ydyn, maen nhw'n glên iawn.  
Ydy'r prisiau'n rhad? Ydyn, maen nhw'n rhad iawn.

Ydy hi'n oer allan? Dydy hi ddim yn ddrwg.  
wlyb  
wyntog

Ga' i siarad efo Ms. Jones? Dydy hi ddim yma,  
'r pennaeth? Dydy o ddim yn y swyddfa,  
staff y gegin? Ydyn nhw ddim i mewn, mae'n ddrwg gen i...

..... Dach chi isio gadael neges?

### Dach chi'n licio'r Llew Coch?

Nac ydw, dim o gwbl.

Pam? Dydy'r bwyd ddim yn dda  
Dydy'r ystafell ddim yn braf  
Dydy'r staff ddim yn glên  
Dydy'r prisiau ddim yn rhad

## Geirfa

ar gael	-	available	llew	-	lion
<u>cegin</u>	-	kitchen	i mewn	-	in
clên	-	kind, helpful	<u>neges</u>	-	message
clywed	-	to hear	pennaeth	-	boss, head
cyfarfod	-	meeting, to meet	poeth	-	hot
daliwch ati!	-	keep going	prisiau	-	prices
drwg	-	bad, naughty	rhad	-	cheap
eto	-	yet, again	yna	-	there
gadael	-	to leave	<u>ystafell</u>	-	room

## Patrymau

Ydy hi'n brysur?		Is it busy?		
		Is she busy?		
Ydy o'n brysur?		Is he busy?		
Ydy Ms. Jones yn brysur?		Is Ms. Jones busy?		
Ydy'r pennaeth yn brysur?		Is the boss busy?		
Ydy hi/o/ Ms. Jones/'r pennaeth ...	>	Ydy (pronounced <i>Yndy</i> )	-	Yes (it/she/he is)
		Nac ydy	-	No
Ydy'r staff yn glên?	>	Ydyn (pronounced <i>Yndyn</i> )	-	Yes (they are)
		Nac ydyn	-	No
Dydy hi ddim yn ddrwg	-	It/she isn't bad		
Dydy o ddim yn ddrwg	-	He isn't bad		
Dydy'r bwyd ddim yn ddrwg	-	The food isn't bad		
Dydy'r prisiau ddim yn ddrwg	-	The prices aren't bad		

**Ydyn** and **Dydyn** are used only to say "are they/yes they are" and "they aren't". With plural nouns such as "plant", "prisiau", "staff", etc., the singular forms **ydy** and **dydy** are used.

**yn** is usually required after **mae hi**, **dydy o ddim**, etc.:  
but not before an expression of place (**allan**, **mewn** ....., **ar** ....., etc.):

**mae hi'n mynd**  
**mae hi allan**



## ADRAN B

Dudwch beth dach chi'n feddwl o'r tafarnau/gwestai yma trwy roi ✓ neu × neu ½ (dim yn ddrwg) i bob categori. Yna atebwch gwestiynau eich partner, e.e.

*Say what you think of these pubs/hotels by allocating a ✓ or × or ½ (not bad) to each category. Then answer your partner's questions, e.g.*

Ydy'r ystafell yn braf yn y Llew Coch?	Ydy / Nac ydy / Dim yn ddrwg
Ydy'r bwyd yn dda?	Ydy / Nac ydy / Dim yn ddrwg
Ydy'r staff yn glên?	Ydyn / Nac ydyn / Dim yn ddrwg
Ydy'r prisiau'n rhad?	Ydyn / Nac ydyn / Dim yn ddrwg

	Y Llew Coch	Y Llew Gwyn	Y Llew Du	Y Castell	Y Goron
Ystafell					
Bwyd					
Staff					
Prisiau					

Wedyn, efo partner newydd, gofynnwch:

Dach chi'n licio'r Llew Du?

Wel, mae'r staff yn glên, ond dydy'r prisiau ddim yn rhad, .....

*ac ati*

2. Dach chi'n gweithio ar y switsfwrdd ac yn cadw dyddiadur pawb. Nodwch lle bydd pawb heddiw, gan ddefnyddio unrhyw rai o'r canlynol:

**allan, mewn cyfarfod, ar wyliau, yn brysur, yn yr ysbyty, yn y Llew Coch, ddim yma, ddim i mewn, ddim ar gael, ddim yn yr ystafell.**

ac yna atebwch gwestiynau eich partner:

Ga' i siarad efo'r tiwtor?  
**neu** Ydy Mr. Williams i mewn?

*You work on the switchboard and keep everyone's diary. Note where everyone will be today by choosing from the above list and then answer your partner's telephone calls to all these people.*

Ms Jones		Dr. Roberts	
Ms. Williams		Y tiwtor	
Staff y gegin		Mr. a Mrs. Evans	
Y Rheolwr		Y ficer	

**ADRAN C: Deialog**

A. Ydy eich teulu chi'n siarad Cymraeg?

B. Nac ydyn. Mae Dad yn dallt tipyn bach, ond dydy Mam ddim.

A. Dach chi'n clywed Cymraeg yn y gwaith?

B. Mae pawb yn y swyddfa'n siarad Cymraeg, ond dydy'r bos ddim. Mae hi'n dwad o Glasgow.

A. Sgynnoch chi ffrindiau Cymraeg?

B. Oes, ond dydyn nhw ddim yn siarad Cymraeg efo fi.

A. Dim eto, ella, ond daliwch ati! Dach chi'n siarad Cymraeg adra?

B. Ydw, efo'r ci. Corgi ydy o. Dydy o ddim yn dallt Saesneg.

---

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. **Be' ydy ymateb Mr. Springbottom pan mae Siôn:**  
*What is Mr. Springbottom's response when Siôn:*

a) yn siarad Cymraeg yn gyflym iawn  
*speaks Welsh very quickly* \_\_\_\_\_

b) yn siarad Saesneg  
*speaks English* \_\_\_\_\_

2. **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

chwarae teg	-	<i>fair play</i>
yn araf	-	<i>slowly</i>
wnewch chi siarad	-	<i>will you speak</i>
ers pryd	-	<i>since when</i>
Swydd Efrog	-	<i>Yorkshire</i>
symud	-	<i>to move</i>
mis yn ôl	-	<i>a month ago</i>

3. a) Lle mae Mr. Springbottom yn dysgu  
Cymraeg? \_\_\_\_\_

b) Ers pryd mae o'n dysgu Cymraeg? \_\_\_\_\_

c) O le mae o'n dwad yn wreiddiol? \_\_\_\_\_

ch) Ers pryd mae o'n byw yng Nghymru? \_\_\_\_\_

d) Be' mae o'n feddwl  
*What does he think*

i) o'r tywydd? \_\_\_\_\_

ii) o'r bobl? \_\_\_\_\_

4. a) Pam dydy Annie ddim yn hapus? \_\_\_\_\_

b) Be' mae Mr. Springbottom isio  
rwan? \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Ffindiwch y brawddegau yma:**

Is Ms. Jones in?

\_\_\_\_\_

Is it busy in the office

\_\_\_\_\_

It's not bad

\_\_\_\_\_

They're not in

\_\_\_\_\_

The food isn't good

\_\_\_\_\_

Are the staff helpful?

\_\_\_\_\_

Do you want to leave a message?

\_\_\_\_\_

They are very cheap

\_\_\_\_\_

2. **Atebwch "Yes/No"**

Ydy Mr. Jones yna?

\_\_\_\_\_

Ydy'r prisiau'n rhad?

\_\_\_\_\_

Dach chi'n licio'r Llew Coch?

\_\_\_\_\_

Ydy'r cymdogion yn glên?

\_\_\_\_\_

Ydy'r swyddfa'n brysur?

\_\_\_\_\_

Dach chi isio panad?

\_\_\_\_\_

3. **Trowch y brawddegau yma i'r negyddol**  
*Make these sentences negative*

Mae hi'n oer

\_\_\_\_\_

Mae'r bwyd yn dda

\_\_\_\_\_

Maen nhw'n rhad

\_\_\_\_\_

Mae Ms. Jones i mewn

\_\_\_\_\_

4. **Disgrifiwch dafarn neu dŷ bwyta lleol.**  
*Describe a local pub or restaurant.*

# UNED 10

(Deg)

## ADRAN A

Mae gen i gar  
Mae gan Pat gar  
Mae gan Nesta Fiesta  
Mae gan Joyce Rolls Royce

*Be' sy'n bod?*

Mae gen i annwyd  
Mae gan y plant gur pen  
boen bol  
boen cefn  
ddolur gwddw

Mae gen i aspirin, os dach chi isio

Be' sy'n bod ar y *D.J.*?  
y *chef*?  
y parots?

Mae gynno fo gur pen  
Mae gynni hi boen bol  
Mae gynnyn nhw ddolur gwddw

Sgan y bos gariad?  
↳ Sgynni hi frawd?  
↳ Sgynno fo blant?  
↳ Sgynnyn nhw gi?  
*Wyt ti'n nabod y teulu?*

Oes, Ann  
Oes, John  
Oes, Siân a Siôn  
Oes, corgi  
*Nac ydw, dim o gwbl!*

Pam dydy Bil a Ben ddim yn dwad?  
Pam dydy Ann ddim yn dwad?  
Pam dydy Jac ddim yn dwad?  
Pam wyt ti ddim yn dwad?

Sgynnyn nhw ddim amser  
Sgynni hi ddim pres  
Sgynno fo ddim car  
Sgen i ddim 'mynedd

Dw i'n licio Eastenders, ond mae'n well gen i  
criced  
garddio  
cwrw

Bobl y Cwm  
rygbi  
smwddio  
ddŵr

Mae'n gas gen i rygbi  
gwrw  
anifeiliaid  
weithio

## Geirfa

annwyd	-	a cold	môr	-	sea
be' sy'n bod	-	what's the matter	mynedd (<amynedd)	-	patience
ar .....?		with .....?	sgen i ddim 'mynedd	-	I can't be
bol	-	belly, stomach			bothered
cefn	-	back	nabod	-	to know
cwrw	-	beer			(people, places)
cur pen	-	headache	os	-	if
digon	-	enough, plenty	pawb	-	everybody
dolur gwddw	-	sore throat	pen	-	head
<u>genod</u>	-	girls	poen	-	pain
gwddw	-	throat, neck	pysgod	-	fish
hogiau	-	boys	sdim ots	-	it doesn't matter
mae 'na	-	there is	(<does dim ots)		

## Patrymau

mae gen i	-	<i>I have got</i>
mae gen ti	-	<i>you have got</i>
mae gynno fo		<i>etc.</i>
mae gynni hi		
mae gynnon ni		
mae gynnoch chi		
mae gynnyn nhw		

mae gan John	-	<i>John has got</i>	(gan: dudwch "gin")
mae gan Ann	-	<i>Ann has got</i>	
mae gan y plant	-	<i>the children have got</i>	

<b>Positif:</b>	<u>mae gan Pat</u> .....	(+ treigladd)	<i>Pat has got</i> .....
	<u>mae gynnyn nhw</u> .....	(+ treigladd)	<i>They have got</i> .....
<b>Negyddol:</b>	<u>sgan Pat ddim</u> .....	(dim treigladd)	<i>Pat hasn't got</i> .....
	<u>sgynnyn nhw ddim</u> .....	(dim treigladd)	<i>They haven't got</i> .....
<b>Cwestiwn:</b>	<u>sgan Pat</u> .....?	(+treigladd)	<i>Has Pat got</i> .....?
	<u>sgynnyn nhw</u> .....?	(+ treigladd)	<i>Have they got</i> .....?

Mae'n ddrwg gen i	-	<i>I'm sorry</i>
Mae'n gas gen i	-	<i>I hate</i>
Mae'n well gen i	-	<i>I prefer</i>

Mae'n well gynno fo	-	<i>He prefers</i>	
Mae'n gas gynnyn nhw	-	<i>They hate</i>	
Mae'n ddrwg gynni hi	-	<i>She's sorry</i>	ac ati/etc.

# ADRAN B

1. Dewiswch broblem ac atebwch gwestiwn eich partner:  
Choose a problem and answer your partner's question:

Be' sy'n bod?

Yna siaradwch am bobl eraill:  
Then discuss other people:

Be' sy'n bod

ar Ann  
ar John  
ar y gŵr

ar y wraig  
ar y plant  
ar y bos

ar y bobl drws nesa  
ar y tiwtor  
ar y dosbarth







2. Rhowch dic (✓) neu groes (✗) ym mhob un o'r sgwariau ac yna atebwch gwestiynau eich partner:

Put a tick or cross in every square and answer your partner's questions:



Sgan Gwenda .....?  
Sgan Gareth .....?

Sgan y bobl drws nesa .....?  
Sgynnoch chi .....?

	GWENDA	GARËTH	Y BOBL DRWS NESA	CHI
				
				
				
				

3. Atebwch gwestiynau eich partner - *dach chi'n licio* .....? - efo:  
Answer your partner's questions with:

Ydw, ond mae'n well gen i .....  
neu Nac ydw, mae'n gas gen i .....



**ADRAN C:        Deialog**

A.    Be' sy'n bod, bach?

B.    Sgen i ddim cariad rwan.

A.    Lle mae Chris?

B.    Mae gynno fo gariad newydd.

A.    Pwy ydy hi?

B.    Yr hogan drws nesa.

A.    Ceri? Ond mae gynni hi ben fel hippo, gwddw fel jiraff a bol cwrw!

B.    Dw i'n gwybod, ond mae gynni hi lot, lot o bres, a fila yn Acapulco.

A.    Sdim ots. Mae 'na ddigon o bysgod yn y môr .....

B.    Sgen i ddim 'mynedd efo hogiau, beth bynnag. Mae'n well gen i aros adra'n gwrando ar yr Opera Sebon.

A.    Be' sy'n bod, bach?

B.    Sgen i ddim cariad rwan.

A.    Lle mae Chris?

B.    Mae gynni hi gariad newydd.

A.    Pwy ydy o?

B.    Yr hogyn drws nesa.

A.    Ceri? Ond mae gynno fo ben fel hippo, gwddw fel jiraff a bol cwrw!

B.    Dw i'n gwybod, ond mae gynno fo lot, lot o bres, a fila yn Acapulco.

A.    Sdim ots. Mae 'na ddigon o bysgod yn y môr .....

B.    Sgen i ddim 'mynedd efo genod, beth bynnag. Mae'n well gen i aros adra'n gwrando ar yr Opera Sebon.!

\*\*\*    *Chris, Ceri and cariad can be both male and female!*

---



**ADRAN CH: Opera sebon**

1. Pa amserau dach chi'n eu clywed?  
*What times do you hear?*

2. **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

wedi blino'n lân	-	<i>exhausted</i>
be' sy'n bod?	-	<i>what's the matter?</i>
dach chi'n medru helpu?	-	<i>can you help?</i>
dach chi'n ôl	-	<i>you're back</i>
treigloffobia	-	<i>fear of mutations</i>

3. **Atebwch**

a) Be' ydy problemau Siôn?

---

b) Be' mae Siôn yn neud o 10.03 i 10.05?

---

c) Be' ydy problem Mr. Springbottom?

---

ch) Pam mae Annie'n hapus?

---

d) Be' ydy problem y tiwtor Cymraeg?

---

**1. Ffindiwch y brawddegau yma:**

They haven't got time

---

I've got a cold

---

She's got stomach ache.

---

I hate animals

---

He's got a headache

---

Pat's got a car

---

Has she got a brother?

---

I can't be bothered

---

Have they got a dog?

---

I prefer water

---

**2. Atebwch**

Pam dydy John ddim yma?

---

Pam dydy Ann ddim yma?

---

Pam dydy'r tîm ddim yma?

---

Pam dydy'r tiwtor ddim yma?

---

Pam dydy'r bos ddim yma?

---

Pam dydy'r dosbarth ddim yma?

---

**3. Atebwch (efo "mae'n well gen i", "mae'n gas gen i", ac ati)**

Dach chi'n licio jeli?

---

Dach chi'n licio Cliff Richard?

---

Dach chi'n licio Llundain?

---

Dach chi'n licio lager?

---

Dach chi'n licio Neighbours?

---

Dach chi'n licio smwddio?

---

# UNED 11

(Un deg un / Un ar ddeg)

## ADOLYGU AC YMESTYN: A

(Revision and Extension)

## Manylion Personol

(Personal details)

1. Llenwch y llinell gynta yn y grid efo manylion gwir neu ddychmygol amdanoch chi eich hun:

*Fill in the first line of the grid with real or imaginary details about yourself.*

### Cwestiynau

### Atebion posib

Pwy dach chi?

Ceri dw i

Lle dach chi'n byw?

Dw i'n byw mewn byngalo yng Nghonwy

O le dach chi'n dwad?

Dw i'n dwad o Lundain

Dach chi'n gweithio?

Ydw, dw i'n gweithio i'r cyngor  
Nac ydw, dw i'n ddi-waith

Sgynnoch chi deulu?

Oes, mae gen i frawd  
Oes, mae gen i dri o blant  
Nac oes, sgen i ddim teulu

Sgynnoch chi anifeiliaid?

Oes, mae gen i gi  
Oes, mae gen i ddwy gath  
Nac oes, sgen i ddim anifeiliaid

Be' dach chi'n licio neud?

Dw i'n licio garddio  
Dw i'n licio neud jam

Be' ydy eich rhif ffôn chi?

706859  
Sgen i ddim ffôn

## Geirfa newydd

### Byw

bwthyn	-	cottage
tyddyn	-	small farm
hen dŷ	-	an old house

### Gweithio

gŵr/gwraig tŷ	-	house-husband/wife
rhan-amser	-	part-time
dros dro	-	temporary

### Teulu

taid	-	grandfather
<u>nain</u>	-	grandmother
wŷr	-	grandson
<u>wyres</u>	-	grand-daughter
wyrion	-	grandchildren
plant wedi tyfu	-	grown-up children
cefnder	-	cousin (m)
<u>cyfnither</u>	-	cousin (f)

### Anifeiliaid

<u>cwningen</u>	-	rabbit
pysgodyn aur	-	goldfish
<u>iâr</u>	-	hen
<u>hwyaden</u>	-	duck
<u>dafad</u>	-	a sheep
<u>gafr</u>	-	goat

2. Gofynnwch y cwestiynau i un neu ddau berson arall a llenwch y grid.  
*Ask two or three other people the questions and fill in the grid.*
3. Newidiwch y cwestiynau i "ti", a gofynnwch nhw i un neu ddau berson arall a llenwi'r grid:  
*Change the questions to "ti", ask them to two or three other people and fill in the grid:*

Pwy wyt ti?  
Lle wyt ti'n byw?  
O le wyt ti'n dwad?  
Wyt ti'n gweithio?  
Sgen ti deulu?  
Sgen ti anifeiliaid?  
Be' wyt ti'n licio neud?  
Be' wyt ti ddim yn licio?  
Be' ydy dy rif ffôn di?

4. Siaradwch efo'ch partner **am** bobl eraill yn y dosbarth i gadarnhau'r wybodaeth sy gynnoch chi neu i lenwi bylchau yn y grid:  
*Discuss other people in the class with your partner to confirm the information that you have or to fill gaps in the grid:*

Pwy ydy hi?  
Pwy ydy o?

Ceri ydy hi  
Ceri ydy o

Lle mae hi'n byw?  
Lle mae o'n byw?

Mae hi'n byw .....  
Mae o'n byw .....

O le mae hi'n dwad?  
O le mae o'n dwad?

Mae hi'n dwad o .....  
Mae o'n dwad o .....

Ydy hi'n gweithio?  
Ydy o'n gweithio?

Ydy, mae hi'n gweithio  
Nac ydy, mae o wedi ymddeol

Sgynni hi deulu?  
Sgynno fo deulu?

Oes, mae gynni hi frawd  
Nac oes, sgynno fo ddim teulu

Sgynni hi anifeiliaid?  
Sgynno fo anifeiliaid?

Nac oes, sgynni hi ddim anifeiliaid  
Oes, mae gynno fo gwningen

Be' mae hi'n licio neud?  
Be' mae o'n licio neud?

Mae hi'n licio chwarae golff  
Mae o'n licio garddio

Be' dydy hi ddim yn licio?  
Be' dydy o ddim yn licio?

Dydy hi ddim yn licio cwrw  
Dydy o ddim yn licio cŵn

Be' ydy'r rhif ffôn?

Y rhif ffôn ydy .....

**GWAITH CARTREF** - *Homework*

Ysgrifennwch dipyn bach o'ch hanes personol  
*Write a few sentences about yourself*





**ADOLYGU AC YMESTYN:**  
*(Revision and Extension)*

**B**

**Hoff a chas bethau**  
*(Likes and Dislikes)*

Dw i'n licio siocled yn fawr	-	<i>I like chocolate very much</i>
Dw i'n hoff iawn o arddio	-	<i>I'm very fond of gardening</i>
Dw i'n mwynhau nofio	-	<i>I enjoy swimming</i>
Dw i ddim yn rhy hoff o fadminton	-	<i>I'm not too fond of badminton</i>
Mae'n well gen i denis	-	<i>I prefer tennis</i>
Dw i ddim yn licio wisgi o gwbl	-	<i>I don't like whisky at all</i>
Mae'n gas gen i nŵdls	-	<i>I hate noodles</i>
<b>Dw i'n meddwl bod Tom Jones</b>	.....	<i>I think Tom Jones is ....</i>
... yn fendigedig		... wonderful
... yn ofnadwy		... awful

**Geirfa**

hoff o	-	fond of
meddwl	-	to think
mwynhau	-	to enjoy
rhy	-	too

cig	-	meat	canu	-	to sing
sglodion	-	chips	teithio	-	to travel
caws	-	cheese	coginio	-	to cook
pys slwts	-	mushy peas	golchi llestri	-	to wash dishes
siocled	-	chocolate	gyrru / dreifio	-	to drive
nionod	-	onions	gwau	-	to knit
gwin coch	-	red wine	gwnio	-	to sew
gwin gwyn	-	white wine	pysgota	-	to fish
			pêl-droed	-	football

**Patrwm newydd**

Dw i'n meddwl bod ..... yn dda		<i>I think that ..... is good</i>
<b>BOD = to be</b>	<u>literally:</u>	<i>I consider ..... to be good</i>

(Mwy ar y patrwm yma yn Uned 28 - *More on this pattern in Unit 28*)

Gofynnwch i ddau berson be' maen nhw'n licio a ddim yn licio a llenwch y grid.

Ask two people about their likes and dislikes and fill in the grid.

Dach chi'n licio.....?

CÔD:            ✓    -    licio'n fawr  
                  ?    -    ddim yn rhy hoff  
                  ×    -    mae'n gas gen i

ENW			
Coca-cola			
nionod			
caws bwthyn			
criced			
operau sebon			
coginio			
smwddio			
pys slwts			
dysgu Cymraeg			

Yna gofynnwch **am** un person arall i lenwi'r golofn arall:  
Then ask **about** one other person to fill in the other column:

Ydy X yn licio .....?

Ydy, mae hi/o'n licio ..... yn fawr

Dydy hi/o ddim yn rhy hoff o .....

Nac ydy, mae'n gas gynni hi/gynno fo .....

**GWAITH CARTREF**    -    *Homework*

Ysgrifennwch ychydig am eich hoff a chas bethau  
*Write a little about your likes and dislikes*



**Geirfa newydd**

arall	-	other, else
ar ôl	-	left
benthyg	-	borrow
brechdan	-	sandwich
gwerthu	-	to sell
pwys	-	pound (weight)
rhywbeth	-	something
sudd oren	-	orange juice

**Patrwm newydd**

<b>Ga' i .....?</b>	>	<b>Cewch</b> (yes, you may)	[chi]
		<b>Cei</b>	[ti]
		<b>Na chewch</b> (no)	
		<b>Na chei</b>	

- 
1. A. Dach chi'n gwerthu tomatos?  
B. Ydan. Dyma nhw.  
A. Faint ydyn nhw?  
B. Pedwar deg ceiniog y pwys.  
A. Ga' i ddau bwys, os gwelwch chi'n dda?  
B. Cewch, wrth gwrs. Dyma chi. Wyth deg ceiniog.  
A. Sgynnoch chi gaws Caerffili?  
B. Oes. Faint dach chi isio?  
A. Hanner pwys, plis.  
B. Dyma chi. 65 ceiniog. Rhywbeth arall?  
A. Dim diolch.  
B. £1.45, os gwelwch chi'n dda.
- 
2. A. Ga' i gopi o'r *Financial Times*?  
B. Mae'n ddrwg gen i, ond sgynnon ni ddim ar ôl.  
A. Sgynnoch chi gopi o'r *Telegraph*?  
B. Nac oes, mae'n ddrwg gen i, sgynnon ni ddim ar ôl.  
A. Ga' i gopi o'r *Beano*?  
B. Cewch, wrth gwrs. Dyma chi. Pum deg ceiniog, os gwelwch chi'n dda.
-

3. A. Ga' i ddiod, plîs?  
 B. Cei, wrth gwrs. Be' wyt ti isio?
- A. Ga' i sudd oren?  
 B. Cei, wrth gwrs. Dyma ti.
- A. Ga' i rywbeth i fwyta?  
 B. Cei, wrth gwrs. Be' wyt ti isio?
- A. Ga' i frechdan ham?  
 B. Cei, wrth gwrs. Dyma ti.
- A. Ga' i lifft adra?  
 B. Na chei!
- A. Ga' i fenthyg pres am dacsî?  
 B. Na chei!
- A. Pam?  
 B. Wyt ti'n byw yn y stryd nesa.

**Ysgrifennwch ddeialog mewn siop**  
*Write a dialogue set in a shop*

**A = staff**

**B = cwsmer**

- |   |          |
|---|----------|
| A. Greet the customer                                   | A. _____ |
| B. Reply. Ask whether they sell bananas                 | B. _____ |
| A. Say yes  | A. _____ |
| B. Ask how much they are                                | B. _____ |
| A. Reply  | A. _____ |
| B. Ask for however much you want                        | B. _____ |
| A. Give the price and ask whether there's anything else | A. _____ |
| B. Say no   | B. _____ |
| A. Say goodbye  | A. _____ |

## UNED 12

(Un deg dau / Deuddeg)

### ADRAN A

Roedd hi'n braf ddoe  
oer  
brysur

Roedd hi'n brysur ddoe  
o'n  
Ann yn  
y swyddfa'n

Mi wnes i weld Ann ddoe  
John  
Rocky 16

**Sut oedd hi?**  
**Sut oedd o?**  
**Sut oedd o?**

Iawn  
Go lew  
Ofnadwy

Mi wnes i weld Smot ddoe

**Lle oedd o?**  
**Efo pwy oedd o?**  
**Be' oedd o'n neud?**

Yn y parc  
Siani  
Cael hwyl!

Faint oedd y bil?

Doedd o ddim yn ddrud  
rhad  
rhy ddrwg

Pam doedd John ddim yma ddoe?  
Pam doedd Ann ddim yma ddoe?  
Pam doedd Smot ddim yma ddoe?

Roedd o'n sâl  
Roedd hi'n brysur  
Roedd o mewn cyfarfod!

Sut oedd y gwyliau?  
Oedd y tywydd yn braf?  
Oedd y gwesty'n neis?  
Oedd y bwyd yn dda?  
Oedd y bwyd yn ddrud?  
Oedd y lle'n ddiddorol?  
Lle wnaethoch chi fynd?

Da iawn diolch  
Oedd, roedd hi'n braf iawn  
Oedd, roedd o'n neis iawn  
Oedd, roedd o'n dda iawn  
Nac oedd, roedd o'n rhad iawn  
Oedd, roedd o'n ddiddorol iawn  
Wolverhampton

## Geirfa

byth	-	ever, never	ei hun	-	herself / himself
diddorol	-	interesting	gwesty	-	hotel
drud	-	expensive	yno	-	there

## Patrymau

Amser amherffaith - *Imperfect tense*

roedd hi	-	<i>she/it was</i>
oedd hi?	-	<i>was she/it?</i>
doedd hi ddim	-	<i>she/it wasn't</i>

Oedd hi?	>	Oedd	-	<i>Yes</i>
		Nac oedd	-	<i>No</i>

As in the present tense, the forms are usually followed by "yn" (or 'n after vowels) to "glue" the sentence together

roedd hi'n oer  
oedd y tywydd yn braf?

As in the present tense also, this "yn" is not used with expressions of place:

roedd o \_ mewn cyfarfod  
doedd hi ddim \_ yma

## ADRAN B

1. Doedd y bos ddim yn y swyddfa ddoe. Heddiw, mae hi/o isio gwybod pwy oedd yn y gwaith ddoe, pwy oedd ddim yno am reswm da, a phwy oedd yn chwarae triwant. Llenwch hanner y grid efo "yma", a'r gweddill efo dewis o :

**mewn cyfarfod, yn sâl, yn swyddfa Caerdydd, yn chwarae golff, yn y dafarn, yn pysgota, yn siopa, mewn parti.**

Yna atebwch gwestiynau'r bos:

Lle oedd \_\_\_\_\_?  
 neu Oedd \_\_\_\_\_ yma ddoe?

*Fill in the grid with your colleagues whereabouts yesterday - half were in (yma), but the others were in some of the places noted above. You are the office snitch who answers all the boss' questions.*





Delyth		Geraint	
Siân		Huw	
Glenys		Gareth	
Nia		Gwyn	
Rhiannon		Dafydd	

2. Dewiswch leoliad gwyliau diweddar a'ch barn am y tywydd, y gwesty a'r bwyd. Yna atebwch gwestiynau eich partner:

Lle wnaethoch chi fynd?

Sut oedd y tywydd? neu Oedd y tywydd yn braf?  
 Sut oedd y gwesty? neu Oedd y gwesty'n neis?  
 Sut oedd y bwyd? neu Oedd y bwyd yn dda?

*Choose the location of a recent holiday and your opinion of the weather, hotel and food. Then answer your partner's questions.*

				
<b>TYWYDD</b>				
<b>GWESTY</b>				
<b>BWYD</b>				

**ADRAN C: Deialog**

A. Sut oedd y parti neithiwr?

B. Grêt: parti bendigedig! Roedd y lle'n braf, roedd y bwyd yn dda a mi wnaethon ni gael lot o hwyl

A. Oedd pawb yno?

B. Doedd Pat ddim yno, wrth gwrs, ond roedd pawb arall yno.

A. Sut oedd y bos?

B. Iawn. Roedd o/hi'n mwynhau ei hun, dw i'n meddwl.

A. Oedd hi/o'n dawnsio?

B. Oedd

A. Efo pwy?

B. Ar ben ei hun

A. Sut oedd y disgo, beth bynnag?

B. Ofnadwy. Dw i ddim isio clywed "Una Paloma Blanca" byth eto.

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. **Parwch yr enw a'r llysenw**  
*Match the name and nickname*

Annie	Niwrotig
Beryl	Annifyr ( <i>unpleasant</i> )
Nia	Beryg ( <i>dangerous</i> )

2. Faint o weithiau dach chi'n clywed "roedd", "oedd" neu "doedd"

3. **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

cynta	-	<i>first</i>	
ar y ffordd	-	<i>on the way</i>	
ar y gair	-	<i>talk of the devil</i>	(lit. on the word)
prysur	-	<i>busy</i>	
heddlu	-	<i>police</i>	
cyrraedd	-	<i>to arrive, to reach</i>	

4. Be' ydy problemau plant Nia?

Françoise \_\_\_\_\_

Carlos \_\_\_\_\_

Hans \_\_\_\_\_

5. Be' mae Llinos yn ddeud (*say*) am:

Annie \_\_\_\_\_

Beryl \_\_\_\_\_

Nia \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

**1. Ffindiwch y brawddegau yma:**

How was he? \_\_\_\_\_

It was cold yesterday \_\_\_\_\_

It wasn't too bad \_\_\_\_\_

The office was busy \_\_\_\_\_

Was the food expensive? \_\_\_\_\_

What was he doing? \_\_\_\_\_

Ann wasn't here yesterday \_\_\_\_\_

**2. Atebwch "Yes/No"**

Oedd hi'n braf ddoe? \_\_\_\_\_

Oedd hi'n brysur yn y dre ddoe? \_\_\_\_\_

Oedd "Mary Poppins" yn ffilm dda? \_\_\_\_\_

Oedd y dosbarth yn dda? \_\_\_\_\_

**3. Atebwch**

Pam doedd John ddim yma ddoe? \_\_\_\_\_

Pam doedd Ann ddim yma ddoe? \_\_\_\_\_

Pam doedd Pat ddim yn y parti? \_\_\_\_\_

Pam doedd y tiwtor ddim yn y dosbarth? \_\_\_\_\_

**4. Newidiwch o'r presennol i'r gorffennol / *Change from present to past***

e.e. Mae hi'n oer > Roedd hi'n oer

Ydy hi'n brysur? > \_\_\_\_\_

Lle mae o? > \_\_\_\_\_

Dydy hi ddim yn braf > \_\_\_\_\_

Mae John yn sâl > \_\_\_\_\_

Ydy'r gwesty'n neis? > \_\_\_\_\_

Dydy Pat ddim yma > \_\_\_\_\_

Be' mae Smot yn neud > \_\_\_\_\_



# UNED 13

*(Un deg tri/Tri ar ddeg)*

## ADRAN A

Rôn i'n sâl ddoe *(Roeddwn i)*  
 brysur  
 hwyr

Dôn i ddim yma ddoe **Pam?** *(Doeddwn i ddim)*  
 Rôn i'n gweithio  
 Dôn i ddim yn dda  
 Rôn i wedi blino  
 Dôn i ddim yn medru dwad

Lle oeddet ti ddoe? **Rôn i** allan  
mewn cyfarfod  
i ffwrdd  
yn Wrecsam

Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl y cyfarfod?  
 Sut oeddet ti'n teimlo **Rôn i'n** hapus  
flin  
ddigalon

Oeddet ti yma ddoe? **Ôn / Nac ôn** *(Oeddwn)*  
 Oeddech chi 'n brysur ddoe?  
 'n gweithio ddoe?

Lle oeddech chi'n byw o'r blaen? **Rôn i'n byw yn .....**  
 Lle oeddech chi'n gweithio o'r blaen? **Rôn i'n gweithio yn .....**  
 Be' oeddech chi'n neud o'r blaen? **Rôn i'n gweithio fel .....**

## Geirfa

ar ôl	-	after	hynny	-	that (abstract)
blin	-	cross, angry	i ffwrdd	-	away
byd	-	world	o'r blaen	-	before, previously
cyn	-	before	pob	-	every
digalon	-	sad, downhearted	rhwng	-	between
fel	-	as, like	tan	-	until
hapus	-	happy	teimlo	-	to feel

## Patrymau

rôn i (< roeddwn i) - I was, I used to  
 dôn i ddim (< doeddwn i ddim) - I wasn't

oeddet ti? - were you?  
 oeddech chi? -

oeddet ti / oeddech chi? > ôn - yes (< oeddwn)  
 nac ôn - no (< nac oeddwn)

1. Fel yn Uned 10: **R** yn y positif (rôn i)  
**dim R** yn y cwestiwn (ôn i?)  
**D** yn y negyddol (dôn i ddim)

2. Fel yn yr amser presennol:  
*As in the present tense:*

- a) **dim yn** efo lle - rôn i allan  
*no yn with a place*
- b) **yn + dim** treigladd efo berf - rôn i'n gweithio  
*yn + no mutation with verb*
- c) **yn + treigladd** efo ansoddair - rôn i'n flin  
*yn + mutation with adjective*

3. **BEFORE**

rôn i'n gweithio yn Wrecsam **cyn** dwad yma  
**cyn** cinio  
**o'r blaen.** (= previously)

**Cf. After:**

mi wnes i gysgu **ar ôl** gweithio  
**ar ôl** cinio  
**wedyn** (=afterwards)

## ADRAN B

1. Roedd tipyn o broblem yn y dre ddoc, ac mae plismon isio gwybod lle oeddech chi. Dyma'r posibiladau:

**yn y swyddfa, yn edrych ar y teledu, yn cael bath, yn gweithio yn yr ardd, yn bwyta swper, yn y dafarn, yn y sinema, yn y car, yn golchi'r llestri, ar y ffôn efo ffrind, yn siopa yn Kwiks, mewn cyfarfod.**

4.00	7.30
5.00	8.00
5.30	8.30
6.00	9.00
7.00	9.30

Atebwch gwestiynau'r plismon, e.e.

**Lle oeddech chi am bedwar o'r gloch?  
am hanner awr wedi pump?**

Mae'n bosib bydd y plismon yn gofyn cwestiynau eraill hefyd, e.e.  
*The policeman may also ask other questions:*

**Be' oeddech chi'n neud?  
Efo pwy oeddech chi? ac ati**

2. Dach chi wedi symud o gwmpas llawer dros y blynyddoedd. Atebwch gwestiynau eich partner:

**Lle oeddech chi'n byw yn 1987?  
Be' oeddech chi'n neud?**

*You have moved around a great deal over the years. Answer your partner's questions, e.g.*

**Byw : Bangor, Wrecsam, Lerpwl, Llundain, Caeredin, Ffrainc, Sbaen, Yr Eidal, Yr Almaen, America, Awstralia, Deiniolen**

**Gweithio : mewn gwesty, mewn tŷ bwyta, ar fferm, mewn ysgol, mewn ysbyty, efo'r heddlu, mewn swyddfa, fel "au pair", mewn sinema, fel postmon, mewn bar, fel gyrrwr tacsî.**

Blwyddyn	Lle	Gwaith	Blwyddyn	Lle	Gwaith
1968			1986		
1972			1990		
1977			1993		
1981			1995		
1984			1998		

**ADRAN C: Dcialog**

- A. Lle oeddech chi'n byw cyn dwad yma?  
B. Yn Aberystwyth.
- A. A lle oeddech chi cyn hynny?  
B. Yn Llanelli.
- A. Llanelli? Pryd oeddech chi'n byw yn Llanelli?  
B. Rhwng 1983 a 1990.
- A. Wel, wel! Rôn i'n byw yn Llanelli tan 1986.  
B. Wel, wel! Lle yn Llanelli oeddech chi'n byw?
- A. Yn Stryd y Pwll.  
B. Oeddech chi'n nabod Twm Dwbl Top?
- A. Ôn, wrth gwrs. Rôn i'n byw drws nesa ond un i Twm.  
B. Wel, wel, rôn i'n chwarae dartiau efo Twm yn y Rose and Crown pob nos Sadwrn.
- A. Wel, wel! Byd bach!



**TWM DWBL TOP**

---

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pwy ydy a) Gruff Gruffydd?  
b) Tom Springbottom
2. **Llenwch y bylchau:** \_\_\_\_\_ y cwrs yn grêt  
**Fill the gaps:** \_\_\_\_\_ i'n dysgu llawer ar y  
dechrau  
\_\_\_\_\_ i ddim yn y dosbarth
3. Faint o weithiau dach chi'n clywed y gair "treigladau"?  
*How many times do you hear the word "treigladau" or "treigladau"?*

**D.S. Cwestiwn 4 a 5 drosodd**

4. **Gwrandewch am:** anghofio - *to forget*  
**Listen for:** drysu - *to get confused*  
 poeni - *to worry*

5. Ers pryd mae Gruff Gruffydd yn y gwely yn y gornel ? \_\_\_\_\_

Ers pryd mae Mr. Springbottom yn dysgu Cymraeg? \_\_\_\_\_

Dydy Mr. Springbottom ddim yn dallt  **dau**  beth. Be'? \_\_\_\_\_

Pa gamgymeriad (*mistake*) mae Mr. Springbottom yn neud? \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Ffindiwch y brawddegau yma:**

I was working yesterday \_\_\_\_\_

I wasn't here \_\_\_\_\_

Where were you? \_\_\_\_\_

Were you busy? \_\_\_\_\_

I was away \_\_\_\_\_

I used to work in Amlwch \_\_\_\_\_

I was tired \_\_\_\_\_

What did you do before? \_\_\_\_\_

I wasn't well \_\_\_\_\_

How were you feeling? \_\_\_\_\_

2. **Atebwch "Yes/No"**

Oeddech chi yma wythnos diwetha? \_\_\_\_\_

Oeddech chi'n gweithio ddoe? \_\_\_\_\_

Oeddech chi allan neithiwr? \_\_\_\_\_

Oeddech chi'n byw yng Nghymru  
llynedd? \_\_\_\_\_

Oeddech chi'n byw yng Nghymru  
yn 1990? \_\_\_\_\_

3. **Atebwch**

Lle oeddech chi'n byw o'r blaen? \_\_\_\_\_

Lle oeddech chi'n byw yn blentyn? \_\_\_\_\_

Lle oeddech chi'n gweithio o'r  
blaen? \_\_\_\_\_

Be' oeddech chi'n neud yn 1995? \_\_\_\_\_

4. **Newidiwch o'r presennol i'r gorffennol / *Change from present to past***

e.e. Dw i'n byw yn Llandudno > Rôn i'n byw yn Llandudno

Dw i wedi blino > \_\_\_\_\_

Lle dach chi'n byw? > \_\_\_\_\_

Dw i ddim yn dda > \_\_\_\_\_

Wyt ti'n brysur heddiw? > \_\_\_\_\_

Dw i mewn cyfarfod > \_\_\_\_\_

Dach chi'n nabod Twm? > \_\_\_\_\_

Dw i ddim yma > \_\_\_\_\_

Dw i'n flin > \_\_\_\_\_

Sut dach chi'n teimlo rwan? > \_\_\_\_\_

Dw i ddim yn hapus > \_\_\_\_\_

**UNED 14**  
*(Un deg pedwar / Pedwar ar ddeg)*

**ADRAN A**

Pan ôn i'n blentyn, rôn i'n licio .....

dôn i ddim yn licio.....

rôn i'n licio chwarae .....

dôn i ddim yn licio gwisgo .....

Roedden ni'n byw yn Nefyn o'r blaen

Roedden ni'n licio byw yn Nefyn

**OND**

Doedden ni ddim yn licio'r bobl drws nesa .....

.....

Doedden nhw ddim yn glên

Roedden nhw'n swllyd

Roedden nhw'n licio canu gwlad!

Oeddet ti yma wythnos diwetha?

Ôn

/

Nac ôn

Oedd Chris yma?

Oedd

/

Nac oedd

Oedd Ann a John yma?

Oedden

/

Nac oedden

Be' oeddet ti'n feddwl

o'r ffilm?

Rôn i'n meddwl bod hi'n

ardderchog

Be' oeddech chi'n feddwl

o'r nofel?

iawn

o'r rhaglen?

ofnadwy

o'r gêm?

anobeithiol

Pam wnest ti fynd i Landudno?

Rôn i isio dillad newydd

Pam wnest ti symud yma?

Rôn i isio byw yn y wlad

Pam wnest ti ffonio?

Dôn i ddim isio ysgrifennu

Pam wnest ti godi am chwech o'r gloch?

Dôn i ddim isio cysgu

## Geirfa

anobeithiol	-	hopeless	<u>llofft</u> (ydd)	-	bedroom(s)
ardderchog	-	excellent	llysiau	-	vegetables
blodau	-	flowers	meddai fo	-	so he said
codi	-	to get up, to lift	pan	-	when (ddim mewn cwestiwn)
del	-	pretty	<u>rhaglen</u>	-	programme
dillad	-	clothes	swnllyd	-	noisy
gormod (o)	-	too much	symud	-	to move
gwisgo	-	to wear	traeth	-	beach
<u>gwlad</u>	-	country	ysgrifennu	-	to write
hufen iâ	-	ice cream	(sgwennu)		

## Patrymau

Amser amherffaith - Imperfect tense  
 (= *was, used to*; also used for emotions in the past, e.g. *I liked, I thought* and *I wanted*)

POSITIF	CWESTIWN	NEGYDDOL	YES
Rôn i (< Roeddwn i)	Ôn i? (< Oeddwn i?)	Dôn i ddim (< Doeddwn i ddim)	Ôn (<Oeddwn) (Yes I was)
Roeddet ti	Oeddet ti?	Doeddet ti ddim	Oeddet (Yes, you were)
Roedd o/hi/y bobl	Oedd o/hi/y bobl?	Doedd o/hi/y bobl ddim	Oedd (Yes, he/she/it was)
Roedden ni	Oedden ni?	Doedden ni ddim	Oedden (Yes, we were)
Roeddech chi	Oeddech chi?	Doeddech chi ddim	Oeddech (Yes, you were)
Roedden nhw	Oedden nhw?	Doedden nhw ddim	Oedden (Yes, they were)

## D.S.

- Rôn i \_ isio - dim "yn" efo "isio"
- Be' oeddet ti'n feddwl - y ferf yn treiglo pan mac'r cwestiwn yn dechrau efo be'  
*verbs mutate when question starts with be'*
- Rôn i'n meddwl bod hi ... - bod hi = *that it was* (a *that it is*)





## ADRAN B

1. Dudwch be' oeddech chi'n licio a be' doeddech chi ddim yn licio ers talwm:  
*Say what you liked and didn't like in the past:*

Ers talwm, rôn i'n licio .....  
dôn i ddim yn licio .....

Wedyn, bydd eich partner yn gofyn:

Oeddech chi'n licio .....?



2. Mi wnacthoch chi weld **pob un** o'r rhaglenni yma ar y teledu wythnos diwetha. Rhowch sgôr i bob un allan o ddeg ac atebwch gwestiynau'ch partner, e.e.

Wnest ti weld ..... nos Sadwrn?  
Do

Be' oeddet ti'n feddwl o'r rhaglen?  
Rôn i'n meddwl bod hi'n .....

*You watched each of these TV programmes last week. Give each a score out of ten and answer your partner's questions:*

### SADWRN

- 5.30 Y Clwb Rygbi
- 6.45 Noson Lawen
- 7.45 Cwis: Pwy Ydy Pwy?
- 8.15 Ffilm: Un Nos Ola Leuad

### SUL

- 5.30 Pobl y Cwm (Omnibws)
- 7.30 Bryn Terfel
- 8.30 Drama: Y Tŵr
- 10.00 Ocs 'na Roc a Rôl?

### LLUN

- 4.00 Slot Meithrin
- 5.00 Planed Plant
- 6.00 Heno
- 7.00 Pobl y Cwm
- 7.30 Newyddion
- 8.00 Yn yr ardd
- 8.30 Y Jocars
- 9.00 Y Byd ar Bedwar
- 9.30 Sgorio

**ADRAN C : Deialog**

A. Wnaethoch chi fynd i weld y tŷ?

B. Do.

A. Be' oeddech chi'n feddwl?

B. Wel, rŏn i'n licio'r lle, ond doedd Chris ddim. Gormod o waith, meddai fo/hi.

A. Oedd y lloffydd yn braf?

B. Oedden, braf iawn, ond roedd Chris yn meddwl bod nhw'n rhy fawr. Gormod o waith peintio, meddai fo/hi.

A. Oedd yr ardd yn ddel?

B. O, oedd, roedd yr ardd yn fendigedig. Gardd fawr efo llawer o flodau a llyisiau.

A. A be' oedd Chris yn feddwl? Gormod o waith, mae'n siwr.

B. Wel, roedd o/hi'n licio'r patio!

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pwy ydy'r **pedwar** person sy'n siarad?

---

2. Mae Mr. Springbottom yn teimlo  
*Mr. Springbottom feels*

a) yn falch o gywiro pa gamgymeriad?  
*proud of having corrected which mistake?*

---

b) yn euog am sôn am be' wrth Gruff?  
*guilty for mentioning what to Gruff?*

---

3. Nodwch pob ffurf o **ôn / oedd / oedden** ac ati dach chi'n ei chlywed.  
*Note every form of **ôn / oedd / oedden**, etc. that you hear*

4. **Gwella** - *to cure, to make better*  
Be' sy'n gwella pob tiwtor Cymraeg?

---

**ADRAN D : Taflen waith**

**1. Ffindiwch y brawddegau yma:**

We liked living in Nefyn \_\_\_\_\_

What did you think of the film? \_\_\_\_\_

I didn't want to sleep \_\_\_\_\_

I thought it was hopeless \_\_\_\_\_

They were noisy \_\_\_\_\_

Were Ann and John here? Yes \_\_\_\_\_

I didn't like vegetables \_\_\_\_\_

They liked Country and Western \_\_\_\_\_

**2. Atebwch Yes/No**

Oeddet ti'n licio'r ffilm? \_\_\_\_\_

Oedd y gêm yn dda? \_\_\_\_\_

Oedden nhw'n iawn? \_\_\_\_\_

Oeddet ti'n byw yng Nghymru  
yn blentyn? \_\_\_\_\_

Oedd y bobl yn glên? \_\_\_\_\_

Oeddech chi'n dallt Uned 13? \_\_\_\_\_

Oedd hi'n brysur yn Llandudno? \_\_\_\_\_

Oedd y plant yn swllyd? \_\_\_\_\_

- 3. Ysgrifennwch dair neu bedair brawddeg am lle oeddech chi'n byw o'r blaen neu am eich plentyndod.  
*Write three or four sentences about where you lived before or about your childhood.***

# UNED 15

(*Un deg pump / Pymtheg*)

## ADRAN A

*Mi wnes i ffonio Ann*  
*Mi wnaeth hi ffonio John*  
*Mi wnaeth o ffonio Mr a Mrs. Evans*  
*Mi wnaethon nhw ffonio Mr. a Mrs. Jones .....*  
 ac *mi wnaeth British Telecom anfon y bil!*

<i>Be' wnest ti ddoe?</i>	<i>Mi wnes i weithio</i>
<i>Be' wnaeth Ann?</i>	<i>Mi wnaeth hi weithio</i>
<i>Be' wnaeth y staff?</i>	<i>Mi wnaethon nhw weithio</i>
<i>Be' wnaeth y bos?</i>	<i>Mi wnaeth o chwarae golff</i>

<i>Wnest ti weld y gêm?</i>	Do
<i>Wnaeth Man U. ennill?</i>	Do
<i>Wnaeth Giggs sgorio?</i>	Naddo

<i>Pwy wnaeth ddringo Eferest?</i>	Hilary a Tensing
<i>Pwy wnaeth ganu "Goldfinger"?</i>	Shirley Bassey
<i>Be' wnaeth ddigwydd ar Bont Britannia yn 1970?</i>	Tân
<i>Be' wnaeth ddigwydd yn Chernobyl yn 1984?</i>	Damwain

<i>Mi wnes i fynd i Fflorida</i>	<b>ond</b>	wnes i ddim gweld Mickey Mouse
<i>Mi wnaeth Ann fynd i Baris</i>	<b>ond</b>	wnaeth hi ddim dringo Tŵr Eiffel
<i>Mi wnaethon ni fynd i'r Swistir</i>	<b>ond</b>	wnaethon ni ddim prynu cloc
<i>Mi wnaeth y côr fynd i Awstralia</i>	<b>ond</b>	wnaethon nhw ddim canu "Waltzing Matilda"

## Geirfa

adeiladu	-	to build	felly	-	so, therefore
ail	-	second	<u>hysbyseb</u>	-	advert
anfon	-	to send	mis mêl	-	honeymoon
colli	-	to lose, to miss	peiriant	-	machine
côr	-	choir	priodi	-	to get married
<u>damwain</u>	-	accident	prynu	-	to buy
digwydd	-	to happen	tân	-	fire
diwedd	-	end	trio	-	to try
ennill	-	to win	ysgariad	-	divorce

## Patrymau

Amser Gorffennol - *Past tense*

(I went, I ate, etc.)

(*lit.* I did go, I did eat, etc.)

### GWNEUD (NEUD) - to do/to make

Mi wnes i

Mi wnest ti

Mi wnaeth o/hi/ y bobl drws nesa

Mi wnaethon ni

Mi wnaethoch chi

Mi wnaethon nhw

Positif - mi wnaeth o

Cwestiwn - \_\_\_ wnaeth o?

Negyddol - \_\_\_ wnaeth o ddim

(**Mi** is often omitted in speech)

*Wnaeth* is usually pronounced "**nâth**".

The "ae" in *wnaethon/wnaethoch* can be pronounced as "a" (*nathon*) or as in English "day" (*naethon*)

- Mi wnaeth o'r gwaith cartre** = *He did the homework*  
**Mi wnaeth o gacen** = *He made a cake*  
**Mi wnaeth o fwyta** = *He did eat* = *He ate*

- Mae'r gair cynta ar ôl y person yn treiglo:  
*The first word after the person or subject mutates:*

mi wnaeth o fwyta

wnaeth o **ddim** bwyta

mi wnaethon nhw **golli**

mi wnaeth Manchester United **golli**

ac ar ôl **Pwy wnaeth/Be' wnaeth** :

Pwy wnaeth ennill? = *Who won?*

Be' wnaeth ddigwydd? = *What happened?*

- Gan fod "wnest/wnaeth" ac ati yn dwad o "neud", sylwch ar y canlynol:  
*As "wnest/wnaeth" etc. come from "neud", note the following:*

Be' wnest ti weld? - What did you see?

Be' wnaeth o weld? - What did he see?

Be' wnest ti? - What did you **do**?

Be' wnaeth o? - What did he **do**?

- Dach chi'n deud "**mi wnaethon**" efo "**nhw**": mi wnaethon nhw ...  
Use "**mi wnaethon**" with "**nhw**":

ond "**mi wnaeth**" efo geiriau llyuosog eraill, e.e.:

but "**mi wnaeth**" with other plural words, e.g.:

mi wnaeth y Beatles...

mi wnaeth y bobl drws nesa ...

mi wnaeth Mr. a Mrs. Jones ...

# ADRAN B

Dewiswch un o'r gweithgareddau isod ar gyfer pawb ac atebwch gwestiynau' ch partner:

Be' wnaeth \_\_\_\_\_ ddoc/dydd Sadwrn?

*Choose one of the activities below for everyone and answer your partner's questions.*

	Ddoe	Dydd Sadwrn		Ddoe	Dydd Sadwrn
y tiwtor			y bobl drws nesa		
y plant			y ficer		
y pennaeth			y postmon		
Nain a Taid			Mr.a Mrs Jones		



**ADRAN C : Deialog**

A. Wnest ti weld Pobl y Cwm neithiwr?

B. Naddo, rôn i allan.

A. Wnest ti ddim recordio'r rhaglen?

B. Mi wnes i drïo, ond wnaeth y peiriant fideo ddim gweithio. Be' wnaeth ddigwydd? Wnaeth Kath a Reg briodi?

A. Do, ac mi wnaeth Kath gael babi cyn yr hysbysebion.

B. Lle wnaethon nhw fynd ar eu mis mêl?

A. Wnaethon nhw ddim mynd. Mi wnaethon nhw gael ysgariad yn yr ail hanner.

B. Be' wnaeth ddigwydd ar y diwedd?

A. Mi wnaeth Reg gael damwain, mi wnaeth Kath gael cariad newydd ac mi wnaeth y dafarn fynd ar dân.

A. O, wel, wnes i ddim colli llawer felly.



**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Faint o weithiau dach chi'n clywed "**wnaeth**"?  
*How many times do you hear "wnaeth"*

---

2. Pa "**Yes / No**"s dach chi'n eu clywed?  
Which **Yesses** and **Nos** do you hear?

---

3 **Gwrandewch am:**  
*Listen for:*

gwell	-	<i>better</i>
diwetha	-	<i>last</i>
gadael	-	<i>to leave</i>
blynedd	-	<i>years</i>
meddyg	-	<i>doctor</i>
peidiwch â siarad lol	-	<i>don't talk nonsense</i>
gwaed	-	<i>blood</i>

4. **Pam** mae'r geiriau canlynol yn codi yn y stori?  
*Why do the following words come up in the story?*

brandi	_____
tair wythnos	_____
dyn-neud-castanets	_____
S4C	_____
hypocondriac	_____
sôs coch	_____

5. Pam mae Gruff isio siarad efo'r Sister?

---

**ADRAN D:      Taflen waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma:**

- He phoned \_\_\_\_\_
- They worked \_\_\_\_\_
- Did Man. U. win? \_\_\_\_\_
- Who sang? \_\_\_\_\_
- We didn't eat \_\_\_\_\_
- What did the staff do? \_\_\_\_\_
- What happened? \_\_\_\_\_
- The machine didn't work \_\_\_\_\_

**2.      Atebwch**

- Be' wnest ti ddoe?  
\_\_\_\_\_
- Be' wnaeth dy bartner di ddoe?  
\_\_\_\_\_
- Be' wnaeth y bobl drws nesa ddoe?  
\_\_\_\_\_

**3.      Gorffennwch efo brawddeg negyddol, fel yn yr enghraifft  
*Complete with a negative sentence, as in the example***

- Mi wnes i fynd i Rwsia ond .....      wnes i ddim yfed fodca
- Mi wnaeth John fynd i'r Himalayas ond \_\_\_\_\_
- Mi wnaethon nhw fynd i'r Alpau ond \_\_\_\_\_
- Mi wnaeth y plant fynd i'r ysgol ond \_\_\_\_\_
- Mi wnaeth Ann fynd i Hollywood ond \_\_\_\_\_
- Mi wnes i brynu tocyn loteri ond \_\_\_\_\_

# UNED 16

(Un deg chwech / Un ar bymtheg)

## ADOLYGU AC YMESTYN: (Revision and Extension)

## Digwyddiadau yn y gorffennol (Events in the past)

Llenwch y llinell gynta yn y grid efo manylion am eich gwyliau diwetha (gwir neu ddychmygol). Yna gofynnwch i bobl eraill yn y dosbarth am eu gwyliau nhw (rhai efo "ti", rhai efo "chi"):

*Fill in the first line in the grid with details of your last holiday (real or imaginary). Then ask other people in the class about their holidays (some you will address as "ti", others as "chi"):*

Lle wnest ti/wnaethoch chi fynd ar wyliau?

Sut wnest ti/wnaethoch chi fynd?

Be' wnest ti/wnaethoch chi ar y gwyliau?

Oedd y bwyd yn dda?

Sut oedd y tywydd?

Wnest ti/wnaethoch chi fwynhau? **ac ati**

Ar ôl tipyn, gofynnwch gwestiynau am bobl eraill yn y dosbarth:  
*After a while, ask questions about other people in the class:*

Lle wnaeth X fynd?

Sut wnaeth hi/o fynd?

Be' wnaeth o/hi? **ac ati**

## Geirfa newydd

### Sut ?

ar gefn beic	-	on a bike
<u>awyren</u>	-	aeroplane
hedfan	-	to fly
<u>llong</u>	-	ship

### Pam ?

crwydro	-	to wander
o gwmpas	-	around
torheulo	-	to sunbathe
ymweld â	-	to visit

### Pryd ?

gaea	-	winter
gwanwyn	-	spring
haf	-	summer
hydref	-	autumn

### Tywydd

bwrw glaw	-	to rain
cymylog	-	cloudy
cynnes	-	warm
niwlog	-	foggy
stormus	-	stormy

## Patrwm newydd

I ddweud be' wnaethoch chi yn y gorffennol, dach chi'n medru defnyddio ffurf hir neu ffurf gryno, e.e.

*To say what you did in the past, you can use a long form or a concise form, e.g.*

### Hir / Long

mi wnes i edrych  
mi wnes i weithio  
mi wnes i fwyta

### Cryno / Concise

mi edryches i  
mi weithies i  
mi fwytes i

Does 'na ddim gwahaniaeth o gwbl rhwng y ddau ac mi fyddwch chi'n clywed y ddau pan mae pobl yn siarad. Mi fydd y ffurfiau cryno'n cael eu dysgu'n llawn yn Unedau 37-38.

*There is no difference at all between the two forms and you will hear both used in speech. The concise forms will be covered in full in Units 37-38.*

### D.S.

Mae ffurfiau cryno "**mynd**" yn gyffredin iawn

### N.B.

*The concise forms of "**mynd**" (to go) are very common indeed.*

Mi wnes i fynd	=	mi es i
Mi wnest ti fynd	=	mi est ti
Mi wnaeth hi/o fynd	=	mi aeth hi / o
Mi wnaethon ni fynd	=	mi aethon ni
Mi wnaethoch chi fynd	=	mi aethoch chi
Mi wnaethon nhw fynd	=	mi aethon nhw

E.e.	Mi es i allan	=	<i>I went out</i>
	Mi es i i Sbaen	=	<i>I went to Spain</i>
	Lle est ti?	=	<i>Where did you go?</i>
	Lle aethoch chi?		
	Sut aeth y dosbarth?	=	<i>How did the class go?</i>
	Aethon ni ddim	=	<i>We didn't go</i>
	Aethoch chi? Do	=	<i>Did you go? Yes</i>

Does 'na ddim problem efo "**mi wnes i fynd**", ond mae'n bwysig bod chi'n dallt "**mi es i**". Os dach chi'n hapus efo'r ffurf gryno, triwch ei defnyddio wrth lenwi'r grid.

*You can still say "**mi wnes i fynd**" if you prefer, but it is important that you at least understand "**mi es i**". If you are happy with the concise form, try using it when filling the grid.*

### **GWAITH CARTREF**

**Ysgrifennwch baragraff am wyliau cofiadwy.**

*Write a paragraph about a memorable holiday.*

ENW	LLE?	PAM?	PRYD?	SUT?	AROS MEWN?	TYWYDD DA?	BWYD DA?	MWYN- HAU?



**UNED 17**  
*(Un deg saith / Dau ar bymtheg)*

**ADRAN A**

Dach chi isio panad?

Wel ... Mae 'na de yn y tebot  
Mae 'na gwpan yn y cwpwrdd  
Mae 'na lefrith yn yr oergell (yn y ffrij)  
Mae 'na fisgedi yn y tun

Helpwch eich hun!

Oes 'na	ffôn	yma?	Oes / Nac oes
	le		
	le chwech/dŷ bach		
	rywun yn eistedd		

Ga' i	bedwar tocyn?	Does 'na ddim	tocynnau	ar ôl, mae'n ddrwg gen i
	rywbeth i fwyta?		bwyd	
	gadw lle ar y bws?		lle	
	amser i feddwl?		amser	

Sut mae pethau yn y swyddfa?	Mae 'na ormod o waith
	Does 'na ddim digon o amser
	Mae 'na ormod o waith papur
	Does 'na ddim digon o staff
	Does 'na ddim digon o bres

Pwy sy 'na? (wrth y drws/ar y ffôn)	Dyn o'r Inland Revenue	AAA!!!
Be' sy 'na ar y teledu heno?	Chitty Chitty Bang Bang	AAA!!!
Faint o bres sy 'na yn y banc?	Pum ceiniog	AAA!!!
Faint o "yes/nos" sy 'na yn Gymraeg?	Cannoedd	AAA!!!

Pam dach chi'n hwyr?	Roedd 'na draffig ofnadwy
	Roedd 'na ddamwain ar y ffordd
	Doedd 'na ddim petrol yn y car
	Doedd 'na ddim lle i barcio

Wel, dowch ar gefn beic yfory!

## Geirfa

cadw	-	to keep	lle chwech	-	toilet
cant	-	hundred	<u>oergell</u> ( <u>ffrij</u> )	-	fridge
can <u>punt</u>	-	£100	peth(-au)	-	thing(-s)
cannoedd	-	hundreds	rhywun	-	someone
<u>cwpan</u>	-	cup	<u>sgwrs</u>	-	chat, conversation
cwpwrdd	-	cupboard	tebot	-	teapot
eistedd	-	to sit	twll	-	hole
gorsaf	-	station	tŷ bach	-	toilet
lle	-	place, room	wrth y drws	-	at the door

## Patrymau

Mae 'na	-	<i>there is / there are</i>
Oes 'na?	-	<i>is there / are there?</i>
Does 'na ddim	-	<i>there isn't / there aren't</i>
Pwy sy 'na?	-	<i>Who's there?</i>
Be' sy 'na?	-	<i>What is there?</i>
Faint sy 'na	-	<i>How much is there / How many are there?</i>
Treigladau ar ôl ' <u>na</u>	-	mae 'na problem oes 'na problem?
Dim treigladau ar ôl <u>ddim</u>	-	does 'na ddim problem
Roedd 'na	-	<i>there was / there were</i>
Oedd 'na	-	<i>was there / were there?</i>
Doedd 'na ddim	-	<i>there wasn't / there weren't</i>
Pwy oedd 'na?	-	<i>Who was there?</i>
Faint oedd 'na?	-	<i>How much was there / How many were there?</i>
<b>Gorchmynion (Commands):</b>	Helpwch eich hun	- <i>Help yourself</i>
	Dowch yfory	- <i>Come tomorrow</i>
	Mwy o orchmynion i ddwad yn fuan!	
	<i>More commands coming soon!</i>	


**D.S.** Dach chi'n clywed "**Snam**" yn lle "**Does 'na ddim**" pan mae pobl yn siarad



## ADRAN B

1. Efo partner, dyfalwch be' ydy'r "broblem" ym mhob llun  
*With your partner, guess what the "problem" is in each picture*

e.e. Mae 'na dwll yn y siwmpwr  
 Does 'na ddim bwyd ar ôl



Pan dach chi'n barod, dach chi'n medru siarad am "be' oedd y broblem?" hefyd  
*When you are ready, you can also discuss what the problem was*

2. Dach chi'n gweithio mewn theatr. Mae eich partner isio tocynnau i weld drama. Mae pob perfformiad **ond dau** yn llawn. Dewisiwch chi pa berfformiadau sy'n llawn a'r ddau sy ddim, ac yna atebwch gwestiynau eich partner, e.e.

Oes 'na le nos Fawrth?

Oes 'na le nos Fercher?

Ga' i bedwar tocyn am nos Fercher, plis?

Nac oes, mae'n ddrwg gen i

Oes

Cewch, wrth gwrs

*All performances are fully booked (llawn), apart from two. Take your partner's booking.*

Sul		Iau	
Llun		Gwener	
Mawrth		Sadwrn (p'nawn)	
Mercher		Sadwrn (nos)	

**ADRAN C : Deialog**

A. Oes 'na fws yn mynd o fama?

B. Roedd 'na fws i Fangor hanner awr yn ôl, ond does 'na ddim bws arall tan yfory.

A. Oes 'na drên?

B. Trên! Does 'na ddim gorsaf yma ers 1966!

A. Oes 'na gwmni tacsï yn yr ardal?

B. Mae 'na gwmni yn y dre.

A. Oes 'na giosg yma?

B. Oes, ond does 'na ddim ffôn yn y ciosg. Mae 'na broblem efo fandaliaid.

A. Sgynnoch chi ffôn?

B. Oes, ond dydy o ddim yn gweithio ers y storm. Roedd 'na storm ofnadwy nos Sadwrn.

A. Oes 'na westy yma?

B. Roedd 'na westy yma, ond doedd 'na ddim digon o fusnes. Mi wnaeth o gau ddoe.

A. Be' dw i'n mynd i neud?

B. Dach chi isio prynu beic? Bargen am gan punt!

A. O wel, iawn. Ydy hi'n bosib talu efo Visa?

B. Nac ydy.

A. Siec?

B. Na, dim ond pres.

A. Oes 'na fanc yma?

B. Nac oes!

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pa eiriau benthyg dach chi'n eu clywed?  
*Which borrowed words do you hear?*

e.e. karate, staff

---

---

---

2. Gwrandewch am:

sŵn	-	noise
cwffio	-	to fight
gwaed	-	blood
cymryd	-	to take
gwahanol	-	different
pryd o fwyd	-	meal

3. Atebwch:

a) Ar ba raglen oedd Diana Rigg yn actio ers talwm?

---

b) Ar ba raglen oedd Nia'n actio ers talwm?

---

c) Be' oedd problem Nia efo thermomedr?

---

ch) Be' ydy'r broblem yn yr ysbyty?

---

d) Be' mae Llinos yn feddwl o Siôn?

---

dd) Be' sy 'na rownd y gornel o'r clwb?

---

**ADRAN D :      Taflen waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma:**

Is there a phone here? \_\_\_\_\_

There is too much work \_\_\_\_\_

There are biscuits in the tin \_\_\_\_\_

There isn't any food left \_\_\_\_\_

There aren't enough staff \_\_\_\_\_

There was an accident \_\_\_\_\_

How much is there? \_\_\_\_\_

There wasn't any room \_\_\_\_\_

Is there anyone sitting here? \_\_\_\_\_

There wasn't enough business \_\_\_\_\_

**2.      Atebwch efo "Mae 'na / Does 'na ddim ....."**

Ga' i rywbeth i fwyta? \_\_\_\_\_

Ga' i banad? \_\_\_\_\_

Ga' i ddwad ar y bws? \_\_\_\_\_

Ga' i eistedd yma? \_\_\_\_\_

Ga' i ffonio'r cariad? \_\_\_\_\_

Ga' i fynd i'r tŷ bach? \_\_\_\_\_

**D.S.      Cwestiwn 3 drosodd**

3. Parwch y cwestiynau a'r atebion -

*Match the questions with the appropriate answers*

- |  |   |
|--|---|
| A. Pam dach chi ddim yn gwisgo'r siwt?     | 1. Mae 'na ffilm dda ar y teledu          |
| B. Pam dan ni ddim yn cael panad?          | 2. Roedd 'na broblem efo'r peiriant fideo |
| C. Pam dach chi ddim isio mynd allan heno? | 3. Doedd 'na ddim bws                     |
| CH. Pam wnaethoch chi ddim cysgu neithiwr? | 4. Mae 'na dwll yn y trwsus.              |
| D. Pam wnaethoch chi gerdded adra?         | 5. Mae 'na lawer o draffig.               |
| DD. Pam wnaeth y car stopio?               | 6. Doedd 'na ddim digon o bobl yno        |
| E. Pam wnest ti ddim recordio'r rhaglen?   | 7. Doedd 'na ddim petrol yn y car         |
| F. Pam wnaethon nhw ganslo'r cyfarfod?     | 8. Does 'na ddim pres yn y banc           |
| FF. Pam dach chi ddim yn talu efo siec?    | 9. Does 'na ddim te ar ôl                 |
| G. Pam mae pawb yn hwyr?                   | 10. Roedd 'na barti drws nesa             |



# UNED 18

(Un deg wyth / Deunaw)

## ADRAN A

Rhaid i mi stopio smocio  
Rhaid i mi yfed llai  
Rhaid i mi ymarfer mwy

Dw i ddim yn medru dwad yfory, .....

rhaid i mi weithio  
rhaid i mi fynd i'r ysbyty  
rhaid i mi fynd at y doctor  
rhaid i mi warchod

Mae gen i      gur pen  
                  annwyd  
                  boen cefn  
                  ben mawr

Rhaid    i ti    gymryd aspirin  
          i chi    yfed wisgi a mêl  
                  gysgu ar y llawr  
                  yfed wy a *worcester sauce*

Oes rhaid i ni dalu?  
Oes rhaid i'r plant dalu?  
Oes rhaid i bawb dalu?

Oes, wrth gwrs.

Pam dydy Ann ddim yma?  
Pam dydy John ddim yma?  
Pam dydy'r plant ddim yma?

Rhaid iddi hi weithio  
Rhaid iddo fo weithio  
Rhaid iddyn nhw weithio

Pam doeddet ti ddim yma ddoe?

Roedd rhaid i mi      warchod  
                                  fynd i'r ysbyty  
                                  fynd â'r car i'r garej  
                                  fynd â'r ci at y fet

## Geirfa

cloc larwm	-	alarm clock	llai	-	less
corff	-	body	llawr	-	floor
cymryd	-	to take	mynd â	-	to take
cynnar	-	early	mwy	-	more
cyrraedd	-	to arrive, to reach	rhydd	-	free
chithau	-	you too	wy	-	egg
eleni	-	this year	ymarfer	-	to exercise,
gwarchod	-	to baby-sit			to practise
i lawr	-	down			

## Patrymau

1. **rhaid** - *necessity*

a) Mae rhaid i mi ffonio = *there is a necessity for me to phone*  
= *I must phone, I have to phone*

(‘Mae’ is usually dropped in speech)

b) **i mi** - *for me, to me*  
**i ti** - *for you, to you*  
**iddo fo** - *for him, to him* *etc.*

**iddi hi**

**i ni**

**i chi**

**iddyn nhw**

**i bawb** - *for everybody* *etc.*

**i John**

**i’r bos**

c) **Cwestiwn** oes rhaid i mi? = *is there a necessity for me?* = *do I have to?*  
**Negyddol** does dim rhaid i mi = *there isn’t a necessity for me* = *I don’t have to*  
**Gorffennol** roedd rhaid i mi = *there was a necessity for me* = *I had to*  
(Past)

ch) Rhaid + **i** + goddrych/subject + TREIGLAD : rhaid i mi **fynd**  
rhaid iddo fo **weithio**  
rhaid i John **gysgu**  
rhaid i’r bos **dal**  
rhaid i’r trên **fynd**

2. **to take**

cymryd = *to take time, tablets, care, etc.,*

mynd â = *to take someone / something somewhere*

e.e mynd â’r car i’r garej

mynd â’r plant i’r ysgol

3. **i / at**

*to go to a place* = **i** mynd i’r ysgol

mynd â’r car i’r garej

*to go to a person* = **at** mynd at y doctor

mynd â’r ci at y fet



## ADRAN B

1. Mae eich partner isio i chi weithio rywbryd (*sometime*) wythnos nesa. Rhaid i chi neud llawer o bethau wythnos nesa ac mae eich dyddiadur bron yn llawn (*your diary is almost full*), ond mae gynnoch chi **ddau** amser rhydd (*free*). Atebwch gwestiynau'ch partner:

e.e. **Dach chi'n medru gweithio dydd Llun?**

efo: **Nac ydw, mae'n ddrwg gen i, rhaid i mi .....**  
 neu: **Ydw, dw i'n rhydd dydd Llun**

Dydd Sul		Nos Sul	
Dydd Llun		Nos Lun	
Dydd Mawrth		Nos Fawrth	
Dydd Mercher		Nos Fercher	
Dydd Iau		Nos Iau	
Dydd Gwener		Nos Wener	
Dydd Sadwrn		Nos Sadwrn	

Posibiliadau ar gyfer eich dyddiadur (*Possibilities for your diary*):

mynd i'r ysbyty, mynd i'r dosbarth, gwarchod, gweld y doctor, mynd â Mam i'r dre, neud gwaith tŷ, coginio, mynd i gyfarfod, mynd â'r ci at y fet, chwarae efo'r tîm dartiau, ac ati


- 1 (b) **Be' am newid y personau, e.e.** Ydy Ann yn medru gweithio dydd Llun?  
 Nac ydy, rhaid iddi hi .....
- 1 (c) **Be' am newid yr amser, e.e.** Pam doeddet ti ddim yma nos Fawrth?  
 Roedd rhaid i mi .....

2. Edrychwch ar y lluniau. Gofynnwch i'ch partner be' ydy'r problem. Rhowch gyngor i'ch partner (*Give your partner some advice*), e.e.

**Be' ydy'r problem?**

**Mae gen i gur pen.**

**Rhaid i ti gymryd asprin.**



**ADRAN C: Deialog**

A. Blwyddyn Newydd Dda!

B. A chithau

A. Dw i'n mynd i fod yn berson newydd eleni. Dw i'n mynd i gyrraedd y gwaith yn gynnar pob dydd.

B. Ond mae hi'n chwarter wedi deg.

A. Ia, wel, rhaid i mi brynu cloc larwm newydd. Hefyd, rhaid i mi yfed llai.

B. Be' am y parti yn y clwb heno?

A. Ia, wel, dw i'n mynd i ddechrau yfed llai **yfory**. Rhaid i mi stopio smocio hefyd.

B. Roeddech chi'n smocio pan wnaethoch chi ddwad i mewn trwy'r drws.

A. Ia, wel, rhaid i mi orffen y paced o "*duty frees*" wnes i brynu ar y fferi. Rhaid i mi fynd ar ddeiet hefyd.

B. Pryd?

A. Rhwng amser cinio ac amser te. A rhaid i mi neud mwy o ymarfer corff.

B. Be' am fynd i'r Ganolfan Chwaraeon i lawr y ffordd amser cinio?

A. Syniad da. Ga' i lifft?

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Lle mae Siôn

a) yn hanner cynta'r bennod? \_\_\_\_\_  
*in the first half of the episode?*

b) yn yr ail hanner? \_\_\_\_\_  
*in the second half?*

2. **Gwrandewch am:**

y diwrnod cynta	-	<i>the first day</i>
yn barod	-	<i>already</i>
peidiwch â siarad lol	-	<i>don't talk nonsense</i>
yn hollol	-	<i>exactly, perfectly, completely</i>
cribo	-	<i>to comb</i>

3. Pam mae Siôn isio cribo ei wallt?

\_\_\_\_\_

4. Be' ydy'r broblem ar y ward? \_\_\_\_\_

Sut mae Annie'n ateb y broblem? \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Ffindiwch y brawddegau yma:**

You must take an aspirin

---

Everyone has to pay

---

I have to baby-sit

---

I had to take the car to the garage

---

They have to work

---

Do we have to pay?

---

I must exercise more

---

She has to work

---

2. **Atebwch**

Pam dach chi ddim yn dwad yma yfory?

---

Pam dydy John ddim yn dwad yma yfory?

---

Pam dydy'r plant ddim yn dwad yma yfory?

---

Pam doeddech chi ddim yma ddoe?

---

3. **Rhowch gyngor - Give advice**

Mae gen i annwyd

---

Mae gen i gur pen

---

Mae gan Ann gur pen

---

Mae Siôn isio cariad newydd

---

Mae Ann isio pres

---

Mae'r tîm isio bod yn ffit

---

## UNED 19

### *(Un deg naw / Pedwar ar bymtheg)*

#### ADRAN A

Pwy sy 'na? Be' sy 'na i ginio?	Fi (sy 'ma) Cawl
Faint o lofftydd sy 'na yn y fflat? Faint o bobl sy 'na yn y fflat? Faint o le sy 'na yn y fflat?	Un Chwech Dim llawer
Be' sy ar y teledu heno? Be' sy yn y Plaza ar hyn o bryd? Be' sy yn y papur heddiw?	Pump opera sebon Ffilm newydd Disney Hanes y tiwtor yn Soho
Pwy sy'n siarad? Pwy sy'n galw? Pwy sy'n talu?	Pat Williams (sy'n siarad) Rolff, o Awstralia Chi
Pwy sy isio panad? Faint sy isio coffi? Pwy sy isio siwgr?	Pawb Tri Neb
Pwy sy biau'r beiro 'ma? Pwy sy biau'r llyfr 'ma? Pwy sy biau'r Porsche 'ma?	Fi (sy biau'r beiro 'ma) Chi Dim fi
Pwy sy'n byw yma rwan? Pwy oedd yn byw yma o'r blaen? Faint sy'n gweithio yma rwan? Faint oedd yn gweithio yma o'r blaen?	Mam Nain Deg Pum cant

Dw i'n nabod	y ddynes	sy'n byw yma
	y dyn	sy'n gweithio yma
	y bobl	sy biau'r Porsche 'ma
	rhywun	sy isio prynu'r tŷ

Dw i'n nabod	y ddynes	oedd yn byw yma
	y dyn	oedd yn gweithio yma
	y bobl	oedd ar y teledu neithiwr

#### Geirfa

ar hyn o bryd -	at the moment	gwerthwyr tai -	estate agents
biau -	to own	haul -	sun
cinio -	dinner, lunch	hyfryd -	lovely
cynhesu -	to warm, to heat	cawl -	soup
dyn -	man	nwy -	gas
<u>dynes</u> -	woman	<u>pêl</u> -	ball
galw -	to call	reit fawr -	quite big
<u>galwad</u> -	a call	trydan -	electricity

# Patrymau

## SY

### 1. Cwestiwn

Who is	+	noun/pronoun	=	Pwy <b>yd</b> y hi? / Pwy <b>yd</b> y'r capten?
<b>ond:</b>				
Who is	+	anything else	=	Pwy <b>sy</b> ...
Who is speaking?				Pwy <b>sy</b> 'n siarad?
Who is there?				Pwy <b>sy</b> 'na?
Who is on the phone?				Pwy <b>sy</b> ar y ffôn?
Who wants coffee? (Who is wanting coffee?)				Pwy <b>sy</b> isio coffi?
Who owns the car? (Who is owning the car?)				Pwy <b>sy</b> biau'r car?

**D.S.** Dim yn efo **isio, biau, 'na** ac arddodiaid (*prepositions*) fel **ar, wrth** ac ati

### **Hefyd:**

Be' <b>yd</b> y o?	<b>ond</b>	Be' <b>sy</b> 'n digwydd?
Faint <b>yd</b> y o?	<b>ond</b>	Faint <b>sy</b> 'n mynd?

Mae'n bosib ateb y cwestiwn efo **sy** hefyd i bwysleisio (*emphasise*) y person:  
*It is possible to answer the question using sy to emphasise the person:*

Pwy sy 'na?	>	<u>Fi</u> sy 'ma
Pwy sy'n siarad?	>	<u>Pat Williams</u> sy'n siarad
Pwy sy biau'r car?	>	<u>Hi</u> sy biau'r car

### 2. Cymal - Clause

Yn Saesneg, dach chi'n gofyn: <i>In English, you ask:</i>	Who lives here?
a dach chi'n deud: <i>and you state:</i>	I know the man who lives here
Yn Gymraeg, dach chi'n gofyn: <i>In Welsh you ask:</i>	<b>Pwy</b> sy'n byw yma?
ond dach chi'n deud: <i>but you state:</i>	Dw i'n nabod y dyn sy'n byw yma

(*Dim 'pwy' yn y canol*)


## OEDD

Yn yr amherffaith (*imperfect*), mae **oedd** trwy'r amser:  
*In the Imperfect, oedd is used in all the above contexts:*


Be' **oedd** y broblem?  
Pwy **oedd** 'na?  
Dw i'n nabod y bobl **oedd** yn byw yma

## ADRAN B

1. Be' ydy'r cwestiwn?



2. Pwy sy biau be'?



e.e. Pwy sy biau'r car 'ma?

Y plant

3. Pwy dach chi'n nabod?

**BYW**  
Awstralia  
America  
Siapan  
Ffrainc  
Llanelli

**GWEITHIO**  
ar awyren  
ar fferm  
mewn garej  
mewn ysbyty  
ar y radio

*peintio*  
*actio*  
*chwarae bowls*  
*gyrru Porsche*  
*canu mewn grŵp/côr*

e.e. Dach chi'n nabod rhywun sy'n byw yn Ffrainc?

Nac ydw

Ydw, mae gen i deulu / ffrind sy'n byw yn Bordeaux

**ADRAN C: Deialog**

A. Ga' i siarad efo Ceri Williams, os gwelwch chi'n dda?

B. Pwy sy'n siarad, plis?

A. Pat Evans.

B. Un munud, os gwelwch chi'n dda. .... Ceri, galwad i chi gan Pat Evans

C. Diolch.....Helo, Ceri Williams sy'n siarad

A. Helo, sut dach chi? Pat Evans sy'n siarad o swyddfa'r gwerthwyr tai. Mae gen i dŷ hyfryd i chi. Dw i'n nabod y bobl sy biau'r tŷ rwan - O! pobl glên - a dw i'n nabod y bobl oedd yn byw yn y tŷ o'r blaen hefyd - O! pobl hyfryd.

C. Faint o lofftydd sy 'na?

A. Tair

C. Faint o ardd sy 'na?

A. Mae 'na ardd reit fawr, efo pwll nofio yn y cefn

C. Be' sy'n cynhesu'r tŷ? Trydan 'ta nwy?

A. Yr haul

C. Lle mae'r tŷ?

A. Ym Mlaenau Ffestiniog



1. Gwrandewch am:

ar gau	-	<i>closed</i>
bob amser	-	<i>always</i>
rheilffordd	-	<i>railway</i>
fel arfer	-	<i>usually</i>
gobeithio	-	<i>to hope</i>
poen	-	<i>pain</i>
esbonio	-	<i>to explain</i>

2. Cymharwch (*compare*) Dr. Snip a Siôn

	<b>Dr. Snip</b>	<b>Siôn</b>
gweithio ar ward ....	_____	_____
gwisgo	_____	_____
car	_____	_____
byw	_____	_____
yn edrych allan dros ...	_____	_____
steil	_____	_____

**ADRAN D:      Taflen waith**

**1.      Be' ydy'r cwestiwn?**

- \_\_\_\_\_ Rice Krispies
- \_\_\_\_\_ Tair llofft
- \_\_\_\_\_ Deg
- \_\_\_\_\_ Dim llawer
- \_\_\_\_\_ Y bobl drws nesa
- \_\_\_\_\_ Fi

**2.      Cyfieithwch**

- Who works here? \_\_\_\_\_
- I've got a friend who works here \_\_\_\_\_
- Who owns the house? \_\_\_\_\_
- I know the people who own the house \_\_\_\_\_
- Who wants a new car? \_\_\_\_\_
- I know someone who wants a new car \_\_\_\_\_

**3.      Oneupmanship!**

Dilynwch y patrwm:                      *Follow the pattern:*  
Mae gen i ffrind sy'n gyrru BMW      >      Mae gen i ffrind sy'n gyrru Mercedes

Mae gen i ffrind sy'n byw yn Chicago  
\_\_\_\_\_

Dw i'n nabod rhywun sy'n gweithio fel peilot  
\_\_\_\_\_

Dw i'n nabod rhywun sy'n medru dawnsio tango  
\_\_\_\_\_

Dw i'n nabod rhywun oedd yn nabod Elvis Presley  
\_\_\_\_\_

# UNED 20A

(*Dau ddeg / Ugain*)

## ADRAN A

Wnewch chi aros am funud os gwelwch chi'n dda? Wna i, siwr  
ddal y lein  
ffonio'n ôl  
roi neges i Mrs. Jones

### Cnoc ar y drws:

Dowch i mewn  
Tynnwch eich côt/cotiau  
(Ei)steddwch  
Cymwch banad  
.....  
Brysiwch yma eto  
Cymwch ofal

### Efo'r teulu yn y bore:

Codwch!  
(Y)molchwch!  
B(w)ytwch eich brecwast!  
Yfwch eich llefrith!  
Byddwch yn ddistaw!  
Cerwch o'ma!  
Caewch y drws!

### Yn y syrjeri:

Wnewch chi agor eich ceg?	<b>Be'?</b>	Agorwch eich ceg!
Wnewch chi ddeud AAA?	<b>Be?</b>	Dudwch AAA!
Wnewch chi dynnu eich dillad?	<b>Be'?</b>	Tynnwch eich dillad!
Wnewch chi olchi eich clustiau?	<b>Be'?</b>	Golchwch eich clustiau!!!

Dw i'n mynd i neud <i>bungee</i>	Peidiwch!
	Peidiwch â bod yn wirion
	Peidiwch â sbio i lawr

Dw i'n hwyr	Peidiwch â brysio
	phoeni
	cholli'r trê

Mae gen i annwyd	Rhaid i chi beidio â mynd i'r gwaith
Mae gen i boen bol	Rhaid i chi beidio â bwyta
Mae gen i ddolur gwddw	Rhaid i chi beidio â chanu

## Geirfa

brysio	-	to hurry	gwynt	-	wind, breath
ceg	-	mouth	o'ma	-	from here, away
clust(iau)	-	ear(s)	poeni	-	to worry
dal	-	to hold	rhoi	-	to give, to put
deud	-	to say, to tell	sbio	-	to look (fel "edrych")
distaw	-	quiet	tynnu	-	to pull, to take off
fffenest	-	window	ymlacio	-	to relax
gofal	-	care	ymolchi	-	to wash oneself
gorwedd	-	to lie down	yn ôl	-	back, ago
gwirion	-	silly			

## Patrymau

### 1. GORCHMYNION - COMMANDS

#### Bôn y ferf - Stem of verb

Y ferf yn gorffen efo cytsain,  
adio'r terfyniad:

*Verb ends with consonant, add ending:*

darllen > darllenwch  
edrych > edrychwch

Y ferf yn gorffen efo llafariad,  
colli'r llafariad:

*Verb ends with vowel, drop the vowel:*

codi > cod - codwch  
bwyta > bwyt- bwytwch  
ffonio > ffon- ffoniwch  
gweithio > gweithi- gweithiwch

#### Bôn afreolaidd - Irregular stem

cymryd > cym- cymwch  
aros > arhos- arhoswch  
deud > dud - dudwch  
yfed > yf - yfwch  
cerdded > cerdd - cerddwch  
cau > cae - caewch  
bod > bydd - byddwch

#### Ffurfiâu afreolaidd - Irregular forms

mynd cerwch  
dwad dowch  
(gw)neud gwnewch (do)

### 2. GOFYN FFAFR - ASKING A FAVOUR

Wnewch chi - *Will you (please) ...* (+ **treigladd**: wnewch chi fynd ?)

Yes = Wna i (*Yes, I will*)

No = Na wna i (*No, I won't*)

### 3. PEIDIO Â - TO NOT TO

Peidiwch â mynd - *don't go*

Rhaid i chi beidio â mynd - *you mustn't go* (*it is a necessity for you not to go*)

### 4. TREIGLAD LLAES - ASPIRATE MUTATION

**T** > **th**  
**C** > **ch**  
**P** > **ph**

ar ôl â: e.e. peidiwch â **th**alu










ac ar ôl a: e.e. cig a **th**atws a **ph**ys a **ch**abait

## ADRAN B

Edrychwch ar y lluniau a

a) penderfynwch pa frawddeg sy'n mynd efo pa lun  
*decide which sentence goes with which picture*

b) newidiwch y frawddeg yn orchymyn  
*change the sentence into a command*



- A. Rhaid i chi beidio â smocio
- B. Wnewch chi stopio bod yn wirion?
- C. Rhaid i chi beidio â siarad Saesneg
- CH. Wnewch chi stopio?
- D. Wnewch chi symud eich car?
- DD. Wnewch chi godi?
- E. Wnewch chi orwedd?
- F. Rhaid i chi beidio â bod yn hwyr/  
Wnewch chi frysio?

- FF. Wnewch chi gau'r ffenest?
- G. Wnewch chi ddwad yma?
- NG. Wnewch chi dynnu eich côt?
- H. Wnewch chi fynd o'ma?
- I. Wnewch chi fynd i'r gwely?
- L. Wnewch chi dynnu eich het?
- LL. Wnewch chi eistedd?
- M. Wnewch chi fod yn ddistaw?

**ADRAN C: Deialog**

A. Dowch i mewn, Mr. Jones, a 'steddwch.

B. Diolch, doctor.

A. Be' ydy'r broblem?

B. Dw i ddim yn medru cysgu o gwbl.

A. Wnewch chi dynnu eich dillad, os gwelwch chi'n dda, yna gorweddwch ar y "*couch*".  
Ers pryd dach chi ddim yn cysgu?

B. Ers pedwar mis.

A. Sut dach chi'n teimlo?

B. Wedi blino.

A. Dach chi'n poeni am rywbeth?

B. Nac ydw, dw i ddim yn meddwl.

A. Wnewch chi gymryd gwynt mawr, os gwelwch chi'n dda? Agorwch eich ceg. Dudwch  
AAA. Gwnewch ddeg o "*sit-ups*". Iawn, ymlaciwch.

B. Be' ydy'r broblem, doctor?

A. Dw i ddim yn gwybod.

B. Be' dw i'n mynd i neud?

A. Cymwch dabledi cysgu, faliwm, steroids, betablockers a wisgi, a dowch yn ôl mewn mis.

**ADRAN D:      Taflen waith**

1.      **Ffindiwch y brawddegau yma:**

Will you hold the line?      Yes      \_\_\_\_\_

Will you move the car?      No      \_\_\_\_\_

Take off your coats      \_\_\_\_\_

Drink your milk      \_\_\_\_\_

Don't worry      \_\_\_\_\_

Take care      \_\_\_\_\_

Come in      \_\_\_\_\_

You mustn't go to work      \_\_\_\_\_

Open your mouth      \_\_\_\_\_

Don't be silly      \_\_\_\_\_

2.      **Gofynnwch bedair ffafwr**  
*Ask four favours*

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

3.      **Rhowch gyngor**      -      *Give advice*

e.e.      Dw i'n hwyr      Brysiwch

Dw i wedi blino      \_\_\_\_\_

Dw i'n nerfus      \_\_\_\_\_

Dw i'n mynd allan i ddringo      \_\_\_\_\_

Mae hi'n boeth yma      \_\_\_\_\_

Mae gen i fertigo      \_\_\_\_\_

## UNED 20B

### ADRAN A

Wnei di	agor y ffenest gau'r drws symud y car roi lifft i mi	os gweli di'n dda? plis?	Wna i, siwr Na wna i, wir
---------	---	-----------------------------	------------------------------

#### Cnoc ar y drws:

Ty(r)d i mewn  
Tynna dy gôt  
(Ei)stedda  
Cyma banad  
.....  
Brysia yma eto  
Cyma ofal

#### Efo'r teulu yn y bore:

Coda!  
(Y)molcha!  
B(w)yta dy frecwast!  
Yfa dy lefrith!  
Bydda'n ddistaw  
Dos o' ma!  
Caea'r drws!

Dw i'n mynd am gyfweliad

Paid â phoeni  
Paid â chodi'n hwyr  
Gwisga ddillad smart  
Paid â bod yn nerfus  
Gwena  
Paid â deud celwydd  
Gwna dy orau

Wnei di      ffonio?  
                 ofyn?  
                 dalu?  
                 glirio?

Ffonia dy hun  
Gofynna dy hun  
Tala dy hun  
Cliria dy hun



## Geirfa

apwyntiad	-	appointment	gofyn	-	to ask
canol	-	middle, centre	gorau	-	best
clirio	-	to clear	gwenu	-	to smile
cyfweliad	-	interview	rheolwr	-	manager
deud celwydd	-	to tell lies	trefnu	-	to arrange
dy hun	-	yourself	ymlaen	-	on, ahead
estyniad	-	extension			
			nefi blw!	-	goodness me!

## Patrymau

### 1. GORCHMYNION - *COMMANDS* (Ti)

#### Bôn y ferf - *Stem of verb*

Fel Uned 20A:

E.e.	darllen	>	darllena
	codi	>	coda
	ffonio	>	ffonia

#### Bôn afreolaidd - *Irregular stem*

Fel Uned 20A:

E.e.	cymryd	>	cyma
	aros	>	arhosa
	deud	>	duda
	yfed	>	yfa
	cerdded	>	cerdda
	cau	>	caea
	bod	>	bydda

#### Ffurfiâu afreolaidd - *Irregular forms*

mynd	dos
dwad	tyrd
gwneud	gwna ( <i>do</i> )
peidio â ( <i>to not to</i> )	paid â ( <i>don't</i> )

### 2. GOFYN FFAFR - *ASKING A FAVOUR*

wnei di - *will you (please) ...*

(+ treigladd meddal - wnei di fynd?)

## ADRAN B

- Edrychwch ar luniau Uned 20A eto a
- a) rhowch orchymyn efo ti
  - b) gofynnwch ffafwr efo ti

## ADRAN C: Deialog

### Neges peiriant ateb:

*Does 'na neb yma i gymryd eich galwad ar hyn o bryd. Os dach chi isio gadael neges, wnewch chi siarad ar ôl y tŷn, os gwelwch chi'n dda? Diolch yn fawr.*

- A. Helo, Pat sy 'ma. Wnei di roi lifft i mi i'r parti heno? Tua wyth o'r gloch, ia? Ffonia os oes 'na broblem. Hwyl.
- B. Helo, Garej Ceir Cymru yma. Mae 'na lot o waith ar eich car chi ac mae'n mynd i gostio lot o bres. Dach chi isio mynd ymlaen efo'r gwaith neu dach chi isio gwerthu'r car fel sgrap? Wnewch chi ffonio'r garej cyn pump o'r gloch, os gwelwch chi'n dda? 372871 ydy'r rhif. Diolch.
- C. Helo, Ann Williams o Fanc y Midland, Llandudno. Mae'r rheolwr isio gair efo chi. Wnewch chi ffonio i drefnu apwyntiad, os gwelwch chi'n dda? 01492 872361, estyniad 904. Diolch.
- CH. Helo, Mam sy 'ma. Wyt ti'n iawn? Wnest ti ddim ffonio ddoe. Cofia ffonio heno, ond paid â ffonio ar ganol *Coronation Street* na *Eastenders*. Ffonia tua chwarter i naw.
- D. Nefi blw! Y peiriant ateb yma eto! Ateba'r ffôn, wnei di! Mae'n gas gen i siarad efo peiriant. Ta ra!

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. Nodwch y **gorchmynion** dach chi'n eu clywed:  
*Note the **commands** you hear:*  
e.c paid, arhosa

---

---

2. Lle mae plant Nia Laroche-Jones heno?

Françoise	_____	Jemima	_____
Carlos	_____	Wang-Hi	_____
Alun	_____	Hans	_____
Seamus	_____		

3. **Gwrandewch am:**

sobor	-	<i>sober</i>
dim ots gen i	-	<i>I don't care</i>
distaw	-	<i>quiet</i>
talw	-	<i>to pay</i>
gadael	-	<i>to leave</i>
hir	-	<i>long</i>

4. **Sut mae'r canlynol yn codi yn y stori?**  
*How do the following come up in the story?*

deffro pawb (deffro - *to wake up*)

---

rhif pump

---

chwarae dartiau

---

cadw'r plant (cadw - *to keep, to maintain*)

---

digon o bres

---

**ADRAN D** : **Taflen waith**

1. **Ffindiwch y brawddegau yma.**

Will you pay? Yes, of course

\_\_\_\_\_

Will you give me a lift? No

\_\_\_\_\_

Take off your coat

\_\_\_\_\_

Eat your breakfast

\_\_\_\_\_

Don't tell lies

\_\_\_\_\_

Be quiet

\_\_\_\_\_

Come in

\_\_\_\_\_

Go away

\_\_\_\_\_

Don't get up late

\_\_\_\_\_

Smile

\_\_\_\_\_

2. **Gofynnwch bedair ffafwr**

*Ask four favours*

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

3. **Rhowch gyngor** - **Give advice**

e.e. Dw i'n hwyr

Brysia

Dw i'n cael cyfweliad

\_\_\_\_\_

Dw i'n mynd i neud *bungee*

\_\_\_\_\_

Sgen i ddim car

\_\_\_\_\_

Sgen i ddim pres

\_\_\_\_\_

Sgen i ddim cariad

\_\_\_\_\_

## UNED 21

(Dau ddeg un / Un ar hugain)

### ADRAN A

<p>Wyt ti wedi bod yn Sbaen?          Dach chi wedi bod yng Nghaerdydd?          mewn balŵn?          ar y teledu?</p>	<p>Do, unwaith          Do, dwywaith          Do, tair gwaith          Naddo, erioed</p>
<p>Lle wyt ti wedi bod?          Lle dach chi wedi bod?</p>	<p>Dw i wedi bod yn sâl          Dan ni wedi bod i ffwrdd          yn gweithio          ar wyliau</p>
<p>Wyt ti wedi gorffen y gwaith?          symud tŷ?          cael y swydd?          cael ysgariad?</p>	<p>Dw i ddim wedi dechrau          gwerthu          cael cyfweliad          priodi eto</p>
<p>Dach chi wedi gweld Ann?          John?          Mr a Mrs. Jones?          y parot?</p>	<p>Mae hi wedi mynd i'r banc          Mae o wedi mynd allan          Maen nhw wedi mynd i ffwrdd          Mae o wedi marw</p>
<p>Dach chi wedi gweld Ann?          cael y llythyr?          cael brecwast?          cael panad?</p>	<p>Dydy hi ddim wedi cyrraedd eto          Dydy'r post ddim wedi cyrraedd eto          Dydy'r llefrith ddim wedi cyrraedd eto          Dydy'r tegell ddim wedi berwi eto</p>

### Geirfa

<p>berwi - to boil          erioed - ever (past)  <u>gwaith</u> - time (i.e. number of times)          unwaith - once          dwywaith - twice          golau - light          i ffwrdd - away, off</p>	<p>llythyr - letter          marw - to die          o'r diwedd - at last          rhywle - somewhere  <u>swydd</u> - job          tegell - kettle          troi - to turn</p>
--	---

## Patrymau

### wedi

dw i wedi gorffen	-	<i>I have finished</i>
dw i ddim wedi gorffen	-	<i>I haven't finished</i>
wyt ti wedi gorffen? dach chi	-	<i>have you finished?</i>
mae o wedi gorffen	-	<i>he has finished</i>
ydy o wedi gorffen?	-	<i>has he finished?</i>
dydy o ddim wedi gorffen	-	<i>he hasn't finished</i>

dach chi wedi?	>	<b>Do / Naddo</b>
ydy o wedi?	>	<b>Do / Naddo</b>
dydyn nhw wedi?	>	<b>Do / Naddo</b>

## D.S.

1. dw i wedi gorffen = *I have finished*  
mi wnes i orffen = *I finished*

2. Am "**wedi**", dach chi'n mynd i glywed "**di**" weithiau:

dw i wedi bod	>	dw i di bod
mae o wedi gorffen	>	mae o di gorffen

Am "**ddim wedi**", dach chi'n mynd i glywed "**mdi**" weithiau:

dw i ddim wedi bod	>	dw im di bod
--------------------	---	--------------

Am "**dydy o ddim wedi**", dach chi'n mynd i glywed "**dyomdi**" weithiau:

dydy o ddim wedi gorffen	>	dyom di gorffen
--------------------------	---	-----------------

# ADRAN B

1. a) **Dudwch be dach chi wedi neud, a ddim wedi neud, heddiw, e.e.**







Dw i wedi darllen y papur  
Dw i ddim wedi cael panad ac ati

b) **Gofynnwch i'ch partner ydy o/hi wedi neud y pethau yma heddiw, e.e.**

Wyt ti wedi darllen y papur heddiw?  
Dach chi wedi cael bath heddiw? ac ati



c) **Newidiwch y person:**

Ydy \_\_\_\_\_ wedi golchi'r llestri? ac ati



2. **Mae pedwar peth yn dwad i'r tŷ bob bore: y llefrith, y papur, y post, a'r parcel.**  
**Dyfalwch (guess) ar ba lun mae eich partner yn edrych, e.e.**

ydy'r post wedi cyrraedd?  
ydy'r llefrith wedi cyrraedd? ac ati



**ADRAN C: Deialog**

A. Wyt ti'n barod eto?

B. Dau funud.

A. Wyt ti wedi bod yn deud "dau funud" ers hanner awr.

B. Dw i'n dwad rwan. Wyt ti wedi gweld yr hen siaced las yn rhywle?

A. Do. Dw i wedi mynd â hi i siop Oxfam. Gwisga dy siaced ddu.

B. Iawn, 'ta. Dw i'n barod.

A. O'r diwedd! Wyt ti wedi troi'r golau i ffwrdd yn y llofft?

B. Do, cariad.

A. Wyt ti wedi gadael y gath allan?

B. Do, cariad.

A. Wyt ti wedi cofio'r tocynnau?

B. Wps, naddo!

A. Lle maen nhw?

B. Yn y siaced las!



**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Am be' mae a) Annie yn poeni? \_\_\_\_\_  
b) Siôn yn poeni? \_\_\_\_\_

2. Pa amserau dach chi'n eu clywed?  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

3. **Gwrandewch am:**

cyrraedd	-	<i>to arrive</i>
larwm	-	<i>alarm</i>
tra	-	<i>while</i>
mochyn	-	<i>pig</i>
cynnar	-	<i>early</i>
lle goblyn	-	<i>where on earth</i>
gair sydyn	-	<i>a quick word</i>
iechyd	-	<i>health</i>
siapiwch hi	-	<i>get on with it</i>
beth bynnag	-	<i>anyway</i>

4. **Llenwch y bylchau:**  
*Fill the gaps:*

Mae'n ddrwg gen i \_\_\_\_\_

Dw i wedi bod yma \_\_\_\_\_

6.30 bore yfory, Mr. ap Huw, a \_\_\_\_\_

Lle i broblemau \_\_\_\_\_ ydy'r ward yma, Mr. ap Huw, ddim lle i broblemau  
\_\_\_\_\_

5. Lle mae Llinos wedi mynd? \_\_\_\_\_

**ADRAN D:      Tafllen waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma:**

I haven't started yet \_\_\_\_\_

Have you had the letter? \_\_\_\_\_

Where have you been? \_\_\_\_\_

We've been away \_\_\_\_\_

He's gone out \_\_\_\_\_

The post hasn't arrived yet \_\_\_\_\_

Have you been in Spain? Yes, twice. \_\_\_\_\_

He's dead (he has died) \_\_\_\_\_

**2.      Atebwch efo "wedi":**

Lle dach chi wedi bod? \_\_\_\_\_

Lle mae John? \_\_\_\_\_

Lle mae Ann? \_\_\_\_\_

Lle mae'r plant? \_\_\_\_\_

**3.      Atebwch:**

Dach chi wedi bod yn Aberystwyth? \_\_\_\_\_

Dach chi wedi gweld "Star Wars"? \_\_\_\_\_

Dach chi wedi darllen "Under Milk Wood"? \_\_\_\_\_

Dach chi wedi clywed Bryn Terfel? \_\_\_\_\_

**4.      Meddylwch am gwestiwn addas!**

*Think of an appropriate question!*

\_\_\_\_\_ Do, dwywaith

\_\_\_\_\_ Naddo, erioed

\_\_\_\_\_ Naddo, ddim eto

\_\_\_\_\_ Do, cariad

## UNED 22

*(Dau ddeg dau / Dau ar hugain)*

### ADRAN A

Pwy ydy hwn?

Fy mrawd i  
Fy nhad i  
Fy ngŵr i

Pwy ydy hon?

Fy nghariad i  
Fy chwaer i  
Fy nghath i

Lle mae'r  
bocs?  
papurau?  
pres?  
parti?

Yn fy nghar i  
Ar fy nesg i  
Yn fy mhoced i  
Yn fy nhŷ i

Lle mae fy nghar i?  
Dach chi wedi gweld fy nghôt i?  
Dw i wedi colli fy ngoriadau

Mae o yn y garej  
Mae hi yn y cwpwrdd  
Maen nhw yn y drws

Be' sy'n bod?

Dw i wedi brifo  
fy nghoes  
fy mraich  
fy mys  
fy nhrwyn

### Geirfa

<u>braich</u>	-	arm	goriad(au)	-	key(s)
brifo	-	to hurt	<u>hon</u>	-	this (fem.)
bwrdd	-	table	hwn	-	this (masc.)
bys	-	finger	sut	-	what kind of
<u>cadair</u>	-	chair	trwyn	-	nose
<u>coes</u>	-	leg	tu ôl i	-	behind
dan	-	under	wrth	-	near
diwrnod	-	day	wrth ochr	-	beside
gest ti?	-	did you have?	yng-nghyfraith	-	in-law

## Patrymau

Fy \_\_\_\_\_ i - my

Treigladd Trwynol <i>Nasal Mutation</i>		
<b>C</b>	>	<b>ngh</b>
<b>G</b>	>	<b>ng</b>
<b>T</b>	>	<b>nh</b>
<b>D</b>	>	<b>n</b>
<b>P</b>	>	<b>mh</b>
<b>B</b>	>	<b>m</b>

cariad	>	fy nghariad i
gŵr	>	fy ngŵr i
tad	>	fy nhad i
doctor	>	fy noctor i
plant	>	fy mhlant i
brawd	>	fy mrawd i

Wrth siarad, mae pobl fel arfer yn deud "y" yn lle "fy", e.e.

fy nghariad i	>	y nghariad i
fy mrawd i	>	y mrawd i

Lle does 'na ddim treigladd, mae pobl fel arfer yn deud "yn" yn lle "fy", e.e.

fy chwaer i	>	yn chwaer i
fy enw i	>	yn enw i

Os dach chi wedi deud "i" unwaith yn barod mewn brawddeg (*sentence*), dach chi ddim isio "i" eto.

Lle mae fy nghôt **i** ?  
ond Dw **i** wedi colli fy nghôt \_

## ADRAN B

1. Dyma eich:

chwaer, brawd, ffrind, doctor, bos, deintydd, ficer, cymydog, cariad, mam/tad-yng-nghyfraith

Mae eich partner yn mynd i ofyn i chi pwy ydy pwy.




2. Dach chi wedi colli'r pethau yma:

- |           |         |                    |
|-----------|---------|--------------------|
| 1. goriad | 4. pwrs | 7. llyfr sieciau   |
| 2. côt    | 5. pen  | 8. papur           |
| 3. cwpan  | 6. bag  | 9. bocs brechdanau |

Mae eich partner wedi ysgrifennu'r rhifau ar y llun. (*Your partner will have written the numbers in on her/his copy of the picture*). Gofynnwch iddi hi/iddo fo am help i ffindio'r pethau, e.e.

Lle mae fy \_\_\_\_\_ i?

Wyt ti wedi gweld fy \_\_\_\_\_ i?



**ADRAN C: Dciallog**

A. Helo cariad. Croeso adra. Sut ddiwrnod gest ti?

B. Ofnadwy. Lle mae fy slipars i?

A. Wrth y tân.

B. Lle mae fy mhapur i?

A. Ar dy gadair di.

B. Lle mae fy mhanad i?


A. Yn dy gwpan di.

B. Lle mae fy nghwpan i?

A. Ar y bwrdd wrth ochr dy gadair di.

B. A lle mae fy nghinio i?

A. Yn y ci.



**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pa enghreifftiau o "fy \_\_\_\_\_ i" dach chi'n eu clywed?  
*Which examples of "my \_\_\_\_\_" do you hear?*

---

---

2. **Gwrandewch am:**

gofalus	-	<i>careful</i>
gwerthu	-	<i>to sell</i>
hynny	-	<i>that</i>
cuddio	-	<i>to hide</i>
porthor	-	<i>porter</i>

3. a) Pa **orchmynion** dach chi'n eu clywed?  
*Which commands do you hear?*

---

---

- b) Faint o weithiau dach chi'n clywed "**rhaid**"?  
*How many times do you hear "rhaid"?*

---

4. Pam dydy Gruff ddim yn hapus:

a) cyn mynd i'r theatr? \_\_\_\_\_

b) ar ôl mynd i'r theatr? \_\_\_\_\_

**ADRAN D:      Taflen waith**

**1.      Ffindiwch y brawddegau yma.**

Who is this? My girlfriend \_\_\_\_\_

Have you seen my coat? \_\_\_\_\_

I've hurt my finger \_\_\_\_\_

Where are the papers? On my desk \_\_\_\_\_

I've lost my keys \_\_\_\_\_

I've hurt my nose \_\_\_\_\_

**2.      Atebwch**

Pwy ydy Ann?                      e.e.    Fy chwaer i / Fy mam i

Pwy ydy Alf? \_\_\_\_\_

Pwy ydy Smot? \_\_\_\_\_

Pwy ydy Dr. Williams? \_\_\_\_\_

Pwy ydy Poli? \_\_\_\_\_

**3.      Ysgrifennwch dipyn bach o hanes eich teulu, e.e.**

Roedd fy nhad i'n gweithio fel ficer ac roedd fy mam i'n gweithio fel actores. Mae fy mrawd i'n byw yn Awstralia ac mae fy chwaer i'n byw ym Mlaenau Ffestiniog. Enw fy nghi i ydy Pero ac enw fy nghath i ydy Modlen.



**UNED 23**  
*(Dau ddeg tri / Tri ar hugain)*

**ADRAN A**

Pwy ydy'r bobl yn y llun?  
Pwy ydy hon?  
Pwy ydy hwn?  
Pwy ydy'r rhain?  
Pwy ydy hwn?  
Pwy ydy hwn?

Teulu Siân  
Ei chwaer hi  
Ei gŵr hi  
Ei phlant hi  
Ei thad hi  
Ei chi hi

Dach chi'n nabod Ann?

Be' ydy lliw ei gwallt hi?  
Be' ydy lliw ei llygaid hi?  
Be' ydy lliw ei char hi?

Coch  
Glas  
Melyn

Dach chi'n nabod fy mos i?

Be' ydy ei henw hi?  
Be' ydy ei hoed hi?

Be' ydy ei enw o?  
Be' ydy ei oed o?

Pwy ydy'r bobl yn y llun?  
Pwy ydy hwn?  
Pwy ydy hon?  
Pwy ydy'r rhain?  
Pwy ydy hwn?  
Pwy ydy hon?

Teulu Siôn  
Ei frawd o  
Ei wraig o  
Ei blant o  
Ei dad o  
Ei gath o

Wnaethoch chi weld y lleidr?  
Be' oedd ei oed o?  
Be' oedd lliw ei wallt o?  
Be' oedd lliw ei ddillad o?  
Be' oedd mêc ei gar o?  
Be' oedd ei rif o?  
Be' oedd ei liw o?

Do  
Tua 25  
Oren  
Gwyrdd  
BMW  
R6 rhywbeth  
Llwyd

Lle mae'r parti?

Yn ein tŷ ni  
Yn eu tŷ nhw  
Yn eich tŷ chi

Pam dydy Siôn ddim yma?  
Siân  
Tom a Bill

Mae o wedi torri ei goes  
Mae hi wedi brifo ei phen  
Maen nhw wedi colli eu ffordd

## Geirfa

ffordd	-	road, way	neu	-	or
gwallt	-	hair	y rhain	-	these
lleidr	-	robber	rhieni	-	parents
llygaid	-	eyes	torri	-	to break, to cut

## Patrymau

ei \_\_\_\_\_ hi - her

ei \_\_\_\_\_ o - his/its



eu \_\_\_\_\_ nhw - their

ein \_\_\_\_\_ ni - our


	ei _____ hi	ei _____ o	ein _____ ni	eu _____ nhw
tŷ	ei <b>thŷ</b> hi	ei <b>dŷ</b> o	ein tŷ ni	eu tŷ nhw
car	ei <b>char</b> hi	ei <b>gar</b> o	ein car ni	eu car nhw
plant	ei <b>phlant</b> hi	ei <b>blant</b> o	ein plant ni	eu plant nhw
brawd	ei brawd hi	ei frawd o	ein brawd ni	eu brawd nhw
doctor	ei doctor hi	ei <b>ddoctor</b> o	ein doctor ni	eu doctor nhw
gwaith	ei gwaith hi	ei __waith o	ein gwaith ni	eu gwaith nhw
mam	ei mam hi	ei <b>fam</b> o	ein mam ni	eu mam nhw
lle	ei lle hi	ei <b>le</b> o	ein lle ni	eu lle nhw
rhieni	ei rhieni hi	ei <b>rieni</b> o	ein rhieni ni	eu rhieni nhw
oed	ei <b>hoed</b> hi	ei oed o	ein <b>hoed</b> ni	eu <b>hoed</b> nhw

# ADRAN B

Dyma Ms. X a Mr. Y. Efo'ch partner, disgrifiwch nhw ac ysgrifennwch eich atebion:



Ms. X



Mr. Y

enw

---

---

oed

---

---

gwaith

---

---

lliw gwallt

---

---

lliw llygaid

---

---

lliw dillad

---

---

enw rhieni

---

---

gwaith rhieni

---

---

enw cariad

---

---

oed cariad

---

---

gwaith cariad

---

---

enw ci

---

---

enw tŷ

---

---

mêc car

---

---

Wedyn cymharwch (*compare*) eich portread chi efo portread rhywun arall yn y dosbarth, e.e.

be' ydy lliw ei llygaid hi?

be' ydy ei oed o?

ac ati

**ADRAN C: Deialog**

A. Dach chi'n nabod Ifan Williams?

B. Ifan Williams. Oedd ei dad o'n blismon yn Llanberis ers talwm?

A. Oedd. Dyna chi.

B. Mae ei wraig o'n gweithio yn Woolworths, Bangor.

A. Ydy. Dyna chi.

B. Mae ei blant o yn ysgol Tryfan.

A. Ydyn. Dyna chi.

B. Mi aeth ei frawd o i Awstralia neu rywle.

A. Do, i Seland Newydd. Dyna chi.

B. Dydy o ddim yn cadw siop yng Nghaernarfon efo ei chwaer?

A. Ydy. Dyna chi. Dach chi'n ei nabod o?

B. Nac ydw, dim o gwbl.

**Wedyn, newidiwch y cwestiwn cynta i:**

***Dach chi'n nabod Iona Williams?***

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pa enghraifft o "ei \_\_\_\_\_" dach chi'n eu clywed?

*Which examples of "ei \_\_\_\_\_" (his) and "ei \_\_\_\_\_" (her) do you hear?*

---

---

2. **Gwrandewch am:**

o'r ffordd	-	<i>out of the way</i>
yn ystod	-	<i>during</i>
bai	-	<i>fault</i>
'sti	-	<i>you know</i>
ffrind i mi	-	<i>a friend of mine</i>
ac ati	-	<i>et cetera</i>
neis eich gweld chi	-	<i>nice to see you</i>

3. **Sut dach chi'n deud y canlynol yn Gymraeg:**

*How do you say the following in Welsh:*

Move out of the way, woman \_\_\_\_\_

Don't talk through your hat \_\_\_\_\_

Whose fault is that? \_\_\_\_\_

You can't act at all \_\_\_\_\_

You were an excellent nurse \_\_\_\_\_

Call me Tom \_\_\_\_\_

It's nice to know \_\_\_\_\_

4. Be' mae Nia'n feddwl

a) o Siôn? \_\_\_\_\_

b) o Tom? \_\_\_\_\_

**ADRAN D:      Taflen waith**

1.      **Newidiwch “o” i “hi”**

Be' ydy lliw ei lygaid o?

\_\_\_\_\_

Be' ydy ei oed o?

\_\_\_\_\_

Be' ydy ei rif o?

\_\_\_\_\_

Roedd ei wallt o'n ddu

\_\_\_\_\_

Roedd ei dad o'n gweithio ar ffarm

\_\_\_\_\_

Mae o wedi torri ei goes

\_\_\_\_\_

2.      **Newidiwch “hi” i “o”**

Be' ydy lliw ei char hi?

\_\_\_\_\_

Be' ydy ei henw hi?

\_\_\_\_\_

Be' ydy lliw ei dillad hi?

\_\_\_\_\_

Mae hi wedi brifo ei phen

\_\_\_\_\_

Roedd ei chariad hi'n gweithio  
mewn banc

\_\_\_\_\_

Mae ei llygaid hi'n las

\_\_\_\_\_

3.      **Cymharwch (*compare*) chi a'r cymdogion, e.e.**

Mae ein tŷ ni'n neis, mae eu tŷ nhw'n ofnadwy.

a) \_\_\_\_\_

b) \_\_\_\_\_

c) \_\_\_\_\_

4.      **Ysgrifennwch bortread o rywun yn eich teulu chi, e.e.**

Enw fy chwaer i ydy Blodwen. Mae ei gwallt hi'n frown ac mae ei llygaid hi'n wyrdd. Mae gynni hi deulu: mae ei gŵr hi'n gweithio mewn siop ac mae ei phlant hi'n mynd i Ysgol Llanfair. Metro ydy ei char hi a Pero ydy enw ei chi hi.

**UNED 24**  
*(Dau ddeg pedwar/ Pedwar ar hugain)*

**ADRAN A**

*Mi* fydda i yma yfory  
adra  
i ffwrdd

Fyddda i ddim yma yfory  
i mewn  
ar gael

Pryd fyddi di ar gael?  
Pryd fyddwch chi

Mewn munud  
Mewn awr  
Mewn wythnos

Be' fyddi di'n neud dros y penwythnos?

*Mi* fydda i'n gweithio  
garddio  
llnau  
adolygu fy Nghymraeg

Lle fyddwch chi'n mynd ar wyliau?  
Pryd fyddwch chi'n mynd?  
Sut fyddwch chi'n mynd?  
Be' fyddwch chi'n neud?

*Mi* fyddwn ni'n mynd i'r Swistir  
mynd yn y gwanwyn  
mynd ar y trê'n  
cerdded yn y mynyddoedd

Fyddi di yma yfory?  
Fyddwch chi 'n rhydd  
ar gael  
'n brysur

Bydda / Na fydda  
Byddwn / Na fyddwn  
Ella / Ella ddim  
Gobeithio / Gobeithio ddim

Fyddi di'n brysur yfory?

Na fydda, fydda i ddim yn neud dim byd

D.S. Dydy pobl ddim yn deud <i>mi</i> bob tro pan maen nhw'n siarad
--

## Geirfa

amhosib	-	impossible	llyn (llynnoedd)	-	lake(-s)
<u>ardal</u>	-	area	mor (----- â)	-	as (---- as), so
<u>awr</u>	-	hour	mynydd (-oedd)	-	mountain (-s)
buan	-	soon	oedolion	-	adults
dros	-	over	penwythnos	-	weekend
gobeithio	-	to hope	posib	-	possible

## Patrymau

### Amser dyfodol - *Future tense*

Mi fydda i	-	<i>I will be</i>
Mi fyddwn i	-	<i>We will be</i>

Fyddi di?	-	<i>Will you be?</i>
Fyddwch chi?		

Fyddda i ddim	-	<i>I won't be</i>
Fyddwn ni ddim		<i>We won't be</i>

Mi fydda i + disgrifiad/ <i>description</i>	-	Mi fydda i' <b>n</b> brysur
Mi fydda i + berf/ <i>verb</i>	-	Mi fydda i' <b>n</b> gweithio
Mi fydda i + lle / <i>place</i>	-	Mi fydda i _ adra
		Mi fydda i _ i mewn

Fyddi di? )	-	Bydda	( <i>Yes, I will be</i> )
Fyddwch chi? )	-	Na fydda	( <i>No, I won't be</i> )

Fyddwch chi?	-	Byddwn	( <i>Yes, we will be</i> )
		Na fyddwn	( <i>No, we won't be</i> )



## ADRAN B

Dyma eich dyddiadur am wythnos nesa:

Dydd Sul		Nos Sul	
Dydd Llun		Nos Lun	
Dydd Mawrth		Nos Fawrth	
Dydd Mercher		Nos Fercher	
Dydd Iau		Nos Iau	
Dydd Gwener		Nos Wener	
Dydd Sadwrn		Nos Sadwrn	

Mi fyddwch chi adra weithiau, allan weithiau, ac weithiau fyddwch chi ddim yn neud dim byd. Llenwch y dyddiadur (*fill in the diary*) gan adael **da** amser lle fyddwch chi ddim yn neud dim byd.

### **ADRA** (x 6)

edrych ar fideo  
smwddio  
garddio  
llnau  
peintio

papuro  
coginio  
adolygu  
ysgrifennu llythyrau  
gwarchod

### **ALLAN** (x 6)

siopa  
yn y dafarn  
mewn cyfarfod  
chwarae bingo  
nofio

cael cinio efo ffrind  
yn y dosbarth yoga  
cerdded yn y mynyddoedd  
yn y sinema  
chwarae badminton

### **DIM BYD** (x 2)

#### 1. Gofynnwch i'ch partner:

- A. Be' fyddi di'n / fyddwch chi'n neud p'nawn Llun? **ac ati**
- B. Pryd fyddi di'n / fyddwch chi'n chwarae badminton? **ac ati**
- C. Fyddi di / Fyddwch chi adra nos Lun? **ac ati**

#### 2. Cerwch o gwmpas y dosbarth i drïo ffindio rhywun sy'n rhydd ar yr un pryd â chi (*at the same time as you*)

## ADRAN C: Deialog

A. Fydda i ddim yma wythnos nesa, mae'n ddrwg gen i. Mi fydda i ar fy ngwyliau.

B. Neis iawn. Lle dach chi'n mynd?

A. I Ardal y Llynnoedd. Rôn i isio mynd dros y môr ond roedd hi'n amhosib efo grŵp mor fawr.

B. Faint o bobl sy'n mynd, felly?

A. Arhoswch am funud .... fi a fy nghariad, brawd fy nghariad a'i wraig, chwaer fy nghariad a'i phlant, tad a mam fy nghariad a'u cŵn, nain fy nghariad a'i chathod .... Wyth o oedolion, pump o blant a chwech o anifeiliaid!

B. Lle fyddwch chi'n aros?

A. Mewn carafan.

B. Pryd fyddwch chi'n ôl?

A. Mor fuan â sy'n bosib.

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. Pwy ydy'r **pedwar** person sy'n siarad?

---

2. Faint o weithiau dach chi'n clywed:

a) **fydda** \_\_\_\_\_

b) **fydd** (*he/she will be*) \_\_\_\_\_

3. **Gwrandewch am:**

dal	-	<i>still</i>
cuddio	-	<i>to hide</i>
budr	-	<i>dirty</i>
addo	-	<i>to promise</i>
trwm	-	<i>heavy</i>
arwyddo	-	<i>to sign</i>
chwaith	-	<i>either</i>
erioed	-	<i>never (past)</i>
byth	-	<i>never (present/future)</i>

4. a) Sut mae Nia'n trin (*to treat*) Siôn?

---

b) Sut mae Gruff yn dwad yn ôl i'r ward?

---

c) Pam mae Nia isio i Gruff arwyddo'r papur?

---

ch) Pam mae **erioed** a **byth** yn codi yn y stori?

---

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Ysgrifennwch ddeialog** B = Mrs. Jones (Galwch hi'n "chi" )  
C = Rob (Galwch o'n "ti")

A. Ask Mrs. Jones whether she'll be in tomorrow. A. \_\_\_\_\_

B. Say that you'll be here in the morning but that you'll be somewhere else in the afternoon. B. \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

A. Ask Rob whether he'll be here tomorrow morning. A. \_\_\_\_\_

C. Say no, and explain what you'll be doing. C. \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

A. Ask Mrs. Jones whether she'll be available next week. A. \_\_\_\_\_

B. Say on which days you'll be in, and on which days you'll be away B. \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

A. Ask her whether she'll be busy on one of the days she'll be in. A. \_\_\_\_\_

B. Say at what time you'll be free B. \_\_\_\_\_

A. Ask Rob whether he'll be available at that time on that day. A. \_\_\_\_\_

C. Say yes, and that you won't be doing anything on that day. C. \_\_\_\_\_

A. Sound pleased and say that we'll be having a meeting then. A. \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

2. **Ysgrifennwch dipyn bach am eich gwyliau nesa, gwir neu ddychmygol (real or imaginary).**

## UNED 25

*(Dau ddeg pump / Pump ar hugain)*

### ADRAN A

*Mi* fydd hi'n braf yfory  
*Mi* fydd hi'n oer  
*Mi* fydd hi'n bwrw

Lle mae John? *Mi* fydd o yma mewn munud  
Lle mae Ann? *Mi* fydd hi yma  
Lle mae'r heddlu? *Mi* fyddan nhw yma

Lle mae John? Fydd o ddim yma am dipyn  
Lle mae Ann? Fydd hi ddim yma  
Lle mae'r heddlu? Fyddan nhw ddim yma

Pryd fydd y rheolwr i mewn? Mewn dau funud  
Pryd fydd y doctor ar gael? Mewn dwy awr  
Pryd fydd y lluniau'n barod? Mewn dau ddiwrnod  
Pryd fydd y cyfarfod nesa? Mewn dau fis

Fydd hi'n brysur yfory? Bydd / Na fydd  
Fydd y swyddfa ar gau yfory? Bydd / Na fydd  
Fydd y siopau ar agor yfory? Byddan / Na fyddan

Fyddwch chi yma yfory? Bydda, os bydd hi'n braf  
os bydd hi'n oer  
os bydd hi'n wlyb

### Geirfa

ar agor	-	open	hyn	-	this (abstract)
ar gau	-	closed	mis	-	month
heddlu	-	police	tipyn	-	a bit, a while

Ionawr	-	January	Gorffennaf	-	July
Chwefror	-	February	Awst	-	August
Mawrth	-	March	Medi	-	September
Ebrill	-	April	Hydref	-	October
Mai	-	May	Tachwedd	-	November
Mehefin	-	June	Rhagfyr	-	December

## Patrymau

### A. Amser dyfodol "bod" - Future tense of "bod" - *to be*

Mi fydda i	-	<i>I will be</i>
Mi fyddi di	-	<i>You will be</i>
Mi fydd hi / o / bobl	-	<i>She / he / the people will be</i>
Mi fyddwn ni	-	<i>We will be</i>
Mi fyddwch chi	-	<i>You will be</i>
Mi fyddan nhw	-	<i>They will be</i>

### D.S.

1. "Mi" mewn brawddeg bositif\*  
Dim "mi" yn y cwestiwn a'r negyddol  
Dim "mi" ar ôl "os"

\*ond dydy pobl ddim yn deud "mi" bob tro pan maen nhw'n siarad

2. **Atebion** :  
Fyddi di? Bydda / Na fydda  
Fydd o/hi/Ann? Bydd / Na fydd  
Fyddwch chi? Bydda / Na fydda (*I will be*)  
Byddwn / Na fyddwn (*We will be*)  
Fydd yr heddlu? Byddan / Na fyddan  
Fyddan nhw?

3. Wrth siarad am y dyfodol (*when speaking about the future*) rhaid i chi ddefnyddio (*to use*) yr amser dyfodol ar ôl "os". (Yn Saesneg, dach chi'n defnyddio'r presennol), e.e.

- ▶ I will be out, if it **is** fine  
Mi fydda i allan, os **bydd** hi'n braf

### B. Cyfnodau o amser - *Periods of time*

Mae rhai yn fenywaidd a rhai yn wrywaidd (*Some are feminine, some are masculine*)

tri munud	tair awr
tri diwrnod	tair wythnos
tri mis	tair blynedd

D.S. Treigladd Meddal (Soft Mutation) ar ôl "dau/dwy":

dau funud	dwy flynedd
-----------	-------------

# ADRAN B

1. Dyma ddyddiaduron (*diaries*) Nia Jet-Set Williams, Dewi Jet-Set Davies a'r teulu Jet Set Jones. Lle fyddan nhw'r flwyddyn nesa? Gweithiwch mewn grwpiau o **dri**, pawb i lenwi dyddiadur person gwahanol (*each one to fill a different person's diary*) efo rhai o'r llefydd yma (*with some of these places*):

**adra (x 3), Yr Almaen, Awstralia, Gogledd America, Y Swistir, Ffrainc, Sbaen, Rwsia, Twrci, Siapan, De Affrica, Ffindir.**


	NIA	DEWI	Y JONESYS
Mis Ionawr			
Mis Chwefror			
Mis Mawrth			
Mis Ebrill			
Mis Mai			
Mis Mehefin			
Mis Gorffennaf			
Mis Awst			
Mis Medi			
Mis Hydref			
Mis Tachwedd			
Mis Rhagfyr			

Mae'r tri isio cyfarfod rywbyrd (*sometime*) ond fydd hi'n bosib? Gofynnwch gwestiynau fel:  
 Fydd Nia adra ym mis Mawrth?  
 Lle fydd y Jonesys ym mis Medi?

2. Edrychwch ar y lluniau ac atebwch gwestiwn eich partner :

Be' fyddi di'n / fyddwch chi'n neud dydd Sadwrn?

Os bydd hi'n braf, mi fydda i'n ..... / Os bydd hi'n wlyb, mi fydda i'n .....



**ADRAN C: Deialog**

- A. Dw i isio gweld Mr. Williams, os gwelwch chi'n dda.
- B. Dydy o ddim yma ar hyn o bryd, mae'n ddrwg gen i.
- A. Pryd fydd o'n ôl?
- B. Dw i ddim yn meddwl bydd o'n ôl cyn un
- A. Fydd o i mewn prynhawn 'ma 'ta?
- B. Bydd, os bydd hi'n wlyb.
- A. Os bydd hi'n wlyb?
- B. Ia. Mi fydd o'n chwarae tenis os bydd hi'n braf.
- A. Be' am Mrs. Jones 'ta? Ydy hi yma?
- B. Nac ydy, mae'n ddrwg gen i. Fydd hi ddim i mewn trwy'r dydd.
- A. Fydd hi neu Mr. Williams yma yfory?
- B. Na fyddan, mae'n ddrwg gen i. Mi fydd y ddau i ffwrdd yng Nghaerdydd.
- A. Wel, mae hyn yn ofnadwy! Well i mi weld y rheolwr, dw i'n meddwl.
- B. Mae'n ddrwg gen i, ond mae'r rheolwr ar wyliau. Fydd o ddim yn ôl tan ddiwedd mis Awst.



**ADRAN CH: Opera Sebón**

1. Faint o weithiau dach chi'n clywed:

- a) **fydd** \_\_\_\_\_
- b) **fydda** \_\_\_\_\_

2. **Gwrandewch am:**

dwad dros	-	<i>to get over</i>
ar ben ei hun	-	<i>by herself</i>
diwrnod o wyliau	-	<i>a day off</i>
haeddu	-	<i>to deserve</i>
yn eich lle chi	-	<i>instead of you</i>
syniad	-	<i>idea</i>

3. a) Sut mae Siôn yn mynd i helpu Nia ?

\_\_\_\_\_

b) Be' sy'n digwydd i Siôn yfory?

\_\_\_\_\_

c) Be' sy'n digwydd i Annie yfory?

\_\_\_\_\_

ch) Be' sy'n digwydd heno?

\_\_\_\_\_

4. Sylwch ar y defnydd o "**chi**" a "**ti**" yn y bennod yma  
*Comment on the use of "chi" and "ti" in this episode*

\_\_\_\_\_

**ADRAN D: Tafflen Waith**

**1. Ffindiwch y brawddegau yma:**

They'll be here in a minute

\_\_\_\_\_

Will the shops be open tomorrow?

\_\_\_\_\_

She won't be here for a while

\_\_\_\_\_

When will the doctor be available?

\_\_\_\_\_

If it's wet

\_\_\_\_\_

**2. Atebwch "Yes/No"**

Fydd hi'n braf yfory?

\_\_\_\_\_

Fydd Coronation Street ar y teledu heno?

\_\_\_\_\_

Fydd y plant yn yr ysgol yfory?

\_\_\_\_\_

Fyddwch chi yn y dosbarth nesa?

\_\_\_\_\_

Fydd y bobl drws nesa i mewn heno?

\_\_\_\_\_

Fydd y bws yma mewn munud?

\_\_\_\_\_

**3. Gofynnwch gwestiwn addas (ask an appropriate question)**

\_\_\_\_\_

Mewn dau funud

\_\_\_\_\_

Mewn hanner awr

\_\_\_\_\_

Mewn tri mis

\_\_\_\_\_

Ym mis Awst

\_\_\_\_\_

Bydd

\_\_\_\_\_

Na fydd

\_\_\_\_\_

Byddan

\_\_\_\_\_

Bydda

## UNED 26

*(Dau ddeg chwech /Chwech ar hugain)*

**ADOLYGU AC YMESTYN:**  
*Revision and extension*

**A**

**Y Dyfodol**  
*The future*

1. **Darllenwch y poster yma ac atebwch y cwestiynau:**

**THEATR GWYNEDD BANGOR**  
yn cyflwyno

**Y TŴR**

Drama gan Gwenlyn Parry

**Actorion:** John Ogwen  
Maureen Rhys

**23-27 Medi**

Nos Fawrth - Nos Wener am 7.30  
Dydd Sadwrn am 3.00 a 8.00

Tocynnau: £6.00  
Hanner pris i blant a phensiynwyr

**Swyddfa Docynnau: 01248 351708**

- a) Be' ydy enw'r ddrama? \_\_\_\_\_
- b) Pwy wnaeth ysgrifennu'r ddrama? \_\_\_\_\_
- c) Faint o bobl fydd yn actio yn y ddrama? \_\_\_\_\_
- ch) Lle fydd y ddrama? \_\_\_\_\_
- d) Faint o berfformiadau fydd 'na? \_\_\_\_\_
- dd) Faint fydd pris tocyn i berson 75 oed? \_\_\_\_\_
- e) Pam fyddwch chi'n ffonio 01248 351708? \_\_\_\_\_

2. Darllenwch y poster yma ac ymarfer y ddeialog. Mi gewch chi ddewis yr ateb ola eich hun (*you can choose the last answer for yourself*)

**CLWB PENSIYNWYR Y LLAN**

yn cyflwyno

**CYNGERDD ROC**

yn yr

OCTAGON, BANGOR

Nos Wener, 5ed Mehefin  
am 9.00

efo


*Gorky's Zygotic Mynci*  
a  
*Letys Seicedelig*

**Tocynnau: £5.00**

- A. Mae 'na gyngerdd roc ymlaen wythnos nesa. Wyt ti isio dwad?
- B. Pryd fydd o?
- A. Nos Wener
- B. Lle?
- A. Yn yr Octagon
- B. Pwy fydd yn chwarae?
- A. Gorky's Zygotic Mynci a Letys Seicedelig
- B. Faint ydy'r tocynnau?
- A. Pum punt
- B. Fydd hi'n bosib prynu tocynnau wrth y drws?
- A. Na fydd, does 'na ddim llawer ar ôl. Rhaid i ti brynu tocyn heddiw os wyt ti isio mynd
- B. *lawn, ga' i un tocyn/ddau docyn/dri tocyn?*

*Dw i'n mynd i aros adra, dw i'n meddwl... Mae 'na ffilm dda ar y teledu.  
.... Sgen i neb i warchod  
.... Mi fydda i wedi blino nos Wener*

3. Paratowch boster newydd, yna triwch berswadio eich partner i brynu tocyn



## Geirfa

cyflwyno	-	to present, to introduce
cyngerdd	-	concert
<u>dawns</u>	-	dance
<u>drama</u>	-	play
<u>ffair</u>	-	fair
gair/geiriau	-	word/words
<u>noson goffi</u>	-	coffee evening
<u>noson lawen</u>	-	informal concert
penderfynu	-	to decide
twmpath dawns	-	folk dance

## ADOLYGU AC YMESTYN:

*Revision and extension:*

**B**

Gorchmynion

*Commands*

### Ymarfer efo'ch partner:

Dw i ddim wedi talu eto

Wel, talwch rwan 'ta!

Dw i ddim wedi ymolchi eto

Dw i ddim wedi ffonio eto

Dw i ddim wedi meddwl eto

Dw i ddim wedi gofyn eto

Dw i ddim wedi trefnu eto

Dw i ddim wedi bwcio eto

Dw i ddim wedi ateb eto

Dw i ddim wedi prynu'r bwyd eto

Wel, prynwch o rwan 'ta

Dw i ddim wedi darllen y llyfr eto

Dw i ddim wedi ffonio'r bos eto

Dw i ddim wedi gwneud y gwaith eto

Dw i ddim wedi dysgu'r geiriau eto

Dw i ddim wedi prynu'r tatws eto

Dw i ddim wedi golchi'r llestri eto

Dw i ddim wedi postio'r llythyrau eto

Dw i ddim wedi bod yn y banc eto

Wel, cerwch i'r banc rwan 'ta

Dw i ddim wedi bod yn y bath eto

Dw i ddim wedi bod yn eich tŷ chi eto

Wel, peidiwch â dwad heddiw

Dw i ddim wedi penderfynu eto

Dw i ddim wedi talu eto

Dw i ddim wedi canu i chi eto

### **GWAITH CARTREF**

**Ysgrifennwch neges yn esbonio pam dach chi ddim i mewn ac yn gofyn i rywun neud rhywbeth (e.e. galw eto, coginio cinio, ac ati)**

*Write a message explaining why you aren't in and asking someone to do something (e.g. call again, cook dinner, etc.)*

## UNED 27

(Dau ddeg saith / Saith ar hugain)


**ADOLYGU AC YMESTYN:**

**A**

**Amser**

Faint o'r gloch ydy hi?

- i un
- i ddau
- i dri
- i bedwar
- i bump
- i chwech
- i saith
- i wyth
- i naw
- i ddeg
- i unarddeg
- i ddeuddeg



- wedi un
- wedi dau
- wedi tri
- wedi pedwar
- wedi pump
- wedi chwech
- wedi saith
- wedi wyth
- wedi naw
- wedi deg
- wedi unarddeg
- wedi ddeuddeg

Faint o'r gloch ydy hi?

Tri o'r gloch  
 Pum munud i dri  
 Pum munud wedi tri  
 Pum munud ar hugain i dri  
 Hanner awr wedi tri

Faint o'r gloch ydy hi?

Tua chwarter wedi dau  
 Bron yn chwarter i dri  
 Newydd droi pump

Faint o'r gloch

mae'r dosbarth?  
 mae'r bws yn gadael?  
 mae'r bws yn dwad yn ôl?  
 mae'r gêm yn gorffen?

(Am) Saith o'r gloch  
 Hanner awr wedi saith  
 Tua deg o'r gloch  
 Am bump

Faint o'r gloch

wnaethoch chi godi bore 'ma?  
 wnaeth y bws gyrraedd?  
 fydd y bar yn cau?  
 fyddi di'n mynd i'r gwely heno?

(Am) chwech o'r gloch  
 Am bum munud wedi chwech  
 Am dri o'r gloch y bore  
 Am chwech o'r gloch y bore

## Geirfa

am	-	at (a time)
bron	-	almost
newydd	-	just

## Ymarfer

Mi fydd un partner yn ysgrifennu amserau rhaglenni Dydd Llun, â'r partner arall yn ysgrifennu amserau rhaglenni Dydd Iau. Gofynnwch i'ch partner:

Faint o'r gloch mae/fydd \_\_\_\_\_?

### DYDD LLUN

4.30	Slot Meithrin
___	Uned Pump
___	Gogs
___	Newyddion
___	Heno
7.00	Pobl y Cwm <i>Pwy sy'n dilyn Lisa?</i>
___	Newyddion
___	Pacio <i>Fflorida, Majorca, a gwyliau cerdded ar Ynys Môn</i>
___	Sain Ffagan: Ynys ein Gorffennol
___	Taro Naw
___	Sgorio -10.30p.m.

### DYDD IAU

4.30	Slot Meithrin
___	Pendroffobia
___	Wil Cwac Cwac
___	Newyddion
___	Heno
7.00	Pobl y Cwm <i>Yr heddlu'n dilyn Mark</i>
___	Newyddion
___	Clwb Garddio <i>Plannu tatws cynnar a pharatoi lawnt newydd</i>
___	Pam Fi Duw?
___	Codi Stêm: Ail-agor Rheilffordd Eryri
___	Snwcer -10.30p.m.



## ADOLYGU AC YMESTYN:

## B

## Pres/Arian

Faint ydy caws Caerffili?  
Faint ydy cwrw?  
Faint ydy'r tocynnau?

Punt y pwys  
Dwy bunt y peint  
Tair punt yr un

Faint ydy hwnna?  
Faint ydy'r rheina?  
Faint ydy'r tocyn?

Deg ceiniog  
Ugain ceiniog yr un  
Hanner can ceiniog

Faint ydy'r bil?  
Faint ydy'r gwyliau?  
Faint ydy'r tŷ?

Hanner can punt  
Pum can punt  
Pum deg mil (o bunnau)

### Prisiau

Punt dau ddeg	£ 1. 20
Dwy bunt saith deg pump	£ 2. 75
Chwe <u>phunt</u>	£ 6. 00
Deg punt naw deg naw	£ 10. 99
Un deg saith o bunnau	£ 17. 00
Tri deg pump o bunnau deg ceiniog	£ 35. 10
Cant chwe deg o bunnau	£ 160. 00
Mil dau gant o bunnau	£1,200. 00

## Geirfa

ar unwaith	-	at once	newid mân	-	small change
arian	-	money, silver	pres/arian parod	-	cash
cant (> can)	-	hundred	<u>punt</u> (> punnau)	-	pound (s)
cerdyn	-	card	y rheina	-	those (pointed to)
cyfanswm	-	total	rhesymol	-	reasonable
dyddiad	-	date	<u>taith</u> (teithiau)	-	journey(s), trip(s)
hwnna	-	that (pointed to)	taladwy	-	payable
<u>mil</u>	-	thousand	unig	-	only, lonely

## Ymarfer

Mae partner A isio prynu'r pethau yng ngholofn 2, mae partner B isio eu gwerthu nhw am bris rhesymol! Be' ydy'r prisiau? Hefyd mae partner B isio prynu'r pethau yng ngholofn 1 gan bartner A. Partner A i roi prisiau yng ngholofn 1; partner B i roi prisiau yng ngholofn 2. Dach chi'n medru ymateb (*respond*) efo:

*neu* Rhad iawn / Rhesymol iawn. Ga' i un?  
Faint?! Mae'n rhy ddrud

<b>1</b>	<b>PRIS</b>	<b>2</b>	<b>PRIS</b>
Bag chwaraeon	_____	Tebot	_____
Siwmpwr	_____	Trowsus	_____
Côt law	_____	Esgidiau	_____
Sbectol haul	_____	Peiriant tâp	_____
Bananas	_____	Tomatos	_____
Tocyn raffl	_____	Tocyn raffl	_____
Llyfr coginio	_____	Llyfr garddio	_____
"Y Cymro"	_____	"Yr Herald"	_____

**ADRAN C: Deialog**

A. Faint ydy hwnna?

B. Tair punt

A. Iawn. Ga' i un, os gwelwch chi'n dda?

B. Wrth gwrs. Dyma chi. Tair punt, os gwelwch chi'n dda.

A. O, mae'n ddrwg gen i, sgen i ddim pres efo fi. Ga' i dalu efo siec?

B. Cewch, wrth gwrs.

A. I bwy dw i'n neud y siec?

B. I Jones y Siop.

A. Be' ydy'r dyddiad heddiw?

B. Tri deg un Mai.

A. Dyma chi.

B. Diolch yn fawr. Sgynnoch chi gerdyn?

A. Oes.

B. Popeth yn iawn. Diolch yn fawr.

A. Arhoswch funud. Dydy o ddim yn gweithio.

B. Nac ydy, wrth gwrs. Rhaid i chi gael batri.

A. Faint ydy'r batri?

B. Saith deg pump ceiniog.

A. Mae gen i dipyn bach o newid mân - dau ddeg, pedwar deg, pum deg, pum deg pump, pum deg saith, pum deg wyth .... Na, sgen i ddim digon. Ga' i dalu efo siec?

B. Cewch wrth gwrs.

A. O na! Sgen i ddim siec ar ôl yn y llyfr. Dach chi'n cymryd American Express?

B. Ydan, wrth gwrs.

Ysgrifennu sic

Banc Wlpan		<u>10 Awst 1999</u>	
TALER PAY	Pres parod		
	Tri deg punt yn unig		£ 30 — 00
			Gasturus

Banc Wlpan		<u>21 Ebrill 2001</u>	
TALER PAY	Tiwter y dosbarth		
	Pum cant saith deg chwech		£ 576 — 99
	o bunnau 99 ceiniog		yBos

## Gwaith cartre

Darllenwch yr hysbyseb yma, yna llenwch y ffurflen ac ysgrifennu siec am y swm dyledus.  
*Read this advertisement, then fill in the form and write a cheque for the required amount.*

### BYSUS GWALIA

#### TEITHIAU UNDYDD o Ogledd Cymru

		<u>Bangor</u>	<u>Gadael</u> <u>Llandudno</u>	<u>Y Rhyl</u>	<u>Efo</u> <u>Bwyd</u>	<u>Dim</u> <u>Bwyd</u>
3 Awst/12 Awst	<b>Blackpool</b>	8. 00	8. 30	8. 45	£ 40	£ 26
5 Awst/13 Awst	<b>Stratford</b>	7. 00	7. 30	7. 45	£ 60	£ 46
7 Awst	<b>Caerdydd</b>	7. 00	7. 30	7. 45	£ 64	£ 50
8 Awst/15 Awst	<b>Pwllheli</b>	9. 00	8. 30	8. 15	£ 20	£ 10
10 Awst	<b>Amlwch</b>	10.00	9. 30	9. 15	£ 14	£ 8
11 Awst	<b>Llundain</b>	5. 00	5. 30	5. 45	£ 80	£ 60

**Plant a phensynwyr - hanner pris**

**POSTIWCH Y FFURFLEN A SIEC AT:**

Bysus Gwalia,  
Ffordd y Coleg,  
BANGOR.

**AR UNWAITH**

Sieciau'n daladwy i "Gwilym Griffiths Gwalia"

# Bysus Gwalia

## Teithiau Undydd

Lle dach chi isio mynd? \_\_\_\_\_

Dyddiad \_\_\_\_\_

Lle dach chi isio dal y bws? \_\_\_\_\_

Y Grŵp

Pris yr un

Cyfanswm

Faint o oedolion \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Faint o bensynwyr \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Faint o blant \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Cyfanswm

\_\_\_\_\_

**Siec:**

<b>Banc Wlpan</b>		_____
TALER		
PAY		
		£ _____

# UNED 28

(*Dau ddeg wyth / Wyth ar hugain*)

## ADRAN A

Lle mae pawb heddiw?

Dw i'n meddwl bod Ann i ffwrdd  
Dw i'n meddwl bod John mewn cyfarfod  
Dw i'n meddwl bod y plant ar wyliau

Lle mae Ann heddiw?

Dw i'n siwr                      bod hi'n gweithio  
Ella                                bod hi'n sâl  
Mae'n debyg                  bod hi'n brysur

Wyt ti'n dwad heno?

Ydy John yn dwad heno?

Dach chi'n dwad heno?

Ydy'r plant yn dwad heno?

Dw i'n meddwl                      mod i  
Dw i ddim yn meddwl            fod o  
Gobeithio                            bod ni  
    bod nhw

Mae'n ddrwg gen i    mod i'n hwyr  
                                  mod i ddim yma ddoe

Lle mae John heddiw?

Lle oedd John ddoe?

Ella fod o'n sâl

Ella fod o'n sâl

Be' dach chi'n neud yma? .... Rôn i'n meddwl bod chi    ar wyliau  
Be' wyt ti'n neud yma? .... Rôn i'n meddwl fod ti        i ffwrdd  
    wedi ymddeol

Be' oeddech chi'n feddwl o'r    dosbarth?    Rôn i'n meddwl    fod o'n    galed  
    ddrama?    bod hi'n    gyffrous  
    lluniau?    bod nhw'n    anobeithiol

Gobeithio    bydd hi'n braf    yfory  
                          bydda i yma  
                          byddi di'n well

## Geirfa

anghofio	-	to forget	fel arfer	-	as usual, usually
am!	-	what a!	gwerin	-	folk
blasus	-	tasty	iau	-	liver
caled	-	hard	mae'n debyg	-	probably ( <i>lit.</i> it is likely..)
cyffrous	-	exciting	sownd	-	stuck
deintydd	-	dentist	synnu	-	to be surprised

## Patrymau

### BOD

1. Yn Saesneg, dach chi'n deud, e.e. I think (that) the film is good  
I'm sure (that) she's away  
I hope (that) they're coming

Yn Gymraeg, dach chi'n deud "**bod**" (= to be):

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn dda (I think the film to be good)  
Dw i'n siwr bod hi i ffwrdd (I'm sure her to be away)  
Gobeithio bod nhw'n dwad (I hope them to be coming)

2. Mae "**bod**" yn newid efo rhai personau:  
*"Bod" changes with some pronouns:*

**bod** y ffilm / John / y plant

>	(fy) mod i	(cf. fy mrawd i
	(dy) fod ti	dy frawd di
	(ei) fod o	ei frawd o
	(ei) bod hi	ei brawd hi <i>ac ati</i> )
	(ein) bod ni	
	(eich) bod chi	
	(eu) bod nhw	

Mi fyddwch chi'n **gweld** y geiriau mewn cromfachau wrth ddarllen, ond dydy pobl ddim yn eu deud nhw wrth siarad fel arfer.

*You will see the words in brackets when reading, but you won't usually hear them in speech*

3. Mae "**bod**" yn bresennol neu yn orffennol:  
*"Bod" can be past or present*

E.e.	dw i'n meddwl bod hi'n dda	=	I think it <u>is</u> good
	rôn i'n meddwl bod hi'n dda	=	I thought it <u>was</u> good
	mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr	=	I'm sorry I <u>am</u> late
	mae'n ddrwg gen i mod i ddim yma	=	I'm sorry I <u>wasn't</u> here
	ella bod hi i ffwrdd (heddiw)	=	perhaps she <u>is</u> away
	ella bod hi i ffwrdd (ddoe)	=	perhaps she <u>was</u> away

4. Dim "**bod**" yn y dyfodol, dim "**mi**" a dim treigladd:  
*No "bod" in the future, no "mi" and no mutation:*

E.e.	mi fydd hi'n braf	>	gobeithio <u>bydd</u> hi'n braf
	mi fydda i yma	>	dw i'n meddwl <u>bydda</u> i yma



## ADRAN B

1. Parwch eiriau o'r ddwy golofn ac yna dudwch wrth eich partner be' dach chi'n feddwl:  
e.e.

Dw i'n meddwl bod y dosbarth Cymraeg yn gyffrous

*Pair words from the two columns and compare your opinions with your partner's.*

- |                       |                |
|-----------------------|----------------|
| 1. Shirley Bassey     | A. ardderchog  |
| 2. criced             | B. cyffrous    |
| 3. dawnsio gwerin     | C. go lew      |
| 4. Betws-y-Coed       | CH. blasus     |
| 5. iau                | D. diddorol    |
| 6. Radio 2            | DD. annifyr    |
| 7. tîm rygbi Cymru    | E. anobeithiol |
| 8. Blaenau Ffestiniog | F. bendigedig  |
| 9. y dosbarth Cymraeg | FF. eitha da   |
| 10. sbrowts           | G. diflas      |

2. Gofynnwch i'ch partner:

Pam dydy Ann ddim yma heddiw?

Ella bod .....



Yna newidiwch y cwestiwn i:

- a) Pam dydy John ddim yma heddiw?  
b) Pam doedd Ann ddim yma ddoe?

3. Dach chi'n berson anodd iawn eich dal. Llenwch eich dyddiadur efo dau ddewis bob dydd, e.e.

yn y swyddfa (x 3), mewn cyfarfod, yng Nghaerdydd, adra, yn Llundain, mewn cinio busnes, ar gwrs, yn Iwerddon

ac atebwch gwestiynau eich partner, e.e.

Fyddwch chi ar gael dydd Mawrth?

Ella/Gobeithio bydda i yn y swyddfa, ond mae'n bosib bydda i mewn cyfarfod.

*You are a very elusive person. Fill your diary with two options each day and be non-committal when your partner checks whether you're available:*

Llun	neu
Mawrth	neu
Mercher	neu
Iau	neu
Gwener	neu

**ADRAN C: Deialog**

A. Lle mae pawb?

B. Wel, dw i'n meddwl bod Ann yn gweithio.

A. Ac mi wnaeth John ddeud fod o'n mynd at y deintydd.

B. Mae'n siwr bod Glyn wedi anghofio eto.

A. Ac mae'n debyg bod Gwen yn mynd i gyrraedd hanner awr yn hwyr fel arfer.

B. Dw i'n synnu bod Siôn a Siân ddim yma. Gobeithio bod nhw'n dwad.

A. Dw i'n siwr byddan nhw yma mewn munud. Ella bod nhw'n sownd yn y traffig.

B. Wel, am brotest fendigedig! Dim ond ti a fi a hanner cant o blismyn!

A. Be' am ddechrau neud tipyn o sŵn, 'ta. Barod? Un, dau, tri.

**A a B. DIM FFATRI YMA! NA NA NA! DIM FFATRI YMA NA NA NA!**

## ADRAN CH: Opera Sebon

1. Faint o weithiau dach chi'n clywed "mi wnaeth hi ddeud"?  
\_\_\_\_\_
  
2. Faint o enghreifftiau o "bod" (neu "fod / mod") dach chi'n eu clywed?  
*How many examples of "bod" (or "fod / mod") do you hear?*  
\_\_\_\_\_
  
3. **Gwrandewch am:**

yn syth	-	<i>straight away</i>
esbonio	-	<i>to explain</i>
cwffio	-	<i>to fight</i>
pen bach	-	<i>big-head</i>
dan haul	-	<i>under the sun</i>
clats	-	<i>slap</i>
  
4.
  - a) Pam mae Siôn a Llinos yn y cantîn?  
\_\_\_\_\_
  
  - b) Be' ydy cyngor (*advice*) Llinos i Siôn?  
\_\_\_\_\_
  
  - c) Pam dydy Llinos ddim yn licio Dr. Snip?  
\_\_\_\_\_
  
  - ch) Be' wnaeth Llinos ddeud wrth Dr. Snip?  
\_\_\_\_\_
  
  - d) Efo pwy mae Siôn yn mynd allan heno?  
\_\_\_\_\_
  
5. Ydy Llinos yn ffrindiau efo Siôn:
  - a) ar ddechrau'r bennod (*at the start of the episode*)? \_\_\_\_\_
  - b) ar ganol y bennod? \_\_\_\_\_
  - c) ar ddiwedd y bennod? \_\_\_\_\_

**ADRAN D : Taflen waith**

1. **Cyfieithwch**

I'm sorry I'm late

\_\_\_\_\_

I'm sorry I was late yesterday

\_\_\_\_\_

I'm sure she's away

\_\_\_\_\_

I'm sure she was away

\_\_\_\_\_

I hope they're coming

\_\_\_\_\_

I hope you'll be better tomorrow

\_\_\_\_\_

I thought they were hopeless

\_\_\_\_\_

2. **Ysgrifennwch lythyr at ffrind sâl, gan ddechrau efo "Annwyl .....**  
**(Dear .....) and then incorporating such sentences as:**

I'm sorry to hear that you're ill.

I hope you'll be better soon

Do you know that ..... (some news or gossip)

**ac yn gorffen efo "Cofion cynnes" (Warm regards)**

**UNED 29**  
*(Dau ddeg naw / Naw ar hugain)*

**ADRAN A**

Pa mor bell ydy hi?

Hanner milltir  
Dwy filltir

Pa mor drwm ydy'r parcel?

Hanner pwys  
Dau bwys

Pa mor dal dach chi?

Pum troedfedd pum modfedd  
Chwe troedfedd dwy fodfedd

Pa mor hir fydd y cyfarfod?  
Pa mor hir fyddwch chi?

Dwy awr a hanner  
Hanner awr

Pa mor hen ydy'r car?

Dwy oed  
Ugain oed

Pa mor dda dach chi'n medru nofio?  
coginio?  
tynnu lluniau?  
siarad Cymraeg?

Yn eitha da  
Ddim yn rhy ddrwg  
Dw i'n anobeithiol  
Dw i'n meddwl mod i'n rhugl

Pa mor aml dach chi'n mynd i'r sinema?

Bob wythnos  
O dro i dro  
Byth

Mae hi'n oer heddiw  
Mae hi'n braf heddiw  
Mae hi'n brysur heddiw  
Mae'r bos yn flin heddiw

Ydy, ond ddim mor oer â ddoe  
Ydy, ond ddim mor braf â ddoe  
Ydy, ond ddim mor brysur ag arfer  
Ydy, ond ddim mor flin ag arfer

Mae'r gôt yma'n hen  
Mae hi'n brysur yma  
Mae hi'n ddistaw yma  
Mae hi'n dywyll yma

Ydy, fel pechod  
Ydy, fel ffair  
Ydy, fel y bedd  
Ydy, fel bol buwch

## Geirfa

aml	-	often	pell	-	far
bedd	-	grave	rhugl	-	fluent
<u>buwch</u>	-	cow	<u>siwrne</u>	-	journey
eitha	-	quite	tal	-	tall
<u>ffair</u>	-	funfair	to	-	roof
galwyn	-	gallon	<u>troedfedd</u>	-	foot (length)
hir	-	long	trwm	-	heavy
<u>modfedd</u>	-	inch	tynnu lluniau	-	to draw, to take
<u>milltir</u> (-oedd)	-	mile (s)			pictures
o dro i dro	-	from time to time	tywyll	-	dark
pechod	-	sin			

## Patrymau

1. **Pa mor?** = how? (how big, how far, how well, etc.)

Treigladd meddal ar ôl “**mor**”:  
*Soft mutation after “mor”*

Pa mor fawr?

Pa mor **dda**? (= how good *a* how well?)

2. **Mor** \_\_\_\_\_ **â** = as \_\_\_\_\_ as

mor fawr â - as big as

mor hen â - as old as

### D.S.

- A. Dim “yn” cyn “mor”: mae hi \_ mor hen â fi  
*No “yn” before “mor”*

- B. “â” > “ag” cyn llafariad (before a vowel)

- C. Yn lle deud “mor \_\_\_\_\_ â”, mae hi’n bosib deud “yn \_\_\_\_\_ fel” efo cymariaethau cyffredin, e.e.  
*Instead of using “mor \_\_\_\_\_ â”, it is possible to use “yn \_\_\_\_\_ fel” in common comparisons, e.g.*

mor wyn ag eira / yn wyn fel eira = white as snow

## ADRAN B

1. **Rhowch fanylion i mewn ar y cynllun yma.**

*Put details in on this plan*

**Dach chi'n gweithio mewn swyddfa gwerthu tai (estate agent). Atebwch gwestiynau eich partner, e.e.**

Pa mor hen ydy'r tŷ?  
Pa mor fawr ydy'r gegin?  
Pa mor bell ydy'r siopau?

y gegin (kitchen)


y lolfa (lounge)

yr ystafell ymolchi (bathroom)

llofft 1 (bedroom 1)

llofft 2

y garej



2. **Defnyddiwch y côd yma i ddisgrifio eich sgiliau. Peidiwch â bod yn swil!**

*Use the following code to describe your skills. Don't be modest!*

✓✓✓	-	ardderchog
✓✓	-	eitha da
✓	-	ddim yn rhy ddrwg
X	-	ddim yn rhy dda
XXX	-	anobeithiol

<b>coginio</b>		<b>papuro</b>	
<b>nofio</b>		<b>canu</b>	
<b>tynnu lluniau</b>		<b>codi yn y bore</b>	
<b>siarad Ffrangeg</b>		<b>dawnsio</b>	
<b>teipio</b>		<b>chwarae tenis</b>	

Yna atebwch gwestiynau eich partner:

Pa mor dda dach chi'n medru \_\_\_\_\_?

neu Ddim yn rhy ddrwg  
Ddim mor dda â \_\_\_\_\_  
Dw i'n meddwl mod i'n eitha da

**ADRAN C: Deialog**

A. Wyt ti isio prynu car?

B. Ella, pam?

A. Mae Joe Banger isio gwerthu ei gar. Porsche.

B. Pa mor hen ydy o?

A. Dwy oed.

B. Faint o filltiroedd mae o wedi neud?

A. Naw deg mil.

B. Pa mor drwm ydy o ar betrol?

A. Mae o'n neud deg milltir i'r galwyn ar siwrne hir.

B. Pa mor ddrud ydy o?

A. Ddim mor ddrud â hynny: tua ugain mil.

B. Ugain mil?!!!!! Faint o bres ga' i am fy hen gar i?

A. Be' ydy o?

B. Lada, un deg wyth oed, efo to haul.

A. To haul?

B. Wel, mae 'na dwll yn y to. Faint ga' i, wyt ti'n meddwl?

A. Ugain punt, ella

B. O wel! Rhaid i mi anghofio am y Porsche ugain mil, felly!



**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. A 'ta B?	A	B
Mae Annie'n cyrraedd am ....	7.00	7.05
Mae Annie'n edrych yn ...	annifyr	smart
Pa mor bell ydy'r Royal?	1 filltir	2 filltir
Mae Annie ...	wedi priodi	wedi cael ysgariad
Mae Siôn wedi bod yn ...	gas	glên
Mae Annie'n dechrau teimlo'n ...	sâl	rhamantus
Pwy sy'n talu?	Siôn	Annie
Pwy sy'n gyrru adra?	Siôn	Annie
Mae Annie wedi cael noson ...	ofnadwy	fendigedig

2. **Gwrandewch am:**

heb	-	<i>without</i>
arfer	-	<i>used to</i>
diolch byth	-	<i>thank goodness</i>
llygaid	-	<i>eyes</i>
cymaint	-	<i>so much</i>
blynyddoedd	-	<i>years</i>

3. **Llenwch y bylchau:**

*Fill the gaps:*

Wyt ti ddim yn edrych \_\_\_\_\_ heb dy iwnifform  
*You don't look half as unpleasant without your uniform*

Wyt ti'n \_\_\_\_\_?  
*Do you come here often?*

\_\_\_\_\_ dw i isio diolch i ti  
*That's why I want to thank you*

Dw i ddim wedi \_\_\_\_\_ cymaint \_\_\_\_\_  
*I haven't enjoyed myself so much for years*

**D.S.** Mae Annie'n deud '**chdi**' yn lle '**ti**' weithiau: mae hyn yn gyffredin yng Ngwynedd  
*Annie sometimes says 'chdi' instead of 'ti': this is common in Gwynedd*

**ADRAN D:      Taflen Waith**

1.      Ffindiwch y brawddegau yma:

How old is the car? \_\_\_\_\_

How well can you draw? \_\_\_\_\_

How long will you be? \_\_\_\_\_

Not as cold as yesterday \_\_\_\_\_

It's quiet here. Yes, extremely \_\_\_\_\_

2.      Gofynnwch gwestiwn addas      *Ask an appropriate question*

\_\_\_\_\_

Deg milltir

\_\_\_\_\_

Deg munud

\_\_\_\_\_

Deg stôn

\_\_\_\_\_

Dw i'n anobeithiol

\_\_\_\_\_

Fel Picasso

\_\_\_\_\_

Saith pwys saith owns

\_\_\_\_\_

Chwe troedfedd

\_\_\_\_\_

Fel bol buwch

\_\_\_\_\_

Fel pysgodyn

\_\_\_\_\_

Ddim mor brysur â ddoe

3. Darllenwch yr hysbyseb (*advertisement*) ac atebwch y cwestiynau:

Cymdeithas Edward Llwyd

**TAITH GERDDED**

Dydd Sadwrn, 6ed Mai

2.00 - 4.30

Capel Garmon - Rhaeadr Conwy - Fairy Glen - Capel Garmon

Pedair milltir a hanner

**Cyfarfod:** Maes parcio Gwesty Tan-y-Foel

*Does 'na ddim dringo caled ar y daith yma.  
Cofiwch eich côt law!*

**CROESO I BAWB**

cymdeithas - *society*; taith gerdded - *a walk*; rhaeadr - *waterfall*

- a) Pa mor hir fydd y daith? \_\_\_\_\_
- b) Pa mor bell fydd y daith? \_\_\_\_\_
- c) Pa mor galed fydd y daith? \_\_\_\_\_
- ch) Pa mor braf fydd y tywydd? \_\_\_\_\_



# UNED 30

(Tri deg / Deg ar hugain)

## ADRAN A

Mae Tom yn dda  
Mae jeli'n neis

Mae Shirley'n well  
Mae blancmange yn well

Mae smwddio'n ddiflas  
Mae pwdin reis yn ofnadwy

Mae llnau'n waeth  
Mae semolina'n waeth

Pam wyt ti isio swydd newydd?

Dw i isio      llai o waith  
                    mwy o wyliau  
                    llai o bwysau  
                    mwy o bres

Mae Ceri'n dal  
Mae Llanrwst yn ddel  
Mae Kwiks yn rhad  
Mae Llundain yn ddrud

Mae Chris yn dalach  
Mae Llandudno'n ddelach  
Mae Aldi'n rhatach  
Mae Paris yn ddrutach

Pa ffordd dw i'n mynd i fynd i Gaerdydd?  
Trwy Gymru 'ta trwy Loegr?

Trwy Loegr. Mae'n gynt  
                    Mae'n fwy cyfleus  
Trwy Gymru. Mae'n nes  
                    Mae'n llai prysur

Mae hedfan yn haws!

Mae hi'n      oerach      na ddoe  
                    brafiach  
                    gynhesach  
                    wlypach

Dw i'n      ddelach      na ti  
                    fengach  
                    hŷn  
                    well

## Geirfa

cryf	-	strong	<u>llawdriniaeth</u>	-	operation
cyfleus	-	convenient	<u>Lloegr</u>	-	England
cyn bo hir	-	before long	popeth / pob dim	-	everything
gwella	-	to get better	pwysau	-	pressure, weight
hawdd	-	easy	syth	-	straight

# Patrymau

Cymharu : Y radd gymharol - *Comparative*

## A. Ffurfiâu rheolaidd - *Regular forms*

- |                 |   |          |
|-----------------|---|----------|
| - ach           | = | - er     |
| del <u>ach</u>  | = | prettier |
| tal <u>ach</u>  | = | taller   |
| cry <u>fach</u> | = | stronger |
- |              |   |                         |
|--------------|---|-------------------------|
| mwy _____    | = | <i>more</i> _____       |
| mwy diddorol | = | <b>more</b> interesting |
| mwy cyfleus  | = | <b>more</b> convenient  |
- |              |   |                        |
|--------------|---|------------------------|
| llai _____   | = | <b>less</b> _____      |
| llai cyfleus | = | <b>less</b> convenient |

## B. Ffurfiâu afreolaidd - *Irregular forms*

- |                 |                 |                                    |
|-----------------|-----------------|------------------------------------|
| <b>d &gt; t</b> | <b>b &gt; p</b> | <b>g &gt; c</b>                    |
| drud            | >               | drut <u>ach</u> (more expensive)   |
| rhad            | >               | rhat <u>ach</u> (cheaper)          |
| caled           | >               | calet <u>ach</u> (harder)          |
| gwlyb           | >               | gwlyp <u>ach</u> (wetter)          |
| pwysig          | >               | pwysic <u>ach</u> (more important) |
- |                   |   |                     |
|-------------------|---|---------------------|
| <b>nn &gt; nh</b> |   |                     |
| cynnes            | > | cynhesach (warmer)  |
| cynnar            | > | cynharach (earlier) |
- |        |   |                   |
|--------|---|-------------------|
| agos   | > | nes (closer)      |
| bach   | > | llai (smaller)    |
| cyflym | > | cynt (quicker)    |
| da     | > | gwell (better)    |
| drwg   | > | gwaeth (worse)    |
| hawdd  | > | haws (easier)     |
| hen    | > | hŷn (older)       |
| ifanc  | > | fengach (younger) |
| isel   | > | is (lower)        |
| mawr   | > | mwy (bigger)      |
| uchel  | > | uwch (higher)     |

C. Y patrwm ydy: dw i'n dalach na ti  
mae Wrecsam yn fwy na Bangor

- D.S. a) mae'r ansoddair yn treiglo (*the adjective mutates*)  
b) *than* = na


## ADRAN B

Cymharwch y canlynol:

Compare the following:

1. Lle wyt ti isio mynd ar wyliau?

I Ffrainc



'ta i Sbaen?



e.e. Mae Ffrainc yn fwy diddorol  
Mae Sbaen yn rhatach  
Mae'r bwyd yn well yn Ffrainc  
Mae'r tywydd yn gynhesach yn Sbaen  
Mae'r bobl yn fwy clên yn .....

ac ati

2. Pa un wyt ti'n ffansio?

Y tŷ mawr?



'ta'r tŷ bach?



3. Lle wyt ti'n prynu dillad?

Yn Marks?



'ta yn Oxfam?




4. Pa gwrs wyt ti isio neud?

Cwrs Ffrangeg?



'ta cwrs Cymraeg?



5. Pa gar wyt ti'n mynd i brynu?

Mini?



'ta Volvo?



6. Pwy wyt ti'n licio?

Jo?



'ta Ceri?



**ADRAN C: Deialog**

A. Wel helo! Sut dach chi? Dach chi wedi gwella?

B. Do, fwy neu lai.

A. Dach chi'n edrych yn dda iawn, rhaid i mi ddeud

B. O, dw i'n llawer gwell, diolch yn fawr.

A. Mi aeth pob dim yn iawn yn yr ysbyty felly.

B. Do, wir. Dw i'n teimlo fel person newydd. Mae fy nghefn i'n sythach ac mae fy nghoesau i'n gryfach. Dw i'n gobeithio rhedeg marathon cyn bo hir.

A. Dach chi'n edrych yn fengach, os ca' i ddeud.

B. O, dw i'n teimlo'n fengach. Dw i'n meddwl yn gliriach, dw i'n cofio'n well a dw i'n dallt yn gynt.

A. Mae eich Cymraeg chi'n fwy rhugl hefyd, os ca' i ddeud.

B. O ydy, mae Cymraeg yn dwad yn llawer haws ers y llawdriniaeth .....



**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Faint o weithiau mae Annie'n deud "tydy / tydyn" ?

---

2. **Gwrandewch am:**

afon	-	<i>river</i>
hyfryd	-	<i>lovely</i>
bob amser	-	<i>always</i>
nes	-	<i>closer</i>
gafael yn	-	<i>to grab hold of</i>
pen-glin	-	<i>knee</i>
lleuad	-	<i>moon</i>
chwythu	-	<i>to blow</i>
clust	-	<i>ear</i>
tu ôl	-	<i>behind</i>

3. Cysylltwch weithredoedd Annie efo rhannau corff Siôn:  
*Connect Annie's actions to Siôn's body parts:*

chwarae	clust
chwythu	pen-glin
gafael	gwallt

4. Pryd mae Annie'n teimlo'n rhamantus? (3 ateb)

---

---

---

5. Lle mae Siôn yn mynd i chwythu?

---

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Ymatebwch i'r brawddegau yma, gan ddilyn y patrwm:**  
*Respond to these sentences, according to the pattern:*

Mae Chris yn dal

Mae Ceri'n dalach

Mae Tom Jones yn dda

\_\_\_\_\_

Mae pwddin reis yn ofnadwy

\_\_\_\_\_

Mae Coronation Street yn dda

\_\_\_\_\_

Mae Marks yn ddrud

\_\_\_\_\_

Mae brandi'n gryf

\_\_\_\_\_

Mae tatws yn rhad

\_\_\_\_\_

Mae Llandudno'n ddel

\_\_\_\_\_

Mae dysgu Cymraeg yn galed

\_\_\_\_\_

Mae garddio'n ddiddorol

\_\_\_\_\_

2. **Cymharwch eich hun efo pobl eraill (5 brawddeg)**  
*Compare yourself with other people (5 sentences)*

E.e. dw i'n fengach na fy mrawd  
dw i'n dawnsio'n well na Nureyev

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

## UNED 31

*(Tri deg un / Un ar ddeg ar hugain)*

### ADRAN A

Pa un ydy'r <b>gorau</b> ?	Elvis, Cliff 'ta Tom?	_____ ydy'r <b>gorau</b>
Pa un ydy'r <b>orau</b> ?	Shirley, Lulu 'ta Madonna?	_____ ydy'r <b>orau</b>
Pa gar ydy'r <b>gorau</b> ?	Vauxhall, Ford 'ta Renault?	_____ ydy'r car <b>gorau</b>
Pa ffilm ydy'r <b>orau</b> ?	Godfather, Titanic 'ta Bambi?	_____ ydy'r ffilm <b>orau</b>

#### Mewn siop

Pa un dach chi isio?

Y **mwya**  
Y **lleia**  
Y **rhata**  
Y **druta!**

Lle dan ni'n mynd i siopa? Tesco 'ta Safeway?

Wel, Safeway ydy'r **mwya**  
Safeway ydy'r **rhata**  
Safeway ydy'r **agosa**  
ond Tesco ydy'r **gorau** am  
fananas ffres

Dyma Ceri, fy chwaer **hyna**  
fy mrawd **fenga**  
fy hogan **fwya**  
fy hogyn **lleia**

Fi ydy'r **hyna** yn y teulu  
Fi ydy'r **fenga** yn y teulu

Fi ydy'r **(g)orau** yn y teulu am godi yn y bore  
Fi ydy'r **(g)waetha** am ganu  
am dynnu lluniau

Pa dŷ wyt ti'n licio **orau**?

Wel, hwn ydy'r **mwya**  
**mwya preifat**  
**mwya cyfleus**  
**mwya modern**

Chi ydy'r **hyna** yn y teulu?  
Tescwik ydy'r lle **rhata**?  
Blaenau Ffestiniog ydy'r lle **gwlypa** yn y byd?  
Cymraeg ydy'r iaith **hawsa** yn y byd?

Ia / Naci  
Ia / Naci  
Naci, siwr  
Ia, wrth gwrs

## Geirfa

agos	-	close, near	fan'cw	-	over there
<u>archfarchnad</u>	-	supermarket	nôl	-	to fetch
byr	-	short	pwnc	-	subject
<u>cantores</u>	-	singer (f)	pwysig	-	important
canwr	-	singer (m)	uchel	-	high, loud
cyflym	-	quick	yn y pen draw	-	in the long run
diflas	-	miserable, boring			

## Patrymau

Y radd eithaf		<i>The superlative</i>		<i>(the biggest, the best, etc.)</i>	
<b>ADIO - A</b>	:	tal	>	tala	
		agos	>	agosa	
<b>+ caledu cytsain</b>	:	<u>drud</u> /rh <u>ad</u>	>	<u>druta</u> /r <u>hata</u>	
<i>+ hardened consonant</i>		gwly <u>b</u>	>	gwly <u>pa</u>	
		pwysig	>	pwys <u>ica</u>	
<b>+ newid bach</b>	:	byr	>	byrra	
<i>+ small change</i>		hen	>	hyna	
		hawdd	>	hawsa	
<b>Afreolaidd</b>	:	mawr	>	<b>mwya</b>	<i>(= biggest + most)</i>
<i>Irregular</i>		bach	>	<b>lleia</b>	<i>(= smallest + least)</i>
		ifanc	>	<b>fenga</b>	
		uchel	>	<b>ucha</b>	
		drwg	>	<b>gwaetha</b>	
		da	>	<b>gorau</b>	
<b>Geiriau hir</b>		diddorol	>	<b>mwya</b> diddorol	
<i>Long words</i>		preifat	>	<b>mwya</b> preifat	

## D.S.

- Y patrwm ydy : fi ydy'r gorau  
Llandudno ydy'r lle dela  
Y Beatles oedd y gorau

Mae'r goddrych yn dwad gynta ac mae'r ferf bob amser yn y trydydd person.  
*The subject comes first and the verb is always in the third person singular*





- Mae 'na dreigladd efo merched / geiriau benywaidd:  
*Soft mutation with feminines:*  
fi ydy'r orau  
hi ydy'r waetha  
Shirley Basse ydy'r gantores orau

- Yr ateb i'r cwestiwn ydy **Ia** / **Naci**:  
Fi ydy'r gorau? Ia  
Y Rolling Stones oedd y gorau? Ia

# ADRAN B

## 1. Siaradwch am y lluniau efo'ch partner, e.e.

Pa un ydy'r tala?  
 Pa un ydy'r lleia?  
 Pa un ydy'r gorau am ganu?



## 2. Llenwch (fill) y grid yma ac yna siaradwch efo'ch partner e.e.

Marks ydy'r lle gorau i siopa am ddillad

Mi fydd eich partner yn anghytuno (*disagree*) e.e. Naci, Littlewoods ydy'r lle gorau

neu'n **hanner** cytuno (*agree*) efo chi, e.e.

Mae Marks yn dda, ond Army & Navy ydy'r gorau.

y lle gorau i siopa am fwyd		y lle dela yng Nghymru	
y lle gorau i siopa am ddillad		y lle mwya diflas yng Nghymru	
y tŷ bwyta gorau yn yr ardal		y rhaglen orau ar y teledu	
y tŷ bwyta gwaetha yn yr ardal		y canwr gorau / y gantores orau / y grŵp gorau	
y peth gorau am y cwrs yma		y peth gwaetha am y cwrs yma	

## ADRAN C: Dciallog

### Yn yr archfarchnad

A. Mae hi'n ofnadwy o brysur yma.

B. Ydy. Nos Wener ydy'r noson waetha bob amser. Dos i nôl powdr golchi o fan'cw, wnei di?

A. Pa seis wyt ti isio?

B. Yr un mwya

A. Ond mae o'n costio dros bedair punt!

B. Dw i'n gwybod, ond dyna'r fargen orau yn y pen draw. Be' wyt ti'n ffansio i ginio dydd Sul?

A. Dan ni ddim wedi cael stêc ers talwm.

B. Stêc! Rhy ddrud o lawer. Spam ydy'r peth rhata.

A. Ond.....

B. O, dos i nôl *Super-Whiskas* o'r silff 'na fan'cw

A. Wyt ti wedi gweld ei bris o? *Super-Whiskas* ydy'r peth druta yma. Be' am *Paws*? Dim ond dau ddeg ceiniog .....

B. *Super-Whiskas* mae Pwsi'n licio, felly *Super-Whiskas* mae Pwsi'n gael, dallt?

A. Pwy ydy'r pwysica yn ein tŷ ni, fi 'ta'r gath?

B. Pwsi ydy'r pwysica

## ADRAN CH: Opera Sebon

### 1. Gwrandewch am:

mwya anobeithiol	Pwy?	_____
mwya annifyr	Pwy?	_____
orau	Pwy?	_____

### 2. Gwrandewch am:

prawf	-	<i>test</i>
peryg	-	<i>dangerous</i>
wedi arfer efo	-	<i>used to</i>
wyneb	-	<i>face</i>
gadael	-	<i>to leave</i>
fy ngheg	-	<i>my mouth</i>
cymwch ofal	-	<i>take care</i>
haeddu	-	<i>to deserve</i>

### 3. Gwir 'ta gau (True or false)

Mae'r prawf yn bositif	_____
Mae car Annie'n fawr	_____
Mae'r plismon yn nabod Annie	_____
Roedd Annie'n gweithio fel plismones	_____
Mi wnaeth Annie gael y sac	_____
Mae gŵr Annie'n gweithio fel plismon rwan	_____
Siôn ydy cariad Annie	_____
Mae'r plismon yn licio Annie	_____

**ADRAN D:      Taflen waith**

**Llenwch y bylchau :**

Fi ydy'r \_\_\_\_\_ yn y teulu

\_\_\_\_\_ ydy'r lle \_\_\_\_\_ i siopa am fwyd

\_\_\_\_\_ ydy'r \_\_\_\_\_ yn y teulu am godi yn y bore

\_\_\_\_\_ 'r rhaglen orau ar y teledu

Hwn ydy'r tŷ \_\_\_\_\_

Chi ydy'r (g)orau yn y teulu am ganu? \_\_\_\_\_

Blaenau Ffestiniog ydy'r lle \_\_\_\_\_

Eferest ydy'r mynydd \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_ ydy'r llyfr mwya \_\_\_\_\_ dw i wedi ddarllen

\_\_\_\_\_ ydy'r lle dela yng Nghymru

\_\_\_\_\_ ydy'r peth dw i'n licio neud fwya

\_\_\_\_\_ ydy'r peth dw i'n licio neud leia

\_\_\_\_\_ ydy'r peth \_\_\_\_\_ am y cwrs Wlpan



## UNED 32

(Tri deg dau / Deuddeg ar hugain)

### ADRAN A

*Faset* ti'n licio panad?  
*Fasech* chi'n licio diod?  
tamaid o gacen?

Diolch yn fawr  
Dim diolch

*Mi faswn* i'n licio byw ar lan y môr  
gweithio ar fferm  
neidio efo parasiwt  
canu mewn côr

*Mi faswn* i, hefyd  
*Faswn* i ddim

*Faset* ti'n licio hwylio o gwmpas y byd?  
byw yn Llundain?  
gweithio mewn ysgol?

Baswn  
Na faswn  
*Faswn* i ddim yn mindio

Be' *fasech* chi'n neud efo miliwn o bunnau?

*Mi fasen* ni'n ymddeol  
prynu fila ym Monaco  
rhoi'r pres yn y banc

Be' *fasai*'r peth gorau?

Mynd i lan y môr 'ta i'r mynyddoedd?  
Gyrru 'ta mynd ar y trê'n?  
Aros mewn pabell 'ta mewn carafan?  
Coginio 'ta bwyta allan?

*Mi fasai*'n well gen i fynd i'r mynyddoedd  
yrru  
aros mewn pabell  
fwyta allan

**D.S.** Dydy'r pethau mewn italics ddim yn cael eu deud trwy'r amser  
*The elements in italics are often omitted in speech*

### Geirfa

cwmni - company  
cyfrifiadur(on) - computer(s)  
cyfweiliad - interview  
hwylio - to sail

neidio - to jump  
o gwmpas - around  
rhoi - to give, to put  
tamaid - piece

## Patrymau

Amodol

*Conditional (I would, you would, etc.)*

Positif	Cwestiwn	Negyddol
Mi faswn i		Faswn i ddim
Mi faset ti	Faset ti?	
Mi fasai fo / hi / 'r plant	Fasai hi?	Fasai fo ddim
Mi fasen ni		Fasen ni ddim
Mi fasech chi	Fasech chi?	
Mi fasen nhw	Fasen nhw?	Fasen nhw ddim

### D.S.

1. Mae pobl yn ysgrifennu 'faswn' ac ati, ond fel arfer mae pobl yn deud 'swn', ac ati  
*You will see 'faswn' etc., but you will often hear 'swn', etc.*

A deud y gwir, mae'r personau i gyd, ar wahân i 'swn i', yn medru swnio fel 'sa':  
*In fact, all the forms, apart from the first person, can come out sounding like 'sa':*

swn i	sa ni
sa ti	sa chi
sa hi/fo	sa nhw

2. 'Mi faswn i' ydy 'I would' neu 'I would be'

Mi faswn i'n licio	=	I would like
Mi faswn i'n mynd	=	I would go
Mi faswn i'n fodlon	=	I would be willing

3. Yes/No

Faset ti?	Baswn / Na faswn	
Fasech chi?		
Fasech chi?	Basen / Na fasen	(ni)
Fasai fo / hi / Chris?	Basai / Na fasai	
Fasen nhw?	Basen / Na fasen	
Fasai'r cymdogion?		

4. 'I would prefer' = 'It would be better with me' = Mi **fasai**'n well gen i

# ADRAN B

1. Cynigiwch y pethau yma i'ch partner, e.e.  
*Offer your partner the following, e.g.*

Faset ti'n licio \_\_\_\_\_?  
 Fasech chi'n licio \_\_\_\_\_?



2. Trafodwch / *Discuss*:

Be' fasech chi'n neud efo miliwn o bunnau?




3. Trafodwch (*Discuss*) eich gwyliau nesa:

Be' fasai'r peth gorau?  
 Mi fasai'n well gen i \_\_\_\_\_

Mynd ar y trê'n 'ta mewn llong?

ac ati



**ADRAN C: Deialog (Cyfweliad)**

- A. Pam *fasech* chi'n licio gweithio efo ni yma, Mr. Williams?
- B. Wel, mae gen i ddiddordeb mawr mewn cyfrifiaduron, ac hefyd *mi faswn* i'n licio byw yn ardal Caernarfon
- A. Be' dach chi'n neud ar hyn o bryd?
- B. Dw i'n gweithio mewn ffatri fawr yn Wolverhampton, ond *mi fasai*'n well gen i weithio mewn cwmni bach
- A. *Mi fasai* rhaid i chi weithio pob penwythnos yn y swydd yma. *Fasai* hynny'n broblem?
- B. *Faswn* i ddim yn mindio o gwbl.
- A. *Fasech* chi'n licio gofyn cwestiwn i mi?
- B. Wel, roedd *fy* nhad i'n gofyn *fasech* chi'n licio gêm o golff efo fo dydd Sadwrn.
- A. Wel, baswn wrth gwrs. Un o'r gloch, fel arfer. Rwan 'ta, Mr. Williams, pryd *fasech* chi'n medru dechrau ar y swydd?
- B. Be' am ddydd Llun nesa?
- A. Ardderchog. Croeso i'r cwmni, Mr. Williams

**ADRAN CH : Opera Sebon**

1. Pwy ydy'r **pedwar** person sy'n siarad yn y bennod yma?

---

2. Faint o enghreifftiau (*examples*) o "**faswn / fasai / ac ati**" dach chi'n eu clywed?

---

3. **Gwrandewch am:**

cysgu'n drwm	-	<i>sound asleep</i>
mindio	-	<i>to mind</i>
aros amdana i	-	<i>waiting for me</i>
sobri	-	<i>to sober up</i>
cryf	-	<i>strong</i>
colli	-	<i>to spill</i>
ffrog	-	<i>dress</i>
staen	-	<i>stain</i>
ar yr un pryd	-	<i>at the same time</i>
torri ar draws	-	<i>to interrupt</i>

4. a) Be' ydy rhif tŷ Annie?

---

b) Pam dydy Annie ddim isio siarad efo'i mam?

---

c) Be' mae Annie isio i yfed?

---

ch) Pam mae Annie'n tynnu ei ffrog?

---

d) Lle mae Gareth a Beryl wedi bod?

---

5. **well - better; nes - closer; pellach - further.**

Sut mae'r tri gair yma'n codi yn y stori?

---

---

6. Sut mae Annie'n nabod Gareth?

---

**ADRAN D: Tafflen waith**

**Ysgrifennwch ddeialog mewn siop deithio (travel agent) ar y patrwm yma:**

- |    |  |    |       |
|----|--|----|-------|
| A. | Greet the customer and ask whether you can help                  | A. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| B. | Say you want to go on holiday                                    | B. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| A. | Ask where the customer would like to go                          | A. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| B. | Say you don't know, but say what kind of holiday you would like  | B. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| A. | Suggest two appropriate places                                   | A. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| B. | Say which you would prefer                                       | B. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| A. | Ask in what kind of accomodation the customer would like to stay | A. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| B. | Say what you would prefer  | B. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| A. | Ask the customer to wait a minute ...<br>... then give the price | A. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| B. | React with great shock   | B. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| A. | Offer the customer a cup of tea to get over the shock            | A. | _____ |
|    |  |    | _____ |
| B. | Refuse and leave   | B. | _____ |
|    |  |    | _____ |

## UNED 33

(Tri deg tri / Tri ar ddeg ar hugain)

### ADRAN A

<i>Mi faswn i'n</i> dwad, helpu,	<i>taswn i'n</i> rhydd	
<i>Taswn i'n</i> fengach,	<i>mi faswn i'n</i> rhedeg yn gynt cofio'n well	
<i>Taswn i'n</i> ennill y loteri,	<i>mi faswn i'n</i> mynd o gwmpas y byd prynu tŷ newydd	
<i>Mi faswn i'n</i> siomedig,	<i>taswn i</i> ddim yn cael y swydd <i>taswn i</i> ddim yn ennill y gêm	
<i>Taswn i</i> yn dy le di, yn eich lle chi,	<i>mi faswn i'n</i> talu <i>faswn i</i> ddim yn talu	
<i>Mi faswn i'n</i> falch,	<i>taset ti'n</i> dwad efo fi <i>tasech chi'n</i> mynd yn fy lle i	
<i>Mi faswn i'n</i> mynd am dro,	<i>tasai hi'n</i> braf <i>tasai hi</i> ddim mor oer	
<i>Mi faswn i'n</i> ffonio,	<i>tasai 'na</i> broblem le newyddion	
<i>Mi faswn i'n</i> dwad allan,	<i>tasai gen i</i> gwmni gar bres	
<i>Tasai gen i</i> amser,	<i>mi faswn i'n</i> licio neud mwy o	ddarllen gerdded waith cartre

### Geirfa

balch	-	pleased, glad, proud	siomedig	-	disappointed
gwylio	-	to watch	trafferth	-	trouble
pum mlynedd	-	five years	twmffat	-	fool (lit. funnel)

## Patrymau

Taswn i - *if I were*

1. mi faswn i'n dwad, taswn i'n rhydd  
*I would come, if I were free*

mi faswn i'n falch, taswn i'n ennill  
*I would be pleased, if I won*

mi faswn i'n helpu, taswn i ddim yn gweithio  
*I'd help if I weren't working*

**D.S.** Mae'r "if" yn rhan o'r gair "taswn". Does dim eisiau dweud "os"  
*"If" is included in the form "taswn"*

2. **Dach chi'n ysgrifennu:**

**Dach chi'n deud:**

taswn i

swn i

taset ti

set ti

(> sa ti)

tasai fo/hi / 'na /'r plant / gen i

sa fo/hi...

(> sa fo/hi)

tasen ni

sen ni

(> sa ni)

tasech chi

sech chi

(> sa chi)

tasen nhw

sen nhw

(> sa nhw)

3. Tasai gen i \_\_\_\_\_ = *if I had*  
**lit.** *if there were \_\_\_\_\_ with me*

4. **Pan dach chi'n deud "if" yn Gymraeg, mae dau hanner y frawddeg yn cytuno:**  
*When "if" is used in Welsh, the two halves of the sentence are in the same tense:*

Mi faswn i'n mynd, tasai hi'n braf  
*I would go if it were fine* (**lit.** *if it would be fine*)


Mi fydda i'n mynd, os bydd hi'n braf  
*I will be going, if it is fine* (**lit.** *if it will be fine*)



# ADRAN B



1. Be' fasech chi'n neud tasech chi'n ennill y loteri?  
 Taswn i'n ennill y loteri, mi faswn i'n mynd o gwmpas y byd

ac ati




2. Be' fasech chi'n neud, tasai hi'n braf?  
 Tasai hi'n braf, mi faswn i'n gweithio yn yr ardd

ac ati



3. Be' fasech chi'n neud tasai gynnoch chi ddigon o amser?  
 Tasai gen i amser, mi faswn i'n papuro

ac ati



**ADRAN C: Deialog**

- A. Pryd dan ni'n mynd i bapuro'r ystafell yma? Dw i'n aros ers pum mlynedd.
- B. *Mi faswn i'n neud tasai gen i amser, ond .....*
- A. *Tasai gen ti amser, wir! Mae gen ti ddigon o amser i wyllo pêl droed a chwarae dartiau.*
- B. Rhaid i mi ymlacio tipyn bach weithiau.
- A. Ymlacio! *Mi faswn i'n licio cael cyfle i ymlacio weithiau, ond rhwng y smwddio, y golchi, y llau, y coginio ...*
- B. Cofia am fy *sciatica* i. Be' *taswn* i'n cael trafferth efo fy nghefn eto?
- A. Trafferth efo dy gefn wir! Coda o'r gadair 'na rwan a dechreua stripio!
- B. Ond mae'n oer. Be' *taswn* i'n cael niwmonia?
- A. Stripio'r papur wal, y twmffat!

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pwy ydy'r **pump** person yn y fflat?

\_\_\_\_\_

2. **rheol - rule**

Be' ydy dwy reol y tŷ?

a) \_\_\_\_\_

b) \_\_\_\_\_

3. Faint o enghreifftiau (*examples*) o "**taswn / tasai / ac ati**" dach chi'n eu clywed?

\_\_\_\_\_

4. **Gwrandewch am:**

cwsg	-	<i>sleep</i>
be' goblyn?	-	<i>what on earth?</i>
croesi	-	<i>to cross</i>
parchus	-	<i>respectable</i>
cyn hynny	-	<i>before then</i>

5. **Pam mae'r canlynol (*the following*) yn codi yn y stori?**

un o'r gloch y bore \_\_\_\_\_

heb ei ffrog \_\_\_\_\_

W.I. \_\_\_\_\_

dydd Sadwrn nesa \_\_\_\_\_

6. **yn ôl - according to**

Pwy ydy Annie a) yn ôl Beryl? \_\_\_\_\_

b) yn ôl Siôn? \_\_\_\_\_

Pwy ydy Beryl a) yn ôl Siôn? \_\_\_\_\_

b) yn ôl Gareth \_\_\_\_\_

**ADRAN D:      Taflen waith**

**1.      Cyfieithwch**

I'd be glad, if you came with me

---

I wouldn't pay, if I were you

---

I'd come out, if I had some money

---

I'd like to do some more reading

---

I'd phone if there was any news

---

I'd help, if I were free

---

**2.      Gorffennwch y brawddegau**  
*Complete the sentences*

Taswn i'n fengach, \_\_\_\_\_

Mi faswn i'n falch, \_\_\_\_\_

Mi faswn i'n licio \_\_\_\_\_

Tasai 'na broblem, \_\_\_\_\_

Mi faswn i'n siomedig, \_\_\_\_\_

Tasai gen i amser, \_\_\_\_\_

Taswn i'n ennill y loteri, \_\_\_\_\_

Mi faswn i'n flin, \_\_\_\_\_

## UNED 34

*(Tri deg pedwar / Pedwar ar ddeg ar hugain)*

### ADOLYGU AC YMESTYN:

*Revision and Extension:*

**Atebion**

*Yes and no*

Dach chi'n gweithio yma? Ydw / Nac ydw

Clerc dach chi? Ia / Naci

Ydy'r bws yn mynd i Wrecsam? Ydy / Nac ydy

Bws Wrecsam ydy o? Ia / Naci

Ydy'r cŵn allan? Ydyn / Nac ydyn

Labradors ydyn nhw? Ia / Naci

Oedd y cyfarfod yn yr ysgol? Oedd / Nac oedd

Yn yr ysgol oedd y cyfarfod? Ia / Naci

Fydd y dosbarth nesa nos Lun? Bydd / Na fydd

Nos Lun fydd y dosbarth nesa? Ia / Naci

Wnaethoch chi fynd i Ffrainc? Do / Naddo

Mewn *gîte* wnaethoch chi aros? Ia / Naci

Fasech chi'n licio panad? Baswn / Na faswn

Te fasech chi'n licio? Ia / Naci

## CURO'R CLOC

A. *Croeso i'r rhaglen "Curo'r Cloc"*

*Y gystadleuaeth gynta heno: "Peidiwch â deud 'yes'!*

*Wnewch chi roi croeso i'r cystadleuydd cynta: Gwilym Griffiths o Gaernarfon llawn, Gwilym. Mae gynnoch chi un munud i ateb cwestiynau, heb ddeud 'yes' Dach chi'n barod? Reit, cychwynwch y cloc!*

A. Gwilym dach chi?

B. Wrth gwrs

A. Dach chi'n byw yng Nghaernarfon?

B. Ar hyn o bryd

A. Dach chi'n licio byw yno?

B. Wrth fy modd

A. Sgynnoch chi deulu?

B. Gwraig a dau o blant

A. Ann ydy enw eich gwraig chi?

B. Dyna chi

A. Ydy eich gwraig chi'n gweithio?

B. Ddim ar hyn o bryd

A. Ydy'r plant yn yr ysgol?

B. Gobeithio

A. Dach chi'n dwad o Gaernarfon yn wreiddiol?

B. Dw i ddim yn cofio. Rôn i'n ifanc ar y pryd

A. Oeddech chi'n byw yng Nghaernarfon yn blentyn?

B. Weithiau

A. Oedd eich gwraig chi'n byw yng Nghaernarfon yn blentyn?

B. Mae'n bosib

A. Wnaethoch chi fynd i'r bingo neithiwr?

B. Wrth gwrs

A. Wnaethoch chi ennill rhywbeth?

B. Dim gobaith

A. Fyddwch chi'n mynd i'r bingo eto heno?

B. Ella

A. Ga' i ddwad efo chi?

B. Â chroeso

A. Fydd hi'n llawn yno heno?

B. Mae'n siwr

A. Fasech chi'n licio lifft?

B. Dim diolch

A. Wel Gwilym, dach chi isio stopio rwan?

B. Oes, plis

### Geirfa

â chroeso	-	you're welcome to
ar y pryd	-	at the time
curo	-	to beat
cychwyn	-	to start
<u>cystadleuaeth</u>	-	competition
cystadleuydd	-	competitor
gobaith	-	hope
heb	-	without
llawn	-	full
wrth fy modd	-	really enjoy

**DONG!**

A. *A'r ail gystadleuaeth ar 'Curo'r Cloc' heno: "Dudwch yr 'yes' cywir!"*  
*Wnewch chi roi croeso i'r ail gystadleydd heno: Delyth Dafis o Dreffynnon*  
*Croeso aton ni, Delyth. Mae gynnoch chi un munud i ateb cwestiynau, gan*  
*ddefnyddio'r 'yes/no' cywir bob tro.*

- A. Delyth dach chi?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓)  
 A. Dach chi'n byw yn Nhreffynnon?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓)  
 A. Dach chi'n licio byw yno?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓)  
 A. Sgynnoch chi deulu?  
 B. \_\_\_\_\_ (X)  
 A. Sgynnoch chi anifeiliaid?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓), un ci a dwy gath  
 A. Labrador ydy'r ci?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓)  
 A. Ydy o'n gi da?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓)  
 A. Ydy'r cathod yn ffrindiau efo'r ci?  
 B. \_\_\_\_\_ (X)  
 A. Dach chi'n gweithio?  
 B. \_\_\_\_\_ (X), ddim rwan  
 A. Oeddech chi'n gweithio?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓), yn yr haf, ar y Ffigwr-8 yn y Rhyl  
 A. Oeddech chi'n licio'r gwaith?  
 B. \_\_\_\_\_ (X), ddim llawer  
 A. Oedd y gwaith yn talu'n dda?  
 B. \_\_\_\_\_ (X)  
 A. Fyddwch chi'n gweithio yno eto haf nesa?  
 B. \_\_\_\_\_ (X), diolch byth. Dw i wedi cael gwaith ar "Oblivion" yn Alton Towers  
 A. Fydd y gwaith yno'n talu'n well?  
 B. \_\_\_\_\_ (✓)

**Geirfa**

cywir	-	correct
diolch byth	-	thank goodness
llongyfarchiadau	-	congratulations

A. Dach chi wedi bod yn Disneyworld, America?

B. \_\_\_\_\_ (✓)

A. Wnaethoch chi gyfarfod Mickey Mouse?

B. \_\_\_\_\_ (✓)

A. Fasech chi'n licio mynd yn ôl yno?

B. \_\_\_\_\_ (✓)

A. Ga' i ddwad efo chi?

B. \_\_\_\_\_ (✓)

**(FFANFER)**

A. Wel, llongyfarchiadau Delyth. Ardderchog. Dach chi wedi ennill gwyliau i ddau yn Disneyworld America. Mi fyddwn ni'n mynd wythnos nesa ....



## Taflen waith

### 1. Atebwch 'Yes/No'

Sgynnoch chi anifeiliaid?

---

Wnaethoch chi fynd allan neithiwr?

---

Oedd hi'n braf ddoe?

---

Mrs. Jones dach chi?

---

Fydd hi'n brysur yfory?

---

Fasech chi'n licio mynd am dro?

---

Ydy'r plant yn yr ysgol?

---

Oeddech chi'n licio'r ffilm?

---

Ga' i banad o de?

---

Dydd Llun ydy hi heddiw?

---

Dach chi isio help?

---

Dach chi wedi bod yn Sbaen?

---

Fyddwch chi adra heno?

---

Dach chi'n medru nofio?

---

Ydy eich tŷ chi'n hen?

---

Oes 'na le yn y maes parcio?

---

2. Darllewch y darn (*piece*) yma ac atebwch y cwestiynau:

CATHERINE HUWS NAGASHIMA

Geirfa

prifysgol	-	university
daearyddiaeth	-	geography
pensaer	-	architect
cynllunio	-	to plan
hamdden	-	leisure
cymdeithas	-	society
cylch	-	circle
myfyrwyr	-	students



Mae Catherine yn dwad yn wreiddiol o Lundain, ond pan oedd hi'n fabi, mi wnaeth y teulu symud i bentre Talwrn wrth Llangefni, Ynys Môn. Roedd ei thad hi'n artist a chartwnydd.

Ar ôl gadael yr ysgol, mi aeth hi i'r Brifysgol yn Aberystwyth i astudio Daearyddiaeth, ac yna mi aeth hi i weithio yn Ffrainc, Llundain ac Athens. Pan oedd hi yn Athens, mi wnaeth hi gyfarfod y pensaer Loichi Nagashima. Mi wnaethon nhw briodi a symud i Siapan yn 1965.

Maen nhw'n byw rwan yn Zwshi ac mae gynnyn nhw chwech o blant. Mae Catherine yn gweithio efo cwmni cynllunio gwlad a thre, ac yn ei hamser hamdden mae hi'n brysur efo Cymdeithas Dewi Sant Siapan, Cylch Siarad Cymraeg Tokyo a Chymdeithas Cyn-Fyfyrwyr Aberystwyth.

Ydy Catherine yn dwad yn wreiddiol o Lundain?

\_\_\_\_\_

Oedd hi'n byw yn Llundain pan oedd hi'n bump oed?

\_\_\_\_\_

Ydy Talwrn ar Ynys Môn?

\_\_\_\_\_

Cartwnydd oedd tad Catherine?

\_\_\_\_\_

Aeth hi i'r Brifysgol yn Aberystwyth?

\_\_\_\_\_

Oedd hi'n gweithio yn Athens?

\_\_\_\_\_

Pensaer ydy ei gŵr hi?

\_\_\_\_\_

Oedden nhw'n byw yn Siapan yn 1966?

\_\_\_\_\_

Ydyn nhw'n byw yn Siapan rwan?

\_\_\_\_\_

Sgynnyn nhw blant?

\_\_\_\_\_

Ydy Catherine yn gweithio rwan?

\_\_\_\_\_

Oes 'na Gylch Siarad Cymraeg yn Tokyo?

\_\_\_\_\_

## UNED 35

(Tri deg pump / Pymtheg ar hugain)

### ADRAN A

Lle est ti dydd Sadwrn?  
Efo pwy est ti?  
Sut aethoch chi?  
Sut aeth hi?

*Mi es i i Gaer*  
*Mi es i efo'r teulu*  
*Mi aethon ni ar y trên*  
*Mi aeth hi'n dda iawn, diolch*

*Mi es i i'r post, mi ges i stampiau*  
*Mi es i i'r garej, mi ges i betrol*  
*Mi es i i'r clwb, mi ges i hwyl*

Be' gest ti i frecwast  
gaethoch chi i ginio  
i de  
i yfed

*Mi ges i dost*  
*frechdanau*  
*deisen*  
*sudd oren*

Ches i ddim brecwast  
ddim amser  
ddim byd i fwyta  
ddim byd i yfed

Gest ti'r llythyr?  
Gaethoch chi'r neges?  
manyllion?

Do diolch. *Mi ges i o bore 'ma*  
*hi*  
*nhw*

Lle gaethoch chi eich wats?  
'sgidiau?  
car?

*Mi ges i hi gan ffrind*  
*Mi ges i nhw o Skid Row*  
*Mi ges i o o Ceir Cymru*

Sut hwyl gaethoch chi ar eich gwyliau?  
Sut siwrne gaethoch chi?  
Sut le gaethoch chi i aros?  
Sut dywydd gaethoch chi?

*Mi gaethon ni wyliau ardderchog*  
*Mi gaethon ni siwrne hwylus iawn*  
*Mi gaethon ni le hyfryd*  
*Mi gaethon ni dywydd bendigedig ...*  
*... Chaethon ni ddim glaw o gwbl*

Pam aeth y plant i'r ysbyty?  
Pam aeth Ann i weithio yn Llundain?  
Pam aeth John allan mor sydyn?  
Pam aeth o'n wyn?

*Mi gaethon nhw ddamwain*  
*Mi gaeth hi swydd*  
*Mi gaeth o alwad ffôn*  
*Mi gaeth o sioc*

## Geirfa

ffisig	-	medicine	Nadolig	-	Christmas
<u>galwad</u>	-	a call	<u>nodwydd</u>	-	needle
gan	-	from (a person)	Siôn Corn	-	Father Christmas
hwylus	-	handy, trouble-free	sydyn	-	sudden, quick
manylion	-	details	<u>teisen</u>	-	cake, tart
<u>moron</u>	-	carrots			

## Patrymau

A. **Gorffennol "cael"** - *Past tense of "cael" - to have*

Mae'n bosib deud "mi wnes i gael", "Wnest ti gael" etc., ond mae 'na ffurf gryno (*short form*) hefyd:

<b>mi ges i</b> <b>mi gest ti</b> <b>mi gaeth o/hi / y plant</b> <b>mi gaethon ni</b> <b>mi gaethoch chi</b> <b>mi gaethon nhw</b>
---

1. **D.S. Mi ges i** = I had (= I got, I received)

e.e. mi ges i lythyr  
Mi ges i sioc

I had (= I used to have) = roedd gen i e.e. roedd gen i gi

2. Yn y negyddol, mae **treigladd laes** (*aspirate mutation*) = **c > ch**

ches i ddim brecwast  
chaethon ni ddim amser

3. Mae'r gair cynta ar ôl goddrych yn treiglo  
*The first word after the subject mutates*

mi ges **i ddamwain**  
mi gaeth **y plant** ginio  
chaethon **nhw ddim** cinio

B. **From** = o/gan

O **le** - Mi ges i lythyr **o** America  
Gan **berson** - Mi ges i lythyr **gan** ffrind

## ADRAN B

1. Dach chi'n mynd i "Weightwatchers". Dach chi'n trio cadw at y deict, ond mac'n anodd weithiau! Atebwch gwestiynau'r athrawes yn onest!

Be' gaethoch chi i frecwast dydd Llun?

ac ati

	Brecwast	Cinio	Swper
Llun			
Mawrth			
Mercher			
Iau			
Gwener			
Sadwrn			
Sul			

### Rhai posibiliadau:


**Da:** dim byd, salad, llyisiau, cyw iâr, tost, muesli, ffrwythau, dŵr .. *ac ati*

**Drwg:** cacen siocled, wy wedi'i ffrio, te efo tri siwgr, sglodion, peint o gwrw.. *ac ati*

2. Gofynnwch gwestiynau i'ch partner fel:

Lle gaethoch chi eich côt?

Mi ges i hi yn .....



3. Gofynnwch be' gaeth pawb gan Siôn Corn y Nadolig diwetha.

FI	Y PLANT	NAIN	Y CARIAD	Y CI	Y TIWTOR

**ADRAN C: Deialog**

- A. Est ti at y doctor?  
B. Do.
- A. Be' gest ti?  
B. Ffisig pinc, ych-a-fi.
- A. Oeddet ti'n well wedyn?  
B. Nac oeddwn.
- A. Lle est ti wedyn?  
B. Mi es i at yr homeopathist
- A. Be' gest ti?  
B. Mi ges i sudd moron.
- A. Oeddet ti'n well wedyn?  
B. Nac oeddwn.
- A. Be' wnest ti wedyn?  
B. Mi es i am acupuncture.
- A. Be' gest ti?  
B. Mi ges i nodwyddau yn fy mhen.
- A. Oeddet ti'n well wedyn?  
B. Nac oeddwn.
- A. Lle est ti wedyn?  
B. Mi es i at yr hypnotherapydd y bore 'ma.
- A. Be' gest ti?  
B. Mi ges i fy hypnoteiddio.
- A. Wyt ti'n well?  
B. Dw i'n meddwl mod i.

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Faint o weithiau dach chi'n clywed:

- a) **aeth** \_\_\_\_\_
- b) **gaeth / chaeth** \_\_\_\_\_
- c) **wnaeth** \_\_\_\_\_

2. Pa amserau dach chi'n eu clywed?

---

3. **Gwrandewch am:**

y dre	-	<i>town</i>	na	-	<i>nor</i>
ffrae	-	<i>quarrel</i>	dal	-	<i>to catch</i>
yn syth	-	<i>straight away</i>	tu allan i	-	<i>outside</i>

4. Pwy sy'n neud be'?

**A. Siôn      B. Annie      C. Gareth      CH. Llinos      D. Nia**

mynd i'r Alban

rhedeg allan o'r fflat

gweithio am 7.00

mynd rownd a rownd y dre

pacio

ateb y ffôn am 6.00

dal trên

mynd i'r gwely am 5.30

ffraeo

cyfarfod am 7.00

5. a) Pam mae rhaid i Llinos weithio heddiw?

---

b) Pam mae Llinos a Nia'n cael sioc?

---

**ADRAN D: Taflen waith**

**1. Ail-ysgrifennwch y brawddegau yma gan ddefnyddio'r ffurf gryno:**

*Re-write these sentences, using the short form:*

- Mi wnes i gael hwyl > Mi ges i hwyl
- Mi wnes i gael damwain \_\_\_\_\_
- Wnes i ddim cael brecwast \_\_\_\_\_
- Wnaethoch chi gael y neges? \_\_\_\_\_
- Mi wnaethon ni gael lle hyfryd \_\_\_\_\_
- Mi wnaeth o gael galwad ffôn \_\_\_\_\_

**2. Trowch y brawddegau yma i'r negyddol :**

*Make these sentences negative:*

- Mi ges i amser \_\_\_\_\_
- Mi gaethon ni law \_\_\_\_\_
- Mi gaeth o frecwast \_\_\_\_\_
- Mi ges i rywbeth i yfed \_\_\_\_\_

**3. Ysgrifennwch frawddegau, gan ddilyn y patrwm:**

*Form sentences, following the pattern:*

- Fi - post - stampiau: mi es i i'r post, mi ges i stampiau
- Hi - swyddfa - neges : \_\_\_\_\_
- Nhw - garej - petrol : \_\_\_\_\_
- Ni - Blaenau - tywydd braf : \_\_\_\_\_
- Fi - siop betio - dim lwc : \_\_\_\_\_
- John - Monte Carlo - ffortiwn : \_\_\_\_\_

**4. Gofynnwch gwestiwn addas:**

*Ask an appropriate question:*

- \_\_\_\_\_ Mi ges i nhw yn Woolworths
- \_\_\_\_\_ Ardderchog, diolch
- \_\_\_\_\_ Do, trwy'r post y bore 'ma, diolch
- \_\_\_\_\_ Ffisig pinc



## UNED 36

(Tri deg chwech / Un ar bymtheg ar hugain)

### ADRAN A

Mi ges i fy ngeni yn Llandudno  
ym mis Mai.  
Mi ges i fy magu yn Llundain  
ar fferm.

Lle gest ti dy eni?  
dy fagu? Yng Ngogledd Cymru  
Yn Ne'r Alban

Lle gaethoch chi eich geni?  
eich magu? Yn Nwyrain Lloegr  
Yng Ngorllewin Iwerddon

Lle gaeth eich tad ei eni? Mi gaeth o ei eni yng Nghymru  
Lle gaeth eich mam ei geni? Mi gaeth hi ei geni  
Lle gaeth eich plant eu geni? Mi gaethon nhw eu geni

Gest ti dy stopio? Do, mi ges i fy stopio gan yr heddlu  
Gest ti dy dalu? Do, mi ges i fy nhalu gan y cwmni  
Gest ti dy ddeffro? Do, mi ges i fy neffro gan y sŵn

Mi gaeth y llyfr ei ysgrifennu gan Marion Eames  
Mi gaeth y llun ei beintio gan Kyffin Williams  
Mi gaeth y tŷ ei adeiladu gan Wimpy  
Mi gaeth Kennedy ei ladd gan Oswald

### Geirfa

achub	-	to rescue	geni	-	to be born
brathu	-	to bite	Gogledd	-	North
bwydo	-	to feed	Gorllewin	-	West
cloi	-	to lock	lladd	-	to kill
De	-	South	magu	-	to bring up
deffro	-	to wake up	strydoedd	-	streets
Dwyrain	-	East			

## Patrymau

Y Goddefol	-	The Passive	
cael	=	to have	
mi ges i	=	I had	
mi ges i fy ngeni	=	I had my birth	= I was born
mi ges i fy stopio	=	I had my stopping	= I was stopped
mi ges i fy nhalu	=	I had my paying	= I was paid

mi ges i fy **n**halu  
mi gest ti dy **d**alu  
mi gaeth o ei **d**alu  
mi gaeth hi ei **t**halu  
mi gaethon ni ein **t**alu  
mi gaethoch chi eich **t**alu  
mi gaethon nhw eu **t**alu

### D.S.

1. by = gan

mi ges i fy stopio **gan** yr heddlu

2. Mi fydd y patrwm yn dibynnu ar genedl yr enw, e.e.  
The pattern will depend on the gender of the name, e.g.

**t**ŷ = **gwrywaidd / masculine**

Mi gaeth y tŷ ei beintio - the house was painted

**w**al = **benywaidd / feminine**

mi gaeth y wal ei pheintio - the wall was painted

3. I newid amser:

	mi ges i fy nhalu	=	I was paid / I got paid
>	dw i'n cael fy nhalu	=	I am paid / I get paid
>	mi fydda i'n cael fy nhalu	=	I will be paid / I will get paid

## ADRAN B


1. Mae gynnoch chi deulu rhyngwladol. Cysylltwch aelodau'ch teulu efo gwahanol rannau o'r byd ac atebwch gwestiynau eich partner:

e.e. Lle gaethoch chi eich geni?  
 Lle gaeth eich mam ei geni?  
 Lle gaeth eich taid ei eni?

*You have a very cosmopolitan family. Link the listed members of that family to different parts of the world and answer your partner's questions.*



2. Be' wnaeth ddigwydd? *What happened?*



**ADRAN C: Deialog**

A. O le dach chi'n dwad yn wreiddiol?

B. Wel, mi ges i fy ngeni yn Wrecsam ond mi ges i fy magu yng Ngogledd Lloegr.

A. Faint oedd eich oed chi pan wnaethoch chi symud?

B. Dim ond tair oed, felly dw i ddim yn cofio byw yn Wrecsam o gwbl.

A. Pam wnaethoch chi symud i Ogledd Lloegr?

B. Mi gaeth fy nhad ei symud yno efo'i waith.

A. Ers pryd dach chi'n byw yng Nghymru rwan?

B. Ers 1991. Dw i'n byw mewn hen, hen fwthyn yn y mynyddoedd.

A. Pryd gaeth o ei adeiladu?

B. Tua dau gan mlynedd yn ôl.

A. 'Sgynnoch chi deulu?

B. Nac oes, dim ond ci.

A. Ci pedigri ydy o?

B. Naci wir. Mi gaeth o ei fagu ar strydoedd cefn Caernarfon

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pwy ydy'r **pump** person sy'n siarad yn y bennod yma?

---

2. **Gwrandewch am:**

nôl	-	<i>to fetch</i>	rhugl	-	<i>fluent</i>
heibio	-	<i>past</i>	ar goll	-	<i>lost, missing</i>
corff	-	<i>body</i>	gorsaf	-	<i>station</i>
iach	-	<i>healthy</i>	cell	-	<i>cell</i>

3. a) Rhowch **fy** efo'r geiriau yma: (e.e. cath > fy nghath)

corff > fy \_\_\_\_\_

Cymraeg > fy \_\_\_\_\_

busnes > fy \_\_\_\_\_

pyjamas > fy \_\_\_\_\_

b) Llenwch y bylchau:  
*Fill the gaps:*

Mi \_\_\_\_\_ Siôn \_\_\_\_\_ mewn cell

Mi \_\_\_\_\_ car Annie \_\_\_\_\_ i garej yr heddlu

Mi \_\_\_\_\_ ffrog Annie \_\_\_\_\_ yn fflat Siôn

Mi \_\_\_\_\_ Siôn \_\_\_\_\_

4. a) Lle mae Mr. Springbottom yn mynd? \_\_\_\_\_

b) Pam dydy Siôn **ddim** yn meddwl bod hynny'n syniad da?

---

c) Pam **mae** Mr. Springbottom yn meddwl bod hynny'n syniad da?

---

5. a) Lle mae Siôn yn mynd? \_\_\_\_\_

b) Pam? \_\_\_\_\_

## ADRAN D: Taflen waith

### 1. Cyfieithwch

- I was brought up in London \_\_\_\_\_
- The house was built by Wimpy \_\_\_\_\_
- Were you woken up? \_\_\_\_\_
- She was born in Wales \_\_\_\_\_
- Kennedy was killed by Oswald \_\_\_\_\_
- Where were your children born? \_\_\_\_\_
- Where were you brought up? \_\_\_\_\_
- I was paid yesterday \_\_\_\_\_

### 2. Gorffennwch y brawddegau:

- Mi gaeth fy mam \_\_\_\_\_
- Mi gaeth fy nhad \_\_\_\_\_
- Mi gaeth y tŷ \_\_\_\_\_
- Mi ges i \_\_\_\_\_
- Mi gaeth y llyfr \_\_\_\_\_
- Mi gaeth y car \_\_\_\_\_
- Mi gaeth y ci \_\_\_\_\_
- Gest ti \_\_\_\_\_?
- Mi gaeth y protestwyr \_\_\_\_\_
- Mi gaeth y tatws \_\_\_\_\_

### 3. Lle dw i?

Mi gaeth yr abaty ei adeiladu gan y Sistersiaid yn 1201 abaty - *abbey*

Mi gaeth y castell ei adeiladu gan Gruffudd ap Madog yn 1250

Mi gaeth y bont dros yr afon ei hadeiladu gan Inigo Jones

Mi gaeth yr *aqueduct* ei adeiladu gan Thomas Telford

Mi gaeth yr Eisteddfod gynta ei chynnal yn 1947 cynnal - *to hold*

**LLE DW I?** \_\_\_\_\_

## UNED 37

*(Tri deg saith / Dau ar bymtheg ar hugain)*

### ADRAN A

Sut aeth hi yn y swyddfa?

Ofnadwy...

Mi weithies i trwy'r bore

Mi weithies i trwy'r awr ginio

Mi weithies i trwy'r prynhawn

Sut aeth y diwrnod i ffwrdd?

Grêt...

Mi godes i'n hwyr

Mi edryches i ar y teledu trwy'r bore

Mi gysges i ar y soffa trwy'r prynhawn

Mi weles i Ann neithiwr

Do? Mi weles i hi hefyd

Mi ffonies i John neithiwr

Do? Mi ffonies i fo hefyd

Mi ddysges i'r geiriau neithiwr

Do? Mi ddysges i nhw hefyd

Pam wyt ti isio bwyd?

Fwytes i ddim

Pam wnest ti ddim pasio?

Weithies i ddim

Pam wyt ti wedi blino?

Chysges i ddim

Pam dan ni wedi cael bil coch?

Thales i ddim

Oedd hi'n brysur yn y pentre?

Nac oedd

Siaradest ti efo rhywun?

Naddo

Welest ti rywun?

Naddo

Glywest ti ryw newyddion?

Naddo

Brynest ti rywbeth?

Naddo

Lle aethoch chi?

Mi aethon ni i Lundain

Lle fwytoch chi?

Mi fwyton ni yn Harrod's

Lle arhosoch chi?

Mi arhoson ni yn y Dorchester

Sut daloch chi?

Mi olchon ni'r llestri

### Geirfa

croesi	-	to cross	pasio	-	to pass
cychwyn	-	to start	saff	-	safe
diwrnod i ffwrdd	-	day off	yn ôl	-	ago
maes parcio	-	car park			

## Patrymau

### Gorffennol cryno - *Concise past tense*

mi wnes i siarad	>	mi siarades i	>	I spoke
mi wnes i weithio	>	mi weithies i	>	I worked
mi wnes i ddysgu	>	mi ddysges i	>	I learnt

### A. Bôn y ferf - *Stem of the verb*

1. Os ydy'r ferf yn gorffen efo cytsain, dyna'r bôn:  
*If the verb ends in a consonant, that is the stem:*

edrych	>	mi edryches i
darllen	>	mi ddarllenes i

2. Os ydy'r ferf yn gorffen efo llafariad, mae'r llafariad yna'n diflannu:  
*If the verb ends in a vowel, that vowel disappears:*

a) bwyta	>	mi fwytes i
codi	>	mi godes i
b) ffonio	>	mi ffonies i
gweithio	>	mi weithies i

3. Bôn afreolaidd - *Irregular stem*

gweld	>	gwel-	mi weles i
yfed	>	yf-	mi yfes i
cerdded	>	cerdd-	mi gerddes i
rhedeg	>	rhed-	mi redes i
aros	>	arhos-	mi arhoses i
cyrhaedd	>	cyrhaedd-	mi gyrhaeddes i

(Mwy i ddwad! *More to come!*)

### B Terfyniadau - *Endings*

- es i	- on ni
- est ti	- och chi

### C. Rheolau - *Rules*

- a) **Positif:** mi + treigladd: bwyta > mi fwytes i  
b) **Cwestiwn:** treigladd, dim mi: bwyta > fwytest ti?  
c) **Negyddol:** dim mi  
treigladd llaes (*aspirate*) efo t, c, p: cysgu > **ch**ysges i ddim  
treigladd meddal (*soft*) efo d, g, b, m, ll, rh: bwyta > fwytes i ddim

- ch) mae'r gair cynta ar ôl y goddrych yn treiglo:  
*the first word after the subject mutates :*

mi brynes i <b>f</b> wyd	phrynes i <b>ddim</b> bwyd
weldest ti <b>r</b> ywun?	fwytes i <b>ddim</b> llawer



# ADRAN B

## Chwaraewch "Nadroedd ac Ysgolion"


neidr - snake  
 nadroedd - snakes  
 ysgol - ladder

CHI

NI

TI

I



Rhes 1 (1 - 6),	rhaid i chi ddeud:	mi gysges <u>i</u>	ac ati
Rhes 2 (7 - 12),	rhaid i chi ofyn:	edrychest <u>ti</u> ar y teledu?	ac ati
Rhes 3 (13 - 18),	rhaid i chi ddeud :	mi ddarllenon <u>ni</u>	ac ati
Rhes 4 (19 - 24),	rhaid i chi ofyn :	olchoch <u>chi'r</u> car?	ac ati
Rhes 5 (25 - 30),	dim ots!		

Lle mae croes (X), rhaid i chi roi brawddeg negyddol, e.e. chysgon ni ddim

**ADRAN C: Deialog**

A. Helo! Jyst ffonio i ddeud bod ni wedi cyrraedd yn saff.

B. Sut oedd y siwrne?

A. Hir.

B. Faint o'r gloch gychwynnoch chi o'r tŷ?

A. Saith o'r gloch bore ddoe.

B. Stopioch chi ar y ffordd?

A. Do, mi arhoson ni mewn maes parcio neithiwr. Mi gysgon ni yn y car.

B. Pryd gyrhaeddoch chi?

A. Tua hanner awr yn ôl.

B. Sut mae'r tywydd yn yr Alpau?

A. Yr Alpau? Yn Dover dan ni.

B. Dover?

A. Ia. Mi gollon ni'r fferi heddiw, felly rhaid i ni aros tan yfory i groesi rwan.

B. Wel, mwynhewch y gwyliau!

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pwy ydy'r **tri** person sy'n siarad yn y bennod yma?

---

2. Nodwch y ffurfiau gorffennol cryno dach chi'n eu clywed o'r geiriau yma:

*Note the short past tense forms of these words that you hear:*

(e.e. codi > mi godes i)

clywed	_____	stopio	_____
rhedeg	_____	agor	_____
colli	_____	deud	_____
yfed	_____	gweld	_____

3. **Gwrandewch am:**

hanes	-	<i>story</i>	ar ei ffordd	-	<i>on his way</i>
heb	-	<i>without</i>	o'r diwedd	-	<i>at last</i>
trwy'r dydd	-	<i>all day</i>	breichiau	-	<i>arms</i>
achosi	-	<i>to cause</i>	ei gilydd	-	<i>each other</i>
rhannu	-	<i>to share</i>	cusanu	-	<i>to kiss</i>
anffodus	-	<i>unfortunate</i>			

4. **Parwch y broblem a'r achos:**

*Match the problem with its cause:*

A.	Mae Siôn yn y gell	<b>ACHOS</b>	1.	mi wnaeth Annie weld Gareth yn fflat Siôn
B.	Mi wnaeth Annie redeg i ffwrdd		2.	roedd hi wedi yfed gormod neithiwr
C.	Doedd Annie ddim yn gwisgo ffrog		3.	mae hi wedi sortio ei hun allan
CH.	Doedd Annie ddim yn gyrru car		4.	mi gaeth o ei restio bore 'ma
D.	Roedd Fred yn gwybod bod Siôn yn gyrru car Annie neithiwr		5.	dydy o ddim wedi neud dim byd
DD.	Roedd Fred wedi bod yn poeni		6.	roedd hi isio amser i feddwl
E.	Mi wnaeth y trwbl ddechrau		7.	mi wnaeth o stopio'r car neithiwr
F.	Mi fydd popeth yn iawn i Annie rwan		8.	mi wnaeth hi golli coffi
G.	Mae Siôn yn dwad allan o'r gell		9.	roedd o wedi deud hanes gŵr Annie wrth Siôn

5. Sut mae'r bennod yn gorffen?

---

**ADRAN D :      Tafflen waith**

1.      **Newidiwch y brawddegau yma o'r ffurf hir i'r ffurf gryno**  
*Change these sentences from the long to the short form*

Mi wnes i godi                      >      mi godes i

Mi wnes i weld Ann

Mi wnes i ffonio John

Wnest ti siarad efo rhywun?

Mi wnaethon ni aros

Sut wnaethoch chi dalu?

Mi wnaethon ni golli

Wnest ti ddysgu'r geiriau?

Wnaethoch chi brynu rhywbeth?

Wnes i ddim cysgu

Wnes i ddim talu

Wnest ti glywed y newyddion?

Mi wnaethon ni gyrraedd yn hwyr

2.      **Ysgrifennwch baragraff ar y penwythnos diwetha, gan ddefnyddio ffurfiau cryno, os yn bosib.**  
*Write a paragraph about last weekend, using short forms if possible.*

## UNED 38

*(Tri deg wyth / Deunaw ar hugain)*

### ADRAN A

Sut aeth John i ben yr Wyddfa?

Mi gerddodd o  
Mi ddringodd o  
Mi redodd o  
Mi eisteddodd o ar y trê

Be' ddigwyddodd yn y gêm griced?

Mi gollodd Lloegr  
Mi enillodd Awstralia  
Mi gysgodd y dorf

Ffoniodd Ann?

Alwodd Ann?

Dalodd Ann?

Wrandawodd Ann?

Do / Naddo

Pwy beintiodd y llun?

Pwy ysgrifennodd (sgwennodd) y llyfr?

Pwy ganodd y gân?

Pwy enillodd y wobwr?

Kyffin Williams

Kate Roberts

Catania

Hedd Wyn

Be' wnaeth yr hwlighaniaid?

Mi beintion nhw sloganau

Mi daflon nhw gerrig

Mi dorron nhw ffenestri

Mi gwffion nhw

Wnest ti atgoffa'r plant?

Wnest ti ddeffro'r plant?

Wnest ti weiddi ar y plant?

Wnest ti roi wisgi i'r plant?

Do, ond chofion nhw ddim

Do, ond chodon nhw ddim

Do, ond wrandawon nhw ddim

Do, ond chysgon nhw ddim

## Geirfa

atgoffa	-	to remind	i gyd	-	all
<u>cân</u>	-	song	lladron	-	robbers
<u>carreg</u>	-	stone	peiriannau	-	machines
cerrig	-	stones	prif weinidog	-	prime minister
cwffio	-	to fight	taflu	-	to throw
cyflog	-	wages	<u>torf</u>	-	crowd
gweiddi (ar)	-	to shout (at)	tywysog	-	prince
gweithwyr	-	workers	yn erbyn	-	against
<u>gwobr</u>	-	prize	<u>Yr Wyddfa</u>	-	Snowdon
gwrando (ar)	-	to listen (to)			

## Patrymau

### Gorffennol cryno - Concise past tense

mi wnaeth o siarad	>	mi siaradodd o	<i>he spoke</i>
mi wnaeth hi weithio	>	mi weithiodd hi	<i>she worked</i>
mi wnaethon nhw ddysgu	>	mi ddysgon nhw	<i>they learnt</i>

### 1. Bôn y ferf - Stem of the verb

Gweler Uned 37

Dau afreolaidd newydd:

*Two new irregulars:*

gwrando	>	gwrandaw-	mi wrandawodd hi
gadael	>	gadaw-	mi adawon nhw

### 2. Terfyniadau - Endings

-es i	-on ni
-est ti	-och chi
-odd hi	-on nhw
-odd o	
-odd y plant, y bobl drws nesa, <i>ac ati</i>	

### 3. Rheolau - Rules

Gweler Uned 37

# ADRAN B

1. Edrychwch ar y lluniau ac atebwch gwestiynau eich partner:

- Be' wnaeth Ann ddoe?
- Be' wnaeth John neithiwr?
- Be' wnaeth y bobl drws nesa dros y penwythnos?
- Be' wnest ti/wnaethoch chi ddoe?

ac ella

hefyd!

2. Dewiswch lun ac enwch berson. Mi fydd eich partner yn ceisio dyfalu be' wnaeth y person:

*Choose a picture and name a person. Your partner will try to guess what that person did:*

e.e. Person: Ann

Nofiodd hi?  
Fwytodd hi?

Naddo  
Naddo

ac ati



## ADRAN C: Deialog

Newyddion Chwech, cfo Dewi Llwyd ac Angharad Mair

- A.M. Noswaith dda. Dyma'r newyddion am chwech o'r gloch.  
Mi gaeth tri o bobl eu lladd y bore 'ma pan adawodd bws y ffordd wrth Amlwch.  
Mae deg person arall yn Ysbyty Gwynedd.
- D.LL. Mi dorrodd lladron i mewn i siop Curry's yn Llandudno neithiwr. Mi gymon nhw  
werth deg mil o bunnau o beiriannau.
- A.M. Roedd wyth cant o weithwyr ffatri Jaguar yn Nefyn ar streic heddiw. Mi gerddon nhw  
allan i brotestio am eu cyflog.
- D.LL. Yn y gêm fawr yn Helsinki y prynhawn 'ma, mi gollodd Cymru o ddwy gôl i un yn  
erbyn y Ffindir. Mi sgoriodd Ryan Giggs gôl Cymru.
- A.M. Roedd y Prif Weinidog yn y Rhyl heddiw. Mi agorodd o ffatri newydd ac wedyn mi  
chwaraeodd o fingo ar y Prom.
- D.LL. Hefyd, roedd y Tywysog Charles yng Nghaernarfon y bore 'ma i agor tŷ bwyta  
Indiaidd newydd o'r enw Tŷ Bach Singh. Mi ofynnodd Charles "Sit duck key?" ac mi  
atebodd Mr. Singh "Rhaid i mi Vindaloo"
- A.M. A dyna'r newyddion am heno. Nos da i chi i gyd.
- D.LL. Nos da.



**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pwy ydy'r **tri** person yn y bennod yma?

---

2. Pa ffurfiau gorffennol cryno dach chi'n eu clywed?  
*Which short past tense forms do you hear?*

ffonio \_\_\_\_\_

deud \_\_\_\_\_

stopio \_\_\_\_\_

3. **Gwir 'ta gau?** *True or false?*

Mae Siôn yn cyrraedd y gwaith cyn Annie \_\_\_\_\_

Mae Annie'n gadael ar ddiwedd yr wythnos \_\_\_\_\_

Mae chwaer Annie'n sâl \_\_\_\_\_

Mae Annie'n mynd i weithio mewn ysbyty preifat \_\_\_\_\_

Mi stopiodd calon (*heart*) Siôn \_\_\_\_\_

Mae treigloffobia'n beth ofnadwy \_\_\_\_\_

4. **Gorffennwch y frawddeg yma:**

a) \_\_\_\_\_, mi fasen ni'n

medru concro treigloffobia mewn dim amser

5. **angen** - *need*

Pwy sy angen Annie? (4 ateb)

---

**ADRAN D:      Taflen waith**

1.    **Newidiwch y brawddegau yma o'r ffurf hir i'r ffurf gryno:**  
*Change these sentences from the long to the short form:*

Mi wnaeth o ddringo	>	Mi ddringodd o
Mi wnaeth o redeg		_____
Mi wnaethon nhw beintio sloganau		_____
Wnaethon nhw ddim codi		_____
Wnaeth Ann wrando?		_____
Be' wnaeth ddigwydd?		_____
Pwy wnaeth dalu?		_____
Mi wnaethon nhw daflu cerrig		_____
Mi wnaeth o ofyn cwestiwn		_____
Mi wnaeth y lladron dorri i mewn		_____
Wnaeth hi ddim cofio		_____
Mi wnaeth y dorf eistedd		_____
Wnaeth yr heddlu ffonio?		_____

2.    **Ysgrifennwch dipyn o newyddion:**

Be' ddigwyddodd yn y ffatri?  
\_\_\_\_\_

Be' ddigwyddodd yn 10 Downing Street?  
\_\_\_\_\_

Be' ddigwyddodd yn yr Himalayas?  
\_\_\_\_\_

Be' ddigwyddodd yn y dre yn y nos?  
\_\_\_\_\_

Be' ddigwyddodd yn y gêm?  
\_\_\_\_\_

Be' wnaeth y Tywysog?  
\_\_\_\_\_

## UNED 39

*(Tri deg naw / Pedwar ar bymtheg ar hugain)*

### ADRAN A

Wyt ti wedi ysgrifennu*	at Ann? at John? at y teulu? ata i? aton ni?	Mi ysgrifennes i* Dw i'n mynd i ysgrifennu*	ati hi ato fo atyn nhw atat ti atoch chi	ddoe yfory
-------------------------	--	--	--	---------------

(\* *Dudwch: sgwennu / sgwennes i*)

Pryd wyt ti'n mynd i weld y doctor?	Mi es i Dw i'n mynd	ati hi ato fo	ddoe yfory
-------------------------------------	------------------------	------------------	---------------

Dw i'n mynd i weld y teulu yfory	Cofia fi at bawb Cofia fi atyn nhw
----------------------------------	---------------------------------------

\*\*\*\*\*

Peidiwch â deud	wrth Dad wrth y bos wrth y bobl drws nesa wrth neb	Ond dw i wedi deud	wrtho fo wrthi hi wrthyn nhw wrth bawb	'n barod
-----------------	---	--------------------	---	----------

Dydy hyn ddim yn mynd i weithio	Mi ddudes i (Mi wnes i ddeud)	wrthat ti wrthoch chi	'n'do?
---------------------------------	----------------------------------	--------------------------	--------

Dw i wedi ysgrifennu at Ann at y cwmni atat ti	Be' ddudest ti	wrthi hi? wrthyn nhw? wrtha i?
--	----------------	--------------------------------------

### Geirfa

ar werth	-	for sale
yn barod	-	already
'n'do?	-	didn't I/didn't it? etc.
neb	-	nobody
trwy'r dydd	-	all day

## Patrymau

### 1. Berf + arddodiad - Verb + Preposition

<i>Fel:</i>	siarad <b>efo</b>	-	<i>to speak to</i>
<i>hefyd:</i>	deud <b>wrth</b>	-	<i>to say to, to tell</i>
	ysgrifennu <b>at</b>	-	<i>to write to</i>
	mynd <b>at</b>	-	<i>to go to (a person)</i>
	cofio <b>at</b>	-	<i>to remember to, to give regards to</i>

### 2. Rhedeg arddodiaid - Conjugating prepositions

	wrth John		at John
	wrth y plant		at y plant
	wrth bawb		at bawb
>	<b>wrtha i</b>	>	<b>ata i</b>
	<b>wrthat ti</b>		<b>atat ti</b>
	<b>wrtho fo</b>		<b>ato fo</b>
	<b>wrthi hi</b>		<b>ati hi</b>
	<b>wrthon ni</b>		<b>aton ni</b>
	<b>wrthoch chi</b>		<b>atoch chi</b>
	<b>wrthyn nhw</b>		<b>atyn nhw</b>

(*Fel:*           gynno fo, gynni hi;   iddo fo, iddi hi;       *ac ati*)

### 3. Gorffennol cryno - Concise past tense

deud	>	mi ddudes i	(pronounced <b>ddudish</b> )	<i>I said, I told</i>
		mi ddudest ti		
		mi ddudodd o/hi		
		mi ddudon ni		
		mi ddudoch chi		
		mi ddudon nhw		

# ADRAN B

## 1. Llythyrau cwyno - *Whingeing letters*

Dach chi isio ysgrifennu at y rhan fwya o'r bobl ar y rhestr yma. Mi ysgrifennoch chi at rai ddoe, dach chi'n mynd i ysgrifennu at rai yfory, a dach chi wedi penderfynu bod 'na ddim pwynt ysgrifennu at y lleill. Marciwch pob enw efo "ddoe", "yfory", neu "X" ac atebwch gwestiynau eich partner:

Wyt ti wedi ysgrifennu at y pennaeth eto? Do, mi ysgrifennes i ati hi ddoe  
 Naddo, dw i'n mynd i ysgrifennu ati hi yfory  
 Naddo, does 'na ddim pwynt ysgrifennu ati hi

*You want to write to most of those on this list. You wrote to some yesterday, you're going to write to others tomorrow, and you've decided that there's no point writing to the rest. Mark each name appropriately.*

y pennaeth		y prif weinidog	
staff y gegin		Margaret Thatcher	
y cynghorwyr		y tywysog	
y tiwtor		y cadeirydd	
yr heddlu		Esther Rantzen	

## 2. Gollwng y gath o'r cwd! *Let the cat out of the bag!*

Mae partner A a B yn rhoi pump o'r enwau yma yn eu sgwariau (heb drafod)  
*Partners A and B each put five of these names in their squares (without comparing notes)*

**John, Ann, staff y swyddfa, y tiwtor, y doctor, y ficer, y plant, y dyn llefrith, y bobl drws nesa, y parot**

**A**

**B**











Mae A'n deud: Paid â deud wrth \_\_\_\_\_

Mae B'n deud: Wps, dw i wedi deud wrtho fo'n barod  
 neu Whiw, dw i ddim wedi deud wrtho fo

## ADRAN C: Deialog

A. Dw i'n cael trafferth ofnadwy efo'r cymdogion.

B. Be' sy?

A. Maen nhw'n swnllyd ofndawy trwy'r dydd a'r nos

B. Dach chi wedi deud wrthyn nhw?

A. Do, lawer gwaith.

B. Dach chi wedi deud wrth yr heddlu?

A. Do. Mi ddudon nhw wrtha i am wisgo *ear-plugs*. Dim llawer o help!

B. Dach chi wedi ysgrifennu at y cyngor?

A. Mi ddudon nhw bod nhw'n mynd i edrych i mewn i'r mater ar unwaith.

B. Pryd oedd hynny?

A. Chwech mis yn ôl

B. Be' dach chi'n mynd i neud nesa?

A. Does 'na ddim ond un ateb.

B. Be'? Symud?

A. Ia. Mi ysgrifennes i'r hysbyseb y bore 'ma: "Ar werth: Tŷ hyfryd mewn stryd ddistaw mewn pentre distaw. I ymweld â'r tŷ, galwch rhwng 6.00 a 7.00 y bore'n unig, os gwelwch chi'n dda".

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. **Mae pythefnos wedi pasio.**

- a) Lle mae Annie rwan? \_\_\_\_\_
- b) Lle mae Siôn yn byw rwan? \_\_\_\_\_
- c) Be' ydy swydd newydd Siôn? \_\_\_\_\_

2. **blynedd - years**

- Ers pryd mae
- a) Siôn yn gweithio yn yr ysbyty? \_\_\_\_\_
  - b) Llinos \_\_\_\_\_
  - c) Beryl \_\_\_\_\_

3. **Gwrandewch am:**

gwaeth	-	<i>worse</i>
byr	-	<i>short</i>
dan	-	<i>under</i>
o hyn ymlaen	-	<i>from now on</i>
amdanon ni	-	<i>about us</i>
yn barod	-	<i>already</i>

4. Nodwch y ffurfiau (*forms*) o **deud** ac **wrth** dach chi'n eu clywed:

**deud** \_\_\_\_\_

**wrth** \_\_\_\_\_

5. Be' mae Siôn wedi'i ddeud:

- a) wrth Llinos am ei gwallt? \_\_\_\_\_
- b) wrth Beryl am ei sgert? \_\_\_\_\_
- c) wrth Llinos a Beryl am amser coffi? \_\_\_\_\_

6. Ydy Siôn wedi newid? \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Cyfieithwch**

- I've told them already \_\_\_\_\_
- What did I tell you? \_\_\_\_\_
- John told us \_\_\_\_\_
- She said the same thing to me \_\_\_\_\_
- I wrote to her yesterday \_\_\_\_\_
- I'm going to him tomorrow \_\_\_\_\_
- Remember me to them \_\_\_\_\_
- I'm going to write to you tomorrow \_\_\_\_\_

2. **Dilynwch y patrwm**  
*Follow the pattern*

- Dudwch wrth John                      Mi ddudes i wrtho fo ddoe
- Dudwch wrth y bobl drws nesa \_\_\_\_\_
- Dudwch wrth y bos \_\_\_\_\_
- Dudwch wrtha i \_\_\_\_\_
- Ysgrifennwch ata i \_\_\_\_\_
- Ysgrifennwch at y pennaeth \_\_\_\_\_
- Cerwch at y doctor \_\_\_\_\_

3. **Darllenwch y paragraff yma:**

**cwyno - to complain**  
**tegell - kettle**

Mi brynes i degell yn Bomet ond doedd o ddim yn gweithio'n iawn. Mi es i â fo'n ôl i'r siop ac mi ges i degell newydd, ond doedd y tegell yna ddim yn gweithio chwaith. Mi ffonies i'r siop i gwyno. Mi ddudon nhw wrtha i am ysgrifennu at y pennaeth yn Llundain. Ches i ddim ateb, a ches i ddim panad chwaith!

**Dach chi wedi cael problemau fel yma? Dudwch/Ysgrifennwch yr hanes ....**



# UNED 40

## (Pedwar deg / Deugain)

### ADRAN A

Dw i'n poeni am Ann  
am John  
am yr anifeiliaid

Dw i'n poeni amdani hi hefyd  
amdano fo  
amdany'n nhw

*Dw i'n mynd rwan*

Be' amdana i?  
Be' amdanon ni?  
Be' am y gwaith?

Be' amdanat ti?  
Be' amdanoch chi?  
Be' amdano fo?

Ella bydda i'n hwyr  
Ella bydd y plant yn hwyr  
Ella bydd y bws yn hwyr

Paid â phoeni. Mi wna i aros amdanat ti  
amdany'n nhw  
amdano fo

Edrycha arna i  
Edrychwch arnon ni  
Gwranda arni hi  
Gwrandewch ar hyn

Wnest ti edrych ar y rhaglen?  
ar y nodiadau  
Wnest ti wrando ar y tâp?  
ar y neges?

Do, mi wnes i edrych arni hi ddoe  
arnyn nhw  
Do, mi wnes i wrando arno fo  
arni hi

Mi fydda i yno mewn pryd  
Mi fyddwn ni yno  
Mi fydd Sam Tân yno

Gobeithio wir. Dw i'n dibynnu arnat ti  
arnoch chi  
arno fo

Am be' dach chi'n siarad?  
Am be' dach chi'n meddwl?  
Am bwy dach chi'n aros?

Am y newyddion  
Am y dyfodol  
Am y cariad

Ar be' dach chi'n licio edrych?  
Ar be' dach chi'n licio gwrando?

Ar S4C, wrth gwrs  
Ar Radio Cymru, wrth gwrs

### Geirfa

<u>cerddoriaeth</u>	-	music	ffyrdd	-	roads
clasurol	-	classical	gwastraffu	-	to waste
cwsmer (-iaid)	-	customer(s)	nodiadau	-	notes
cymaint	-	so much, so many	peryglus (peryg)	-	dangerous
chwaith	-	either	ucha	-	highest, loudest
dyfodol	-	future	wrth	-	while

## Patrymau

### 1. Arddodiaid - *Prepositions*

#### a) Cyfuniadau - *Combinations*

meddwl <b>am</b>	-	to think about	edrych <b>ar</b>	-	to look at
poeni <b>am</b>	-	to worry about	gwrando <b>ar</b>	-	to listen to
siarad <b>am</b>	-	to talk about	dibynnu <b>ar</b>	-	to depend on
anghofio <b>am</b>	-	to forget about			
aros <b>am</b>	-	to wait for			

#### b) Trefn geiriau - *Word order*

<i>Am</i> be' dach chi'n siarad?	-	<i>What are you talking about?</i>
<i>Ar</i> be' dach chi'n gwrando?	-	<i>What do you listen to?</i>

#### c) Rhediadau - *Conjugations*

<b>am</b>	<b>ar</b>
amdana i	arna i
amdanat ti	arnat ti
amdano fo	arno fo
amdani hi	arni hi
amdanon ni	arnon ni
amdanoch chi	arnoch chi
amdaryn nhw	arnyn nhw

### 2. Amser dyfodol - *Future Tense*

	mi wna i aros	-	<i>I will wait</i>
(contr.	mi fydda i'n aros	-	<i>I will be waiting</i> )

### 3. Gorchmynion - *Commands*

gwrando	>	gwrandewch	(chi)
		gwrandawa > gwranda	(ti)

## ADRAN B

1. Dach chi'n berson poenus iawn, ond does dim ots gan eich partner am ddim byd. Pan fyddwch chi'n deud:

mi fydd eich partner yn deud:

*Ond be' am y plant?*

*Be' amdany'n nhw?*

*You're a worrier, but your partner couldn't care less!*



fo:	y smwddio, y car, y pres, y cwrs, y ci, y dyfodol
hi:	yr ardd

2. Mi wnaethoch chi edrych ar dri peth ac mi wnaethoch chi wrando ar dri peth neithiwr. Ticiwch nhw. Yna gofynnwch i'ch partner, e.e.

Wnest ti edrych ar y rhaglen neithiwr?

Do, mi wnes i edrych arni hi / Naddo, wnes i ddim edrych arni hi

Dach chi'n ateb wedyn, e.e. O? Mi wnes i edrych arni hi (hefyd)

O? Wnes i ddim edrych arni hi (chwaith)

EDRYCH		GWRANDO	
rhaglen (hi)		tâp (fo)	
papur (fo)		neges (hi)	
nodiau (nhw)		recordiau (nhw)	
manylion (nhw)		stori (hi)	
llyfr (fo)		sgwrs (hi)	
gêm (hi)		tiwtor (hi/fo)	

**ADRAN C: Deialog**

A. Dach chi'n mwynhau eich gwaith?

B. Ydw a nac ydw

A. Be' dach chi'n licio fwya am y swydd?

B. Cyfarfod pobl

A. A be' dach chi'n licio leia amdani hi?

B. Y teithio. Dw i'n gyrru tua mil o filltiroedd bob wythnos

A. Ar be' dach chi'n gwrandio yn y car?

B. Fel arfer, dw i'n gwrandio ar gerddoriaeth glasurol, ond os ydy hi'n braf, dw i'n licio gwrandio ar grwpiau roc trwm, agor y ffenestri a chodi lefel y sŵn i'r lefel ucha posib

A. Am be' dach chi'n meddwl wrth yrru?

B. Dw i ddim yn meddwl amser i feddwl! Dw i'n rhy brysur yn siarad efo cwsmeriaid ar y ffôn, bwyta brechdanau, siafio, ac ati. Dw i ddim yn licio gwastraffu amser!

A. Dach chi'n poeni am gael damwain?

B. Ydw, trwy'r amser. Mae 'na gymaint o bobl yn gyrru'n beryglus ar y ffyrdd y dyddiau yma.

**ADRAN CH: Opera sebon**

1. a) Pwy ydy Gwen Evans? \_\_\_\_\_  
b) Lle mae hi'n byw? \_\_\_\_\_

2. **Gwrandewch am:**

prif	-	<i>chief, main</i>
agos	-	<i>close</i>
canol	-	<i>middle, centre</i>
unig	-	<i>only</i>
chwilio am	-	<i>to look for</i>
buan	-	<i>soon</i>
dwad draw	-	<i>to come over</i>

3. **Llenwch y bylchau: *Fill the gaps:***

Gobeithio \_\_\_\_\_ chi'n hapus iawn efo ni yma.

Mae hi'n \_\_\_\_\_ yma ar hyn o bryd.

Mi faswn i'n licio gwybod tipyn bach mwy \_\_\_\_\_ chi.

Dw i wedi cael fflat mawr braf yng \_\_\_\_\_ y dre.

Dw i isio symud allan \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_ am swper hefyd.

4. Lle mae Siôn yn mynd am swper heno? \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

1. **Dilynwch y patrwm**

*Follow the pattern*

Dw i'n poeni am y gwaith >  
Wnes i ddim edrych ar y rhaglen >

Dw i'n poeni amdano fo hefyd  
Wnes i ddim edrych arni hi chwaith

Dw i'n dibynnu ar Ann

\_\_\_\_\_

Dw i ddim yn gwrando ar Terry Wogan

\_\_\_\_\_

Dan ni'n aros am y bws (fo)

\_\_\_\_\_

Dw i'n poeni am yr anifeiliaid

\_\_\_\_\_

Mi wnes i anghofio am y bil (fo)

\_\_\_\_\_

Dw i ddim isio siarad am fy mhroblemau

\_\_\_\_\_

Wnes i ddim gwrando ar y rhaglen (hi)

\_\_\_\_\_

Dôn i ddim yn edrych ar Andy Pandy

\_\_\_\_\_

Dw i'n poeni am y tiwtor

\_\_\_\_\_

2. **Gofynnwch gwestiwn addas**

*Ask an appropriate question*

\_\_\_\_\_

Am y bws

\_\_\_\_\_

Am y bos

\_\_\_\_\_

Ar S4C

\_\_\_\_\_

Ar Dr. Who

\_\_\_\_\_

Am y bobl drws nesa

\_\_\_\_\_

Am y dyfodol

\_\_\_\_\_

Ar Radio Caroline

\_\_\_\_\_

Am y bil

### 3. SIANEL PEDWAR CYMRU

#### RHAGLENNI S4C:

Pobl y Cwm	opera sebon, pump diwrnod yr wythnos (ac omnibws)
Superted, Wil Cwac Cwac, Gogs	cartwnau sy wedi ennill llawer o wobrau
C'mon Midffild	y rhaglen gomedi orau erioed
Tair Chwaer, Iechyd Da, Pengelli	cyfresi drama poblogaidd
Sgorio, Gôl, Y Clwb Rygbi	rhaglenni chwaraeon cyffrous
Noson Lawen, i-dot, Gwahoddiad	cerddoriaeth i siwtio pob oed
Planed Plant, Rownd a Rownd	rhaglenni bywiog i blant
Slot Meithrin, WCW	rhaglenni i blant dan bump oed
Siôn a Siân, Jacpot, Gair am Aur	rhaglenni cwis ysgafn
Newyddion, Taro Naw, Y Byd ar Bedwar	rhaglenni da am faterion cyfoes
Ffermio, Garddio, Coginio .....	<i>a llawer mwy</i>

cyfoes	-	<i>current</i>	goreuon	-	<i>highlights</i>
cyfres	-	<i>series</i>	ysgafn	-	<i>light</i>
cyffrous	-	<i>exciting</i>			

a) Ar ba raglenni dach chi / fasech chi 'n licio edrych?

---

b) Ar ba raglenni fasech chi byth yn edrych?

---





# UNED 41

(*Pedwar deg un / Un a deugain*)

## ADRAN A

*Mi ddylwn i* fwyta llai  
ymarfer mwy  
weithio'n galetach  
gyrraedd yn gynt  
Dylet!

### Be' ddylwn i neud?

Ddylwn i dalu?  
Ddylen ni gwyno?  
ddeud wrth y bos?  
ysgrifennu at y rheolwr?  
Dylet / Na ddylet  
Dylech / Na ddylech

Cyma gacen hufen  
ddiod arall  
ddiwrnod o wyliau  
Ddylwn i ddim, ond .....

### **Dw i ddim yn heini:**

Ddylet ti ddim bwyta cymaint  
smocio  
yfed  
diogi  
Na ddylwn

Mae gan John beswch  
Mae gan Ann ddannodd  
Mae gan y plant broblem yn yr ysgol  
*Mi ddylai fo fynd at y doctor*  
*Mi ddylai hi fynd at y deintydd*  
*Mi ddylen nhw fynd at y (brifathrawes*  
*(prifathro*

Wnest ti anghofio?  
Wnest ti godi'n hwyr?  
Wnaeth yr heddlu stopio'r car?  
Wnaeth y byji ddianc?  
Do. *Mi ddylwn i fod wedi ysgrifennu nodyn*  
Do. *Mi ddylwn i fod wedi gosod y cloc larwm*  
Do. *Mi ddylwn i fod wedi gyrru'n arafach*  
Do. *Mi ddylwn i fod wedi cau'r ffenest*

Wyt ti'n edrych yn ofnadwy  
Ddylwn i ddim bod wedi bwyta cymaint neithiwr  
yfed  
gweithio

## Geirfa

awyr iach	-	fresh air	gosod	-	to lay, to set
cwyno	-	to complain	heini	-	fit
<u>dannodd</u>	-	toothache	hufen	-	cream
dewis	-	to choose, choice	nodyn	-	note
dianc	-	to escape	palu	-	to dig
diog	-	lazy	<u>prifathrawes</u>	-	headmistress
diogi	-	to laze around	prifathro	-	headmaster

## Patrymau

A. **mi ddylwn i** - I should, I ought to

**mi ddylwn i**  
**mi ddylet ti**  
**mi ddylai hi / fo / 'r plant**  
**mi ddylen ni**  
**mi ddylech chi**  
**mi ddylen nhw**

1. Treigladau ar ôl y person: **mi ddylwn i fynd**  
**ddylwn i ddim mynd**

2. Dim "mi" yn y cwestiwn a'r negyddol: **ddylwn i fynd?**  
**ddylai hi ddim gweithio**

3. **Yes/No = Dylwn / Na ddylwn**  
**Dylet / Na ddylet ac ati**

Mae'n dibynnu ar y person, e.e. **Dylech = Yes, you should**  
**Na ddylai = No, she / he shouldn't**

4. **Gorffennol - Past tense**

**Mi ddylwn i fod wedi gweithio' n galetach**  
*I should have worked harder*

B. **I / AT**

ysgrifennu **i'r lle** ysgrifennu i Lundain  
**at y person** ysgrifennu at ffrind

mynd **i'r lle** mynd i'r syrjery  
**at y person** mynd at y doctor

# ADRAN B

Disgrifiwch y lluniau gan ddefnyddio (using)

mi ddylwn i.... / ddylwn i ddim ....  
mi ddylwn i fod wedi.. / ddylwn i ddim bod wedi ...

E.e. mae bil coch wedi dwad; mi ddylwn i fod wedi talu  
ddylwn i ddim bod wedi bwyta cyri neithiwr ac ati

Ar ôl tipyn, newidiwch i "fo/hi"



## ADRAN C: Dcialog

- A. YYY, dw i'n teimlo'n sâl
- B. Ddylet ti ddim bod wedi yfed cymaint neithiwr. Mi ddylet ti wybod yn well yn dy oed di
- A. Y cyri oedd y broblem, dw i'n siwr. Ddylwn i ddim bod wedi dewis y cyri poetha.
- B. Mi ddylet ti stopio mynd i'r *Indian Sunset*, beth bynnag. Mi ddylai'r *Public Health* gau'r lle.
- A. Oes 'na aspirins yma?
- B. Ddylet ti ddim cymryd aspirins ar ôl yfed. Wy a *Worcester Sauce* fasai'r peth gorau.
- A. Ych a fi! Dim diolch. Well i mi fynd yn ôl i'r gwely, dw i'n meddwl.
- B. Paid â bod mor ddiog. Dos i balu'r ardd, i gael tipyn o awyr iach. Mi ddylet ti fod wedi palu'r ardd ers wythnosau, beth bynnag.
- A. Wyt ti'n gwybod be'? Mi ddylet ti fod yn *Sergeant-Major*.

---

## ADRAN CH: Opera Sebon

1. Pwy ydy'r **pedwar** person yn y cantîn?
- 

2. Be' ydy **dau** lysenw (*nickname*) Siôn?
- 

3. **Gwrandewch am:**

mewn hwylliau da	-	<i>in a good mood</i>	erbyn hyn	-	<i>by now</i>
cynnar	-	<i>early</i>	cannoedd	-	<i>hundreds</i>
credu	-	<i>to believe</i>	budr	-	<i>dirty</i>
siwgwraidd	-	<i>sugary</i>	peidio	-	<i>to not to</i>
crafwr	-	<i>creep, crawler</i>	gwenu	-	<i>to smile</i>
(mi) gawn ni	-	<i>may we? / we will have</i>			

4. **Sut mae'r canlynol (*the following*) yn codi yn y stori?**

panad cynnar

---

sgert hir a *bun*

---

crafwr

---

*superglue*

---

bitrwt

---

**ADRAN D : Taflen waith**

**1. Cyfieithwch**

I should pay \_\_\_\_\_

I shouldn't pay \_\_\_\_\_

I should have paid \_\_\_\_\_

I shouldn't have paid \_\_\_\_\_

Should I complain? \_\_\_\_\_

You shouldn't eat so much \_\_\_\_\_

She should go to the dentist \_\_\_\_\_

I should have driven more slowly \_\_\_\_\_

**2. Rhowch gyngor - Give advice**

A. Dw i ddim yn heini \_\_\_\_\_

Mae'r plant yn ddiog \_\_\_\_\_

Mae gan Ann ben mawr  
(hangover) \_\_\_\_\_

Mae gan John boen yn ei gefn \_\_\_\_\_

B Dw i isio siarad Cymraeg yn well

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

3. Parwch y brawddegau - Match the sentences

- |  |   |
|--|---|
| 1. Mae gen i beswch ofnadwy                | A. Mi ddylech chi briodi                              |
| 2. Does gynnon ni ddim trydan              | B. Mi ddylech chi ymarfer mwy                         |
| 3. Dw i'n siwr mod i ddim yn mynd i basio  | C. Ddylech chi ddim bod mor wirion                    |
| 4. Dw i'n rhy dew                          | CH. Mi ddylech chi fod wedi gwisgo helmed             |
| 5. Mae'r parot wedi marw                   | D. Mi ddylech chi alw'r A.A.                          |
| 6. 'Sgen i ddim pres ar ôl                 | DD. Mi ddylech chi fod wedi talu'r bil                |
| 7. Mae fy nghariad i yn 16 oed yfory       | E. Mi ddylech chi fod wedi mynd i'r Clwb Darby a Joan |
| 8. Dw i'n mynd i nofio yn Llyn Trawsfynydd | F. Mi ddylech chi fod wedi gweithio'n galetach        |
| 9. Mae fy nghariad i'n mynd i gael babi    | FF. Ddylech chi ddim smocio cymaint                   |
| 10. Mi wnes i frifo fy mhen                | G. Mi ddylech chi fod wedi mynd at y fet              |
| 11. Roedd 'na ormod o sŵn yn y disgo       | NG. Mi ddylech chi ffindio rhywun hŷn                 |
| 12. Mae'r car wedi torri i lawr            | H. Ddylech chi ddim bod wedi mynd i'r casino          |

**UNED 42**  
*(Pedwar deg dau/ Dau a deugain)*

**ADRAN A**

Pryd wnaeth yr adeiladwyr gyrraedd y bore 'ma?	Cyn i mi fynd i'r gwaith Cyn i mi godi Cyn i mi ddeffro
Pryd mae'r adeiladwyr yn mynd i orffen?	Cyn i mi gyrraedd adra o'r gwaith Cyn i mi ddarllen <i>War and Peace</i> Cyn i mi ymddeol!
Pryd wyt ti'n mynd i ffonio Ann? Pryd wnest ti ffonio John? ffonio'r teulu?	Cyn iddi hi fynd i ffwrdd iddo fo iddyn nhw

Pryd wnaethoch chi ddeffro?  
Pryd wnaethoch chi ffonio'r AA?  
Pryd wnaethoch chi guddio yn yr atig?  
Pryd wnaethoch chi brynu'r tŷ?

*Atebion y person seicig*  
Cyn i'r larwm ganu  
Cyn i'r car dorri i lawr  
Cyn i'r heddlu gyrraedd  
Cyn i'r prisiau godi

Pryd symudoch chi yma?

Ar ôl i mi adael y coleg  
Ar ôl i mi briodi  
Ar ôl i mi ymddeol

Pryd fydd John yn ôl?  
Pryd fydd Ann yn ôl?  
Pryd fydd y plant yn ôl?  
Pryd fyddwch chi'n ôl?

Ar ôl iddo fo orffen  
iddi hi  
iddyn nhw  
i ni

Be' fasech chi'n licio neud .....  
.... ar ôl i chi dyfu i fyny?  
.... ar ôl i chi ennill y loteri?  
.... ar ôl i chi ymddeol

*Mi faswn i'n licio .....*  
.... bod yn fodel  
.... prynu cwch  
.... cysgu'n hwyr bob bore

Pryd est ti adra o'r parti?

Ar ôl i ti adael  
i Chris adael  
i bawb arall adael  
i'r cwrw orffen!

## Geirfa

adeiladwyr	-	builders	larwm	-	alarm
bywyd	-	life	<u>llaw</u>	-	hand
canu	-	to ring	niwl	-	fog
cwch	-	boat	tew	-	fat, thick
i fyny	-	up	tyfu	-	to grow
i lawr	-	down			

## Patrymau

### CYN / AR ÔL

Before going =	Cyn mynd	After going =	Ar ôl mynd
<i>ond:</i>			
Before I go =	Cyn i mi fynd	After I go =	Ar ôl i mi fynd
Before I went =	Cyn i mi fynd	After I'd gone =	Ar ôl i mi fynd

Does 'na ddim gwahaniaeth rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Y cyd-destun sy'n dangos be' ydy'r amser.

*There is no difference between past, present and future: context determines the tense*

### Y personau:

i mi	i ni	i Chris
i ti	i chi	i bawb
iddo fo	iddyn nhw	i'r plant
iddi hi		i'r trê'n
		<i>ac ati</i>

(Cf: rhaid i mi fynd, rhaid iddi hi weithio, *ac ati*)

Mi fydd y gair nesa'n treiglo, e.e.

cyn i mi <u>fynd</u>	-	<i>before I go / went</i>
ar ôl iddo fo <u>gyrraedd</u>	-	<i>after he arrives / arrived</i>
cyn i'r trê'n <u>_adael</u>	-	<i>after the train leaves / left</i>

### Cofiwch:

Does 'na ddim 'yn' na 'wedi' yn y patrwm:

cyn i'r trê'n <u>yn</u> mynd	>	cyn i'r trê'n fynd
ar ôl i mi <u>wedi</u> ymddeol	>	ar ôl i mi ymddeol



## ADRAN B

Be' sy'n digwydd yn eich tŷ chi yn y bore?

Rhowch y lluniau yma mewn trefn, ac yna cymharwch eich trefn chi efo trefn eich partner, e.e.

*Put these pictures in order, and then compare your order with your partner's:*

Pryd dach chi'n cael brecwast?

Ar ôl i mi wisgo

Cyn i mi ddarllen y papur

Pryd dach chi'n cael brecwast?

Ar ôl i'r llefrith gyrraedd


Cyn i mi wisgo

Mae'n bosib gofyn y cwestiynau yn y gorffennol hefyd wrth gwrs, i ddisgrifio be' wnaeth ddigwydd yn eich tŷ chi bore 'ma:

*You can ask the questions in the past tense as well of course, to describe what happened in your house this morning:*

Pryd wnaethoch chi gael brecwast?

Ar ôl i mi wisgo



**ADRAN C: Deialog**

**Yng ngharafan Sipsi Rose Lee:**

- A. Ga' i weld eich llaw chi? Mmm, llaw ddiddorol. Dw i'n gweld trên ...
- B. Wel, rôn i'n byw yn Crewe cyn i'r teulu symud i Gymru.
- A. ... a dw i'n meddwl bod y lliw coch yn bwysig ...
- B. Postmon oedd fy nhad i, cyn iddo fo ymddeol
- A. Dw i'n gweld ystafell fawr swllyd ...
- B. Dw i'n gweithio mewn ffatri.
- A. Ond dach chi'n poeni am rywbeth ...
- B. Dw i ddim yn gwybod be' dw i'n mynd i neud ar ôl i'r ffatri gau'r mis nesa.
- A. Wel, peidiwch â phoeni. Dw i'n gweld bywyd braf iawn i chi yn y dyfodol.
- B. Be' sy'n mynd i ddigwydd?
- A. Dw i ddim yn siwr. Mae 'na niwl tew . Rhaid i mi gael mwy o bres .....

*Ar ôl iddi hi gael mwy o bres, mae'r niwl yn clirio  
Ar ôl i'r niwl glirio, mae Rose Lee'n gweld y dyfodol yn glir.  
Be' mae hi'n weld?*



**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Pwy ydy'r tri person sy'n siarad?

---

2. **Gwrandewch am:**

gofyn	-	to ask
parod	-	ready, willing
sanau	-	socks
defnyddio	-	to use
dyna sut	-	that's how
taflu	-	to throw
meddylia	-	think

3. a) Be' mae Gwen yn feddwl o Siôn? \_\_\_\_\_

Ydy Llinos yn cytuno (*agree*)? \_\_\_\_\_

b) Lle mae Siôn yn mynd heno? \_\_\_\_\_

Be' mae Llinos yn feddwl o hynny? \_\_\_\_\_

Be' mae Beryl yn feddwl o hynny? \_\_\_\_\_

4. **Yn ôl (*according to*) Beryl:**

a) Be' fydd Gwen yn neud i Siôn? (3 peth)

---

b) Pam wnaeth Siôn fynd allan efo'r Sister?

---

c) Be' oedd yn mynd ymlaen yn fflat Siôn?

---

## ADRAN D: Taflen Waith

### 1. Cyfieithwch y brawddegau yma i'r Gymraeg

Before I go	_____
Before I went	_____
After we arrive	_____
After we arrived	_____
Before he goes away	_____
Before she went away	_____
After they finish	_____
After everybody else had left	_____
Before the prices had gone up	_____
After you retire	_____

### 2. Gorffennwch y cwestiwn, gan ddilyn y patrwm

Bore 'ma, mi ganodd y larwm	Be' ddigwyddodd ar ôl i'r larwm ganu?
Mi godes i	Be' ddigwyddodd _____?
Mi gyrhaeddodd y llefrith	Be' ddigwyddodd _____?
Mi gaethon ni banad	Be' ddigwyddodd _____?
Mi ffoniodd Anti Blod	Be' ddigwyddodd _____?
Mi alwodd Wncwl Dai	Be' ddigwyddodd _____?
Mi es i yn ôl i'r gwely	

### 3. Parwch y cwestiynau a'r atebion *Match the questions with appropriate answers*

A. Pryd dach chi'n mynd am dro?	1. Cyn i'r siopau gau
B. Pryd dach chi'n symud?	2. Cyn iddo fo dorri i lawr
C. Pryd dach chi'n mynd i'r gwely?	3. Cyn i'r heddlu gyrraedd
CH. Pryd dach chi'n mynd i'r dre?	4. Cyn i mi fynd yn rhy hen
D. Pryd dach chi'n mynd i redeg i ffwrdd?	5. Ar ôl i'r glaw stopio
DD. Pryd mae'r cariad newydd yn symud i mewn?	6. Ar ôl i ni werthu'r tŷ
E. Pryd dach chi'n mynd i werthu'r car?	7. Ar ôl i'r ffilm orffen
F. Pryd dach chi'n mynd i redeg marathon?	8. Ar ôl i'r hen gariad symud allan

## UNED 43

(*Pedwar deg tri / Tri a deugain*)

### ADRAN A

Wnewch chi helpu? (os gwelwch chi'n dda) Wna i, wrth gwrs  
Wnei di symud y car? (os gweli di'n dda) Na wna i  
gau'r ffenest?  
roi neges i John?

Mae'r lein yn brysur. Dach chi isio dal? Na. *Mi* wna i ffonio eto yfory  
drio eto yn nes ymlaen  
alw eto mewn munud

Cofia gloi'r drws Paid â phoeni. Wna i ddim anghofio  
*Mi* ddylet ti fynd adra rwan aros yn hir  
Dim gair, cofia! deud wrth neb

Be' wnei di rwan? Dwn i'm be' wna i  
Be' wnewch chi rwan? be' wnawn ni  
Be' wneith John rwan? be' wneith o  
Be' wneith y teulu rwan? be' wnân nhw

Wyt ti'n siwr fod ti'n iawn? *Mi* wna i ffonio, os bydd 'na broblem  
bod Ann yn iawn? *Mi* wneith hi  
bod chi'n iawn? *Mi* wnawn ni  
bod y teulu'n iawn? *Mi* wnân nhw

Be' sy'n bod? Wneith y peiriant ddim gweithio  
Wneith y car ddim cychwyn  
Wneith y plant ddim gwrando  
Wneith y drws ddim agor

### Geirfa

arbennig	-	special	paratoi	-	to prepare
arwyddo	-	to sign	y peth	-	the thing, it
dal	-	to hold, to catch	<u>troed</u>	-	foot
difaru	-	to regret	yn nes ymlaen	-	later on
dwn i'm	-	I don't know			

## Patrymau

Amser dyfodol 'neud'

*Future tense of 'neud' (to do, to make)*

<p>mi wna i mi wnei di mi wneith hi / o / Pat / y bobl mi wnawn ni mi wnewch chi mi wnân nhw</p>
--

(Pronounced: na i  
nei di  
neith o  
ac ati)

1. Mi wna i, mi wnei di, ac ati = *I will do/ make, etc.*  
E.e. mi wna i'r gwaith - *I will do the work*  
mi wnei di'n dda - *you will do well*  
mi wna i gacen - *I will make a cake*
2. Mi wna i, mi wnei di, ac ati + **berf arall** = *I will, you will + another verb*  
E.e. mi wna i ffonio - *I will phone*  
mi wneith o aros - *it will wait*  
mi wnân nhw ennill - *they will win*  
wneith o ddim gweithio - *it won't work*  
Cf. *mi wnes i ffonio / mi wnaeth o aros yn y gorffennol (past)*
3. **Mi yn y positif** (ond dach chi ddim y clywed **mi** bob amser pan mae pobl yn siarad)  
Dim **mi** yn y cwestiwn a'r negyddol
4. Wnei di? / Wnewch chi? = *Will you (please)?*  
E.e. wnei di agor y ffenest? - *will you open the window?*  
wnewch chi gau'r drws? - *will you close the door?*

### Mi fydda i ~ Mi wna i

Mi fydda i = *I will be*

E.e. Mi fydda i'n hwyr  
Fydda i ddim yma  
Mi fydda i'n gweithio

Fyddwch chi'n gweithio?  
*Will you be working?*  
(Asking information)

Mi wna i = *I will*


E.e. Mi wna i ffonio  
Wna i ddim anghofio

Wnewch chi weithio?  
*Will you work (please)?*  
(Asking a favour)

## ADRAN B

1. a) Be' wnei di p'nawn ma?                      Mi wna i baratoï bwyd  
Be wnei di heno?                                      Mi wna i fwyta
- b) Be' wneith John heno?                          Mi wneith o ddarllen  
Be' wneith Ann yfory?                              Mi wneith hi ffonio'r cariad


### Amrywiwch (*vary*) y personau a'r atebion



## 2. Gofynnwch ffafr i'ch partner:

Wnewch chi godi'r cês?  
Wnei di roi lifft i mi?

Wna i, wrth gwrs  
Na wna i!



**ADRAN C: Deialog**

A. A bore da! Mr Pushy dw i. Dw i'n gwerthu ffenestri dwbl.

B. Dim heddiw, diolch.

A. Ond mi fasai eich tŷ chi'n gynhesach ac yn ddelach efo ffenestri newydd.

B. 'Sgynnon ni ddim pres.

A. Wel dach chi mewn lwc. Chi ydy teulu arbennig y mis! Fel arfer mae'r ffenestri'n costio naw can punt yr un, ond i **chi**, dim ond saith cant naw deg naw wnân nhw gostio.

B. Wel, mi wnawn ni feddwl am y peth.

A. Diolch. Mi wna i alw eto yfory 'ta.

B. Ym... na ... mi fyddwn ni allan yfory

A. Mi wna i eich ffonio chi'n nes ymlaen heddiw 'ta

B. Ym... na ... dw i ddim yn siwr lle fyddwn ni p'nawn 'ma. Mi wnawn ni eich ffonio chi.

A. Dach chi'n siwr? Wel, meddyliwch yn ofalus rwan. Wnewch chi ddim difaru.



## ADRAN CH: Opera Sebon

1. Pwy ydy'r **pedwar** person yn y bennod yma?

---

2. Pa ffurfiau (*forms*) o **wna / wnei / wneith**, ac ati, dach chi'n eu clywed?

---

3. **Gwrandewch am:**

gweiddi	-	<i>to shout</i>	trydydd	-	<i>third</i>
llawr	-	<i>floor</i>	byth	-	<i>never</i>
sgrechian	-	<i>to scream</i>	carchar	-	<i>prison</i>
ar glo	-	<i>locked</i>	ar hast	-	<i>in a hurry</i>
ar agor	-	<i>open</i>			

4. **Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn:**

***Put the events in the right order:***

Plismon yn cyrraedd

Plismon yn cyrraedd

Gwen yn sgrechian

Hogan ar y coridor yn sgrechian

Gwen yn ateb

Siôn yn mynd i garchar Llanwlpan Scrubs

Siôn yn dwad allan o swyddfa'r heddlu

Siôn yn cyrraedd fflat Gwen

Siôn yn cerdded i hostel y myfyrwyr

Siôn yn dechrau gweiddi

Siôn yn mynd i swyddfa'r heddlu

Siôn yn dringo'r wal at ffenest fflat Gwen

Siôn yn dringo wal yr hostel

Siôn yn cnocio eto ac eto

Pobl y fflat drws nesa'n ffonio'r heddlu

**ADRAN D: Tafllen Waith**

**1. Ffindiwch y brawddegau yma:**

They'll phone

\_\_\_\_\_

What will you do now?

\_\_\_\_\_

I won't stay long

\_\_\_\_\_

Will you move the car, please?

\_\_\_\_\_

The machine won't work

\_\_\_\_\_

I don't know what we'll do

\_\_\_\_\_

I'll call again later on

\_\_\_\_\_

The children won't listen

\_\_\_\_\_

**2. Be' ydy'r broblem efo'r ....**

e.e. ffenest

Wneith y ffenest ddim cau

car

\_\_\_\_\_

babi

\_\_\_\_\_

ci

\_\_\_\_\_

bos

\_\_\_\_\_

peiriant golchi

\_\_\_\_\_

**3. Gorffennwch y frawddeg trwy ofyn ffafr *Complete the sentence by asking a favour***

e.e. Mae hi'n oer yma, ..... wnewch chi gau'r ffenest?

Mae fy nghar i yn y garej, ..... \_\_\_\_\_

Dydy Pat ddim i mewn, ..... \_\_\_\_\_

Dw i ddim yn medru mynd allan, ..... \_\_\_\_\_

Mae lladron wedi torri i mewn, ..... \_\_\_\_\_

Dyma'r goriad, ..... \_\_\_\_\_

## UNED 44

*(Pedwar deg pedwar / Pedwar a deugain)*

### ADRAN A

Ga' i eich helpu chi?  
eich poeni chi am funud?  
eich talu chi wythnos nesa?  
eich ffonio chi'n ôl mewn munud?

Dw i'n iawn, diolch  
Cewch, siwr

Neis eich cyfarfod chi  
Braf eich gweld chi eto  
dy weld di  
dy gael di'n ôl

A chithau

A tithau

Wyt ti'n cael trafferth efo'r  
gwaith?  
peiriant?  
car?  
bocs?

Ydw, dw i ddim yn medru

ei neud o  
ei weithio fo  
ei gychwyn o  
ei godi o

Lle mae dy hen gôt di ?

Dw i wedi

ei cholli hi  
ei thaflu hi  
ei llosgi hi  
ei gwerthu hi

Dw i'n licio'r crys 'na  
sgert  
'sgidiau

Dach chi isio ei drïo fo?  
ei thrio hi?  
eu trio nhw?

Wnei di fy ffonio i?  
fy neffro i?  
Wnewch chi fy nôl i?  
fy atgoffa i?

Mi wna i dy ffonio di  
dy ddeffro di  
eich nôl chi  
eich atgoffa chi

cyn bo hir  
am saith  
wedyn  
yn nes ymlaen

Dw i'n dy garu di  
Wyt ti'n fy ngharu i?  
Wnei di fy mhriodi i?

Dyna neis  
Ydw, wrth gwrs  
Wna i, siwr

## Geirfa

chithau	-	you too	poeni	-	to bother
crys	-	shirt	<u>sgert</u>	-	skirt
llais	-	voice	tithau	-	you too
llosgi	-	to burn			

## Patrymau

<b>Fel:</b>	fy nhad i dy dad di ei dad o ei thad hi ein tad ni eich tad chi eu tad nhw	<b>hefyd:</b>	fy nhalu i dy dalu di ei dalu o ei thalu hi ein talu ni eich talu chi eu talu nhw
-------------	--	---------------	---

**Efo berfenw (infinitive) yn Gymraeg:**      *to pay me > my paying*

e.e.	<i>he wants to pay me</i>	-	mae o isio fy nhalu i
	<i>nice to see you</i>	-	neis dy weld di
	<i>I'm able to do it</i>	-	dw i'n medru ei neud o
	<i>I have lost her</i>	-	dw i wedi ei cholli hi
	<i>may I help you</i>	-	ga' i eich helpu chi?
	<i>do you love me?</i>	-	wyt ti'n fy ngharu i?

**TREIGLADAU**      (Cf.      Unedau 8, 22 a 23)

fy \_\_\_\_\_ i      +      **Treigladd Trwynol (Nasal)**      wnei di fy neffro i

(D.S.      Cofiwch fod pobl yn deud 'y' neu 'yn' yn lle 'fy' )  
(N.B.      Remember that 'fy' is pronounced as 'y' or 'yn')

dy \_\_\_\_\_ di      +      **Treigladd Meddal (Soft)**      dw i'n dy garu di  
ei \_\_\_\_\_ o      dw i ddim yn ei ddallt o

ei \_\_\_\_\_ hi      +      **Treigladd Llaes (Aspirate)**      dw i'n ei chofio hi

ein \_\_\_\_\_ ni      +      **Dim treigladd**  
eich \_\_\_\_\_ chi  
eu \_\_\_\_\_ nhw

# ADRAN B

1. Efo'ch partner, dyfalwch (*guess*) be' ydy'r broblem yn y lluniau yma, e.e.

Dw i ddim yn medru

ei weld o  
ei fwyta fo

ac ati



2. Be' dach chi'n medru neud efo'r pethau yma?

e.e. car -

dach chi'n medru

ei ddreifio fo

ei olchi fo

ei brynu fo

ac ati



fo: car, bwyd

hi: drama, ffenest

nhw: dillad, geiriau

**ADRAN C: Deialog**

**Ar y ffôn:**

A. Bangor 760137

B. Helo, Mrs. Jones. John sy 'ma. Dach chi'n fy nghofio i?

A. Helo.

B. Helo. John sy 'ma. John, o Sydney.

A. Pwy? John o Sydney?

B. Ia, dyna chi? Dach chi'n medru fy nghlywed i?

A. Be' ddudoch chi, mae'n ddrwg gen i? Mae'r lein 'ma'n ofnadwy.

B. Dach chi'n medru fy nghlywed i?

A. Wnewch chi godi'ch llais? Dw i ddim yn medru eich dallt chi o gwbl. O le dach chi'n ffonio? O Awstralia?

B. Naci, o Fangor. Dw i adra ar wyliau. Mi wna i eich ffonio chi'n ôl mewn dau funud.

A. Be? Helo? Helo?

**ADRAN CH: Opera Sebon**

1. Lle mae Siôn? \_\_\_\_\_

2. **fama - here; fan'cw - there**

Faint o weithiau mae Gruff yn deud "treigladau" \_\_\_\_\_

3. **Be' ydy hanes Gwen?**

a) Lle wnaeth hi ddysgu Cymraeg? \_\_\_\_\_

b) O le mae hi'n dwad? \_\_\_\_\_

c) Be' oedd ei henw hi? \_\_\_\_\_

4. Be' mae Gwen yn ddeud am y treigladau? \_\_\_\_\_

Sut mae Gruff yn teimlo? \_\_\_\_\_

- |                    |   |                             |
|--------------------|---|-----------------------------|
| 5. tynnu'r llenni  | - | <i>to draw the curtains</i> |
| tynnu sbectol      | - | <i>to take off glasses</i>  |
| tynnu'r bun i lawr | - | <i>to take the bun down</i> |
| sws                | - | <i>a kiss</i>               |
| cusanu             | - | <i>to kiss</i>              |

**Be' sy'n digwydd?!** \_\_\_\_\_

6. Am faint o amser oedd Siôn yng ngharchar  
Llanwlpan Scrubs? \_\_\_\_\_

Pwy ydy Sister newydd ward pump? \_\_\_\_\_

Lle mae Gruff Gruffydd yn byw rwan? \_\_\_\_\_

7. **Lle mae Siôn ap Huw rwan?** \_\_\_\_\_

**ADRAN D: Taflen waith**

**1. Ffindiwch y brawddegau yma:**

Do you want to try them?

\_\_\_\_\_

Will you remind me?

\_\_\_\_\_

I've burnt it

\_\_\_\_\_

I can't lift it

\_\_\_\_\_

I'll wake you

\_\_\_\_\_

Nice to meet you. And you too.

\_\_\_\_\_

Will you marry me?

\_\_\_\_\_

Can I pay you next week?

\_\_\_\_\_

**2. Be' ydy'r broblem efo'r .....**

e.e car (fo)

Dw i ddim yn medru ei gychwyn o

ffenest (hi)

\_\_\_\_\_

tocynnau (nhw)

\_\_\_\_\_

peiriant (fo)

\_\_\_\_\_

nofel (hi)

\_\_\_\_\_

dyn llefrith / ddynes lefrith

\_\_\_\_\_

partner

\_\_\_\_\_

**3. Atebwch, gan ddilyn y patrwm**

Dach chi wedi gweld y ffilm *Jaws*?

Do, dw i wedi ei gweld hi

Naddo dw i ddim wedi ei gweld hi

Dach chi wedi gweld y ffilm *Titanic*?

(ffilm = hi)

\_\_\_\_\_

Dach chi wedi darllen y llyfr *Papillon*?

(llyfr = fo)

\_\_\_\_\_

Dach chi wedi clywed y grŵp *Catania*?

\_\_\_\_\_

Dach chi wedi llosgi eich llyfrau ysgol?

\_\_\_\_\_

Dach chi wedi mwynhau'r cwrs?

(cwrs = fo)

\_\_\_\_\_



# **GRAMADEG**



## GRAMADEG CYMRAEG

A summary of the basic grammatical patterns covered in this course

### 1. Amser Presennol (Present Tense)

#### Positif

dw i  
(r)wyt ti  
mae o  
mae hi  
mae Pat  
mae'r plant  
dan ni  
dach chi  
maen nhw

#### Cwestiwn

dw i?  
wyt ti?  
ydy o?  
ydy hi?  
ydy Pat?  
ydy'r plant?  
dan ni?  
dach chi?  
ydyn nhw?

#### Negyddol

dw i ddim  
(d)wyt ti ddim  
dydy o ddim  
dydy hi ddim  
dydy Pat ddim  
dydy'r plant ddim  
dan ni ddim  
dach chi ddim  
dydyn nhw ddim

#### Hefyd ar ôl:

(Also after:)

Lle...  
Sut...  
Pryd...  
Pam...  
Be'... + verb

#### Hefyd ar ôl:

(Also after:)

Pwy...  
Be'...  
Faint...  
Os...

<b>Ref.</b>	Uned	1	6
		2	7
		3	9

#### N.B.

A. These forms translate as both:

- a) I am working  
Are you playing?  
He isn't trying etc.

and b) I work  
Do you play?  
He doesn't try etc.

B. These forms are usually followed by "yn":

dw i ddim yn dallt  
ydy Pat yn mynd?  
mae' r staff yn gweithio

- Exceptions:
- a) no "yn" with "isio": dw i ddim isio mynd
  - b) no "yn" with "ar" "am" , "i", etc.: ydy o ar y teledu?  
maen nhw i ffwrdd
  - c) no "yn" with "wedi": see note C

C. These forms are used with "wedi" to give the **Perfect Tense**:

e.g.	dw i wedi gorffen	-	I have finished
	wyt ti wedi bwyta?	-	have you eaten?
	dan ni ddim wedi bod	-	we haven't been

Ref. Uned 21

D. **Indefinite** forms are used to convey "there is/there are":

<u>Positif</u>	<u>Cwestiwn</u>	<u>Negyddol</u>
mae ('na)	oes ('na)?	does ('na) ddim
e.g.	mae 'na broblem	- there is a problem
	oes 'na fysis?	- are there any buses?
	does 'na ddim amser	- there isn't any time

Ref. Uned 17

These forms are also used with "gan" to express **possession** (e.g. I have got a car): see under Prepositions (Section 7)

E. After "Beth", "Pwy", and "Faint", the word "sy" is often used to translate "is/are":

e.g.	Be' sy'n digwydd?	-	What's happening?
	Pwy sy'n siarad?	-	Who's speaking?
	Faint sy'n mynd?	-	How many are going?

This form is also used to translate "who is, which is, who are, which are":

e.g.	Dw i'n nabod y bobl sy'n byw yma	-	I know the people who live here
	Dyma'r ty sy ar werth	-	This is the house which is for sale

Ref. Uned 19

F. In clauses corresponding broadly to those starting with "that" in English, the present tense is conveyed by "**bod**":

e.g.	I think (that) the book is good	-	Dw i'n meddwl <u>bod</u> y llyfr yn dda
	Maybe the bus <u>is</u> late	-	Ella <u>bod</u> y bws yn hwyr
	(=it may be that the bus...)		

"Bod" will mutate with certain personal pronouns:

(fy)	mod i	-	that I am
(dy)	fod ti	-	that you are
(ei)	fod o	-	that he is
(ei)	bod hi	-	that she is
(ein)	bod ni	-	that we are
(eich)	bod chi	-	that you are
(eu)	bod nhw	-	that they are

Ref. Uned 28

## 2. Amser Amherffaith (Imperfect tense)

### Positif

roeddwn i  
roeddet ti  
roedd o  
roedd hi  
roedd Pat  
roedd y plant  
roedden ni  
roeddech chi  
roedden nhw

### Cwestiwn

oeddwn i?  
oeddet ti?  
oedd o?  
oedd hi?  
oedd Pat?  
oedd y plant?  
oedden ni?  
oeddech chi?  
oedden nhw?

### Negyddol

doeddwn i ddim  
doeddet ti ddim  
doedd o ddim  
doedd hi ddim  
doedd Pat ddim  
doedd y plant ddim  
doedden ni ddim  
doeddech chi ddim  
doedden nhw ddim

Ref. Uned 12  
13  
14

### N.B.

A. These forms translate as both:

- a) I was working  
Were you playing?  
He wasn't trying

and b) I used to work  
Did you used to play?  
He didn't used to try

The imperfect tense is often used in Welsh where the simple past tense is used in English to convey continuous action:

e.g. I lived in London - Roeddwn i'n byw yn Llundain

and to express thoughts and feelings:

e.g. I thought so - Roeddwn i'n meddwl  
Did you like the film? - Oeddet ti'n licio'r ffilm?

B. These forms are usually followed by “yn”:

doeddwn i ddim yn dallt  
roedd pawb yn brysur

The same exceptions apply as for the Present Tense, note 1B:

e.g. doeddwn i ddim isio mynd  
roedden nhw i ffwrdd

C. These forms are used with “wedi” to give the **Pluperfect Tense**

e.g. roeddwn i wedi anghofio - I had forgotten  
doedd o ddim wedi gorffen - He hadn't finished

D. Unlike the Present Tense, there are no special forms to convey the indefinite “there was/there were”:

roedd 'na broblem - there was a problem  
oedd 'na fysus? - were there any buses  
doedd 'na ddim amser - there wasn't any time

Ref. Uned 17

nor are there special forms after “Pwy/Be'/Faint”:

Be' oedd yn digwydd? - What was happening?  
Faint oedd yn gweithio? - How many were working?

“Who was/who were/which was/which were” are also all translated by “oedd”:

Dw i'n nabod y bobl oedd - I know the people who used to live  
yn byw yna there  
Dyma'r ty oedd ar werth - This is the house which was for sale

Ref. Uned 19

E. In clauses corresponding broadly to those starting with “that” in English, the imperfect tense is conveyed by “bod” in exactly the same way as the present tense (Note 1F):

e.g. I thought (that) the book was good - Roeddwn i'n meddwl bod y llyfr yn dda  
Maybe the bus was late - Ella bod y bus yn hwyr  
Did you know (that) he was going? - Oeddet ti'n gwybod (ei) fod o'n mynd?

The context will determine whether “bod” means “is” or “was”.

Ref. Uned 28

### 3. Amser Dyfodol (Future Tense)

mi fydda i  
mi fyddi di  
mi fydd o      mi fydd hi      mi fydd Pat      mi fydd y plant  
mi fyddwn ni  
mi fyddwch chi  
mi fyddan nhw

The “mi” at the start is a mark of a positive statement. It is omitted in the question and the negative, and after words such as “lle, be’, sut, pryd, pan, os,” etc.

e.g.    fyddi di?  
        fydd o ddim  
        pan fydda i’n barod

Ref.    Uned 24  
          25

#### N.B.

A.    These forms are the future tense of “bod” and translate as “will be”. They can be followed by a verb, an adjective or a prepositional phrase. They are usually followed by “yn”, with the same exceptions as noted in 1B above:

e.g.    mi fydda i’n hwyr                    -      I will be late  
        fyddi di’n aros?                   -      will you be staying?  
        mi fyddwn ni wrth y cloc       -      we will be by the clock

B.    Like the Imperfect Tense (2D above), there are no special forms to convey the indefinite “there will be”:

e.g.    mi fydd ‘na gyfarfod               -      there will be a meeting  
        fydd ‘na ddim amser               -      there won’t be any time

nor are there special forms after “Pwy/Be’/Faint”:

e.g.    Be’ fydd yn digwydd?               -      What will be happening?

“Who will be/which will be” are also translated by “fydd”:

e.g.    Dach chi’n nabod y dyn               -      Do you know the man who will be speaking  
        fydd yn siarad heno?               -      tonight?

C.    In clauses corresponding broadly to those starting with “that” in English, the future tense is conveyed by the usual future form without “mi” and without the mutation:

Dw i ddim yn meddwl bydda i yma   -      I don’t think I’ll be here  
Gobeithio bydd hi’n braf               -      I hope it will be fine

D.    For the future tense of “gwneud” and other verbs, see Section 6

#### 4. Amser Amodol (Conditional Tense)

mi faswn i  
mi faset ti  
mi fasai fo mi fasai hi mi fasai Pat mi fasai'r plant  
mi fasen ni  
mi fasech chi  
mi fasen nhw

The "mi" at the start is the mark of a positive statement. It is omitted in the question and the negative:

e.g. faset ti'n licio aros?  
faswn i ddim yn hapus  
lle fasai fo'n mynd?

Ref. Uned 32

#### N.B.

A. These forms are the conditional tense of "bod" and translate as 'would be':

e.g. mi faswn i'n hapus - I would be happy  
faset ti'n fodlon? - would you be willing?

They are also used as an auxiliary to other verbs and are then translated simply as "would":

e.g. be' faset ti'n neud? - what would you do?  
fasai fo ddim yn mindio - he wouldn't mind

B. They follow the same rules as the future tense in terms of following "yn", indefinites, clauses, etc. (see 3B/3C):

cf. mi fasai fo'n wirion - he would be silly  
mi fasen nhw i ffwrdd - they would be away  
mi fasai 'na broblem - there would be a problem  
be' fasai'n digwydd? - what would happen?  
dw i'n meddwl basai fo' n iawn - I think it'd be O.K.

C. To convey a conditional clause starting with "if", special forms must be used:

taswn i  
taset ti  
tasai fo tasai hi tasai Pat tasai'r plant  
tasen ni  
tasech chi  
tasen nhw



These forms usually translate as “if” + past tense, and are accompanied by a “would” in the other half of the sentence:

e.g. mi faswn i'n dwad, taswn i'n medru - I would come if I could  
mi fasen ni'n mynd allan, tasai hi'n braf - we would come if it was  
(were) fine

Ref. Uned 33

## 5. Amser Gorffennol (Past Tense)

### Gwneud (neud)

mi wnes i

mi wnest ti

mi wnaeth o mi wnaeth hi mi wnaeth Pat mi wnaeth y plant

mi wnaethon ni

mi wnaethoch chi

mi wnaethon nhw

The “mi” is the mark of a positive statement. It is omitted in the question and the negative:

e.g. wnest ti'r gwaith cartre?  
wnes i ddim byd

Ref. Uned 4  
15

### **N.B.**

A. As “gwneud” means “to do” or “to make”, these forms translate as “did” or “made”:

e.g. mi wnes i'r gwaith cartre - I did the homework  
mi wnes i'r te - I made the tea  
be' wnaethoch chi? - what did you do? / what did you make?  
wnaeth o ddim byd - he didn't do anything / he didn't make  
anything

However, they are also used as auxiliaries to form the past tense of almost every other verb, e.g.

mi wnes i fwyta - I ate  
wnaethoch chi gysgu? - did you sleep?  
wnaeth o ddim clywed - he didn't hear  
pryd wnaethon nhw gyrraedd? - when did they arrive?

B. Even so, each verb does have its own "concise" past tense. All regular verbs have the following endings:

-es i  
 -est ti  
 -odd o            -odd hi            -odd Pat            -odd y plant  
 -on ni  
 -och chi  
 -on nhw

e.g.    mi fwytes i        -        I ate            mi weithies i        -        I worked  
           mi fwytest ti      -        you ate        mi weithiest ti     -        you worked  
           mi fwytoedd o    -        he ate        mi weithiodd o     -        he worked  
           mi fwyton ni     -        we ate        mi weithion ni     -        we worked  
           mi fwytoch chi   -        you ate        mi weithioch chi   -        you worked  
           mi fwyton nhw   -        they ate        mi weithion nhw   -        they worked

**To find the stem:**

a) if the word ends in a consonant, the full word forms the stem:

e.g.    edrych            >        mi edryches  
           darllen           >        mi ddarllenodd

b) if the word ends in a vowel, the vowel is dropped to form the stem:

e.g.    codi                >        mi godes i  
           bwyta             >        mi fwytodd o  
           canu               >        mi ganon nhw  
           nofio              >        mi nofion ni  
           ffonio             >        mi ffonies i

There are several irregular stems, however, the more common ones being:

gweld             >        mi weles i  
 clywed            >        mi glywes i  
 cerdded          >        mi gerddes i  
 yfed               >        mi yfes i  
 rhedeg            >        mi redes i  
 deud               >        mi ddudes i  
 cymryd           >        mi gvm(er)es i  
 gadael            >        mi adawes i  
 gwranddo         >        mi wrandawes i  
 galw               >        mi alwes i  
 aros               >        mi arhoses i  
 cyrraedd         >        mi gyrhaeddes i  
 chwarae          >        mi chwaraees i  
 newid             >        mi newidies i  
 dechrau          >        mi ddechreues i  
 mwynhau         >        mi fwvnheues i

Ref.    Uned 37  
           38

There are also four verbs which have an irregular concise form of the past tense, namely "mynd / cael / gwneud / dod (dwad)". The conjugation of "gwneud" is given above, and that of "mynd" and "cael" follows exactly the same pattern:

**mynd**

mi es i  
mi est ti  
mi aeth o (etc.)  
mi aethon ni  
mi aethoch chi  
mi aethon nhw

(I went etc.)

**cael**

mi ges i  
mi gest ti  
mi gaeth o (etc.)  
mi gaethon ni  
mi gaethoch chi  
mi gaethon nhw

(I had etc.)

Ref. Uned 16  
35

The concise past tense of "dod /dwad" is rather different:

mi ddois i  
mi ddoist ti  
ni ddoth o (etc.)  
mi ddaethon ni  
mi ddaethoch chi  
mi ddaethon nhw

(I came etc.)

6. **Amser Dyfodol (Future tense)**

The future tense of "bod" ("I will be" etc.) is covered in Section 3 above. To convey "I will" etc. the future tense of "gwneud" is used:

mi wna i  
mi wnei di  
mi wneith o mi wneith hi mi wneith Pat mi wneith y plant  
mi wnawn ni  
mi wnewch chi  
mi wnân nhw

The "mi" is the mark of a positive statement. It is omitted in the question and the negative:

wnei di helpu?  
wna i ddim anghofio

Ref. Uned 43

**N.B.**

A. As “gwneud” means “to do” or “to make”, these forms translate as “will do” or “will make”:

e.g.	mi wna i’r gwaith cartre	-	I’ll <u>do</u> the homework
	be’ wnewch chi?	-	what will you <u>do</u> ?
	mi wnawn ni’ r te	-	we’ll <u>make</u> the tea
	wnân nhw ddim byd	-	they won’t <u>do</u> anything

However, they are also used as auxiliaries to form the future tense of almost every other verb:

e.g.	mi wna i aros	-	I’ll wait
	wnewch chi dalu?	-	will you pay?
	wneith o ddim gwrando	-	he won’t listen
	pryd wnân nhw gyrraedd?	-	when will they arrive?

B. Even so, each verb does have its own “concise” future tense.  
All regular verbs have the following endings:

-a i  
-i di  
-ith o            -ith hi            -ith Pat            -ith y plant  
-wn ni  
-wch chi  
-an nhw

e.g.	mi wela i	-	I will see
	mi welith o	-	he will see

To find the stem, the guidelines used for the past tense (Section 5B above) are followed:

e.g.	mi <u>edrycha</u> i
	mi <u>wrandawa</u> i

C. The future tense of “mynd” and “cael” follow the same pattern as “gwneud”:

**Mynd**

mi a’ i  
mi ei di  
mi eith o (etc.)  
mi awn ni  
mi ewch chi  
mi ân nhw  
(I’ll go, will you go?..)

**Cael**

mi ga’ i  
mi gei di  
mi geith o (etc.)  
mi gawn ni  
mi gewch chi  
mi gân nhw  
(I’ll have, may I have?..)

## 7. Arddodiaid (Prepositions)

In Welsh, many of the short prepositions conjugate in much the same way as the verbs. The changes occur only when the preposition is in direct contact with a personal pronoun, not with nouns and proper nouns:

<b>i</b>	<b>at</b>	<b>ar</b>	<b>am</b>
i mi	ata i	arna i	amdana i
i ti	atat ti	arnat ti	amdanat ti
iddo fo	ato fo	arno fo	amdano fo
iddi hi	ati hi	arni hi	amdani hi
i ni	aton ni	arnon ni	amdanon ni
i chi	atoch chi	arnoch chi	amdanoch chi
iddyn nhw	atyn nhw	arnyn nhw	amdanyn nhw
i Pat	at Pat	ar Pat	am Pat
i bawb	at bawb	ar bawb	am bawb
i'r plant	at y plant	ar y plant	am y plant

Ref. Uned 18  
39  
40

E.g.	i	>	iddo fo	rhaid iddo fo fynd	-	he must go (it's a necessity for him to go)
	ar	>	arna i	edrychweh arna i	-	look at me
	at	>	ata i	ysgrifennwch ati hi	-	write to her
	am	>	amdana i	be' amdano fo?	-	what about him?
	wrth	>	wrtha i	dudwch wrthyn nhw	-	tell them

"Gan" is slightly irregular:

gen i  
gen ti  
gynno fo  
gynni hi  
gynnon ni  
gynnoch chi  
gynnyn nhw

gan Pat      gan y plant      gan bawb

"Gan" has various meanings (e.g by, from), but its most common usage is to express possession:

mae gen i gar	-	I've got a car
oes gynno fo amser?	-	has he got time?
doedd gynnyn nhw ddim lle	-	they didn't have any room
oes gan John gi?	-	has John got a dog?

Ref. Uned 5  
10

8. Rhagenwau meddiannol (Possessive pronouns)

fy	_____	i	my	+	nasal mutation
dy	_____	di	your	+	soft mutation
ei	_____	o	his	+	soft mutation
ci	_____	hi	her	+	aspirate mutation
ein	_____	ni	our		
eich	_____	chi	your		
eu	_____	nhw	their		

Ref. Uned 8  
22  
23

These forms are used with nouns:

e.g. fy nhad i  
dy dad di  
ei thad hi etc.

and with infinitives of verbs:

e.g.	fy nhalu i	dach chi wedi fy nhalu i	-	you've paid me
	dy dalu di	ga' i dy dalu di?	-	can I pay you?
	ei thalu hi	rhaid i ni ei thalu hi	-	we must pay her

Ref. Uned 44

9. Treigladau (Mutations)

The various mutations are listed in the prefix to the book. Here are the main contexts in which they are used:

A. Soft Mutation

after the subject:

mi wnes i fynd  
mae gynno fo gar  
rhaid iddyn nhw dalu  
mi wneith pawb gofio

conjugated verbs in most positions, i.e. after **mi** / **be'** / **pwyl** / **pan**, at start of negatives (when aspirate is not possible) and questions:

mi fydda i yma  
pan fyddwch chi'n barod  
fydda i ddim yma  
fyddi di yma?

(but not after **os** and **that**:

os byddi di yma)

feminine nouns after <b>y/ un</b> :	y <u>f</u> erch un <u>g</u> ath
adjectives after feminine nouns:	merch <u>dd</u> a cath <u>f</u> ach
adjectives after <b>yn</b> :	mae hi'n <u>w</u> lyb roedd y bwyd yn <u>dd</u> a
after <b>dy / ei</b> (his)	dy <u>d</u> ŷ di ei <u>f</u> rawd o
after <b>am / ar / at / i / o / gan / dros / trwy / wrth</b> :	i <u>F</u> angor mae gan <u>h</u> awb broblem
after <b>dau / mor / neu</b> :	dau <u>f</u> unud dau neu <u>d</u> ri

## B. Nasal Mutation

after <b>fy</b> :	fy <u>n</u> ghi fy <u>m</u> rawd
after <b>yn</b> (=in):	ym <u>M</u> horthmadog yng <u>n</u> ghanol y dre
<b>blynedd</b> after many numbers: (years)	pum <u>m</u> lynedd deg <u>m</u> lynedd

## C. Aspirate Mutation

after <b>ei</b> (her):	ei <u>th</u> ŷ hi ei <u>ch</u> ar hi
after <b>a / na</b> :	ci a <u>ch</u> ath na <u>ch</u> ewch
negative forms of verbs:	<u>th</u> alodd o ddim <u>ch</u> es i ddim amser





# **OPERA SEBON**



## Pennod 1

Ysbyty Llanwlpan, Ward Pump, Saith o'r gloch, nos Wener

Llinos: Helo, ga' i'ch helpu chi?

Siôn: S'mae? Siôn ap Huw dw i, y nyrs newydd ar y ward

Llinos: Nyrs newydd? Ar y sifft nos heno?

Siôn: Na, dw i'n dechrau bore yfory. Mi wnes i jyst ddwad i tsecio lle a faint o'r gloch

Llinos: Wel, s'mae Siôn. Llinos dw i. Llinos Davies. Croeso i'r ward.

Siôn: Diolch. Faint o'r gloch dw i'n dechrau bore yfory?

Llinos: Saith o'r gloch.

Siôn: Iawn. Wela i chi bore yfory.

Llinos: Na, dw i'n gweithio ar y sifft p'nawn yfory.

Siôn: Iawn. Wela i chi p'nawn yfory. Hwyl.

Llinos: Un munud, Siôn. Be' am ddwad i'r clwb staff heno? Parti ymddeol Dafydd. Mae pawb o staff ward pump yn mynd.

Siôn: Grêt. Faint o'r gloch?

Llinos: Naw o'r gloch.

Siôn: Iawn. Wela i chi heno.

## Pennod 2

Nos Wener. Clwb staff ysbyty Llanwlpan, wrth y bar. Mae Siôn yn siarad efo'r barmêd

Siôn: Hanner peint o gwrw chwerw, os gwelwch chi'n dda.

Barmêd: Dyma chi. Dach chi'n newydd yma?

Siôn: Dw i'n dechrau gweithio ar ward pump bore yfory

Barmêd: Ward pump? O! Yn lle Dafydd. Mm. Mae Dafydd wedi ymddeol heddiw. Stress. Bechod! Problemau ofnadwy ar ward pump ...

Siôn: Problemau? Be'?

Barmêd: Wel, y broblem fawr ....O, dyma Llinos yn dwad. Hogan neis, Llinos.

Siôn: Mi wnes i siarad efo Llinos ar y ward p'nawn 'ma. Hogan neis iawn.

Llinos: Noswaith dda, Siôn.

Siôn: Noswaith dda, Llinos. Be' dach chi isio i yfed?

Llinos: Wisgi dwbl, os gwelwch chi'n dda.

Siôn: Wisgi dwbl?

Llinos: Ia, diolch yn fawr.

Siôn: Dach chi'n cymryd American Express?  
(wrth y barmêd)

### **Pennod 3**

Clwb staff ysbyty Llanwlpan. Mae Llinos yn siarad efo ffrindiau, felly mae Siôn yn trio siarad efo person arall, Annie Williams, wrth y bar

Siôn: Ym .. helo, s'mae?

Annie: Helo  
(yn annifyr)

Siôn: Siôn dw i. Siôn ap Huw

Annie: O ia.

Siôn: Dw i'n dechrau gweithio yma yfory

Annie: Lwcus iawn

Siôn: Dach chi'n gweithio yma?

Annie: Ydw

Siôn: Pa ward?

Annie: Pump

Siôn: Ward Pump? Dw i'n mynd i weithio ar ward pump hefyd!

Annie: Lwcus iawn

Siôn: Dach chi'n licio gweithio ar y ward?

Annie: Nac ydw

Siôn: Ym ...Dach chi isio diod arall?

Annie: Dim diolch. Esgusodwch fi. Dw i isio mynd i'r tŷ bach.

Siôn: Iawn. Wela i chi mewn munud.

Annie: Dw i'n mynd adra wedyn. Dw i'n dechrau gweithio am saith o'r gloch bore yfory

Siôn: Fi hefyd.

Annie: Iawn. Wela i chi bore yfory, Mr. ap Huw. Saith o'r gloch ... ar y dot.

#### Pennod 4

Mae Siôn yn cael hwyl yn y parti, ond ...

Dafydd: Mr. ap Huw?

Siôn: Ia.

Dafydd: Dafydd dw i

Siôn: Wel helo, Dafydd, sut dach chi? Siôn dw i. Dw i'n dechrau gweithio ar ward pump bore yfory. Mi wnaethoch chi ymddeol o ward pump heddiw, dw i'n dallt

Dafydd: Wel ...

Siôn: Mi wnaethoch chi fwynhau gweithio ar y ward, dw i'n siwr. Criw neis o bobl ar y staff.

Dafydd: Wel...

Siôn: Be' dach chi'n mynd i neud rwan? Edrych ar y teledu. Mynd am dro i'r post i gael eich pensiwn. Cysgu yn y p'nawn. Chwarae bowls. Mynd ar wyliau efo Saga Holidays. Braff iawn.

Dafydd: Mr. ap Huw. Tri pheth:

Un: Dw i'n edrych yn saith deg oed, ond dw i ddim yn saith deg oed: pedwar deg un oed dw i. Dw i ddim yn cael pensiwn a dw i ddim yn mynd ar wyliau efo Saga Holidays, diolch yn fawr

Dau: Wnes i ddim mwynhau gweithio ar ward pump

Tri: Wnes i ddim ymddeol heddiw. Mi wnes i gael y sac

Siôn: Y sac? Pam?

Dafydd: Fendeta personol Annie Annifyr

Siôn: Pwy ydy Annie Annifyr?

Dafydd: Y Sister ar y ward. Mi wnaethoch chi siarad efo hi wrth y bar. Mi wnes i sticio deg wythnos efo Annie Annifyr. Deg wythnos ofnadwy. Pob lwc, Mr. ap Huw. Pob lwc!

## Pennod 5

Un ar ddeg o'r gloch yn y clwb. Mae Siôn yn mynd i fynd adra ond...

Beryl: Sgen ti dân, del?

Siôn: Nac oes, mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn smocio

Beryl: Wyt ti'n newydd yma?

Siôn: Ydw, dw i'n dechrau gweithio ar ward pump bore yfory. Siôn dw i

Beryl: Beryl dw i. Dw i'n gweithio ar ward pump hefyd

Siôn: O, da iawn. Be' wyt ti isio i yfed?

Beryl: Wel diolch yn fawr i ti, Siôn. Blue Moon, plis.

Siôn: Un Blue Moon a hanner o lemonêd, os gwelwch chi'n dda.  
(wrth y barmêd)

Beryl: Hanner o lemonêd! Wyt ti ddim yn yfed. Wyt ti ddim yn smocio. Sgen ti ddim arferion drwg o gwbl?

Siôn: Wel ....

Hanner awr wedyn

Beryl: Lemonêd arall?

Siôn: Dim diolch. Dw i'n mynd adra rwan. Dw i'n dechrau gweithio am saith o'r gloch bore yfory.

Beryl: Wyt ti isio lifft adra?

Siôn: Wyt ti'n siwr?

Beryl: Wrth gwrs! Sgen ti goffi yn y fflat?

## Pennod 6

Mae Beryl yn dwad i mewn i fflat Siôn i gael panad

Siôn: Be' gymi di? Te 'ta coffi?

Beryl: Coffi, plîs, del

Siôn: Llefrith a siwgr?

Beryl: Na, coffi du, plîs, efo tipyn bach o wisgi

Siôn: Mae'n ddrwg gen i, sgen i ddim wisgi ...

Beryl: Nac oes, wrth gwrs. Sgen ti ddim arferion drwg o gwbl.

Siôn: Ha, ha. Dyma ti: coffi du.

Beryl: Dw i'n licio'r fflat, Siôn.

Siôn: Mae o'n iawn. Mae o'n handi i'r ysbyty

Beryl: Dw i'n licio'r sofffa 'ma

Siôn: Mm, sofffa Gareth

Beryl: Gareth?

Siôn: Y fflatmât. Mae o'n dreifio lori. Mae o i ffwrdd trwy'r amser.

Beryl: Sgen ti record ramantus, Siôn?

Siôn: Be' am 'Draenog Marw'?

Beryl: Grêt. Wyt ti isio dawnsio?



## Pennod 7

Mae Beryl a Siôn yn dawnsio i record 'Draenog Marw'. Yn sydyn, mae drws y llofft yn agor.

Gareth: Be' ydy'r sw'n yma?

Siôn: Gareth! Be' wyt ti'n neud yma? Ers pryd wyt ti adra?

Gareth: Mi wnes i ddwad adra tua un ar ddeg

Siôn: O.

Gareth: Pwy ydy'r hogan yma, Siôn?

Siôn: Dyma Beryl. Nyrs ydy hi. Mae hi'n mynd i weithio efo fi yn yr ysbyty.

Gareth: Helo Beryl. Sut dach chi?

Beryl: S'mae, Gareth? Gyrrwr lori dach chi, ia?

Gareth: Ia. Mi wnes i fynd i Iwerddon heddiw a dw i'n mynd i Ffrainc yfory.

Siôn: Wel, Gareth, wyt ti wedi blino, dw i'n siwr.

Beryl: Ffrainc! Bendigedig. Paris, Tŵr Eiffel, Sacha Distel. Sgynnoch chi ddim lle sbâr yn y cab, Gareth?

Gareth: Wel, Beryl, dw i ddim yn gwybod. Mae'n bosib ffindio lle i un bach, dw i'n siwr

Siôn: Wel, dw i wedi blino. Dw i'n mynd i'r gwely

Beryl: Nos da, Siôn bach, a diolch am y coffi. Ffrainc! Paris! A lle dan ni'n mynd wedyn, Gareth?

## Pennod 8

Bore Sadwrn. Ward pump. Pum munud wedi saith. Mae Sister Annie Williams yn aros am Siôn

Annie: P'nawn da, Mr. ap Huw

Siôn: Helo, sut wyt ti, ... Annie. Annie ydy dy enw di, ia?

Annie: Sister Williams i chi, Mr. ap Huw. A faint o'r gloch ydy hi ar eich wats chi, Mr. ap Huw?

Siôn: Tua saith o'r gloch.

Annie: Pum munud wedi saith, Mr. ap Huw. Mae eich sifft chi'n dechrau am saith o'r gloch ar y dot.

Siôn: Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr, Sister Williams

Annie: Reit, Mr. ap Huw, dyma eich gwaith chi y bore 'ma: tudalen un ... tudalen dau ... tudalen tri

Siôn: Be'? Faint?

Annie: A dyma dudalen pedwar, pump a chwech, i neud ar ôl amser coffi

Siôn: Amser coffi? Dw i'n cael brêc, felly.

Annie: Wrth gwrs. Chwarter awr o amser coffi am ddeg o'r gloch. Ond, mi wnaethoch chi ddwad i mewn pum munud yn hwyr y bore 'ma, cofiwch. Deg munud ydy eich brêc chi heddiw felly, Mr. ap Huw. Reit, i ffwrdd â chi: mae Mr. Springbottom isio bedpan.

## Pennod 9

Mae Siôn yn siarad efo Mr. Springbottom

Mr. Springbottom: Bore da, nyrs

Siôn: Bore da, Mr. Springbottom. Sut dach chi heddiw?

Mr. Springbottom: Yn well, diolch. A chi?

Siôn: Wel, dw i'n newydd yma, felly dw i ddim yn siwr be' dw i'n neud a pwy ydy pwy, ond mae'r staff yn glên iawn a dydy'r Sister ddim yn ddrwg, chwarae teg.

Mr. Springbottom: Be'?

Siôn: Dw i'n newydd yma, felly dw i...

Mr. Springbottom: Nyrs, dw i'n dysgu Cymraeg, felly yn araf os gwelwch chi'n dda.

Siôn: Oh, you're learning Welsh. Very good.

Mr. Springbottom: Nyrs, dim Saesneg, os gwelwch chi'n dda, ond wnewch chi siarad yn araf ac yn glir, os gwelwch chi'n dda?

Siôn: Mae'n ddrwg gen i, Mr. Springbottom. Ers pryd dach chi'n dysgu Cymraeg?

Mr. Springbottom: Dw i ar y Cwrs Wlpan yn Llanberis ers pump wythnos

Siôn: Wel, dach chi'n siarad Cymraeg yn dda iawn. O le dach chi'n dwad yn wreiddiol?

Mr. Springbottom: O Swydd Efrog. Mi wnaethon ni symud yma chwech mis yn ôl

Siôn: Dach chi'n licio byw yma?

Mr. Springbottom: Ydw wir. Dydy'r tywydd ddim yn braf iawn, ond mae'r bobl yn fendigedig ac mae'r ....

Annie: Mr. ap Huw! Sgynnoch chi ddim amser i siarad.

Siôn: Mae'n ddrwg gen i, Mr. Springbottom, dw i'n mynd rwan. Wela i chi eto.

Mr. Springbottom: Ond nyrs, be' am sosban gwely?

Siôn: Sosban gwely? Dw i ddim yn dalit, mae'n ddrwg gen i

Mr. Springbottom: Sosban gwely, nyrs ... bedpan ... rwan!

## Pennod 10

Bore Sadwrn ar ward pump ac mae Siôn yn brysur ofnadwy. Mae o wedi blino'n lân, mae gynno fo gur pen, mae gynno fo boen bol, mae gynno fo boen cefn a dydy hi ddim yn amser coffi eto.

Siôn: Faint o'r gloch ydy hi, Sister?

Annie: Tri munud wedi deg

Siôn: Ga' i fynd am goffi rwan?

Annie: Pum munud wedi deg ydy amser eich brêc chi, Mr. ap Huw. Be' am sortio'r ffeils yma am ddau funud?

Siôn: Iawn

Dau funud wedyn:

Siôn: Sister, mae hi'n bum munud wedi deg. Ga' i fynd am banad rwan?

Annie: Iawn. Yn ôl am chwarter wedi deg ar y dot, dach chi'n dallt?

Siôn: Ydw, Sister

Ond pan mae Siôn yn pasio gwely Mr. Springbottom .....

Mr. Springbottom: O, nyrs, nyrs, nyrs, nyrs, nyrs

Siôn: Mr. Springbottom?

Mr. Springbottom: O, nyrs, mae gen i broblem ofnadwy

Siôn: Be' sy'n bod?

Mr. Springbottom: Wnes i ddim mynd i'r dosbarth Wlpan wythnos yma, felly dw i'n trio dysgu Uned 10 ar ben fy hun, ond dw i ddim yn dallt. *Gynni hi, Gynno fo, Gynnyn nhw*, dw i jyst ddim yn dallt. Dach chi'n medru helpu, nyrs?

Siôn: Mae'n ddrwg gen i, ond dw i'n mynd am goffi rwan. Ella .....

Mae Annie'n pasio.

Annie: A, Mr. ap Huw, dach chi'n ôl. Un deg pedwar munud wedi deg. Chwarae teg i chi, Mr. ap Huw. Dw i'n licio staff fel chi.

Mr. Springbottom: Felly, nyrs, dach chi'n medru helpu?

Siôn: Dw i'n brysur iawn, mae'n ddrwg gen i, Mr. Springbottom, ond yn lwcus iawn, mae tiwtor Cymraeg yn dwad i mewn y p'nawn 'ma, i'r gwely yn y gornel. Mae o'n medru helpu, dw i'n siwr

Mr. Springbottom: Tiwtor Cymraeg. O, bendigedig! Ond ydy o'n sâl iawn?

Siôn: Ydy, mae gynno fo dreigloffobia

Mr. Springbottom: Treigloffobia?

Siôn: Ia, bechod, ond mae o'n medru eich helpu chi, dw i'n siwr.

(Dim Pennod 11)

## **Pennod 12**

Mae Siôn yn y cantîn. Mae o'n cael hanner awr i ginio, wel, dau ddeg saith munud a chwarter. Mae Llinos yn dwad i mewn

Llinos: Helo, Siôn, sut wyt ti?

Siôn: Go lew

Llinos: Wyt ti'n edrych wedi blino. Sut oedd y bore cynta ar ward pump?

Siôn: Ofnadwy. Roedd Annie Annifyr yn annifyr efo fi o'r munud cynta

Llinos: O, mae Annie'n annifyr efo pawb. A sut oedd y cyfarfod cynta efo Beryl Beryg neithiwr?

Siôn: Beryl Beryg?

Llinos: Mi wnes i weld Beryl yn cerdded allan o'r clwb staff efo ti neithiwr. Mae Beryl Beryg yn bwyta dynion i frecwast

Siôn: Wel, mae Beryl ar y ffordd i Ffrainc efo Gareth y fflatmêt, felly problem Gareth ydy Beryl rwan

Llinos: A be' am Nia?

Siôn: Pwy ydy Nia? Doedd hi ddim ar y ward y bore 'ma

Llinos: Nac oedd, wrth gwrs. Mae Nia Niwrotig ar y sifft pnawn heddiw.

Siôn: Nia Niwrotig?

Llinos: Ia. Mae hi'n berson dramatig ofnadwy. Mae gynni hi saith neu wyth o blant ac ...Sh, dyma hi, ar y gair.

Mae Nia'n dwad at Llinos a Siôn

Nia: Hi, Llinos darling

Llinos: Sut wyt ti, Nia. Dyma Siôn, y nyrs newydd ar ward pump.

Nia: Hi Siôn, bendigedig eich cyfarfod chi.

Siôn: Neis...

Nia: Sut oedd hi ar y ward y bore 'ma?

Siôn: Pry....

Nia: Pysur iawn dw i'n siwr. Roedd hi'n ofnadwy efo fi adra hefyd. Roedd Françoise yn sâl felly mi wnes i fynd at y doctor efo hi, roedd gerbil Carlos yn sâl felly mi wnes i fynd at y fet efo fo, roedd Hans yn swyddfa'r heddlu ...

Siôn: Esgusodwch fi. Mae hi'n ddau ddeg saith munud wedi deuddeg. Mae gen i chwarter munud i gyrraedd y ward. Wela i chi wedyn

Nia: Ciao Siôn, darling. Bendigedig eich cyfarfod chi

## Pennod 13

Ward Pump Prynawn Sadwrn

Mae'r tiwtor Cymraeg efo treigloffobia, Gruff Gruffydd, yn y gwely yn y gornel ers pum munud. Mae Mr. Springbottom yn dwad i siarad efo fo.

Tom: P'nawn da. Sut dach chi? Tom Springbottom ydy'r enw.

Gruff: Helo. Gruff Gruffydd dw i.

Tom: Ia, dw i'n gwybod. Tiwtor Cymraeg dach chi

Gruff: Sut dach chi'n gwybod ....

Tom: Dw i'n dysgu Cymraeg ar y Cwrs Wlpan yn Llanberis ers pump wythnos

Gruff: Sut ...

Tom: Roedd y cwrs yn grêt ac rôn i'n dysgu llawer ar y dechrau, ond rwan dw i'n anghofio pethau a dw i'n drysu. Ac wrth gwrs, dôn i ddim yn y dosbarth wythnos yma, felly dw i'n poeni'n ofnadwy rwan.

Gruff: Wel, dach chi'n siarad Cymraeg yn dda iawn.

Tom: O, nac ydw. Dw i'n cael problemau mawr efo'r treigladau. Dw i ddim yn dallt y treiglad efo "mae gynno fo ..."

Gruff: A! ...

Tom: Ac mae "roedd o" yn newid i "doedd o ddim". Treiglad ydy o hefyd?

Gruff: A! ...A! ...A! ...

Tom: Mr. Gruffydd! Dach chi'n iawn? Mr. Gruffydd! Nyrs! Nyrs! Dydy Mr. Gruffydd dim yn da

Gruff: A! ...**DD**im yn **DD**a! ...A!

Tom: **D**dim yn **d**da? Treigladau? Pam?

Gruff: A! ... A! ...

Tom: Nyrs! Nyrs!

## Pennod 14

Dydy Gruff Gruffydd ddim yn dda. Mae Siôn yn dwad i weld be' ydy'r broblem.

Siôn: Mr. Springbottom? Be' dach chi'n neud yma?

Tom: Dydy Mr. Gruffydd **ddim yn dda**

Siôn: Be' sy, Mr. Gruffydd?

Gruff: Y ....Y.....

Tom: Roedden ni'n siarad yn braf, ond yn sydyn, doedd Mr. Gruffydd **ddim yn dda**.

Siôn: Am be' oeddech chi'n siarad?

Tom: Ym, dw i ddim yn cofio ...y gwaith ella, y tywydd

Gruff: Y...Y....

Siôn: Mr. Springbottom. Am be' oeddech chi'n siarad?

Tom: Dw i ddim yn cofio ... y Cwrs Wlpan, ella ...

Siôn: Mr. Springbottom. Wnaethoch chi siarad am dreigladau o gwbl?

Tom: Ym .. do..

Siôn: Mr. Springbottom. Mae gan Mr. Gruffydd dreigloffobia!

Tom: Mae'n ddrwg iawn gen i, nyrs, dôn i ddim yn cofio. Ydy Mr. Gruffydd yn mynd i fod yn iawn?

Siôn: Wel, mae gen i frandi yma. Mae pob tiwtor Cymraeg yn gwella ar ôl tipyn bach o frandi.

Mae Nia'n dwad i mewn.

Nia: Be' oedd y sŵn 'na? Wyt ti isio help, Siôn?

Siôn: Na, mae popeth yn iawn rwan, diolch Nia. Doedd Gruff Gruffydd ddim yn dda - ffit o dreigloffobia - ond mae ..

Nia: Gruff Gruffydd, wnaethoch chi ddeud? O na!

Gruff: Lle dw i? ... Pwy?... Nia? O na! A!A!A!

## Pennod 15

Mae Siôn yn siarad efo Gruff Gruffydd

- Siôn: Dach chi'n teimlo'n well rwan, Mr. Gruffydd?
- Gruff: Ydw, diolch nyrs. Mi wnaeth y brandi'r tric. Mae'n ddrwg gen i am fod yn niwsans
- Siôn: Dim problem, siwr.
- Gruff: Roedd hi'n sioc fawr gweld Nia eto
- Siôn: Oeddech chi'n nabod Nia'n dda?
- Gruff: Ôn. Roedd hi'n wraig i mi.
- Siôn: Roedd hi'n wraig i chi!
- Gruff: Oedd, ond dim ond am dair wythnos. Mi wnaeth hi fynd i Sbaen efo rhyw ddyn-neud-castanets wedyn
- Siôn: Pryd wnaethoch chi weld Nia ddiwetha?
- Gruff: Dw i ddim yn cofio'n iawn. Mi wnaeth hi adael pan oedd hi'n gweithio ar S4C - tua saith mlynedd yn ôl, mae'n siwr.
- Siôn: Be' oedd hi'n neud efo S4C ?
- Gruff: Roedd hi'n actio yn yr opera sebon "Meddyg Teulu". Nia oedd yr hypocondriac ..
- Siôn: O, dw i'n cofio rwan ...
- Gruff: Pam mae Nia yma heddiw? Ydy hi'n ffilmio?
- Siôn: Ffilmio? Nac ydy, siwr. Mae Nia'n gweithio yma rwan.
- Gruff: Gweithio yma! Peidiwch â siarad lol! Actores ydy Nia, dim nyrs. Mae hi'n panicio pan mae hi'n gweld gwaed. Roedd hi'n panicio pan oedd hi'n gweld sôs coch ar set yr opera sebon.
- Siôn: Wel, mae hi'n gweithio fel nyrs rwan, beth bynnag.
- Gruff: Well i mi siarad efo'r Sister, dw i'n meddwl.



(Dim pennod 16)

## **Pennod 17**

Prynhawn dydd Sadwrn ar ward pump, ac mae 'na broblemau ar y ward. Mae Llinos yn dwad i siarad efo Siôn

Llinos: Be' sy'n digwydd yma? Mae 'na sŵn ofnadwy ar y coridor. Mae 'na dri bownsar mawr yn trio cario Nia allan ond mae hi'n cicio ac yn cwffio ac yn neud karate-chops fel Diana Rigg yn yr Avengers ers talwm.

Siôn: Mae Nia wedi cael y sac

Llinos: Y sac? Pam?

Siôn: Dydy hi ddim yn nyrs o gwbl. Actores ydy hi. Roedd hi'n actio yn yr opera sebon "Meddyg Teulu"

Llinos: Wrth gwrs. Roedd hi'n actio'r hypocondriac. Dw i'n cofio rwan. Wel, wel.

Siôn: Oedd hi'n nyrs dda?

Llinos: A bod yn onest, nac oedd. Roedd 'na broblemau mawr efo Nia. Roedd hi'n panicio pan oedd hi'n gweld gwaed a doedd hi ddim yn gwybod lle oedd y thermomedr yn mynd

Siôn: Sut wnaeth hi gael gwaith yma?

Llinos: Wel, does 'na ddim digon o staff yn yr ysbyty, nac oes.? Maen nhw'n cymryd pawb.

Siôn: Diolch yn fawr!

Llinos: Mae'n ddrwg gen i, Siôn. Wyt ti'n wahanol. Dan ni'n lwcus iawn yn cael nyrs fel ti ar y ward.. Wyt ti'n grêt. Ym, be' wyt ti'n neud heno?

Siôn: Mynd i'r clwb eto, ella.

Llinos: Fi hefyd. Ym, be' am fynd am bryd o fwyd wedyn, ti (chdi) a fi? Mae 'na dŷ bwyta bach neis rownd y gornel o'r clwb.

Siôn: I-i-iawn, grêt. Wela i ti heno.

## Pennod 18

Nos Sadwrn yn y clwb staff. Mae Siôn yn mynd at y bar ac yn siarad cfo'r barmêd.

Siôn: Ga' i beint o lemonêd , a wisgi dwbl i Llinos, os gwelwch chi'n dda?

Barmêd: Wrth gwrs. ....Dyma chi. Sut aeth y diwrnod cynta yn y gwaith?

Siôn: Ddim yn ddrwg, diolch.

Barmêd: Ddim yn ddrwg, wir! Mae gynnoch chi gariad yn barod.

Siôn: Cariad? Pwy?

Barmêd: Llinos, wrth gwrs. Mae hi'n eich ffansïo chi'n ofnadwy.

Siôn: Peidiwch â siarad lol.

Barmêd: Mae'n hollol glir

Siôn: Dach chi'n siwr?

Barmêd: Yn hollol siwr.

Siôn: Esgusodwch fi am funud, rhaid i mi fynd i'r tŷ bach i gribo'r gwallt yma cyn mynd yn ôl at Llinos

Mae Siôn yn mynd i'r tŷ bach. Ar y ffordd allan, mae o'n cyfarfod Annie ...

Annie: O, Mr. ap Huw. dyma lle dach chi. Mae gen i broblemau ofnadwy ar y ward. Dydy Beryl ddim i mewn eto.

Siôn: Nac ydy, wrth gwrs. Mae hi yn Ffrainc.

Annie: Yn Ffrainc? Ers pryd?

Siôn: Mi aeth hi y bore 'ma.

Annie: Wel, Mr. ap Huw, mae'n ddrwg gen i , ond rhaid i chi neud sifft arall

Siôn: Ond ...

Annie: Rhaid i chi ddwad yn ôl i'r ward rwan

Siôn: Ond mae Llinos ...

Annie: Rwan, Mr. ap Huw. Y munud 'ma.

## Pennod 19

Mae Siôn yn gorffen gweithio am hanner nos. Mae o'n mynd yn ôl i'r clwb, ond dydy Llinos ddim yno. Mae o'n mynd at y bar.

Barmêd: Dan ni ar gau, mae'n ddrwg gen i

Siôn: Dw i ddim isio diod, diolch. Dach chi'n gwybod lle mae Llinos?

Barmêd: Mi aeth hi allan tua chwarter i hanner nos efo Dr. Snip, y doctor newydd sy'n gweithio ar ward pedwar. O! Dyn smart sy bob amser yn gwisgo siwtiau ffasiynol

Mae Siôn yn gwisgo hen jîns a hen siwmpwr.

Barmêd: Fo sy biau'r Mercedes gwyn newydd 'na.

Sgan Siôn ddim car

Barmêd: Mae o'n byw yn y tŷ mawr wrth y castell sy'n edrych allan dros y môr

Mae Siôn yn byw mewn fflat yn y basement mewn tŷ teras sy'n edrych allan dros y rheilffordd

Barmêd: Mae o'n mynd i'r clwb golff fel arfer. Dw i ddim yn dallt pam oedd o yma yn y clwb staff heno. Lwcus i Llinos.

Siôn: Hy, lwcus iawn

Barmêd: O, mae'n ddrwg gen i, Mr. ap Huw. Mi wnes i anghofio. Roeddech chi'n gobeithio mynd allan efo Llinos heno.

Siôn: Ôn.

Barmêd: Lle aethoch chi, beth bynnag?

Siôn: Roedd rhaid i mi fynd yn ôl i weithio. Mae'r Sister sy'n rhedeg y ward yn boen. Wnes i ddim cael siawns i ddwad i esbonio i Llinos.

Barmêd: Anghofiwch am Llinos, Mr. ap Huw. Mae Dr. Snip yn siwtio Llinos yn well. Mae hi'n hogan sy'n licio tipyn bach o steil.

Siôn: Diolch am y compliment.

Barmêd: Na, mae'n ddrwg gen i, dim dyna be' .....

Siôn: Dw i'n mynd adra. Nos da.

Mae Siôn yn cerdded yn yr hen jîns a'r hen siwmpwr yn ôl i'r fflat yn y basement yn y tŷ teras sy'n edrych allan dros y rheilffordd ac yn meddwl am Llinos yn y Mercedes gwyn.

## Pennod 20

Mae Siôn yn cerdded adra, ond mae o'n cyfarfod rhywun ar y ffordd, rhywun sy ddim yn sobor iawn

Nia (yn canu): Mae'n gas gen i Annie; mae'n gas gen i Annie

Siôn: Nia!

Nia: Siôn cariad! Wyt ti'n iawn, del?

Siôn: Go lew. Sut wyt ti?

Nia: Bendi-blincin-gedig, o achos blwmin Annie blincin Annifyr

Siôn: Shh! Paid â gweiddi. Wyt ti'n mynd i ddeffro pawb ar y stryd

Nia: Dim ots gen i. (yn canu) Mae'n gas gen i Annie, mae'n gas gen i Annie ...

Siôn: Nia, bydda'n ddistaw. Dos adra. Lle wyt ti'n byw?

Nia: Rownd y gornel. Tyrd i mewn am banad, Siôn

Siôn: Ond be' am dy ŵr di?

Nia: Mi wnaeth gŵr rhif pump gerdded allan wythnos diwetha.

Siôn: Lle mae'r plant?

Nia: Wel, mae Françoise a Carlos efo Mam, mae Alun a Seamus efo'r bobl drws nesa, mae Jemima a Wang-Hi mewn parti ac mae Hans yn swyddfa'r heddlu. Reit, dyma ni, tyrd i mewn a stedda. Te 'ta coffi.

Siôn: Coffi, plis. Ym.. Nia ... Pam mae llun Annie ar y wal?

Nia: O, dw i'n licio chwarae dartiau. Wyt ti isio gêm?

Siôn: Na, dim diolch. Paid â chwarae dartiau rwan, plis, Nia. Wyt ti ddim yn sobor iawn

Nia:: Na, wyt ti'n iawn... O Siôn, be' dw i'n mynd i neud? Sgen i ddim gŵr, a rwan sgen i ddim gwaith. Sut dw i'n mynd i gadw'r plant?

Siôn: Dydy'r tadau ddim yn talu?

Nia: Ond dw i ddim yn gwybod lle mae'r tadau. Hei, arhosa am funud! Gruff Gruffydd! Dw i'n gwybod lle mae Gruff Gruffydd rwan! Gruff Gruffydd ydy tad Alun. Dydy Gruff ddim yn gwybod, cofia. Mi wnes i adael Gruff ar ôl tair wythnos. Be' ydy gwaith Gruff, wyt ti'n gwybod?

Siôn: Tiwtor Cymraeg

Nia: Tiwtor Cymraeg! Bendigedig! Mae gynno fo ddigon o bres. Reit, dw i'n dwad i mewn i'r ward bore yfory.

Siôn: O na, Nia, ddim i'r ward, plis.

Nia: O, ia! Mae Annie a Gruff yn mynd i gofio'r perfformiad yma gan Nia Laroche-Jones am amser hir iawn. Ha, ha, ha.

## Pennod 21

Bore Sul ar ward pump. Ar ôl bod yn fflat Nia tan dri o'r gloch y bore, mae Siôn wedi cyrraedd y gwaith yn hwyr eto heddiw.

Annie: Pnawn da, Mr. ap Huw.

Siôn: Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr, Sister. Ydy Llinos wedi dwad i mewn eto?

Annie: Mr. ap Huw. Dach chi'n gwybod faint o'r gloch ydy hi?

Siôn: Tua naw o'r gloch, ia? Ydy Llinos wedi mynd am goffi?

Annie: Chwarter wedi naw, Mr. ap Huw. Mae'r sifft wedi dechrau ers saith o'r gloch.

Siôn: Ond mi wnes i weithio tan hanner nos neithiwr. Ydy Llinos ...

Annie: Mi wnes i weithio tan hanner nos neithiwr hefyd, Mr. ap Huw, ond dw i yma ers chwarter i saith y bore 'ma

Siôn: Mae'n ddrwg gen i mod i'n hwyr, Sister, ond wnes i ddim clywed y larwm.

Annie: Rhaid i chi brynu cloc larwm newydd, 'ta. Mae 'na banics ofnadwy wedi bod yma y bore 'ma a dw i wedi bod yma ar ben fy hun tra mae Syr Siôn ap Huw wedi bod yn cysgu fel mochyn ...

Siôn: Mae'n ddrwg iawn gen i, Sister. Dw i'n mynd i fod yma'n gynnar yfory.

Annie: Hanner awr wedi chwech bore yfory, Mr. ap Huw, a dim lol.

Siôn: Reit, esgusodwch fi am un munud bach. Dw i'n dwad rwan.

Annie: Mr. ap Huw! Lle goblyn dach chi'n mynd?

Siôn: Os ydy Llinos yn cael coffi rwan, dw i isio gair sydyn efo hi. Un munud bach

Annie: Lle i broblemau iechyd ydy'r ward yma, Mr. ap Huw, ddim lle i broblemau cariad

Siôn: Dim ond chwarter munud

Annie: Mr. ap Huw, mae 'na ugain o bed-pans wedi bod yn aros ers saith o'r gloch y bore 'ma. Siapiwch hi!

Siôn: Ond ...

Annie: Beth bynnag, dydy Llinos ddim wedi mynd i'r cantîn i gael coffi

Siôn: O? Lle mae hi wedi mynd 'ta?

Annie: I ystafell Dr. Snip

## Pennod 22

Bore Sul ar ward pump ysbyty Llanwlpan ac mae Gruff Gruffydd yn cysgu'n braf

Siôn: Mr. Gruffydd! Deffrwch!

Gruff: Y? ... Be'?...

Siôn: Mr. Gruffydd! Deffrwch! Rhaid i mi gael gair efo chi.

Gruff: O helo, nyrs. Be' sy?

Siôn: Gwrandewch yn ofalus. Mae Nia'n mynd i ddwad i mewn y bore 'ma ...

Gruff: AAA!!! ...

Siôn: Mr. Gruffydd! Rhaid i chi wrando! Mae gynni hi newyddion i chi.

Gruff: Newyddion drwg, mae'n siwr

Siôn: Mae gan Nia hogyn o'r enw Alun. Chi ydy tad Alun, meddai Nia.

Gruff: Fi? Ond mae'n amhosib

Siôn: Os ydy Nia'n iawn, rhaid i chi dalu am gadw Alun

Gruff: Ond dim ond tiwtor Cymraeg dw i. Sgen i ddim pres. Rhaid i mi werthu fy nhŷ, rhaid i mi werthu fy nghar, rhaid i mi werthu fy llyfrau Wlpan. Na, dw i ddim yn medru neud hynny. Rhaid i mi redeg i ffwrdd.

Siôn: Mr. Gruffydd!

Gruff: Lle mae fy nillad i?

Siôn: Mr. Gruffydd! Peidiwch â chodi. Dach chi ddim yn dda

Gruff: Lle mae fy waled i?

Siôn: Mr. Gruffydd! Setlwch i lawr

Gruff: Ond be' dw i'n mynd i neud?

Siôn: Rhaid i chi guddio, Mr. Gruffydd. Rhaid i chi guddio yn y theatr. A...dyma'r porthor rwan i fynd â chi ar y troli. Wela i chi wedyn, Mr. Gruffydd, ar ôl i Nia fynd. Peidiwch â phoeni rwan.

Mae Gruff Gruffydd yn mynd ar y troli i lawr i'r theatr ac yn mynd i gysgu'n braf eto yn y gornel. Yn sydyn, mae o'n deffro

Dr. Snip: A bore da, Mr. Gruffydd. Dr. Snip dw i. Chi ydy'r nesa am fasectomi, ia? Wel, croeso i'r theatr. Nyrs, yr anesthetig, os gwelwch chi'n dda.

Gruff: NNNAAAAAAA!

### Pennod 23

Mae Nia'n cyrraedd y ward. Tipyn o sioc i Annie.

Annie: Mrs. Laroche-Jones! Be' dach chi'n neud yma?

Nia: Symudwch o'r ffordd, ddynes.. Dw i isio gweld Gruff Gruffydd

Annie: Mae'n ddrwg gen i, Mrs. Laroche-Jones, ond dydy Mr. Gruffydd ddim yma.

Nia: Ddim yma? Peidiwch â siarad lol. Symudwch ...

Annie: Mae'n ddrwg gen i, ond mae o wedi mynd.

Nia: Ers pryd?

Annie: Dw i ddim yn gwybod. Mi wnaeth o bacio ei fagiau a mynd yn ystod y nos.

Nia: Peidiwch â siarad trwy'ch het. Lle mae Siôn?

Annie: Mae Mr. ap Huw yn ofnadwy o brysur. Sgynnon ni ddim llawer o staff yma heddiw

Nia: A bai pwy ydy hynny, Annie? E? E?

Annie: Ia, wel .....

Mae Siôn yn cyrraedd.

Siôn: Be' ydy'r sŵn mawr 'ma?

Nia: Be' ydy'r lol 'ma am Gruff, Siôn?

Siôn: Mae popeth wedi mynd, 'sti. Ei ddillad o, ei lyfrau fo, ei slipars o. Popeth. Gobeithio bod Mr. Gruffydd yn iawn: mae o'n sâl ofnadwy.

Nia: Siôn, wyt ti ddim yn medru actio o gwbl. Dw i'n mynd i weld.

Siôn: Na, Nia, paid.

Nia: Symuda o'r ffordd. Rôn i'n meddwl fod ti'n ffrind i mi, ond be' wyt ti: ci bach Annie Annifyr - ei chi bach pathetig hi. Dos o'r ffordd.

Mae Nia'n mynd at wely Mr. Springbottom.

Tom: O helo nyrs, neis eich gweld chi.

Nia: Sut dach chi, Mr. Springbottom?

[drosodd]

Tom: Dach chi ddim yn gweithio yma rwan?

Nia: Nac ydw

Tom: Bechod. Roeddech chi'n nyrs ardderchog.

Nia: Diolch, Mr. Springbottom. Ym, dach chi ddim yn gwybod lle mae Mr. Gruffydd, dach chi?

Tom: Wel ...

Nia: Dudwch ....plis ... cariad

Tom: Mae o'n cuddio

Nia: Yn cuddio. Lle?

Tom: Yn y theatr

Nia: Yn y theatr, ia! Clyfar iawn, Mr. Gruff Gruffydd. A lle mae ei bethau fo: ei ddillad o, ei walet o, ac ati?

Tom: Yn locer Mr. ap Huw.

Nia: Diolch yn fawr i chi, Mr. Springbottom

Tom: Galwch fi'n Tom

Nia: Diolch Tom. Mae'n braf gwybod bod gen i un ffrind yn yr ysbyty 'ma.



## Pennod 24

— Mae Nia'n dal ar y ward. Mae hi'n gweld Siôn eto.

Nia: A! Dyma gi bach Annie Annifyr eto! Stedda!

Siôn: Nia, paid. Mi fydda i'n mynd am ginio mewn munud. Wyt ti isio dwad efo fi?

Nia: Dim diolch. Dw i ddim yn bwyta Winalot.

Siôn: Nia, shh. Does 'na ddim pwynt i ti aros yma. Dydy Gruff ddim yma.

Nia: Ond mae o yma, tydy, yn cuddio yn y theatr

Siôn: Sut wyt ti'n gwybod hynny?

Nia: Tric budr ofnadwy, Siôn. Fydda i ddim yn symud o'r ward 'ma tan fydd Gruff yn dwad yn ôl ac yn addo talu am gadw Alun. Felly os wyt ti ddim isio sŵn ar y ward, dos i nôl Gruff rwan.

Ar y gair, mae Gruff yn cyrraedd y ward ar y troli, yn cysgu'n drwm

Nia: Deffra!

Gruff; Y .. y..

Nia: Deffra! Arwydda'r papur yma

Gruff: Y .. Be' ydy o?

Nia: Dim ots be' ydy o. Arwydda fo

Gruff: Iawn.G-r-u-

— Dr. Snip: Esgusodwch fi. Dr. Snip dw i. Chi ydy gwraig Mr. Gruffydd?

Nia: Wel, ia a naci. Pam?

Dr. Snip: Dach chi'n gwybod pam oedd Mr. Gruffydd isio fasectomi?

Nia: Wel, dw i ddim yn siwr ...

Dr. Snip: Dw i ddim yn siwr chwaith, achos doedd hi ddim yn bosib i Mr. Gruffydd gael plant, beth bynnag

Nia: Be'?

Dr. Snip: Dydy Mr. Gruffydd erioed wedi cael plant, a fydd o byth yn medru cael plant.

Nia: O, na! Be' dw i'n mynd i neud?

## Pennod 25

Dydd Sul ar ward pump. Mae Annie'n dwad at Siôn

- Annie: Sgynnoch chi funud, Mr. ap Huw?
- Siôn: Wel, dw i'n brysur ofnadwy ...
- Annie: Dowch i mewn i fy swyddfa i am funud. Sut mae Nja rwan?
- Siôn: Mi fydd hi'n iawn mewn munud. Mae hi wedi cael panad ac mae hi'n dechrau dwad dros y sioc
- Annie: Fydd hi'n medru mynd adra ar ben ei hun?
- Siôn: Wel, dw i ddim yn siwr. Fydd hi'n iawn i Nia aros yma tan ddiwedd y sifft? Mi fydda i'n medru mynd adra efo hi wedyn.
- Annie: Dach chi'n glên iawn, Mr. ap Huw. Dw i isio diolch yn fawr iawn i chi am eich help heddiw.
- Siôn: Mae'n iawn, siwr.
- Annie: Dach chi'n cael diwrnod o wyliau yfory
- Siôn: Be'?
- Annie: Dach chi'n haeddu brêc. Mi fydd Personel yn medru ffinidio rhywun i weithio yn eich lle chi yfory
- Siôn: Dach chi'n haeddu brêc hefyd, Sister
- Annie: Dw i wedi blino'n lân, rhaid i mi ddeud.
- Siôn: Wel, cymwch chi ddiwrnod o wyliau hefyd. Mi fydd Personel yn medru ffindio rhywun i weithio yn eich lle chi hefyd.
- Annie: Syniad da! Diolch yn fawr.
- Siôn: Iawn, well i mi fynd ...
- Annie: Ym, Mr. ap Huw, dw i isio diolch yn iawn i chi am eich help heddiw. Be' am fynd allan am bryd o fwyd heno?
- Siôn: Be'?. Pwy? .. Chi a fi? ...
- Annie: Ia. Noson i ymlacio.
- Siôn: Ond ...
- Annie: Dim "ond" o gwbl. Mi fydda j'n talu ac mi fydda j'n gyrru. Yn Ffordd yr Orsaf dach chi'n byw, 'ta? Fydd saith o'r gloch yn iawn?
- Siôn: Wel .. ym .. bydd, Sister
- Annie: O, galwa fi'n Annie, plis. Wela i ti heno, Siôn

(Dim pennod 26 a pennod 27)

## **Pennod 28**

Amser cinio dydd Sul. Mac Siôn yn mynd i'r cantîn. Pwy sy yno ond Llinos.

Siôn: Helo

Llinos: Helo

Siôn: Wyt ti'n iawn?

Llinos: Ydw. Wyt ti?

Siôn: Ydw. Ym.. ga' i eistedd yma?

Llinos: Cei, os wyt ti isio

Siôn: Diolch. Ym.... Mae'n ddrwg gen i am neithiwr

Llinos: O?

Siôn: Mi wnes i weld Annie wrth y tŷ bach. Mi wnaeth hi ddeud bod 'na broblemau mawr ar y ward.

Llinos: O?

Siôn: Mi wnaeth hi ddeud bod rhaid i mi fynd yn ôl i weithio'n syth.

Llinos: O?

Siôn: Mi wnaeth hi ddeud bod 'na ddim amser i mi ddwad i esbonio i ti

Llinos: O?

Siôn: Mae'n ddrwg iawn gen i, Llinos. Dw i'n teimlo'n ofnadwy am y peth

Llinos: Mi wnaeth Annie ddeud, mi wnaeth Annie ddeud ...Be' wyt ti? Ci bach Annie Annifyr? Paid â neud popeth mae Annie'n ddeud. Paid â bod yn neis efo hi. Cwffia, cwffia, cwffia.

Siôn: Ym .. iawn. Sut mae Dr. Snip?

Llinos: Be'?

Siôn: Mi wnes i glywed fod ti wedi cael cwmni Dr. Snip neithiwr, a fod ti wedi bod yn ei swyddfa fo y bore 'ma hefyd.

[Drosodd]

Llinos: Ych a fi. Dyn annifyr. Meddwl fod o'n bwysig. Pen bach. Siarad am ei waith trwy'r amser. Dw i wedi clywed am bob fasectomi dan haul!

Siôn: Pam wnest ti fynd i'r swyddfa y bore 'ma, 'ta?

Llinos: I ddeud mod i ddim isio mynd allan efo fo eto. Mi wnes i ddeud mod i'n mynd allan efo ti

Siôn: Be'? Do? O diolch, Llinos. Mae'n ddrwg iawn gen i am neithiwr. Mae'n grêt bod yn ffrindiau eto

Llinos: Ydy, wir. Felly, be' am fynd allan heno?

Siôn: Ym ... Mae'n ddrwg gen i, Llinos, ond dw i ddim yn medru

Llinos: Be' wyt ti'n neud?

Siôn: Ym ... dw i'n mynd allan am bryd o fwyd.

Llinos: Efo pwy?

Siôn: Dw i ddim yn meddwl fod ti'n nabod y person

Llinos: Efo pwy, Siôn?

Siôn: Efo .. Annie.

Mae Llinos mewn sioc am funud, yna mae hi'n codi'n sydyn, yn rhoi clets i Siôn ac yn rhedeg allan.

## Pennod 29

Nos Sul, ac mae Annie'n cyrraedd fflat Siôn am saith o'r gloch ar y dot.

Siôn: Helo, Sister

Annie: Annie, plis, Siôn

Siôn: Helo Annie. Sut dach chi heno?

Annie: Ti, plis, Siôn

Siôn: Sut wyt ti heno?

Annie: Iawn diolch.

Siôn: Dach chi .. wyt ti'n edrych yn smart iawn heno. Wyt ti ddim yn edrych hanner mor annifyr heb dy iwnifform.

Annie: Be'?

Siôn: Mae'n ddrwg gen i. Be' rôn i'n trio ddeud oedd ... o dim ots. Lle dan ni'n mynd?

Annie: I'r Royal

Siôn: Pa mor bell ydy o?

Annie: Tua dwy filltir.

Mae Annie a Siôn yn mynd i'r Royal yng nghar Annie.

Siôn: Mae'r lle yma'n fendigedig, Annie. Wyt ti'n dwad yma'n aml?

Annie: Rôn i'n arfer dwad yma ers talwm, efo fy ngŵr.

Siôn: Dy ŵr? Dôn i ddim yn gwybod fod ti wedi priodi.

Annie: O, dan ni wedi cael ysgariad ers talwm, diolch byth. Roedd o'n ddyn ofnadwy.

Siôn: Wyt ti ddim yn dwad yma efo dy ffrindiau?

Annie: Sgen i ddim ffrindiau, Siôn. Annie Annifyr dw i i bawb. Dyna pam dw i isio diolch i ti (chdi). Dw i wedi bod yn ofnadwy o gas efo ti, ond wyt ti wedi bod yn glên iawn efo fi. Diolch yn fawr i ti, Siôn

Mae Annie wedi dechrau edrych yn rhamantus i lygaid Siôn

Annie: Be' am fynd adra i gael coffi? Dos di i'r car tra dw i'n talu.

Siôn: Mi wna i ddreifio. Wyt ti wedi yfed tipyn bach gormod o Malibu

Annie: O, wyt ti'n gariad, Siôn. Diolch yn fawr.

Siôn: Diolch i ti am y pryd. Roedd o'n fendigedig

Annie: Diolch i ti (chdi) am dy gwmni. Dw i ddim wedi mwynhau fy hun cymaint ers blynyddoedd.

### **Pennod 30**

Mae Siôn ac Annie'n gyrru adra o'r Royal.

Annie: Tydy'r afon yn edrych yn hyfryd?

Siôn: Ydy, del iawn

Annie: Tydy'r bont yn edrych yn fendigedig?

Siôn: Ydy wir, neis iawn.

Annie: Dw i bob amser yn teimlo'n rhamantus pan dw i'n gweld yr afon a'r bont yn y nos

Mae Annie'n symud yn nes at Siôn ac yn gafael yn ei benglin

Siôn: Ym, sgen ti anifeiliaid?

Annie: Oes, ci sosej. O, Siôn, sbia ar y lleuad. Tydy o'n hyfryd?

Siôn: Ydy wir, del iawn

Annie: Dw i bob amser yn teimlo'n rhamantus iawn pan mae'r lleuad yn llawn

Mae Annie'n symud yn nes eto at Siôn ac yn chwarae efo ei wallt

Siôn: Ym, wyt ti'n licio chwarae whist?

Annie: Weithiau. O, Siôn, sbia ar y sêr. Tydyn nhw'n glir heno?

Siôn: Ydyn wir, clir iawn

Annie: Dw i bob amser yn teimlo'n ofnadwy o ramantus pan dw i'n edrych ar y sêr

Mae Annie'n symud yn nes eto at Siôn ac yn chwythu yn ei glust

Siôn: O, na! Mae 'na blismon y tu ôl i ni. Rhaid i mi stopio'r car.

Plismon: Helo, helo, helo. Be' sy'n mynd ymlaen yma? Dach chi'n symud yn ôl ac ymlaen fel io-io ar y ffordd 'ma. Wnewch chi chwythu i mewn i'r bag 'ma, os gwelwch chi'n dda?

### Pennod 31

Mae'r heddlu wedi stopio Siôn ac Annie, ac mae Siôn wedi dwad allan o'r car i chwythu i mewn i'r bag.

Plismon: Mmm. Mae'r prawf yn negyddol. Lwcus iawn y tro 'ma, Mr. ap Huw

Siôn: Lwcus, wir! Dw i ddim wedi bod yn yfed

Plismon: Pam oeddech chi'n gyrru mor beryg 'ta?

Siôn: Mae'r car yn rhy fawr. Dw i ddim wedi arfer efo car mor fawr.

Plismon: Dim eich car chi ydy o?

Siôn: Naci.

Plismon: Car pwy ydy o?

Siôn: Car fy ffrind.

Plismon: Pwy? Y ledi yn y car?

Siôn: Ia

Plismon: Mmm. Ffrind, ia? Dw i'n dallt. Winc, winc.

Siôn: Be?!!

Plismon: Be' ydy ei henw hi?

Siôn: Does dim rhaid i mi ddeud.

Plismon: Does dim rhaid i mi fod yn glên efo chi, Mr. ap Huw. Be' ydy ei henw hi?

Siôn: Annie Williams

Plismon: Annie Williams! Wrth gwrs! Roeddwn i'n gwybod mod i'n nabod yr wyneb. Roedd hi'n gweithio fel plismones ers talwm. A'i gŵr hi hefyd.

Siôn: Be'? Ei gŵr hi'n blismones?

Plismon: Paid â bod yn glyfar efo fi, mêt. Roedd ei gŵr hi'n sarjant. Dyn ofnadwy. Y sarjant mwy a anobeithiol a'r person mwy annifyr dw i wedi gweithio efo fo erioed. Ond roedd Annie'n blismones ardderchog. Y blismones orau ar y staff. Doedd ei gŵr hi ddim yn licio hynny o gwbl. Mi wnaeth Annie gael amser caled efo fo, amser caled ofnadwy. Yn y diwedd roedd rhaid iddi hi adael y ffors. Pan wnaeth y stori ddwad allan, mi wnaeth ei gŵr hi gael y sac. Mi wnaethon nhw gael ysgariad wedyn. O, mi wnaeth Annie gael amser ofnadwy. Mae'n braf gweld bod gynni hi gariad newydd rwan.

Siôn: Dim ei chariad hi dw i

Plismon: Peidiwch â phoeni. Dw i ddim yn mynd i agor fy ngheg. Nos da, Mr. ap Huw. Cymwch ofal ar y ffordd. Cymwch ofal o Annie hefyd, plis.. Mae hi'n haeddu'r gorau.

## Pennod 32

Mae Siôn ac Annie ar y ffordd adra o'r Royal. Mae'r plismon wedi stopio'r car ac mae Siôn wedi bod yn siarad efo fo am amser hir. Pan mae Siôn yn dwad yn ôl i mewn i'r car, mae Annie'n cysgu'n drwm.

Siôn: Annie!

Annie: CHCHCH

Siôn: Annie, deffra!

Annie: CHCHCH

Siôn: Deffra. Be' ydy rhif dy dŷ di?

Annie: Be'? ... Y? ... Tri deg un.... W, faswn i ddim yn mindio panad

Siôn: Lle mae'r tŷ? Ar y dde neu ar y chwith?

Annie: O, Siôn, paid â stopio'r car. Dw i ddim yn medru mynd adra fel yma. Mi fydd Mam yn aros amdana i. Fasai hi'n bosib i ni fynd yn ôl i dy fflat di i gael panad. Rhaid i mi drio sobri cyn siarad efo Mam. Faint o Malibu wnes i yfed?

Siôn: Dw i ddim yn siwr...

Mae Siôn yn gyrru'n ôl i'r fflat

Siôn: Reit, dyma ni. Tyrd i mewn. Be' faset ti'n licio?

Annie: Coffi du cryf, plis, Siôn.

Siôn: Dyma ni.

Annie: O, Siôn, wyt ti'n gariad. Wyt ti mor neis. Mi faswn i'n licio dwad i dy nabod di'n well.

Mae Annie'n trio symud yn nes at Siôn, ond mae Siôn yn trio symud yn bellach. Wrth symud, mae Annie'n colli coffi dros ei ffrog.

Annie: O damia! Sgen ti *dissue*?

Siôn: Oes, dyma ti.

Annie: Na, dydy'r staen ddim yn dwad i ffwrdd. Fasai hi'n iawn i mi fynd i'r ystafell ymolchi i drio golchi'r staen?

Siôn: Wrth gwrs.

[Drosodd]



Mae Annie'n mynd i'r ystafell ymolchi. Yn sydyn, mae'r drws ffrynt yn agor ac mae Gareth a Beryl yn cerdded i mewn, yn ôl o Ffrainc. Ar yr un pryd, mae Annie'n dwad allan o'r ystafell ymolchi, heb ei ffrog!

Gareth:) Annie!

Beryl: )

Annie: ) Gareth!

Siôn: )

Gareth: Wel, mae'n ddrwg gen i os dan ni'n torri ar draws

Annie: Paid â bod mor sarcastig. Be' wyt ti'n neud yma?

Gareth: Dw i'n byw. yma. Be' wyt ti'n neud yma, dyna'r cwestiwn.

Siôn: Wyt ti'n nabod Gareth, Annie?

Annie: Ydw. Gareth oedd fy ngŵr i.

### Pennod 33

Mae Annie, Beryl, Gareth a Siôn yn y fflat. Yn sydyn, mae 'na gnoc ar y drws.

Siôn: Pwy sy 'na rwan? Mae hi'n un o'r gloch y bore..... O, noswaith dda, Mrs. Jones

Mrs. Jones: Noswaith dda, wir! Mi faswn i'n licio taswn i'n medru cael noswaith dda o gwsg! Be'goblyn sy'n mynd ymlaen yma? Mae 'na sŵn ofnadwy. Dach chi'n cofio rheol y tŷ: dim partis

Siôn: Dan ni ddim yn cael parti, Mrs. Jones. Jyst cwpl o ffrindiau o'r gwaith

Mrs. Jones: Oes 'na ferched yma?

Siôn: Wel, oes.

Mrs. Jones: Dach chi'n cofio rheol y tŷ: dim merched ar ôl hanner nos

Siôn: Wrth gwrs, ond merched o'r gwaith ydyn nhw - y bos ac un o'r nyrsus. Roedd 'na broblemau mawr ar y ward heddiw ac roedden ni'n meddwl basai hi'n well tasen ni'n trio eu sortio nhw cyn bore yfory.

Mrs. Jones: O, mae'n iawn felly ...

Y munud hwnnw, mae Annie'n croesi'r ystafell, heb ei ffrog wrth gwrs.

Mrs. Jones: Be' oeddech chi'n ddeud, Mr. ap Huw? Sortio problemau gwaith efo 'r bos, ia?

Siôn: Wel, hi ydy'r bos ...

Mrs. Jones: Peidiwch â siarad lol ..

Siôn: Wir rwan.. Annie Williams ydy hi, y Sister ar y ward

Beryl: Cariad Siôn

Siôn: Naci. Gwraig Gareth

Mrs. Jones: A pwy dach chi?

Beryl: Beryl. Nyrs ar y ward.

Siôn: Cariad Gareth

Gareth: Cariad Siôn oedd hi

Mrs. Jones: Swopio? Yn fy nhŷ i! Mae hwn yn dŷ mor barchus. Be' tasai pobl y WI yn clywed? O, mae'r peth yn ofnadwy. Reit, Mr. Williams a Mr. ap Huw, dw i'n rhoi un wythnos o notis i chi. Allan o'r fflat yma erbyn dydd Sadwrn nesa. Cyn hynny, tasai hi'n bosib. Nos da.

(Dim pennod 34)

### Pennod 35

Bore Llun.. Yn lwcus i Siôn, dydy o ddim yn gweithio heddiw. Chaeth o ddim llawer o gwsg neithiwr. Mi wnaeth Annie redeg allan o'r fflat ac mi aeth Siôn rownd a rownd y dre yn trio ei ffindio hi, ond dim lwc. Wedyn, mi gaeth o ffræ efo Gareth ac mi wnaeth o ddechrau pacio'n syth. Aeth o ddim i'r gwely tan hanner awr wedi pump yn y bore. Am hanner awr wedi chwech, mi wnaeth o ddeffro eto a doedd o ddim yn medru mynd yn ôl i gysgu.

Am saith o'r gloch, mi wnaeth Llinos a Nia gyfarfod ar y stryd

Llinos: Helo, Nia. Sut wyt ti?

Nia: Ddim yn ddrwg, diolch. Wyt ti ar dy ffordd i'r gwaith?

Llinos: Ydw, dw i'n dechrau gweithio am saith o'r gloch. Mi ges i alwad ffôn am chwech o'r gloch y bore 'ma. Dydy Annie na Siôn ddim yn dwad i mewn.

Nia: Mae'n od bod y **ddau**'n sâl.

Llinos: Ydy, tydy. Od iawn. Beth bynnag, lle wyt ti'n mynd efo'r cês mawr 'na?

Nia: Dw i'n mynd i ffwrdd. Dw i isio dal trên am chwarter wedi saith.

Llinos: Lle wyt ti'n mynd?

Nia: I'r Alban

Llinos: Wel, pob lwc i ti.

Nia: Hei, Llinos, sbia!

Llinos: Lle' ?

Nia: Y tu allan i fflat Siôn

Llinos: Be'?

Nia: Car Annie

Llinos:) Wel, y \*!\*\*\*?\*\*\*"\$\*\*!

Nia: )

## Pennod 36

Bore Llun. Bore diflas iawn i Siôn.

Mae Siôn yn dwad allan o'r fflat yn ei byjamas i nôl potel o lefrith. Mae o'n gweld Llinos a Nia'n siarad ar y stryd.

Siôn: Helo, sut dach chi heddiw?

Llinos:) Hy!

Nia: )

Maen nhw'n cerdded heibio. Chwarter munud wedyn, mae Tom Springbottom yn rhedeg heibio efo cês mawr.

Siôn: Mr. Springbottom! Pam dach chi allan o'r ysbyty?

Tom: Dw i'n mynd i Gretna Green

Siôn: Ond dach chi'n sâl

Tom: Mae Nia'n dwad efo fi

Siôn: Ond Mr. Springbottom, dydy Nia ddim yn nyrs a mae Nia wedi cael pump gŵr yn barod. Dw i ddim yn meddwl bod mynd i Gretna Green efo Nia yn syniad da.

Tom: Does dim ots gen i be' dach chi'n feddwl, Mr. ap Huw. Mae Nia'n mynd i nyrsio fy nghorff i, a nyrsio fy Nghymraeg i hefyd. Dw i'n mynd i fod yn iach ac yn rhugl mewn wythnos neu ddwy.

Siôn: Ond Mr. Springbottom ....

Tom: Taswn i yn eich lle chi, Mr. ap Huw, mi faswn i'n mindio fy musnes. Bore da.

Chwarter munud wedyn, mae car heddlu'n dwad i lawr y stryd.

Siôn: Chi eto!

Plismon: Lle mae Annie?

Siôn: Dw i ddim yn gwybod

Plismon: Pam mae car Annie yma?

Siôn: Stori hir

Plismon: Mae mam Annie wedi ffonio. Mae Annie ar goll. Mr. ap Huw, rhaid i chi ddwad i orsaf yr heddlu efo fi.

Siôn: Yn fy mhyjamas?

Plismon: Rwan, Mr. ap Huw, yn eich pyjamas.

Mi gaeth Siôn ei roi mewn cell. Mi gaeth car Annie ei symud i garej yr heddlu. Mi gaeth ffrog Annie ei ffindio yn fflat Siôn. Mi gaeth Siôn ei restio.

Oedd, roedd bore Llun yn fore diflas iawn i Mr. Siôn ap Huw

## Pennod 37

Prynhawn Llun yn swyddfa'r heddlu. Mae Annie'n cerdded i mewn

- Plismon: P'nawn da. Ga' i'ch helpu chi? O, helo, Annie. Sut dach chi ers talwm?
- Annie: Iawn, diolch Fred. Ydy Siôn ap Huw yma?
- Plismon: Ydy. Mi gaeth o ei restio y bore 'ma
- Annie: Do, dw i'n gwybod. Mi glywes i'r hanes gan Mam. Wel, dydy o ddim wedi neud dim byd. Mi redes i i ffwrdd neithiwr achos rôn i isio amser i feddwl.
- Plismon: Heb eich ffrog?
- Annie: Ia. Mi golles i goffi dros fy ffrog yn fflat Siôn
- Plismon: Heb eich car?
- Annie: Mi yfes i ormod neithiwr
- Plismon: Wrth gwrs. Dyna pam roedd Mr. ap Huw yn gyrru eich car chi neithiwr.
- Annie: Sut dach chi'n gwybod?
- Plismon: Mi stopies i chi wrth y bont neithiwr, dach chi'n cofio?
- Annie: O? Chi oedd o?
- Plismon: Ia, a dw i wedi bod yn poeni trwy'r dydd. Mi agores i fy ngheg fawr neithiwr: mi ddudes i dipyn o hanes eich gŵr chi wrth Mr. ap Huw. Mae'n ddrwg gen i, Annie, os wnes i achosi trwbl i chi.
- Annie: Peidiwch â phoeni, Fred. Mi weles i Gareth yn fflat Siôn neithiwr. Dyna sut wnaeth y trwbl ddechrau. Dôn i ddim yn gwybod bod Gareth a Siôn yn rhannu fflat
- Plismon: Anffodus!
- Annie: Anffodus iawn. Beth bynnag, ydy hi'n bosib i Siôn ddwad allan?
- Plismon:: Ydy, wrth gwrs. Mae o ar ei ffordd.
- Annie: Diolch, Fred.
- Plismon: Wel, Annie, mae'n braf iawn eich gweld chi eto. Gobeithio bydd popeth yn iawn i chi rwan.
- Annie: O, dw i wedi sortio fy hun allan o'r diwedd. Mi fydd popeth yn iawn rwan, diolch, Fred.

Mae Siôn yn dwad allan o'r gell

- Siôn: ) O cariad, wyt ti'n iawn?  
Annie: )

ac mae'r ddau'n rhedeg i freichiau ei gilydd ac yn cusanu.

## Pennod 38

Bore Mawrth ar ward pump. Mae Siôn yn cyrraedd y gwaith am hanner awr wedi chwech. Mae Annie yno ers chwech o'r gloch.

Annie: Pam wyt ti yma mor gynnar?

Siôn: Dôn i ddim yn medru cysgu

Annie: O, Siôn, mae'n ddrwg gen i am achosi cymaint o broblemau i ti. Ond paid â phoeni. Dw i'n gadael ar ddiwedd yr wythnos.

Siôn: Gadael?

Annie: Ia. Dw i ddim yn medru aros yma rwan, efo Beryl ar y ward a Gareth o gwmpas.

Siôn: Paid â phoeni am Beryl a Gareth. Maen nhw ...

Annie: Na, rhaid i mi fynd

Siôn: Ond i le?

Annie: Mae fy chwaer i'n gweithio mewn ysbyty preifat yn Grimsby. Mi ffoniodd hi fi ddoe i ddeud bod 'na swydd yn yr ysbyty i mi.

Siôn: Grimsby? Ysbyty preifat? Ond Annie. Ti ydy'r nyrs orau yn yr ysbyty 'ma. Mae ward pump dy angen di. Mae'r NHS dy angen di. O Annie, dw i dy angen di hefyd. Pan ddudodd y plismon bore ddoe fod ti ar goll, mi stopiodd fy nghalon i.

Annie: O Siôn!

Siôn: O Annie!

Gruff: OOOOO!!!

Siôn: Be' ydy'r sŵn 'na?

Annie: Gruff Gruffydd eto. Bechod. Mae treigloffobia'n beth ofnadwy. Ond tasai dysgwyr yn stopio poeni am y treigladau, mi fasen ni'n medru concro treigloffobia mewn dim amser.

Siôn: O Annie, paid â mynd. Mae Cymru dy angen di!

### Pennod 39

Mae pythefnos wedi pasio. Mae Annie wedi mynd at ei chwaer yn Grimsby. Mae Siôn wedi symud i ystafell yn hostel y myfyrwyr nyrzio. Ac mae Siôn wedi cael swydd newydd: hen swydd Annie!

Mae Beryl a Llinos yn siarad yn y cantîn

Llinos: Tydy Siôn yn ofnadwy

Beryl: Ydy. Rôn i'n meddwl bod Annie'n annifyr ond mae Siôn yn waeth.

Llinos: Wyt ti'n gwybod be' ddudodd Siôn wrtha i y bore 'ma? "Miss Davies, dw i isio i chi wisgo eich gwallt mewn "bun" pan dach chi yn y gwaith"

Beryl: Wyt ti gwybod be' ddudodd o wrtha i? " Miss Evans, mae eich sgert chi'n rhy fyr. O leia chwech modfedd **dan** y pen-glin o hyn ymlaen, os gwelwch chi'n dda". Pwy mae o'n feddwl ydy o?

Llinos: Sut gaeth Siôn y swydd 'ma, beth bynnag? Dim ond ers tair wythnos mae o'n gweithio yma. Dw i'n gweithio yma ers tair blynedd

Beryl: A dw i yma ers dwy flynedd a hanner. Dw i'n siwr bod Annie wedi deud pethau ofnadwy amdanon ni wrth Personel, i neud yn siwr bod Siôn yn cael y swydd. Sh.. Dyma fo ... Helo Siôn

Siôn: Mr. ap Huw i chi. Reit. Saith munud a chwarter am goffi, ddudes i, felly yn ôl i'r ward y munud 'ma. A Miss Davies, dw i wedi deud wrthoch chi unwaith yn barod; gwisgwch eich gwallt mewn "bun" pan dach chi yn y gwaith.

Beryl: Tyrd Llinos, *quick march*

Beryl: )  
Llinos: )  
Dde, Chwith, Dde, Chwith, Dde, Chwith, ...

## Pennod 40

Saith o'r gloch bore Llun ar ward pump.

Gwen: Bore da. Gwen Evans dw i

Siôn: A, Miss Evans, y nyrs newydd. Croeso. Siôn ap Huw dw i, y prif nyrs ar y ward. Gobeithio byddwch chi'n hapus iawn efo ni yma.

Gwen: Diolch yn fawr. Wel, be' dach chi isio i mi neud gynta?

Siôn: Mae hi'n ddistaw yma ar hyn o bryd. Dowch i mewn i fy swyddfa i i gael panad. Mi faswn i'n licio gwybod tipyn bach mwy amdanoch chi. Dach chi'n byw'n agos?

Gwen: Dw i wedi bod yn lwcus iawn. Dw i wedi cael fflat mawr braf yng nghanol y dre. Yr unig broblem ydy bod y rhent yn ddrud i un person. Dach chi ddim yn gwybod am rywun sy'n chwilio am fflat, dach chi?

Siôn: Wel, a deud y gwir, dw i'n chwilio am fflat fy hun. Dw i'n byw yn hostel y myfyrwyr ar hyn o bryd, ond dw i isio symud allan mor fuan â sy'n bosib

Gwen: Be' am ddwad draw i weld fy fflat i heno?

Siôn: Wel, diolch yn fawr, Miss Evans

Gwen: Gwen. Ac arhoswch am swper hefyd.

Siôn: Wel, diolch yn fawr ... Gwen.



## Pennod 41

Amser panad bore Llun. Mae Llinos a Beryl yn siarad yn y cantîn

- Beryl: Mae Syr Siôn ap Sadaam Hussein mewn hwyliau da heddiw
- Llinos: Ydy wir. Pan ddudodd o “Cerwch am banad cynnar, ferched”, dôn i ddim yn credu fy nghlustiau.. Be’ sy wedi digwydd?
- Beryl: Wel, mi aeth rhyw hogan i mewn i’r swyddfa y peth cynta y bore ‘ma. Hogan mewn sgert hir a’r gwallt mewn “bun”
- Llinos: Dyna’r nyrs newydd, mae’n siwr. Sbia, dyma nhw ...
- Beryl: Ych a fi! Mae hi’n edrych yn neis-neis
- Llinos: A sbia ar Siôn. Mae o mor siwgwraidd.... Mae o’n talu am ei choffi hi. Y crafwr!... Mae o’n cario’r *tray* iddi hi! Dw i’n teimlo’n sâl
- Beryl: Maen nhw’n dwad y ffordd ‘ma. Symuda!
- Llinos: Rhy hwyr!
- Siôn: S’mae, ferched? Gawn ni eistedd yma?
- Beryl: Cewch, wrth gwrs, ond dan ni’n mynd rwan, mae’n ddrwg gen i. Mi ddylen ni fod yn ôl ar y ward erbyn hyn.
- Siôn: Mae ‘na ddigon o amser. Arhoswch am funud i chi gyfarfod Gwen .. ym .. Miss Evans
- Llinos: Mae’n ddrwg gen i, Miss Evans, ond rhaid i ni fynd. Mae Mr. ap Huw wedi rhoi cannoedd o jobsus bach budr i ni neud bore ‘ma.
- Beryl: Mi ddylen ni fod wedi gorffen y jobsys i gyd cyn amser panad, a deud y gwir, ond mae Mr. ap Huw mewn hwyliau da heddiw, am newid. Dw i ddim yn siwr pam.
- Llinos: Mi gawn ni sgwrs efo chi wedyn, Miss Evans, pan fyddwch chi ar ben eich hun.
- Beryl: Os byddwch chi ar ben eich hun, Miss Evans. Mae Mr. Casanova ap Huw yn sticio fel *Superglue* ar hyn o bryd.

Mae Siôn yn trio peidio â mynd yn goch fel bitrwt ac yn trio gwenu’n naturiol ar Gwen.

## Pennod 42

Prynhawn Llun ar ward pump. O'r diwedd, mae Llinos yn cael siawns i gael sgwrs efo Gwen, y nyrs newydd.

Llinos: Helo, Gwen. Sut mae pethau'n mynd?

Gwen: Iawn, diolch, Llinos. Dw i'n setlo i mewn yn dda iawn

Llinos: Da iawn. Cofiwch ofyn os dach chi isio help efo rhywbeth

Gwen: Diolch yn fawr, ond a deud y gwir, mae Siôn .. ym .. Mr. ap Huw wedi bod yn dda iawn efo fi. Mae o'n barod iawn i helpu

Llinos: Ar y dechrau, ella, ond ar ôl i chi weithio yma am wythnos neu ddwy ...

Gwen: O na. Dw i'n meddwl bod Mr. ap Huw yn fos ardderchog

Llinos: Hm. Beth bynnag, dach chi wedi cael lle i fyw eto?

Gwen: Do, mae gen i fflat mawr braf yng nghanol y dre.

Llinos: Ar ben eich hun?

Gwen: Ia, ar hyn o bryd, ond mae'n bosib bod Mr. ap Huw yn mynd i symud i mewn efo fi. Mae o'n dwad i weld y fflat heno

Llinos: O na, Gwen, dydy hynny ddim yn syniad da. Beryl, tyrd yma.

Beryl: Be' sy?

Llinos: Mae Siôn yn meddwl symud i fyw efo Gwen

Beryl: O na, Gwen, dydy hynny ddim yn syniad da. Cyn i ti droi rownd, mi fyddi di'n coginio iddo fo, yn smwddio iddo fo, yn golchi ei sanau fo ..

Gwen: Na fydda i wir

Beryl: Mae o'n defnyddio pobl, Gwen. Roedd o'n mynd allan efo Llinos, ond mi wnaeth o ddympio Llinos a dechrau mynd allan efo'r Sister achos bod gynni hi ffrindiau ar y top. Dyna sut gaeth o swydd fel prif nyrs

Gwen: Dw i ddim yn credu hynny

Beryl: A pam mae o'n byw yn hostel y myfyrwyr, wyt ti'n meddwl?

Gwen: Dw i ddim yn siwr

Beryl: Mi gaeth o ei daflu allan o'i fflat ar ôl i'r landleidi gerdded i mewn ar ganol orji

Gwen: Orji?

Beryl: Ia, roedd 'na...O, rhaid i mi fynd. Mae Sadaam Hussein yn dwad. Meddylia'n ofalus cyn i ti adael Siôn i mewn i dy fflat di, Gwen fach. Meddylia'n ofalus iawn, iawn.

### Pennod 43

Mi gyrhaeddodd Siôn fflat Gwen am saith o'r gloch nos Lun. Mi gnociodd Siôn ar y drws, ond doedd 'na ddim ateb. Mi gnociodd o eto ac eto, ond dim ateb. Mi ddechreuodd o weiddi. Yn y diwedd, mi gaeth o ateb.

Siôn: Gwen!

Gwen: Dos o'ma!

Siôn: Be'? Wnei di agor y drws 'ma plîs?

Gwen: Dos o'ma. Wyt ti ddim yn cael dwad i mewn

Siôn: Ond be' sy wedi digwydd?

Gwen: Dim byd

Siôn: Wna i ddim symud tan wyt ti'n deud wrtha i be' sy'n bod.... O, dw i'n gwybod ... Mae Beryl a Llinos wedi bod yn deud pethau ofnadwy amdana i, mae'n siwr. Paid â gwrando arnyn nhw. Gwen. Ga' i ddwad i mewn, plîs

Gwen: Na chei

Siôn: Plîs!

Gwen: Na!

Mi aeth Siôn allan o'r adeilad a dechrau dringo'r wal at ffenest fflat Gwen ar y llawr cynta. Pan welodd Gwen ei wyneb o wrth y ffenest, mi ddechreuodd hi sgrechian. Mi ffoniodd pobl y fflat drws nesa yr heddlu. Mae pum munud, mi gyrhaeddodd plismon.

Plismon: Helo, helo, helo. Mr. ap Huw. Dan ni'n cyfarfod eto. Wnewch chi ddwad efo fi i swyddfa'r heddlu, os gwelwch chi'n dda?

Pan gerddodd Siôn allan o swyddfa'r heddlu, roedd hi'n hanner awr wedi dau yn y bore. Mi gerddodd o'n ôl i hostel y myfyrwyr, ond pan gyrhaeddodd o, roedd y drws ar glo. Be' oedd o'n mynd i neud rwan?

Yn sydyn, mi welodd o fod ffenest ar agor ar goridor y trydydd llawr. Mi ddechreuodd o ddringo wal yr adeilad. Pan gyrhaeddodd o ffenest yr ail llawr, roedd hogan yn cerdded ar y coridor. Pan welodd hi wyneb Siôn yn y ffenest, mi ddechreuodd hi sgrechian. Mi ffoniodd rhywun yr heddlu. Mewn pum munud, roedd Siôn ar ei ffordd yn ôl i swyddfa'r heddlu ...

Plismon: Helo, helo, helo. Mr. ap Huw. Dan ni'n cyfarfod unwaith eto. Wneith rhai pobl byth ddysgu. Wel, dach chi'n mynd ar wyliau bach rwan. Wnewch chi ddim dringo trwy ffenest carchar Llanwlpan Scrubs ar hast, Mr. ap Huw. Ha! Ha! Ha!

## Pennod 44

Bore Mawrth. Mae Siôn yng ngharchar Llanwlpan Scrubs. Yn yr ysbyty, mae Gwen yn mynd o gwmpas ward pump. Mae hi'n dwad at wely Gruff Gruffydd

Gwen: Sut dach chi heddiw, Mr. Gruffydd?

Gruff: Ddim yn ddrwg, diolch nyrs. Lle mae Mr. ap Huw y bore 'ma?

Gwen: Dydy o ddim yn dwad i mewn heddiw

Gruff: Gwyliau?

Gwen: Ia, dyna chi.

Gruff: Am faint?

Gwen: Dw i ddim yn siwr. Wythnos neu ddwy, ella. Mae'n dibynnu ...

Gruff: O?

Gwen: Beth bynnag, sut dach chi'n dwad ymlaen?

Gruff: Dw i yn well, ond dw i'n dal i gael ffitiau ofnadwy o dreigloffobia weithiau.

Gwen: Treigloffobia? Dw i ddim wedi clywed am dreigloffobia o'r blaen

Gruff: O, mae'n beth ofnadwy. Tiwtor Cymraeg dw i, dach chi'n gweld, a mae lot o'r dysgwyr yn poeni am y treigladau trwy'r amser, yn cwyno am y treigladau ac yn gofyn cwestiynau am y treigladau. Treigladau fama, treigladau fan'cw. Treigladau, treigladau. Pawb yn neud ffys mawr am blwmin treigladau..

Gwen: Mr. Gruffydd bach. Peidiwch ag ypsetio. Dydy'r treigladau ddim yn broblem o gwbl. Maen nhw'n dwad yn naturiol.

Gruff: Ydyn, wrth gwrs. Ond triwch ddeud hynny wrth y bobl sy'n dysgu Cymraeg.

Gwen: Ond Mr. Gruffydd, dysgwraig dw i.

Gruff: Chi? wedi dysgu Cymraeg?

Gwen: Do, ar gwrs Wlpan ym Mlaenau Ffestiniog

Gruff: Ond dach chi'n dwad o deulu Cymraeg. Mae hynny'n help

Gwen: Nac ydw, dw i ddim. Mi ges i fy ngeni a fy magu yn Southampton.

Gruff: Ond mae gynnoch chi enw Cymraeg.

[Drosodd]

Gwen: Dw i wedi newid fy enw. Fasai neb yn siarad Cymraeg efo hogan o'r enw Henrietta Swigglesthorpe.

Gruff: Mae'r enw "Gwen" yn eich siwtio chi'n llawer gwell. A dach chi'n deud bod y treigladau ddim yn broblem o gwbl?

Gwen: Ddim o gwbl.

Gruff: Wnewch chi ei ddeud o eto?

Gwen: Dydy'r treigladau ddim yn broblem o gwbl.

Gruff: O! Mae o fel miwsig i fy nghlustiau i.

Gwen: Mae'r treigladau'n dwad yn naturiol.

Gruff: O Gwen. Dw i'n teimlo'n fendigedig. Mae'n ecstasi. O Gwen, sut dw i'n mynd i ddiolch i chi? Ga' i roi sws i chi?

Gwen: Arhoswch am funud. Well i ni dynnu'r llenni.

Mae'r ddau'n cusanu

Gwen: Arhoswch am funud. Well i mi dynnu fy sbectol a thynnu'r "bun" 'ma i lawr.

Mae'r ddau'n cusanu eto ...

Pan wnaeth Siôn ddwad yn ôl i'r ysbyty, ar ôl pythefnos yng ngharchar Llanwlpan Scrubs, mi glywodd o fod o wedi colli ei swydd a bod Llinos rwan yn Sister ar ward pump. Hefyd, mi glywodd o fod Gruff Gruffydd wedi gadael yr ysbyty ac wedi symud i mewn i fflat Gwen.

Arhosodd Siôn ddim i glywed mwy. Mi gerddodd o allan o'r ysbyty a chlywodd neb ddim byd am Siôn ap Huw byth wedyn.

## Y DIWEDD



# **GEIRFA**

## **Cymraeg - Saesneg**

# GEIRFA - VOCABULARY

## Cymraeg - Saesneg

Please note the following points:

### 1. Word order

The order of the letters in the Welsh alphabet is as follows:

a, b, c, **ch**, d, **dd**, e, f, **ff**, g, **ng**, h, i, l, **ll**, m, n, o, p, **ph**, r, **rh**, s, t, **th**, u, w, y

The listing in this index (and in any Welsh dictionary) is based on that order. Note that the "double" consonants above count as single letters. This means that words often appear in a different sequence to the order in which they would come in an English dictionary.

e.g.	<i>coes</i> comes before <i>chwaer</i>	( <b>ch</b> after <b>c</b> )
	<i>rwan</i> comes before <i>rhieni</i>	( <b>rh</b> after <b>r</b> )
	<i>defnyddio</i> comes before <i>deffro</i>	( <b>ff</b> after <b>f</b> )
	<i>anghofio</i> comes before <i>ail</i> and <i>am</i>	( <b>i</b> and <b>m</b> after <b>ng</b> )

### 2. Mutations

All words are listed in their original form. The first letter of words often mutates in Welsh:

e.g.	<i>merch</i>	>	<i>y ferch</i>
	<i>coes</i>	>	<i>fy nghoes</i>

but the forms *ferch* and *ngoes* will not appear in this index nor in most Welsh dictionaries. At the start of each section, the possible sources of any mutated forms are listed. For example, under **F**, it is noted: "could be mutated from B or M". Since *ferch* does not appear under F, one can then refer to sections B and M to see whether *\*berch* or *merch* is listed.

### 3. Gender

(m) = masculine                      (f) = feminine

Feminine nouns mutate softly after **y** and **un**. A following adjective also takes the soft mutation (e.g. *merch fach*). The forms *dwy*, *tair*, *pedair* are also required with feminine nouns.



## A

*A could also be a mutated form of GA*

a	-	and
â	-	as
ac	-	and
ac ati	-	etc.
achosi	-	to cause
achub	-	to rescue
adeilad (m)	-	building
adeiladu	-	to build
adeiladwyr	-	builders
adra	-	home
addo	-	to promise
afon (f)	-	river
agor	-	to open
agos	-	near, close
angen (m)	-	need
anghofio	-	to forget
ail	-	second
ail-	-	re-
allan	-	out
Almaen	-	Germany
am	-	about, for
am!	-	what a! how!
amdana i	-	about me, for me
amhosib	-	impossible
aml	-	often
amlwg	-	obvious
amser (m)	-	time
amynedd (m)	-	patience
anfon	-	to send
anifail (m)	-	animal
anlwcus	-	unlucky
annifyr	-	unpleasant, miserable
annwyd (m)	-	a cold
anobeithiol	-	hopeless
anodd	-	difficult
anrheg (f)	-	gift
apwyntiad (m)	-	appointment
ar	-	on
ar agor	-	open
ar ben fy hun	-	by myself, alone
ar gael	-	available
ar gau	-	closed
ar glo	-	locked
ar hyd	-	along
ar hyn o bryd	-	at the moment

ar lan y môr	-	at the seaside
ar ôl	-	after, remaining
ar unwaith	-	at once, immediately
araf	-	slow
arall	-	other
arbennig	-	special
archebu	-	to order
archfarchnad (f)	-	super market
ardal (f)	-	area
ardderchog	-	excellent
arfer	-	habit
(fel arfer	-	usually, as usual)
arfer efo	-	to be used to
arian (m)	-	money, silver
arna i	-	on me
aros	-	to stay, to wait
arwyddo	-	to sign
at	-	to
ata i	-	to me
atgoffa	-	to remind
athrawes(f)	-	teacher
athro (m)	-	teacher
awr (f)	-	hour
Awst	-	August
awyr iach	-	fresh air
awyren	-	aeroplane

## B

*B could also be a mutated form of P*

bach	-	small
bai (m)	-	blame, fault
balch	-	proud, pleased
bara (m)	-	bread
bechod!	-	pity!
bedd (m)	-	grave
bendigedig	-	wonderful
benthyg	-	loan
(cael benthyg	-	to borrow)
berwi	-	to boil
beth (be')	-	what
be' sy?	-	what's wrong
biau	-	to own
bisgeden	-	biscuit
blaen: o'r blaen	-	before, previously
blasus	-	tasty
ble	-	where
blin	-	angry

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

blino (wedi blino)-	to tire (tired)	cael	- to have, to get
blodau (m)	- flowers	caled	- hard
blwyddyn (f)	- year	call	- sensible
blynedd (f)	- years (after number)	cân (f)	- song
blynyddoedd	- years	cannoedd	- hundreds
bob	- every	canol	- middle, centre
bobl bach	- goodness me	cant (m)	- hundred
bod	- to be	cantores (f)	- singer
bodio	- to thumb	canu	- to sing, to ring
bodd: wrth fy	- delighted, in my	canwr (m)	- singer
modd	element	carchar (m)	- prison
bol (m)	- stomach	caredig	- kind
bore (m)	- morning	cariad (m)	- love, boyfriend, girlfriend
braf	- fine	carreg (f)	- stone
braich (f)	- arm	caru	- to love
braidd	- rather	cas	- nasty
brathu	- to bite	cath (f)	- cat
brawd (m)	- brother	cau	- to close
brecwast (m)	- breakfast	cawl (m)	- soup
brechdanau	- sandwiches	caws (m)	- cheese
breuddwydio	- to dream	cefn (m)	- back
brifo	- to hurt	cefnder (m)	- cousin
bron	- almost	ceg (f)	- mouth
brys (m)	- hurry, haste	cegin (f)	- kitchen
brysio	- to hurry	ceiniog (f)	- penny
buan	- soon	celwydd (m)	- lie, untruth
budr	- dirty	cell (f)	- cell
buwch (f)	- cow	cer/cerwch	- go (command)
bwrdd (m)	- table	cerdyn (m)	- card
bwrw glaw	- to rain	cerdded	- to walk
bwthyn (m)	- cottage	cerddoriaeth (f)	- music
bwyd (m)	- food	cerrig	- stones
bwydo	- to feed	ci (m)	- dog
bwyta	- to eat	cig (m)	- meat
byd (m)	- world	cinio (m)	- lunch, dinner
bynag:		claf (m)	- patient, sick person
beth bynnag	- whatever, anyway	clasurol	- classical
byr	- short	clebran	- to chat, to gossip
bys (m)	- finger	clên	- kind, friendly
byth	- ever, never	clepian	- to slam
byw	- to live	clets (f)	- slap
bywyd (m)	- life	clir	- clear
<b>C</b>		clirio	- to clear
cacen (f)	- cake	clo	- lock
cadair (f)	- chair	cloi	- to lock
cadw	- to keep	clust(-iau)(f)	- ear(s)
		clyfar	- clever

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

clywed	-	to hear	cyflym	-	quick, fast
coblyn:			cyfnither (f)	-	cousin
be' goblyn	-	what on earth	cyfoes	-	contemporary, current
coch	-	red	cyfraith	-	law
codi	-	to get up, to raise, to lift	(yng nghyfraith	-	in law)
			cyfreithiwr (m)	-	lawyer
coes (f)	-	leg	cyfres	-	series
cofio	-	to remember	cyfri (m)	-	account, to count
coginio	-	to cook	cyfrifiadur (m)	-	computer
coleg (m)	-	college	cyfweliad (m)	-	interview
colli	-	to lose	cyffrous	-	exciting
côr (m)	-	choir	cyffuriau (m)	-	drugs
corff (m)	-	body	cyngerdd (m)	-	concert
cornel (f)	-	corner	cyngor (m)	-	advice, council
costio	-	to cost	cymaint	-	so much, so many, as much, as many
côt (f)	-	coat			
crafwr (m)	-	creep	cymdeithasol	-	social
credu	-	to believe	cymdogion	-	neighbours
cribo	-	to comb	cymi/cymwch	-	you will have (cymryd)
croesi	-	to cross			
croeso (m)	-	welcome	Cymraeg	-	Welsh
crwydro	-	to wander	Cymraes (f)	-	Welshwoman
cryf	-	strong	Cymro (m)	-	Welshman
crys (m)	-	shirt	Cymru (f)	-	Wales
cuddio	-	to hide	cymryd	-	to take, to have
cur pen (m)	-	headache	cymydog	-	neighbour
curo	-	to beat, to knock	cymylog	-	cloudy
cwbl (o gwbl)	-	all (at all)	cyn	-	before
cwch (m)	-	boat	cynnar	-	early
cwffio	-	to fight	cynnes	-	warm
cwmni (m)	-	company	cynnig (m)	-	offer, to offer
cwmpas:			cynt	-	sooner, quicker
o gwmpas	-	around	cynta	-	first
cwningen (f)	-	rabbit	cyrraedd	-	to arrive, to reach
cwpan (f)	-	cup	cystadleuaeth (f)	-	competition
cwpwrdd (m)	-	cupboard	cystadleuydd	-	competitor
cwrw (m)	-	beer	cysgu	-	to sleep
cwsmer	-	customer	cyw iâr (m)	-	chicken
cwyno	-	to complain	cywir	-	correct
cychwyn	-	to start			
cydweithiwr (m)	-	colleague			
cyfanswm (m)	-	total			
cyfarfod (m)	-	meeting, to meet			
cyfeiriad (m)	-	address			
cyfle (m)	-	chance, opportunity			
cyfleus	-	convenient			
cyflog (m)	-	salary			
cyflwyno	-	to introduce			
			<b>CH</b>		
			<i>CH could also be a mutated form of C</i>		
			chi	-	you
			chithau	-	you too
			chwaer	-	sister
			chwaith	-	either
			chwarae	-	to play

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

chwarae teg	-	fair play
chwaraeon	-	sport
chwarter (m)	-	quarter
chwech	-	six
Chwefror	-	February
chwerthin	-	to laugh
chwerw	-	bitter
chwilio am	-	to look for
chwith	-	left
chwysu	-	to sweat
chwythu	-	to blow

## D

*D could also be a mutated form of T*

da	-	good
dafad (f)	-	sheep
dal	-	to hold, to catch, to continue, still
daliwch ati	-	keep going
dallt	-	to understand
damwain (f)	-	accident
dan	-	under
dannedd (m)	-	teeth
dannodd (f)	-	toothache
dant (m)	-	tooth
darllen	-	to read
dau (m)	-	two
dawns (f)	-	dance
dawnsio	-	to dance
de (m)	-	south
de (y dde) (f)	-	right
dechrau	-	to start to begin
defnyddio	-	to use
deffro	-	to wake up
deg	-	ten
deg ar hugain	-	thirty
deintydd (in)	-	dentist
del	-	pretty
derbyn	-	to receive, to accept
deud (dweud)	-	to say, to tell
deuddeg	-	twelve
deunaw	-	eighteen
dewis (m)	-	choice, to choose
dianc	-	to escape
dibynnu	-	to depend
diddordeb (m)	-	interest
diddorol	-	interesting

difaru	-	to regret
diflas	-	boring, miserable
digalon	-	sad, depressed
digon	-	enough
digwydd	-	to happen
dillad	-	clothes
dim	-	not, none, zero
dim byd	-	nothing
dim ond	-	only
diod (f)	-	drink
diog	-	lazy
diogi	-	to laze
diolch	-	thank you
diolch byth	-	thank goodness
disgwyl	-	to expect, to wait
distaw	-	quiet
diwedd	-	end
(o'r diwedd	-	at last)
diwetha	-	last
diwrnod (m)	-	day
di-waith	-	unemployed
dod (dwad)	-	to come
dolur gwddw	-	sore throat
dosbarth (m)	-	class
drama (f)	-	play, drama
draw	-	over
(yn y pen draw	-	in the long run)
dringo	-	to climb
dros	-	over
dros dro	-	temporary
drud	-	expensive
drwg	-	bad, naughty,
drws	-	door
du	-	black
dwad (dod)	-	to come
dwad â	-	to bring
dweud (deud)	-	to say, to tell
dwn i (ddi)m	-	I don't know
dŵr	-	water
dwy (f)	-	two
dwyn	-	to steal
dwyrain (m)	-	east
dwywaith	-	twice
dy	-	your
dydd	-	day
dyddiad (m)	-	date
dyddiadur (m)	-	diary
dyfodol (m)	-	future

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

dyma	-	here is, here are
dyn (m)	-	man
dyna	-	there is, there are
dynes (f)	-	woman
dysgu	-	to teach, to learn

## DD

*DD could also be a mutated form of D*

ddoe	-	yesterday
------	---	-----------

## E

*E could also be a mutated form of GE*

Ebrill	-	April
edrych (ar)	-	to look (at)
efo	-	with
ei	-	his, her
eisiau (> isio)	-	to want
eich	-	your
Eidal	-	Italy
ein	-	our
eistedd	-	to sit
eitha	-	fairly, quite
eleni	-	this year
ella (< efallai)	-	perhaps
ennill	-	to win, to earn
enw (m)	-	name
eraill (< arall)	-	others
erbyn	-	by (a time)
yn erbyn	-	against
erbyn hyn	-	by now
erioed	-	ever, never
ers	-	since
(ers talwm	-	a long time ago)
esbonio	-	explain
esgid(-iau) (f)	-	shoe(-s)
esgusodi	-	to excuse
estyniad (m)	-	extension
eto	-	again, yet
eu	-	their

## F

*F could also be a mutated form of B or M*

faint	-	how much, how many
faint o'r gloch	-	what time
fama	-	here

fana	-	there
fan'cw	-	over there
fcnga	-	youngest
fengach	-	younger
fel	-	like, as
felly	-	so, therefore
fi	-	me
finnau	-	me too
fo	-	him, he
fy	-	my
fyny: i fyny	-	up

## FF

ffair (f)	-	fair, funfair
ffenest (f)	-	window
ffisig (m)	-	medicine
ffonio	-	to phone
ffordd (f)	-	road, way
fforddio	-	to afford
Ffrainc	-	France
ffrind (-iau)	-	friend(-s)
ffrwyth(au) (m)	-	fruit
ffwrdd: i ffwrdd	-	away
ffyrdd (f)	-	roads

## G

*G could also be a mutated form of C*

ga i?	-	may I (have)?
gadael	-	to leave, to let
gaea (m)	-	winter
gafael yn	-	to hold
gafr (f)	-	goat
gair (geiriau) (m)	-	word(-s)
galw	-	to call
galwad	-	a call
galwyn (m)	-	gallon
gan	-	by, from
gardd (f)	-	garden
garddio	-	to garden
geni	-	to be born
genod (f)	-	girls
glân (yn lân)	-	clean (completely)
glanhau (llnau)	-	to clean
glas	-	blue
glaw	-	rain
go	-	quite

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**



hen	-	old	licio	-	to like
heno	-	tonight	lol	-	nonsense
het (f)	-	hat	lôn	-	lane
hi	-	her, she	lwcus	-	lucky
hir	-	long			
hoff	-	favourite	<b>LL</b>		
hoffi	-	to like			
hogan (f)	-	girl	lladron	-	robbers
hogiau (m)	-	boys	lladd	-	to kill
hogyn (m)	-	boy	llai	-	smaller, less
hollol	-	exactly, completely	(pam lai?		why not?)
hon (f)	-	this	llais (m)	-	voice
hufen (iâ)	-	(ice) cream	llall	-	other
hun	-	self	llaw (f)	-	hand
hwn (m)	-	this	llawdriniaeth (f)	-	operation
hwanna (m)	-	that	llawen	-	happy
hwyaden (f)	-	duck	llawer	-	a lot, much, many
hwyl	-	fun, goodbye	llawn	-	full
hwyliau	-	mood	llawr	-	floor
hwyllo	-	to sail	lle	-	where
hwylus	-	handy	lle (m)	-	place, room
hwyr	-	late	(yn lle		instead of)
Hydref	-	October, autumn	lle chwech	-	toilet
hyfryd	-	lovely	llefrith (m)	-	milk
hyn	-	this (abstract)	lleia	-	smallest, least
hÿn	-	older	(o leia		at least)
hyna	-	oldest	lleidr (m)	-	burglar
hynna/hynny	-	that (abstract)	llenni	-	curtains
hysbyseb (f)	-	advertisement	llenwi	-	to fill
			llestri	-	dishes
<b>I</b>			lleuad (f)	-	moon
			llew (m)	-	lion
i	-	to, for	lliw (m)	-	colour
iach	-	healthy	llnau (< glanhau)	-	to clean
iâr (f)	-	hen	Lloegr	-	England
iau (m)	-	liver	lloff (f)	-	bedroom
iawn	-	fine, right, very	llong (f)	-	ship
iechyd	-	health	llond bol	-	bellyful, fed up
Ionawr	-	January	llongyfarchiadau	-	congratulations
is	-	lower	llosgi	-	to burn
isio (< eisiau)	-	to want	llun (-iau) (m)	-	picture (-s)
Iwerddon	-	Ireland	Llundain	-	London
			llwyaid (f)	-	spoonful
<b>L</b>			llwyd	-	grey
			llyfr (m)	-	book
			llygad (m)	-	eye
larwm (m)	-	alarm	llygaid	-	eyes
lawr: i lawr	-	down	llynedd	-	last year

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

llyisiau (m)	-	vegetables
llysieuwr (m)	-	vegetarian
llythyr (m)	-	letter

## M

*M could also be a mutated form of B or P:  
m < b ; mh < p.*

mab (m)	-	son
mae	-	is
mae'n ddrwg gen i	-	I'm sorry
maes (m)	-	field
maes parcio	-	car park
magu	-	to bring up
Mai	-	May
mam (f)	-	mother
mân	-	small
manylion (m)	-	details
marchnad (f)	-	market
marw	-	to die
math	-	sort, type
mawr (yn fawr)	-	big (very much)
Mawrth	-	March, Tuesday
Medi	-	September
medru	-	to be able to
meddai hi	-	she said
meddwl	-	to think, to mean
meddwl (m)	-	mind
meddyg	-	doctor
Mehefin	-	June
melyn	-	yellow
merch (f)	-	girl, daughter
methu	-	to be unable, to miss
mewn	-	in
mil (f)	-	thousand
milltir (f)	-	mile
mis (m)	-	month
mis mêl	-	honeymoon
mochyn (m)	-	pig
moch	-	pigs
modfedd (f)	-	inch
Môn	-	Anglesey
mor	-	so
môr (m)	-	sea
moron (f)	-	carrots
munud (m)	-	minute
mwy	-	more, bigger

mwya	-	most, biggest
mwynhau	-	to enjoy
myfyriwr (m)	-	student
mynd	-	to go
mynd â	-	to take

## N

*N could also be a mutated form of D or T:  
n < d ; nh < t.*

nabod	-	to know, to be acquainted with
Nadolig (m)	-	Christmas
nain (f)	-	grandmother
na/nac	-	no, nor
na/nag	-	than
naw	-	nine
neb	-	nobody
nefi blw	-	goodness me
neges (f)	-	message
negyddol	-	negative
neidio	-	to jump
neis	-	nice
neithiwr	-	last night
nes	-	until, nearer
nes ymlaen	-	later on
nesa	-	next
neu	-	or
neuadd (f)	-	hall
neud (< gwneud)	-	to do, to make
newid (m)	-	change, to change
newydd	-	new
newyddion	-	news
ni	-	we, us
nionod	-	onions
niwl (m)	-	fog
nhw	-	they, them
nodiadau (m)	-	notes
nodwydd (f)	-	needle
nodyn (m)	-	note
nofio	-	to swim
nôl	-	to fetch
nos (f)	-	night, evening
noson (f)	-	night, evening
noswaith dda	-	good evening
nwy (m)	-	gas
nyrs	-	nurse

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**



## O

*O could also be a mutated form of GO*

o	- of, from	pêl (f)	- ball
ochr (f)	- side	pêl droed	- football
oed	- age, years old	pell	- far
oedolion (m)	- adults	pen	- head, end
oer	- cold	pen-glin (f)	- knee
oergell (f)	- fridge	pen ôl (m)	- backside
ofnadwy	- terrible	penderfynu	- to decide
ôl: ar ôl	- after, left	pennaeth (m)	- boss, head
yn ôl	- back, ago, according to	pennod (f)	- chapter, episode
ond	- but	pentre (m)	- village
oren (m)	- orange	penwythnos	- weekend
os	- if	perffaith	- perfect
os gwelwch		peryg (peryglus)	- dangerous
chi'n dda	- please	peswch (m)	- cough
ots	- difference	peth (m)	- thing, it
owns (f)	- ounce	plant (< plentyn)	- children
o'ma	- off, away	plentyn (m)	- child
		plismon (m)	- policeman
		pob	- every
		pobl (f)	- people
		poen (f)	- pain
		poeni	- to worry, to bother
		poeth	- hot
		popeth (pob dim)	- everything
		prawf (m)	- test, proof
		pres (m)	- money
		pres parod	- cash
		prif	- main, chief
		prif weinidog	- prime minister
		prifathrawes (f)	- headmistress
		prifathro (m)	- headmaster
		priodi	- to get married
		pris (-iau) (m)	- price(-s)
		profiad	- experience
		pryd	- when, meal
		prynhawn	
		(>pnawn) (m)	- afternoon
		prynu	- to buy
		prysur	- busy
		pump	- five
		punt (f)	- pound
		pwell nofio (m)	- swimming pool
		pwnc (m)	- subject
		pwyl	- who
		pwylt (m)	- point
		pwys(-au) (in)	- pound, weight
		pwysig	- important
		pymtheg	- fifteen

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

pys (f)	-	peas
pysgod (m)	-	fish
pysgota	-	to fish
pythefnos	-	fortnight

## PH

*All words starting with PH will have been mutated from P*

## R

*R could also be a mutated form of RH or GR*

ras (f)	-	race
reit	-	quite
restio	-	to arrest
rwan	-	now

## RH

rhad	-	cheap
rhaeadr (f)	-	waterfall
Rhagfyr	-	December
rhaglen (f)	-	programme
rhai	-	some
rhaid	-	must, need
rhain	-	these
rhamantus	-	romantic
rhan (f)	-	part
rhedeg	-	to run
rheina	-	those
rheolwr (m)	-	manager
rhesymol	-	reasonable
rhw (m)	-	ice
rhewi	-	to freeze
rhieni	-	parents
rhif (m)	-	number
rhoi	-	to give, to put
rhwng	-	between
rhy	-	too
rhydd	-	free
rhyfedd	-	funny, strange
rhyw	-	some, about
rhywbeth	-	something
rhywle	-	somewhere
rhywun	-	someone

## S

Saesneg	-	English
Sais	-	Englishman
saith	-	seven
sâl	-	ill
sbectol (f)	-	spectacles
sbio	-	to look
sebon (m)	-	soap
sefyll	-	to stand
sêr (< seren) (f)	-	star
sgert (f)	-	skirt
sglodion	-	chips
sgrechian	-	to scream
sgwrs (f)	-	chat, conversation
sgwrsio	-	to chat
siapio	-	to shape up
siarad	-	to talk, to speak
siawns (f)	-	chance
siec (-iau) (f)	-	cheque(-s)
siocled (m)	-	chocolate
sioe (f)	-	show
siomedig	-	disappointing
Siôn Corn	-	Father Christmas
siopa	-	to shop
sir (f)	-	county
siwgr (m)	-	sugar
siwmpwr (f)	-	jumper
siwr	-	sure
siwrne (f)	-	journey
smocio	-	to smoke
smwddio	-	to iron
sothach (m)	-	rubbish
sownd	-	stuck
'sti	-	you know
stormus	-	stormy
stryd (-oedd) (f)	-	street(-s)
sudd (m)	-	juice
sut	-	how, what kind of
sŵn (m)	-	noise, sound
swnllyd	-	noisy
sws (f)	-	kiss
swydd (f)	-	job
Swydd Efrog	-	Yorkshire
swyddfa (f)	-	office
sych	-	dry
sydyn	-	sudden
sylweddoli	-	to realise

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

symud	-	to move
syniad (m)	-	idea
synnu	-	to be surprised
syth	-	straight

## T

'ta	-	or, then
Tachwedd	-	November
tad (m)	-	father
tafarn (f)	-	pub
taflu	-	to throw
taid (m)	-	grandfather
tair (f)	-	three
taith (f)	-	journey
(taith gerdded	-	a walk)
tal	-	tall
taladwy	-	payable
talwm: ers talwm	-	a long time ago
talw	-	to pay
tamaid (m)	-	piece, bit
tan	-	until
tân	-	fire, light
te (m)	-	tea
tebot (m)	-	teapot
tebyg	-	likely, similar
tegell (m)	-	kettle
tei (m)	-	tie
teimlo	-	to feel
teisen (f)	-	cake
teithio	-	to travel
teledu (m)	-	television
teulu (m)	-	family
tew	-	fat, thick
ti	-	you
tipyn	-	a bit
tithau	-	you too
to (m)	-	roof
tocyn (m)	-	ticket
torheulo	-	to sunbathe
torri	-	to cut, to break
torth (f)	-	loaf
tra	-	while
traeth (m)	-	beach
trafferth (f)	-	trouble
tre (f)	-	town
trefnu	-	to arrange
treigladd (m)	-	mutation

tri (m)	-	three
tri ar ddeg (m)	-	thirteen
trio	-	to try
tro	-	turn, time
(am dro	-	for a walk/spin)
troed (f)	-	foot
troedfedd (f)	-	foot (length)
troi	-	to turn
trwm	-	heavy
trwy	-	through
trwyn (m)	-	nose
trydan (m)	-	electricity
tu allan i	-	outside
tu ôl i	-	behind
tua	-	about, towards
twll (m)	-	hole
twmffat (m)	-	fool, funnel
twmpath (m)	-	heap, folk dance
tŷ (m)	-	house
tŷ bach (m)	-	toilet
tydy?	-	isn't it?
tyddyn (m)	-	smallholding
tyfu	-	to grow
tynnu	-	to pull, to take out/off
tynnu lluniau	-	to take pictures, to draw
tyrd	-	come
tywydd (m)	-	weather
tywyll	-	dark
tywysog (m)	-	prince

## U

ucha	-	highest
uchel	-	high
ugain	-	twenty
un	-	one
un ar bymtheg	-	sixteen
un ar ddeg	-	eleven
unig	-	only, lonely
unrhyw	-	any
unwaith	-	once

## W

*Could also be a mutated form of GW*

wedyn	-	then, afterwards
weithiau	-	sometimes

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

wela i chi	-	I'll see you
wir		really, indeed
wrth	-	by, while, to
wrth fy modd	-	delighted, in my element
wrth gwrs	-	of course
wrtha i	-	to me
wy (m)	-	egg
Wyddfa (f)	-	Snowdon
wyneb (m)	-	face
wŷr (m)	-	grandson
wyres (f)	-	grand-daughter
wyrion	-	grandchildren
wyth	-	eight
wythnos (f)	-	week

## Y

y	-	the
ychedig	-	a few
yfed	-	to drink
yfory	-	tomorrow
yma	-	here, this
ymarfer (m)	-	exercise, to practise
ymbarel (m)	-	umbrella
ymddeol	-	to retire
ymlacio	-	to relax
ymlaen	-	forward, on
ymolchi	-	to wash
ymweld â	-	to visit
yn	-	in
yna	-	there, then, that
ynys (f)	-	island
yr	-	the
yr un	-	the same, each
ysbyty (m)	-	hospital
ysgafn	-	light
ysgariad (m)	-	divorce
ysgol (f)	-	school, ladder
ysgrifennu	-	to write
ystafell (f)	-	room
ystod: yn ystod	-	during

**If in difficulty, please refer to the notes at the start of this index**

# **GEIRFA**

## **Saesneg - Cymraeg**

## **VOCABULARY - GEIRFA**

English - Welsh

This is only intended as a rough guideline. Double-check in the Welsh-English list to confirm that you have chosen the correct word and for information regarding part of speech and gender.

**A**

able	- medru
about	- am, tua, rhyw
accept	- derbyn
accident	- damwain
according to	- yn ôl
account	- cyfri
acquainted	- nabod
address	- cyfeiriad
adults	- oedolion
advertisement	- hysbyseb
advice	- cyngor
aeroplane	- awyren
afford	- fforddio
after	- ar ôl
afternoon	- prynhawn
afterwards	- wedyn
again	- eto
against	- yn erbyn
age	- oed
ago	- yn ôl
air (fresh air)	- awyr (awyr iach)
alarm	- larwm
all	- i gyd, holl
all (at all)	- cwbl (o gwbl)
almost	- bron
alone	- ar ben fy hun
along	- ar hyd
also	- hefyd
and	- a, ac
Anglesey	- Môn
angry	- blin
animal	- anifail
any	- unrhyw
anyway	- beth bynnag
apologise	- ymddiheuro
appointment	- apwyntiad
April	- Ebrill
area	- ardal
arm	- braich
arms	- arfau
around	- tua, o gwmpas
arrange	- trefnu
arrest	- restio
arrive	- cyrraedd
as (as much/many)	- fel (cymaint)
ask	- gofyn

August	- Awst
autumn	- hydref
available	- ar gael
away	- i ffwrdd

**B**

babysit	- gwarchod
back	- cefn, yn ôl
backside	- pen ôl
bad	- drwg
ball	- pêl
be	- bod
beach	- traeth
beat	- curo
bed	- gwely
bedroom	- llofft
beer	- cwrw
before	- cyn, o'r blaen
before long	- cyn bo hir
begin	- dechrau
behind	- tu ôl
believe	- credu
bellyful	- llond bol
best	- gorau
better	- gwell
between	- rhwng
big	- mawr
bigger	- mwy
biggest	- mwya
bit	- tipyn, tamaid
bite	- brathu
bitter	- chwerw
black	- du
blame	- bai
blood	- gwaed
blow	- chwythu
blue	- glas
book	- llyfr
boring	- diflas
born	- geni
borrow	- cael benthyc
boss	- pennaeth
bother	- poeni
bottle	- potel
boy	- bachgen, hogyn
boyfriend	- cariad
brand new	- newydd sbon

bread	-	bara	choose	-	dewis
break	-	torri	Christmas	-	Nadolig
breakfast	-	brecwast	class	-	dosbarth
bring	-	dwad â	classical	-	clasuroi
bring up	-	magu	clean	-	glân, llau, glanhau
brother	-	brawd	clear	-	clir, clirio
build	-	codi, adeiladu	clever	-	clyfar, peniog
building	-	adeilad	climb	-	dringo
burglar	-	lleidr	close	-	cau, agos
burn	-	llosgi	closed	-	ar gau
busy	-	prysur	clothes	-	dillad
but	-	ond	cloudy	-	cymylog
butcher	-	cigydd	coat	-	côt
buy	-	prynu	cold	-	oer, annwyd
by	-	erbyn, gan, wrth	colleague	-	cydweithiwr
by now	-	erbyn hyn	college	-	coleg

## C

cake	-	cacen, teisen	colour	-	lliw
call	-	galw, galwad	comb	-	crib, cribo
car park	-	maes parcio	come	-	dwad
card	-	cerdyn	company	-	cwmni
care	-	gofal, gofalu	competition	-	cystadleuaeth
careful	-	gofalus	competitor	-	cystadleuydd
carrots	-	moron	complain	-	cwyno
cash	-	pres parod	completely	-	yn lân, yn hollol
cat	-	cath	computer	-	cyfrifiadur
catch	-	dal	concert	-	cyngerdd
cause	-	achosi	congratulations	-	llongyfarchiadau
cell	-	cell	continue	-	dal i
centre	-	canol	contemporary	-	cyfoes
chance	-	siawns, cyfle	convenient	-	cyfleus
change	-	newid	conversation	-	sgwrs
chaos	-	traed moch	cook	-	coginio
chapter	-	pennod	corner	-	cornel
chat	-	sgwrs, clebran	correct	-	cywir
cheap	-	rhad	cost	-	costio
cheeky	-	digywilydd	cottage	-	bwthyn
cheese	-	caws	cough	-	peswch
cheque	-	siec	council	-	cyngor
chicken	-	cyw iâr	count	-	cyfri
chief	-	prif	country	-	gwlad
child	-	plentyn	county	-	sir
chips	-	sglodion	cousin	-	cefneder, cyfnither
chocolate	-	sioled	cow	-	buwch
choice	-	dewis	cream	-	hufen
choir	-	côr	creep	-	crafwr
			cross	-	blin, croesi
			cup	-	cwpan
			cupboard	-	cwpwrdd



cuppa	-	panad	drunk	-	wedi meddwi
current	-	cyfoes	dry	-	sych
curtains	-	llenni	duck	-	hwyaden
customer	-	cwsmer	during	-	yn ystod
cut	-	torri			

## D

dance	-	dawns, dawnsio
dangerous	-	perylus
dark	-	tywyll
date	-	dyddiad
daughter	-	merch, hogan
day	-	dydd, diwrnod
December	-	Rhagfyr
dead	-	wedi marw
decide	-	penderfynu
delighted	-	wrth fy modd
dentist	-	deintydd
depend	-	dibynnu
depressed	-	digalon
deserve	-	haeddu
details	-	manylion
diary	-	dyddiadur
die	-	marw
difference	-	gwahaniaeth
different	-	gwahanol
difficult	-	anodd
dig	-	palu
dinner	-	cinio
dirty	-	budr
disappear	-	diflannu
disappointing	-	siomedig
dishes	-	llestri
divorce	-	ysgariad
do	-	gwneud (neud)
doctor	-	meddyg
dog	-	ci
don't	-	paid, peidiwch
door	-	drws
down	-	i lawr
draw	-	tynnu llun
dream	-	breuddwydio
dress	-	gwisgo, ffrog
drink	-	yfed, diod
drive	-	gyrru
driver	-	gyrrwr
drugs	-	cyffuriau

## E

each	-	yr un, pob
ear	-	dust
early	-	cynnarn
earn	-	ennill
easier	-	haws
east	-	dwyrain
easy	-	hawdd
eat	-	bwyta
egg	-	wy
eight	-	wyth
eighteen	-	deunaw
either	-	chwaith
electricity	-	trydan
eleven	-	un ar ddeg
end	-	diwedd, pen
England	-	Lloegr
English	-	Saesneg
Englishman	-	Sais
Englishwoman	-	Saesnes
English people	-	Saeson
enjoy	-	mwynhau
enough	-	digon
enquire	-	holi
entertainment	-	adloniant
episode	-	pennod
escape	-	dianc
estate agents	-	gwerthwyr tai
etc.	-	ac ati
evening	-	nos, noson
eventually	-	yn y diwedd
ever	-	byth, erioed
every	-	pob
everybody	-	pawb
everything	-	popeth
exactly	-	hollol
excellent	-	ardderchog
exciting	-	cyffrous
excuse	-	esgusodi
exercise	-	ymarfer
expect	-	disgwyl
expensive	-	drud

experience	- profiad
explain	- esbonio
extension	- estyniad
eye	- llygad
<b>F</b>	
face	- wyneb
fail	- methu
fair	- golau, teg, ffair
fairly	- eitha
family	- teulu
far	- pell
fast	- cyflym, sydyn
fat	- tew
father	- tad
Father Christmas	- Siôn Corn
fault	- bai
favourite	- hoff
February	- Chwefror
feed	- bwydo
feel	- teimlo
fetch	- nôl
few	- ychydig
fewer	- llai
field	- cae, maes
fifteen	- pymtheg
fifty	- hanner cant
fight	- cwffio
fill	- llenwi
find	- ffindio, dwad o hyd i
fine	- braf, iawn
finger	- bys
finish	- gorffen
fire	- tân
first	- cynta
fish	- pysgod, pysgota
fit	- heini
five	- pump
floor	- llawr
flowers	- blodau
fluent	- rhugl
fly	- hedfan
fog	- niwl
folk	- gwerin
folk dance	- twmpath dawns
follow	- dilyn
food	- bwyd

fool	- twmffat
foot	- troed, troedfedd
football	- pêl-droed
for	- am, i
forget	- anghofio
fortnight	- pythefnos
forward	- ymlaen
four	- pedwar, pedair
fourteen	- pedwar ar ddeg
France	- Ffrainc
free	- am ddim, rhydd
freeze	- rhewi
fridge	- oergell
friendly	- clên
from	- o, gan
fruit	- ffrwyth
full	- llawn
fun	- hwyl
funny	- rhyfedd (strange) digri (humorous)
future	- dyfodol

## G

gallon	- galwyn
garden	- gardd
gas	- nwy
Germany	- Yr Almaen
get	- cael
get up	- codi
gift	- anrheg
girl	- hogan, merch
girlfriend	- cariad
girls	- genod
give	- rhoi
go	- mynd
goat	- gafr
good	- da
goodbye	- hwyl
goodness me	- bobl bach, nefi blw
gossip	- clebran
grandchildren	- wyrion
grand-daughter	- wyres
grandfather	- taid
grandmother	- nain
grandson	- wŷr
grave	- bedd
green	- gwyrdd

grey - llwyd  
 grow - tyfu  
 guard - gwarchod

## H

habit - arfer  
 hair - gwallt  
 half - hanner  
 hall - neuadd  
 hand - llaw  
 hands - dwylo  
 handy - hwylus  
 happen - digwydd  
 happy - hapus, llawen  
 hard - caled  
 hat - het  
 hate - mae' n gas gen i  
 have - cael  
 he - o, fo  
 head - pen  
 headmaster - prifathro  
 headmistress - prifathrawes  
 health - iechyd  
 healthy - iach  
 heap - twmpath  
 hear - clywed  
 heat - gwres  
 heaven - nefoedd  
 heavy - trwm  
 headache - cur pen  
 hen - iâr  
 her - hi, ei  
 here (here is/are) - yma (dyma)  
 hide - cuddio  
 high - uchel  
 highest - ucha  
 him - o, fo  
 his - ei  
 history - hanes  
 hold - dal, gafael yn  
 hole - twll  
 holidays - gwyliau  
 home - adra, cartre  
 honey - mêl  
 honeymoon - mis mêl  
 hope - gobeithio  
 hopeless - anobeithiol

hospital - ysbyty  
 hot - poeth  
 hotel - gwesty  
 hour - awr  
 house - tŷ  
 how - sut, pa mor  
 how much/many - faint  
 hundred - cant  
 hurry - brys, brysio  
 hurt - brifo  
 husband - gŵr

## I

ice - rhew  
 ice cream - hufen iâ  
 idea - syniad  
 if - os, tasai  
 ill - sâl  
 immediately - ar unwaith  
 important - pwysig  
 impossible - amhosib  
 improve - gwella  
 in - yn, mewn, i mewn  
 inch - modfedd  
 indeed - wir  
 instead of - yn lle  
 interest - diddordeb  
 interesting - diddorol  
 interview - cyfweliad  
 introduce - cyflwyno  
 Ireland - Iwerddon  
 iron - smwddio  
 is - mae, ydy  
 island - ynys  
 Italy - Yr Eidal

## J

January - Ionawr  
 job - gwaith, swydd  
 journey - taith, siwrne  
 juice - sudd  
 July - Gorffennaf  
 jump - neidio  
 jumper - siwmpwr  
 June - Mehefin  
 just - newydd, dim ond

**K**

keep	-	cadw, dal
kettle	-	tegell
key	-	goriad
kill	-	lladd
kind	-	math, clên
kiss	-	sws
kitchen	-	cegin
knee	-	pen-glin
knit	-	gwau
knock	-	curo
know	-	gwybod, nabod

**L**

ladder	-	ysgol
lane	-	lôn
last (at last)	-	diwetha (o'r diwedd)
last night	-	neithiwr
late	-	hwyr
later on	-	nes ymlaen
laugh	-	chwerthin
law	-	cyfraith
lawyer	-	cyfreithiwr
laze	-	diogi
learn	-	dysgu
least (at least)	-	lleia (o leia)
leave	-	gadael
left	-	chwith, ar ôl
leg	-	coes
lend	-	benthyg
less	-	llai
let	-	gadael
letter	-	llythyr
lie	-	celwydd
lie down	-	gorwedd
life	-	bywyd
lift	-	liff, pas
light	-	golau, ysgafn, tân
like	-	licio, hoffi, fel
likely	-	tebyg
lion	-	llew
listen	-	gwranddo
live	-	byw
liver	-	iau
loaf	-	torth

lock	-	clo, cloi
locked	-	ar glo
London	-	Llundain
lonely	-	unig
long	-	hir
long time ago	-	ers talwm
look	-	edrych, sbio
look at	-	edrych ar
look for	-	chwilio am
lose	-	colli
lot	-	llawer
love	-	caru, cariad
lovely	-	hyfryd
lower	-	is
lucky	-	lwcus
lunch	-	cinio

**M**

machine	-	peiriant
main	-	prif
make	-	gwneud (neud)
man	-	dyn, gŵr
manager	-	rheolwr
many	-	llawer
March	-	Mawrth
market	-	marchnad
marry	-	priodi
May	-	Mai
may I?	-	ga' i?
me	-	fi
meal	-	pryd
mean	-	meddwl
meat	-	cig
medicine	-	ffisig
meet	-	cyfarfod
meeting	-	cyfarfod
mention	-	sôn am
message	-	neges
midday	-	hanner dydd
middle	-	canol
midnight	-	hanner nos
mile	-	milltir
milk	-	llefrith
mind	-	meddwl
minister	-	gweinidog
minute	-	munud
miserable	-	annifyr, diflas

miss	- colli, methu
moment: at the moment	- ar hyn o bryd
money	- pres, arian
mood	- hwyliau
moon	- lleuad
more	- mwy
morning	- bore
most	- mwya, y rhan fwya
mother	- mam
mouth	- ceg
move	- symud
much	- llawer
music	- cerddoriaeth
must	- rhaid
mutation	- treigladd
myself	- fy hun
(by myself	ar ben fy hun)

## N

name	- enw
nappy	- clwt
nasty	- cas
naughty	- drwg
near	- wrth, agos
nearer	- nes
neck	- gwddw
need	- angen
needle	- nodwydd
negative	- negyddol
nervous	- nerfus
never	- byth, erioed
new	- newydd
news	- newyddion
next	- nesa
nice	- neis
night	- nos, noson
nightdress	- coban
nine	- naw
nineteen	- pedwar ar bymtheg
no	- na, dim
nobody	- neb
noise	- sŵn
noisy	- swllyd
none	- dim
nonsense	- sothach, lol
nor	- na

north	- gogledd
nose	- trwyn
not	- dim
note	- nodyn
notes	- nodiadau
nothing	- dim byd
November	- Tachwedd
now	- rwan
number	- rhif
nurse	- nyrs

## O

obvious	- amlwg
October	- Hydref
of	- o
of course	- wrth gwrs
off	- i ffwrdd
offer	- cynnig
office	- swyddfa
often	- aml
O.K.	- o' r gorau, iawn
old	- hen
older	- hŷn
oldest	- hyna
on	- ar, ymlaen
once	- unwaith
one	- un
onions	- nionod
only	- dim ond, unig
open	- agor, ar agor
operation	- llawdriniaeth
opportunity	- cyfle
or	- neu, 'ta
orange	- oren
order	- archebu
original	- gwreiddiol
other	- arall, llall
others	- eraill
ounce	- owns
our	- ein
out	- allan
outside	- tu allan
over	- dros, draw
over there	- fan'cw
own	- biau

## P

pain	-	poen
paint	-	paent
paper	-	papur
parents	-	rhieni
part	-	rhan
pass	-	pasio
patience	-	amynedd
patient	-	claf
pay	-	tal
payable	-	taladwy
peas	-	pys
people	-	pobl
penny	-	ceiniog
perfect	-	perffaith
perhaps	-	ella
phone	-	ffôn, ffonio
picture	-	llun
piece	-	tamaid, pisyn
pig	-	mochyn
pint	-	peint
pity	-	bechod
place	-	lle
play	-	chwarae, drama
please	-	os gwelwch chi'n dda / os gweli di'n dda
pleased	-	balch
pleasure	-	pleser
point	-	pwynt
police	-	heddlu
policeman	-	plismon
pound	-	punt, pwys
practice	-	ymarfer
prefer	-	mae'n well gen i
prepare	-	paratoi
pretty	-	del
previous	-	cynt, diwetha
previously	-	o'r blaen
price	-	pris
prime minister	-	prif weinidog
prince	-	tywysog
prison	-	carchar
prize	-	gwobr
probable	-	tebyg
programme	-	rhaglen
promise	-	addo

proof	-	prawf
proud	-	balch
pub	-	tafarn
pull	-	tynnu
purse	-	pwrs
put	-	rhoi

## Q

quarter	-	chwarter
question	-	cwestiwn
quick	-	cyflym
quiet	-	distaw
quite	-	eitha, reit

## R

rabbit	-	cwningen
race	-	ras
rain	-	glaw, bwrw glaw
rather	-	eitha
reach	-	cyrraedd
read	-	darllen
ready	-	parod
realise	-	sylweddoli
really	-	wir, a deud y gwir
reasonable	-	rhesymol
receive	-	derbyn
red	-	coch
regret	-	difaru
relax	-	ymlacio
release	-	rhyddhau
remaining	-	ar ôl
remember	-	cofio
remind	-	atgoffa
report	-	adroddiad
rescue	-	achub
respectable	-	parchus
rest	-	gorffwys
retire	-	ymddeol
re-	-	ail-
right	-	iawn, y dde
ring	-	canu, modrwy
rise	-	codi
river	-	afon
road	-	ffordd
robbers	-	lladron
romantic	-	rhamantus

roof	-	to	sister	-	chwaer
room	-	ystafell, lle	sit	-	eistedd
rubbish	-	sothach	six	-	chwech
run	-	rhedeg	sixteen	-	un ar bymtheg
			skirt	-	sgert
<b>S</b>			slap	-	clets
			sleep	-	cysgu
sad	-	digalon	slow	-	araf
safe	-	saff	small	-	bach
said	-	meddai	smaller	-	llai
sail	-	hwyllo	smallest	-	lleia
salary	-	cyflog	smallholding	-	tyddyn
salt	-	halen	smile	-	gwenu
same	-	yr un	smoke	-	smocio
sandwich	-	brechdan	snake	-	neidr
say	-	deud	Snowdon	-	Yr Wyddfa
school	-	ysgol	so (so much/many)	-	felly, mor (cymaint)
scream	-	sgrechian	soap	-	sebon
seaside	-	ar lan y môr	social	-	cymdeithasol
second	-	ail	society	-	cymdeithas
self	-	hun	some	-	rhyw, rhai
sell	-	gwerthu	someone	-	rhywun
send	-	gyrru, anfon	something	-	rhywbeth
sensible	-	call	sometimes	-	weithiau
series	-	cyfres	somewhere	-	rhywle
September	-	Medi	song	-	cân
set	-	gosod	son	-	mab
seven	-	saith	soon	-	buan
sew	-	gwnio	sooner	-	cynt
share	-	rhannu	sore throat	-	dolur gwddw
she	-	hi	sorry	-	mae'n ddrwg gen i
sheep	-	dafad	sort	-	math
ship	-	llong	sound	-	sŵn
shirt	-	crys	soup	-	cawl
shoe	-	esgid	south	-	de
shop	-	siop	spectacles	-	sbectol
short	-	byr	speak	-	siarad
shout	-	gweiddi	special	-	arbennig
show	-	sioe, dangos	spend	-	treulio
side	-	ochr	spoonful	-	llwyaid
sight	-	golwg	sport	-	chwaraeon
sign	-	arwyddo	spring	-	gwanwyn
silly	-	gwirion	stairs	-	grisiau
similar	-	tebyg	stand	-	sefyll
sin	-	pechod	star	-	seren
since	-	ers	start	-	dechrau, cychwyn
sing	-	canu	station	-	gorsaf
singer	-	canwr, cantores	stay	-	aros

steal	- dwyn	test	- prawf
still	- llonydd, dal	than	- na
stomach	- bol	thank goodness	- diolch byth
stone	- carreg	thank you	- diolch
stones	- cerrig	that	- yna, hwanna, hynny
stormy	- stormus	the	- y, yr
story	- stori, hanes	their	- eu
straight	- syth	them	- nhw
strange	- rhyfedd	then	- wedyn, 'ta
street	- stryd	there	- yna, yno
strong	- cryf	(there is/ are	dyna)
stuck	- sownd	therefore	- felly
student	- myfyriwr	these	- y rhain
subject	- pwnc	they	- nhw
successful	- llwyddiannus	thick	- tew
sudden	- sydyn	thing	- peth
sugar	- siwgr	think	- meddwl
summer	- haf	thirteen	- tri ar ddeg
sun	- haul	thirty	- deg ar hugain
sunbathe	- torheulo	this	- yma, hwn, hon, hyn
supermarket	- archfarchnad	those	- y rheina
supposed to	- i fod i	thousand	- mil
sure	- siwr	three	- tri, tair
surprised	- synnu	throat	- gwddw
sweat	- chwysu	through	- trwy
swim	- nofio	throw	- taflu
swimming pool	pwll nofio	thumb	- bawd

## T

table	- bwrdd	time	- amser, gwaith, tro, pryd
take	- cymryd, mynd â	(what time	faint o'r gloch)
take out/off	- tynnu	tire (tired)	- (wedi) blino
take pictures	- tynnu, lluniau	to	- i, at
talk	- siarad, sgwrs	today	- heddiw
tall	- tal	toilet	- tŷ bach, lle chwech
tea	- te	tomorrow	- yfory
teach	- dysgu	tonight	- heno
teacher	- athro, athrawes	too (too much)	- rhy (gormod)
teapot	- tebot	tooth	- dant
teeth	- dannedd	toothache	- y ddannodd
television	- teledu	total	- cyfanswm
tell	- deud	towards	- at, tua
temperature	- gwres	town	- tre
temporary	- dros dro	travel	- teithio
ten	- deg	treatment	- triniaeth
tent	- pabell	trouble	- trafferth, poeni
terrible	- ofnadwy		



true	- gwir	waste	- gwastraffu
truth	- gwir	watch	- gwyllo
try	- trio	water	- dŵr
Tuesday	- Mawrth	waterfall	- rhaeadr
turn	- tro, troi	way	- ffordd
twelve	- deuddeg	we	- ni
twenty	- ugain	wear	- gwisgo
twice	- dwywaith	weather	- tywydd
two	- dau, dwy	week	- wythnos
type	- math	weekend	- penwythnos
		weight	- pwysau
<b>U</b>		welcome	- croeso
		Welsh	- Cymraeg
ugly	- hyll	Welshman	- Cymro
umbrella	- ymbarel	Welshwoman	- Cymraes
unable	- methu	Welsh people	- Cymry
under	- dan	west	- gorllewin
understand	- dallt	wet	- gwlyb
unemployed	- di-waith	what	- beth
unlucky	- anlwcus	when	- pryd, pan
unpleasant	- annifyr	where	- lle, ble
until	- tan, nes	which	- pa
up	- i fyny	while	- tra, wrth
us	- ni	white	- gwyn, wen
use	- defnyddio	who	- pwy
used: to get used to	- arfer	whole	- holl
usually	- fel arfer	why	- pam
		why not	- pam lai
<b>V</b>		wife	- gwraig
		win	- ennill
vegetables	- llysiau	wind	- gwynt
vegetarian	- llysiuwr	window	- ffenest
very	- iawn	windy	- gwyntog
village	- pentre	wine	- gwin
visit	- ymweld â	winter	- gaeaf
voice	- llais	with	- efo
		without	- heb
<b>W</b>		woman	- dynes, gwraig
		wonderful	- bendigedig
wait	- aros	work	- gwaith, gweithio
wake	- deffro	workers	- gweithwyr
Wales	- Cymru	world	- byd
walk	- cerdded, am dro	worry	- poeni
wallpaper	- papuro	worse	- gwaeth
wander	- crwydro	worst	- gwaetha
want	- isio, eisiau	write	- ysgrifennu
warm	- cynnes, cynhesu	wrong	- anghywir
wash	- golchi	(what's wrong	- be' sy/be' sy'n bod)

## Y

year	-	blwyddyn
year: this year	-	eleni
year: last year	-	llynedd
years	-	blynedd, blynyddoedd
yellow	-	melyn
yesterday	-	ddoe
yet	-	eto
Yorkshire	-	Swydd Efrog
you	-	ti, chi
younger	-	fengach
youngest	-	fenga
yours	-	eich, dy

## Z

zero	-	dim
------	---	-----



## Cyrsiau Cymraeg i Oedolion

### Taflen Wybodaeth 2015-16

Diolch am gofrestru ar y cwrs yma. Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor. Gobeithio byddwch chi'n gweld y cwrs yn ddifyr ac yn fuddiol.

Os byddwch chi eisiau unrhyw wybodaeth ychwanegol am ein cyrsiau neu os byddwch chi eisiau newid dosbarth am unrhyw reswm, cysylltwch efo'ch Tiwtor-Drefnydd lleol neu efo'r Brif Swyddfa ym Mangor:

<b>Sir Wrecsam / Llangollen</b> Pam Evans-Hughes	01978 345247	p.evans-hughes@bangor.ac.uk
<b>Siroedd Dinbych a Fflint</b> Eirian Conlon	01352 756080	e.conlon@bangor.ac.uk
<b>Sir Conwy / Y Rhyl</b> Janet Charlton	01690 710187	j.charlton@bangor.ac.uk
<b>Bangor / Ynys Môn</b> Sharon Roberts	01248 382128	ems607@bangor.ac.uk
<b>Caernarfon / Llŷn / Porthmadog</b> Bethan Glyn	01248 388083	b.l.glyn@bangor.ac.uk
<b>Cyrsiau Dysgu o Bell</b> Nia Llwyd	01248 382909	n.llwyd@bangor.ac.uk
<b>Cyrsiau efo meithrinfa</b> Stel Farrar	07795 311410	
<b>Prif Swyddfa</b> Donna Thomas (Ysgrifenyddes) Elwyn Hughes (Cydllynydd)	01248 382752 01248 382259	emsa07@bangor.ac.uk ems403@bangor.ac.uk

Cyfeiriad ein gwefan ni ydy <http://www.bangor.ac.uk/cio>

Os byddwch chi eisiau gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â dysgu Cymraeg a/neu'r gwasanaethau mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn eu cynnig, ewch i wefan <http://www.learnwymraeg.org> neu ffoniwch 01248 383928. Defnyddiwch y manylion cyswllt yma hefyd er mwyn cofrestru i dderbyn cylchlythyr rheolaidd yn rhestru digwyddiadau anffurfiol y medrwch chi fynd iddyn nhw i ymarfer eich Cymraeg.

## Polisi Derbyn

Mae gynnon ni bolisi drws agored: mae croeso i **bawb** fynychu'r dosbarth o'u dewis, cyn belled â'u bod dros 16 oed a bod lefel eu Cymraeg yn briodol ar gyfer lefel y dosbarth. Wedi dweud hynny, rydyn ni'n cadw'r hawl i wahardd unrhyw un sy'n ymddwyn mewn modd sy'n aflonyddu ar eraill neu'n gwneud sylwadau amhriodol neu sarhaus.

## Myfyrwyr ag Anabledd

Amcan hysbys y Brifysgol yw cymryd pob cam ymarferol bosibl i sicrhau y gall myfyrwyr anabl gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar y cwrs maen nhw'n dewis cofrestru arno. Os oes unrhyw gamau y medrwn ni eu cymryd i'ch helpu chi i gyfranogi'n llawn yn eich cwrs, cofiwch roi gwybod i diwtoriaid eich dosbarth, eich Tiwtor-Drefnydd lleol neu i'r Brif Swyddfa ym Mangor (mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen)

## Presenoldeb

Mae mynychu dosbarthiadau'n gyson yn hollbwysig er mwyn sicrhau cynnydd. Ceisiwch roi gwybod i'ch tiwtor, eich Tiwtor-Drefnydd neu'r Brif Swyddfa os na fydd hi'n bosib i chi fod yn bresennol.

Os bydd rhaid i chi golli nifer o ddosbarthiadau am ryw reswm, cysylltwch efo'ch tiwtor neu eich Tiwtor-Drefnydd i weld a fydd modd i ni drefnu tiwtorial dal-i-fyny i chi, os bydd angen.

Os dach chi'n dilyn y Cwrs Wlpan, manteisiwch ar yr Apps Mynediad a Sylfaen lle mae gweithgareddau rhyngweithiol i'ch helpu chi i adolygu ac ymarfer y gwaith dach chi wedi'i wneud yn y dosbarth neu unrhyw ddeunydd dach chi wedi'i golli. Mi fedrwn chi lawrlwytho'r App o'r App Store neu'r Play Store: chwiliwch am **Learn Cymraeg Gogledd**. Mae deunydd tebyg ar gael ar wefan **[www.bangor.wlpan.com](http://www.bangor.wlpan.com)**.

Wnewch chi gysylltu efo'r Tiwtor-Drefnydd neu'r Brif Swyddfa tasech chi'n penderfynu rhoi'r gorau i'r cwrs, os gwelwch chi'n dda? Os byddwch chi am ddechrau eto ar gwrs arall, mi fydd hi'n bosib trosglwyddo'r ffi i'r cwrs newydd mewn rhai amgylchiadau.

## Cyflogwr yn talu'r ffi

Os bydd eich cyflogwyr yn talu ffi'r cwrs ar eich rhan, byddwn yn anfon cofnod o'ch presenoldeb, adroddiad ar eich cynnydd a chanlyniadau unrhyw asesiadau atyn nhw, os cawn gais am hynny.

## Asesu

Bydd y tiwtor yn asesu cynnydd pob dysgwr yn barhaus ac yn teilwra cynnwys a chyflymdra'r gwersi ar sail hynny. Ar yr Wlpan a'r Pellach, bydd cyfle i chi fonitro eich cynnydd eich hun ar gyfnodau penodol yn ystod y cwrs, ac mi fyddwch chi'n derbyn tystysgrif ar ddiwedd y flwyddyn i gofnodi'r cerrig milltir y byddwch chi wedi'u cwblhau'r tasgau ar eu cyfer. Does dim achredu ffurfiol yn digwydd ar lefelau Uwch a Meistroli, ond byddwn yn parhau i fonitro a chefnogi eich cynnydd yn anffurfiol, wrth gwrs.

## Arholiadau

Os byddwch chi eisiau ennill cymhwyster ffurfiol, mae'r arholiadau canlynol yn cael eu cynnig gan Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru:

ARHOLIAD	LEFEL Y CWRS
Defnyddio'r Gymraeg Mynediad	Hanner ffordd trwy'r Cwrs Wlpan
Defnyddio'r Gymraeg Sylfaen	Diwedd y Cwrs Wlpan / Dechrau'r Cwrs Pellach
Defnyddio'r Gymraeg Canolradd (ar safon TGAU)	Diwedd y Cwrs Pellach / Dechrau'r Cwrs Uwch
Defnyddio'r Gymraeg Uwch (ar safon Lefel-A)	Cwrs Meistroli

Mae'r arholiadau hyn yn gwbl ddewisol. Mi fydd ymgeiswyr arholiadau'n cael peth cefnogaeth ychwanegol ac mae'n bosib bydd tasgau arholiad enghreifftiol yn cael eu cyflwyno mewn rhai dosbarthiadau, ond prif nod ein holl ddosbarthiadau ydy gwella gallu **pob** myfyriwr i gyfathrebu yn y Gymraeg, os ydyn nhw'n sefyll arholiad neu beidio.

### Copi o Ffeil y Cwrs ar gyfer Cyfrifiadur Tabled

Tasech chi'n hoffi cael copi o'r ffeil i'w ddefnyddio ar gyfrifiadur tabled, e-bostiwch Elwyn Hughes ar [e.hughes@bangor.ac.uk](mailto:e.hughes@bangor.ac.uk) am fanylion.

### Cerdyn Llyfrgell / Cerdyn Undeb Myfyrwyr a chyfleusterau e-bost

Fel myfyriwr ar gwrs Cymraeg yn y Brifysgol, mi fydd gynnoch chi'r hawl i wneud cais am gerdyn Llyfrgell a/neu gerdyn Undeb y Myfyrwyr. Gallwch hefyd ofyn am enw defnyddiwr a chyfrinair i gael mynediad i gyfleusterau rhyngwyd fewnol ac e-bost y Brifysgol os byddwch chi eisiau. I wneud cais am gerdyn Llyfrgell ac enw defnyddiwr a chyfrinair, wnewch chi gysylltu efo Tracy Looms ar 01248 382260 am fwy o fanylion? I gael cerdyn Undeb y Myfyrwyr, ewch i [www.nus.org.uk](http://www.nus.org.uk), clicio ar y bocs glas "Get your card now" ar waelod yr ochr dde a dilyn y cyfarwyddiadau ynglŷn â'r taliad ac uwchlwytho llun. Mi fydd y cerdyn yn cael ei anfon i'r cyfeiriad sy ar y wefan. Cofiwch fynd â dogfennau adnabod efo chi wrth gasglu'ch cerdyn.

### Sicrhau ansawdd a chwynion

Mi fyddwn ni'n gofyn yn ffurfiol i chi am eich sylwadau ar ansawdd y cwrs tua chwe mis ar ôl i chi gofrestru, ond mi fydd croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg i fynegi eich barn am y ddarpariaeth. Bydd eich adborth yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd Pwyllgor Sicrhau Ansawdd y Cysgiau Cymraeg.

### Cwynion

Os bydd gynnoch chi gwyn am unrhyw agwedd ar y cwrs, mi gewch chi gysylltu â'r Tiwtor-Drefnydd lleol (mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen) os bydd hynny'n briodol, neu mi gewch chi gyfeirio llythyr at yr Uwch Diwtor-Drefnydd, Elwyn Hughes, Cysgiau Cymraeg, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 1UT neu at Gyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, Ifor Gruffydd, Prifysgol Bangor, Bangor LL57 1UT. Mi fyddwn ni'n delio â phob cwyn yn unigol, yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol.

## Iechyd a Diogelwch

**Polisi'r Brifysgol** – Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled a bo hynny'n rhesymol ymarferol, ond yn unol â'r deddfwriaeth berthnasol, y gofynion statudol ac ymarfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i'r Brifysgol.

**Eich cyfrifoldebau chi** – Fel myfyriwr ar un o'n cyrsiau Cymraeg, mae gynnoch chi gyfrifoldebau fel unigolyn, yn unol â deddfwriaeth ar iechyd a diogelwch:

- i gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch personol ac am ddiogelwch pobl eraill gall eich gweithgareddau effeithio arnynt;
- i roi gwybod i'ch tiwtor neu i'r Brif Swyddfa am unrhyw sefyllfa a allai fod yn beryglus yn eich barn chi;
- i roi gwybod i'ch tiwtor neu i'r Brif Swyddfa am unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau peryglus;
- i gydymffurfio â chyfarwyddiadau ysgrifenedig a llafar a gewch chi ar iechyd a diogelwch.

**Adrodd ar Ddamweiniau a Digwyddiadau Peryglus** – Rhaid i chi adrodd, cyn gynted ag y bo modd, ar unrhyw ddamweiniau i chi neu unrhyw aelod(au) o'ch dosbarth fydd yn digwydd tra byddwch chi yn y dosbarth. Rhowch wybod i'ch tiwtor am unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad peryglus (rhywbeth fasai'n medru arwain at ddamwain) fel y gall o/hi roi gwybod i'r Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch am y mater. Yn achos damweiniau sy'n arwain at anaf difrifol, neu at fynd â'r claf i'r ysbyty, rhaid hysbysu'r Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch **ar unwaith** – ffôn 01248 388326.

**Dulliau Gweithredu mewn Argyfwng** – Pan fyddwch chi'n dechrau cwrs, mi fydd eich tiwtor yn rhoi gwybod i chi beth ydy'r dulliau gweithredu mewn argyfwng ar gyfer y lleoliad hwnnw. Sylwch yn arbennig ar leoliad diangfeydd argyfwng, diffoddyddion tân, ffonau a blychau cymorth cyntaf. Eich cyfrifoldeb chi ydy nodi'r manylion a gyflwynir i chi a chydymffurfio â nhw.

**Cwynion ac Ymholiadau** – Dylech drafod y rhain â'ch tiwtor yn y lle cyntaf. Cewch gysylltu hefyd â'r Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch (01248 388326) os dymunwch.

**Mwy o wybodaeth** – Cewch fwy o wybodaeth ynglŷn â pholisïau'r Brifysgol ar iechyd a Diogelwch trwy gysylltu â Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch: 01248 383847 neu [healthandsafety@bangor.ac.uk](mailto:healthandsafety@bangor.ac.uk)

## Gwarchod Data

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch i i staff y Cyrsiau Cymraeg yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998 a Hysbysiad Gwarchod Data Prifysgol Bangor. Gellir cael manylion pellach ar [www.bangor.ac.uk/ar/ro/recordsmanagement/dataprotection/](http://www.bangor.ac.uk/ar/ro/recordsmanagement/dataprotection/) neu gan y Swyddog Gwarchod Data (01248 382413 / [data-protection@bangor.ac.uk](mailto:data-protection@bangor.ac.uk)).

Caiff y manylion ar eich ffurflen gofrestru eu cadw ar gyfrifiadur gan staff y Cyrsiau Cymraegi Oedolion, ac mae gofyn i ni anfon rhai o'ch manylion at y cyrff canlynol at ddibenion cyllido, cynllunio a dadansoddi ystadegau: Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Llywodraeth Cymru, a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.

Fyddwn ni ddim ond yn cysylltu efo chi gydag ymholiadau neu wybodaeth sy'n berthnasol i'r cwrs dach chi'n ei ddilyn neu'n cofrestru ar ei gyfer, neu i arholiad dach chi wedi dewis ei sefyll.

## Welsh Courses for Adults

### Information Sheet 2015-16

Thank you for registering on this course. The course is provided by the North Wales Welsh for Adults Centre at Bangor University. We hope that you will find the course both enjoyable and rewarding.

If you would like any additional information about our courses or if you wish to change classes for any reason, please contact your local tutor-organiser or the main office at Bangor:

#### **County of Wrexham / Llangollen**

Pam Evans-Hughes                      01978 345247      p.evans-hughes@bangor.ac.uk

#### **Denbighshire & Flintshire**

Eirian Conlon                              01352 756080      e.conlon@bangor.ac.uk

#### **County of Conwy / Rhyl**

Janet Charlton                              01690 710187      j.charlton@bangor.ac.uk

#### **Bangor / Anglesey**

Sharon Roberts                              01248 382128      ems607@bangor.ac.uk

#### **Caernarfon / Llŷn / Porthmadog**

Bethan Glyn                                  01248 388083      b.l.glyn@bangor.ac.uk

#### **Distance Learning**

Nia Llwyd                                      01248 382909      n.llwyd@bangor.ac.uk

#### **Courses with crèche**

Stel Farrar                                      07795 311410

#### **Main Office**

Donna Thomas (Secretary)      01248 382752      emsa07@bangor.ac.uk  
Elwyn Hughes (Co-ordinator)      01248 382259      ems403@bangor.ac.uk

Our website address is <http://www.bangor.ac.uk/cio>

If you would like general information about learning Welsh and/or the services provided by the North Wales Welsh for Adults Centre, go to the <http://www.learnwales.org> website or telephone 01248 383928. You can also use these contact details to register to receive a regular newsletter listing informal activities you can attend in your area to practise your Welsh.



## **Admissions Policy**

We have an open door policy: **all** learners are welcome to attend the class of their choice, provided they are over 16 years old and that the level of their Welsh is appropriate for the level of the class. However, we reserve the right to refuse admission to anyone who behaves in a disruptive manner or who makes inappropriate or offensive comments.

## **Students with disabilities**

The University's declared aim is to take all possible practicable steps to enable full participation by disabled students in all aspects of the course they have chosen to register for. If there are any steps that we can take to help you to participate fully in your course, please inform your class tutor, your local Tutor-Organiser or the Main Office at Bangor (contact details are on the front page).

## **Attendance**

Regular attendance at classes is paramount to ensure progress. Do please try to let the tutor know (through the Tutor-Organiser or the Main Office) if you cannot attend.

If you have to miss a number of classes for any reason, contact your tutor, the Tutor-Organiser or the Main Office to see whether it would be possible for us to arrange a catch-up tutorial session for you, if necessary.

If you are following the Wlpan course, take advantage of the Mynediad (Entry) and Sylfaen (Foundation) Apps where there are interactive activities to help you revise and practise the work you have done in class or any material you may have missed. You can download the Apps from the App Store or Play Store: search for **Learn Cymraeg Gogledd**. Similar resources are available on the **www.bangor.wlpan.com** website.

Will you please contact your Tutor-Organiser or the Main Office should you decide to leave the course? If you wish to start another course at a later date, your fee can be carried over in certain circumstances.

## **Fee paid by employer**

If your employers will be paying the course fee on your behalf, we send them your class attendance record, a report on your progress and the results of any assessments on request.

## **Assessment**

The tutor assesses each learner's progress continuously and will tailor the content and pace of the lessons on that basis. On the Wlpan and Pellach courses, you will be given the opportunity to measure your own progress at specific points during the course, and you will receive a certificate at the end of the year recording the milestones for which you have completed the assessment tasks. There is no formal accreditation on the Uwch and Meistroli levels, but we will continue to monitor and support your progress informally, of course.

## Examinations

If you wish to gain a formal qualification, the following examinations are offered by the Welsh Joint Education Committee:

EXAMINATION	LEVEL OF COURSE
Use of Welsh Entry	Half way through Wlpan
Use of Welsh Foundation	End of Wlpan / Early Pellach
Use of Welsh Intermediate (equivalent to GCSE)	End of Pellach / Early Uwch
Use of Welsh Uwch (equivalent to A-level)	Cwrs Meistroli

These examinations are completely optional. Examination candidates will be given some additional support and sample examination tasks may be introduced in some classes, but the primary aim of all classes is to improve **every** student's ability to communicate in Welsh, whether they are taking examinations or not.

## Copy of Course File for Tablet Computer

If you would like a copy of your course file to use on a tablet computer, please e-mail Elwyn Hughes on [e.hughes@bangor.ac.uk](mailto:e.hughes@bangor.ac.uk) for details.

## Library Card / Students' Union Card and e-mail facilities

As a student on a Bangor University Welsh course, you will be entitled to apply for a Library card and/or a Students' Union card. You can also ask for a username and password to access the University's intranet and e-mail facilities if you wish. For a Library card and a username and password, please contact Tracy Looms on 01248 382260 for further details. For a Students' Union card, go to [www.nus.org.uk](http://www.nus.org.uk), click on the blue box "Get your card now" on the bottom right hand side and follow the instructions for payment and uploading a photo. The card will be sent to the address given on the website. Remember to take proof of identity when collecting your card.

## Quality assurance

We will ask you formally for your comments on the quality of your course about six months after you register, but you are welcome to contact us any time to express your opinion about the provision. Your feedback will be discussed at the meetings of the Welsh Courses' Quality Assurance Committee

## Complaints

If you have a complaint about any aspect of your course, you may contact your regional Tutor-Organiser (contact details are on the front page) if appropriate, or you may address a letter to the Senior Tutor-Organiser, Elwyn Hughes, at Welsh Courses, Bangor University, Bangor, LL57 1UT, or to the Director of the North Wales Welsh for Adults Centre, Ifor Gruffydd, Bangor University, Bangor LL57 1UT. Every complaint will be dealt with individually, according to University procedures.

## Health and Safety

**University policy** - It is the policy of Bangor University, so far as is reasonably practicable, but in accordance with the relevant legislation, statutory requirements and good practice, to ensure the health and safety of staff, students and visitors to the University.

**Your responsibilities** - As a student on one of our Welsh courses, you have responsibilities as an individual under health & safety legislation to:

- take reasonable care for your own health and safety and for the safety of others who may be affected by your activities
- report to your tutor, or to the Main Office, any situation you may think is potentially hazardous
- report all accidents and incidents to your tutor or to the Main Office.
- comply with written and verbal health & safety instructions that are issued to you

**Accident & Incident Reporting** - All accidents involving yourself or any other class member(s) that occur whilst you are attending the class should be reported as soon as possible. Please inform your tutor of any accident or incident (something that could have lead to an accident) so that s/he can report it to the Health & Safety Co-ordinator. Accidents involving serious injury or where the casualty is taken to hospital must be reported **immediately** to the Health & Safety Coordinator on 01248 388326.

**Emergency Procedures** - On entry to the course, your tutor will inform all students of the emergency procedures in force at that venue. Please pay particular attention to the location of emergency exits, fire extinguishers, first aid kits, telephones etc. It is your responsibility to note all emergency procedures pointed out to you and to comply with them.

**Complaints & Queries** - These should be discussed with your tutor in the first case. You may also contact the Health & Safety Co-ordinator (01248 388326) if you wish.

**Further Information** – Further information about the University's Health and Safety policies can be obtained by contacting Health and Safety Services: 01248 383847 or [healthandsafety@bangor.ac.uk](mailto:healthandsafety@bangor.ac.uk)

## Data Protection

The personal information that you provide to Welsh Courses' staff will be processed in accordance with the Data Protection Act 1998 and Bangor University's Data Protection Notification. Further details are available at <http://www.bangor.ac.uk/ar/ro/recordsmanagement/dataprotection/> or from the Data Protection Officer (01248 382413 / [data-protection@bangor.ac.uk](mailto:data-protection@bangor.ac.uk))

The information you have given on your registration form will be held on computer by the Welsh for Adults Courses' staff and we are required to send some of your details for funding, planning and statistical purposes to the following organisations: The Higher Education Statistics Agency (HESA), the Welsh Government and the North Wales Welsh for Adults Centre.

We will only contact you with enquiries or information relating the course you are currently attending or registering for, or to an examination you have chosen to take.

## Cysylltiadau Gwe - Web Links

### **Welsh for Adults Centre – North Wales**

*Places and events where you can practice your Welsh.*

<http://www.learnwymraeg.org/>

### **Opera Sebon Animeiddiad**

*Animated version of Cwrs Wlpan Opera Sebon.*

[https://www.youtube.com/channel/UCszeMPgyjh8A1Gn\\_UBPqjpw](https://www.youtube.com/channel/UCszeMPgyjh8A1Gn_UBPqjpw)

### **Learn Cymraeg Gogledd Mynediad**

*This is a Welsh language app for beginners. It's available for smart phones and tablets. For Android on Play Store and for IOS on iTunes.*

*Android :-* <https://play.google.com/store/apps/details?id=uk.co.moilin.adnodd.learnwymraeg.gog>

*IOS :-* <https://itunes.apple.com/gb/app/learn-cymraeg-gogledd/id925122397>

### **Learn Cymraeg Gogledd Sylfaen**

*This is a Welsh language app for foundation level learners. It's available for smart phones and tablets. For Android on Play Store and for IOS on iTunes.*

*Android :-* <https://play.google.com/store/apps/details?id=uk.co.moilin.adnodd.learnwymraeg.gog.sylfaen>

*IOS :-* <https://itunes.apple.com/gb/app/learn-cymraeg-gogledd-sylfaen/id976153827?mt=8>

### **Y Bont**

*Exercises, games and other material for learners including stories you can download to practice your reading.*

<http://www.ybont.org>

### **ClicClonc**

*Lots of exercises to help you practice your Welsh including a unit to practice your exam. Also units to download.*

<http://www.telesgop.co.uk/clicclonc/>

### **BBC – Learn Welsh**

*Lots of activities to help you practice your Welsh including video clips, cartoons, sound files and interactive exercises.*

<http://www.bbc.co.uk/wales/learning/learnwelsh/>